# Pileri'r Chwedloniaeth: Creu ac Ail-greu Diwygiad Crefyddol 1904-05 yng Nghymru yn ei Ganrif Gyntaf

**Anna Lluan Gruffudd**

**Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Caerdydd**

**2010**

UMI Number: U584451

All rights reserved

INFORMATION TO ALL USERS
The quality of this reproduction is dependent upon the quality of the copy submitted.

In the unlikely event that the author did not send a complete manuscript
and there are missing pages, these will be noted. Also, if material had to be removed,
a note will indicate the deletion.

UMI U584451
Published by ProQuest LLC 2013. Copyright in the Dissertation held by the Author.
Microform Edition © ProQuest LLC.
All rights reserved. This work is protected against
unauthorized copying under Title 17, United States Code.

ProQuest LLC
789 East Eisenhower Parkway
P.O. Box 1346
Ann Arbor, MI 48106-1346

**DATGANIAD**

Ni dderbyniwyd y gwaith hwn yn sylweddol yn y gorffennol ar gyfer unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd i ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod ..Anna...Gruffudd.......... (ymgeisydd) Dyddiad 8/03/2010

**GOSODIAD 1**

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion gradd PhD

Llofnod Anna...Gruffudd.......... (ymgeisydd) Dyddiad.8/03/2010

**GOSODIAD 2**

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn ffrwyth fy ngwaith/ymchwil annibynnol fy hun, ar wahân i lle nodir fel arall.
Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod trwy gyfeiriadau eglur.

Llofnod ..Anna...Gruffudd.......... (ymgeisydd) Dyddiad 8/03/2010

**GOSODIAD 3**

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod ..Anna...Gruffudd.......... (ymgeisydd) Dyddiad 8/03/2010

**GOSODIAD 4: GWAHARDDIAD AR FYNEDIAD A GYMERADWYWYD YMLAEN LLAW**

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol **ar ôl i waharddiad ar fynediad a gymeradwywyd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Datblygu Graddedigion ddod i ben.**

Llofnod ..Anna..Gruffudd.......... (ymgeisydd) Dyddiad 8/03/2010

# Crynodeb

Mae'r traethawd hwn yn astudiaeth o Ddiwygiad Crefyddol 1904-05 yng Nghymru a'r modd y cynrychiolwyd ei weithgarwch ers hynny, gan edrych yn arbennig ar adeg y canmlwyddiant. Edrychir ar y modd y cyfrannodd cyflwr y Diwygiad fel chwedl ar y pryd at sefydlu a chynnal y mudiad. Ystyrir natur strwythurol y gweithgarwch; elfen nad yw'n draddodiadol wedi ei phwysleisio gan haneswyr. Archwilir y modd y rhoddwyd stori'r Diwygiad ar waith yn ystod 1904-05 gan edrych ar weithgarwch yn y gymuned a rôl y wasg yn hyn o beth. Olrheinir y modd yr adroddwyd y stori honno ar amrywiol ffurfiau yn ystod y ganrif ers hynny. Gwneir hyn gan edrych ar nodweddion penodol o weithgarwch y mudiad. Creffir ar ffurf ei gyfarfodydd, amlygrwydd y ferch, ei ddylanwad ar rai o arferion y gymdeithas ac ar rôl Evan Roberts fel prif gymeriad. Mae'r gwaith yn un amlddisgyblaeth, yn yr ystyr bod deunydd yr ymchwil yn cynnwys gweithiau o amrywiol fathau. Wrth ganolbwyntio ar flynyddoedd 1904-05, edrychwyd yn bennaf ar waith y wasg. O safbwynt y ganrif ers hynny, edrychwyd ar gynnyrch llenyddol, gan gynnwys nofelau a barddoniaeth yn ogystal â gwaith newyddiadurol, theatrig a hanesyddol. Ceir cyfeirio at hanesyddiaeth y maes, ymysg gweithiau eraill fel tystiolaeth o ffurf y Diwygiad ers 1904-05. Drwy astudio mytholeg y Diwygiad, yr amcan yw cyfrannu at ddealltwriaeth o'i weithgarwch yn ystod 1904-05 ac o'r cof amdano yng nghyswllt hanes y Gymru fodern ers hynny.

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch o galon i Dr. Bill Jones am ysbrydoli a goruchwylio'r traethawd hwn ac am ei holl gymorth, hyfforddiant a chefnogaeth. Rwy'n ddiolchgar hefyd i Dr. E. Wyn James, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd am ei ddiddordeb yn y gwaith, ac i Gethin Matthews am sawl cymwynas. Hoffwn ddiolch i'r Parch. Dafydd Job a fu'n barod i gwrdd â mi am sgwrs ar gychwyn y prosiect gan rannu cynnwys rhai o ddogfennau ei dad-cu gyda mi. Roedd J. T. Job yn un o arweinwyr Diwygiad 1904-05. Yn ogystal, hoffwn ddiolch yn arbennig i fy rhieni, fy nheulu a ffrindiau, ac i Linda Esprit am eu cefnogaeth. Rwy'n ddyledus i staff Archifdy Prifysgol Bangor, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Archif Sain a Llawysgrifau Amgueddfa Sain Ffagan, Llyfrgell Prifysgol Caerdydd a Llyfrgell Dinas Caerdydd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 1 |
| Pennod 1 - Cyd-destun Hanesyddol Diwygiad 1904-05 | 22 |
| Pennod 2 - Cyfarfodydd y Diwygiad | 71 |
| Pennod 3 - Y Ferch | 120 |
| Pennod 4 - Dylanwad y Diwygiad ar y Gymdeithas | 154 |
| Pennod 5 - Evan Roberts | 184 |
| Casgliad | 231 |
| Llyfryddiaeth | 245 |

# Rhagarweiniad

'*After 100 Years, the Revival of a Religious Revolution*': dyma bennawd a gafwyd yn y *Guardian* ar adeg canmlwyddiant Diwygiad 1904-05.[1] Ar erthygl yn sôn am weithgarwch yn ymwneud â chofnodi'r canmlwyddiant yn y *Western Mail*, cafwyd y pennawd, '*Reviving Revival 100 Years On*'.[2] Mae'r erthyglau'n cyfeirio at gyfarfodydd a drefnwyd yng Nghymru gan efengylwyr i nodi'r achlysur yn rhan o ymdrech i roi hwb i'w hachos a'u dymuniad am adfywiad Cristnogol newydd. Mae natur gyffrous y penawdau, fel y gwelir yn y traethawd hwn, yn arwyddocaol o'r sylw â roddwyd i'r Diwygiad ar adeg y canmlwyddiant.

Bu'r canmlwyddiant yn sbardun i drafodaeth ar ddiwygiad ac adfywio mewn cylchoedd efengylaidd. Er enghraifft, ar 8 Mawrth 2004, trafododd y Parch. Dafydd Job gynnwys dyddiaduron ei dad-cu, J. T. Job, a fu'n flaenllaw yn Niwygiad 1904-05 o dan y teitl, 'A Personal Account of Revival' yn rhan o gyfres o sgyrsiau yn ymwneud â'r testun. Gwnaed recordiad o'r sgwrs a roddwyd yn eglwys y Mynydd Bychan, Caerdydd ar gryno-ddisg.[3] Gwelwyd cofiannu'r Diwygiad mewn gwasanaethau traddodiadol gan y capeli Anghydffurfiol ar yr adeg hon hefyd a gwelwyd bod dathlu'r canmlwyddiant yn ganolog i lawer o weithgarwch ynghlwm wrth y mudiad. Bu dathlu'r canmlwyddiant, er enghraifft, yn ganolog i nosweithiau o adloniant ac yn destun ar gyfer Talwrn y Beirdd a drefnwyd yn rhan o ymdrech i godi arian er budd adfer capel y Groeswen, Caerffili, yr addoldy cyntaf a adeiladwyd yng

[1] *Guardian*, 29 Mawrth 2004.
[2] *Western Mail*, 27 Mawrth 2004.
[3] Ceir cyfeirio at erthygl gan Dafydd Job yn *Taliesin* 124, 2005 ar gynnwys y dyddiaduron o dan sylw yng nghorff y traethawd hwn.

Nghymru gan y Methodistiaid Calfinaidd. Cynhaliwyd y noson ar 10 Mai 2004 a nodwyd yn y rhaglen, 'dyna yw nod ein Soirée Pasg eleni, sef, gwahodd y cyhoedd i noddi doniau gorau Cymru drwy ddathlu Canmlwyddiant Diwygiad Evan Roberts 1904.'[4] Enghraifft arall yw'r Rhaglen ar Ddiwygiad 1904-05 gan Undeb Cwm Gwendraeth a gafwyd gan Gwmni Cefncoed, yng nghapel Pen-y-groes ar fore Sadwrn 19 Mehefin 2004 a oedd yn cynnwys perfformiadau gan unawdwyr.[5]

Yn wir, profodd y canmlwyddiant yn ffenomen mewn sawl cylch a chafodd yr achlysur sylw gan y cyfryngau. Ymysg sawl rhaglen ddogfen ar gyfer y teledu a aeth ati i olrhain hanes y mudiad ar yr adeg hon roedd cyfres 'Diwygiad 1904-05' gan Ffilmiau'r Bont. Awdur a chyfarwyddwr y gyfres oedd Vaughan Hughes, a dangoswyd hi ym mis Hydref 2004. Ymysg trafodaethau eraill ar y Diwygiad yn y ffurf hwn roedd y pumed rhaglen o dan y teitl 'Revival and Decline' yn y gyfres 'Bread of Heaven' a gyflwynwyd gan y newyddiadurwr Huw Edwards a ddarlledwyd ar BBC Cymru ar yr adeg hon. Cafwyd trafodaeth ar y Diwygiad yng nghynhyrchiad cwmni teledu Boomerang ar gyfer S4C ac ITV1 Cymru, 'Chwarae'r Cymoedd' a ddarlledwyd yn 2006 hefyd.[6]

Ymddangosodd sawl nofel Gymraeg a ysgogwyd gan y Diwygiad ar yr adeg hon hefyd, gweler Dafydd Llewelyn, *Tocyn i'r Nefoedd* (2004), Elfyn Pritchard, *Fel Nerthol Wynt* (2005), a nofel Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (2007).[7] Yn

---

[4] Rhaglen Caniadau Talwrn y Beirdd Er Budd Cadw Capel y Groes Wen, t.2.

[5] Rhaglen y gyngerdd, 'Cymru'n Pentecosta o Lwchwr i Lŷn', 19 Mehefin 2004 yng Nghapel Pen-y-groes, Undeb Cwm Gwendraeth, Cwmni Cefncoed, sgript gan Wilbur Lloyd Roberts.

[6] Cyfres hanes ddogfen 'Bread of Heaven' a gyflwynwyd gan Huw Edwards. Darlledwyd ar BBC Cymru, a chafwyd y darllediad diweddaraf o'r rhifyn o dan sylw ar 24 Tachwedd 2008. Darlledwyd cynhyrchiad Boomerang, 'Chwarae'r Cymoedd', yn y Gymraeg a'r Saesneg yn 2006. Cyflwynwyd gan yr hanesydd Gareth Williams.

[7] Dafydd Llewelyn, *Tocyn i'r Nefoedd* (Caerdydd, 2004); Elfyn Pritchard, *Fel Nerthol Wynt* (Llandysul, 2005); Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (Llanrwst, 2007). Er mai yn 2007 y cyhoeddwyd

ogystal, ymysg sawl drama yn ymwneud â'r pwnc, cafwyd perfformiadau o'r sioeau cerdd newydd, 'Hen Rebel' gan Theatr Genedlaethol Cymru, ac 'Amazing Grace' gan The Wales Theatre Company yn y prif theatrau yng Nghymru i nodi'r achlysur. Ysgogodd yr achlysur ymdriniaethau hanesyddol ac academaidd newydd yn y maes hefyd.[8] Roedd yr ymdrechion a gafwyd i nodi'r achlysur yn naturiol yn ymwneud â thanio ymwybyddiaeth newydd yng ngweithgarwch y Diwygiad a bu hyn yn gyfrifol am gynrychioli'r Diwygiad ar amrywiol ffurfiau newydd.

Ymhellach, gwelwyd gweithgareddau'r coffáu yn ennyn ymateb a chynnyrch newydd, gan fwydo'r hyn ydoedd ffenomen y canmlwyddiant. Gwelwyd hyn, er enghraifft, pan gafwyd portreadu ar y modd yr aethpwyd ati i gofio'r Diwygiad ar achlysur y canmlwyddiant mewn ffuglen a ymddangosodd ar yr adeg hon. Er enghraifft, mae'r modd y ceir portread o gyfarfod mewn capel a gynhaliwyd i gofio'r Diwygiad yn nofel Elfyn Pritchard, *Fel Nerthol Wynt* (2005) yn dangos sut y profodd gweithgarwch y canmlwyddiant yn yr achos hwn yn ddeunydd ar gyfer y gwaith. Gwelwyd hyn hefyd wrth i weithgarwch yn ymwneud â'r cofio ysbrydoli gweithiau creadigol. Nododd Dafydd Llewelyn er enghraifft, i'r rhaglenni dogfen ar y teledu ar yr adeg hon fod yn ysbrydoliaeth i gynnwys ei nofel, *Tocyn i'r Nefoedd* (2004). [9]

---

nofel Gareth Miles, gellir ystyried amseru'r gwaith, o safbwynt y broses ysgrifennu yn arwyddocaol o'r canmlwyddiant.

[8] Ymysg y cyfrolau a gyhoeddwyd ar yr adeg hon oedd, Noel Gibbard (gol.), *Nefol Dân, Agweddau ar Ddiwygiad 1904-05* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2004); Noel A. Gibbard, *Caniadau'r Diwygiad, Golwg ar Emynau, Penillion a Thonau Diwygiad 1904-05* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2003); Noel Gibbard, *Fire On the Altar, A history and evaluation of the 1904-05 Welsh Revival* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2005); R. Tudur Jones, golygwyd a diweddarwyd gan Geraint Tudur, *Tân ar yr Ynys, Diwygiad 1904-05 ar Ynys Môn* (Caernarfon, 2004); Kevin Adams, *A Diary of Revival, The Outbreak of the 1904 Welsh Awakening, Special Centenary Edition* (CWR, 2004); Kevin Adams ac Emyr Jones, *A Pictorial History of Revioval, The Outbreak of the 1904 Welsh Awakening, Special Centenary Edition* (CWR, 2004); Karen Lowe, *Carriers of the Fire, The Women of the Welsh Revival 1904-05* (Llanelli, 2004).

[9] Gweler erthygl ar y nofel yn *Golwg*, 4 Tachwedd 2004, tt.20-21.

Profodd adeg y canmlwyddiant yn gyfnod cynhyrchiol o ledaenu syniadau a delweddau o Ddiwygiad 1904-05 a gwelwyd adrodd ei stori ganrif yn ddiweddarach. Fodd bynnag, nid ar yr adeg hon yn unig y gwelwyd y broses o roi ffurf ar stori'r Diwygiad ar waith. Yn wir, gwelwyd y broses o sefydlu stori yn enw'r Diwygiad gan amrywiol gyfryngau ar y pryd, yn ystod blynyddoedd 1904-05 ac yn ystod y ganrif a oedd i'w dilyn. Yn y cyswllt hwn, ceir astudiaeth yn y traethawd hwn o ffurf y mudiad ar y pryd ac wedi hynny. Ar un wedd, yr hyn a geir yw ystyriaeth o gorff o weithiau a ymddangosodd yn ystod 1904-05 ac yn ystod y ganrif ers hynny, a fu'n arwyddocaol o safbwynt y broses o roi ffurf i'r stori a'r ffenomen yn enw'r Diwygiad.

Bydd yr astudiaeth hon yn delio yn bennaf â syniadau am y Diwygiad. Nid olrhain manylion y digwyddiadau a'r gweithgarwch yw'r nod. Y bwriad yw edrych ar fytholeg y Diwygiad yn ystod blynyddoedd 1904-05 hyd heddiw. O ganlyniad ceir trafodaeth ar y modd y cynrychiolwyd y Diwygiad mewn amrywiol ffurfiau gan gyfeirio at ddelweddau a luniwyd o'r Diwygiad. Bydd cyfeirio cyson yn y gwaith at stori, myth a chwedl y Diwygiad hefyd. Defnyddir yr enwau hyn mewn ymgais i ddisgrifio syniadau yn ymwneud â chyflwr y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus ar y pryd ac fel ffenomen ers hynny.

Dylid nodi, wrth gwrs, fod y broses o adrodd stori'r Diwygiad ar y pryd ynghlwm wrth y broses o sefydlu'r mudiad a'i gynnal, a chyfathrebu ei fod ar waith. Gwelwyd hyn ar ffurf ymddiddan unigolion a chymunedau, ac yng ngweithgarwch unigolion a chynulleidfaoedd o bobl mewn cyfarfodydd yn ogystal ag ar ffurf ymddygiad y gymdeithas yn gyffredinol. Ymhellach, bu'r Diwygiad fel mudiad yn destun trafod ar y pryd, a bu'r drafodaeth hon, ar amrywiol ffurfiau, yn rhan o'i weithgarwch. Gwelir

hyn o edrych yn arbennig ar weithgarwch y wasg, mewn erthyglau yn y papurau cenedlaethol ac yn adroddiadau'r cyfnodolion. Dyma'r deunydd y dibynnir yn bennaf arno yn y traethawd hwn wrth edrych ar weithgarwch 1904-05. Ymhelaethir ar y modd yr ymdrinnir â'r deunydd hwn yn y man.

Ers 1904-05, cafwyd trafod ar y Diwygiad mewn gwaith hanesyddol, newyddiadurol a chreadigol, ac mewn gweithgarwch crefyddol a seciwlar yn y gymdeithas. Trwy hyn, gwelwyd stori'r Diwygiad yn cael ei adrodd a'i roi ar waith. Fel yr awgrymwyd, gwelwyd hyn yn arbennig o glir ar adegau arbennig, er enghraifft, adeg y can mlwyddiant, ac fel y gwelir yn y traethawd hwn, adeg yr hanner canmlwyddiant hefyd, pan oedd y drafodaeth yn ymwneud ag ymdrech i sefydlu achlysur ystyrlon yn y presennol. Gwelir hyn yn y cyfrolau coffa a gyhoeddwyd yn 1954, sef, *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-1905*, a'r gyfrol i blant gan Mabel Bickerstaff, *Something Wonderful Happened.* Fe'i gwelwyd hefyd wrth ddadorchuddio cofgolofn i'r Diwygiad ac Evan Roberts yng Nghasllwchwr ger Capel Moriah ar Orffennaf 16 yr un flwyddyn. Cafodd y Diwygiad sylw gan y wasg yr adeg honno hefyd.[10]

Fodd bynnag, er gwaetha'r holl weithgarwch hwn, mae hanesyddiaeth y Diwygiad yn ddrylliog, a hynny, mae'n debyg, ymysg nifer o resymau, oherwydd cymhlethdod y gwaith o briodoli tarddiad y mudiad ac esbonio natur y gweithgarwch. Dyma faterion na cheir casgliadau llawn yn eu cylch. Mae eraill wedi nodi bod methiant y Diwygiad i adael ei ôl ar sefydliadau cymdeithasol a gwleidyddol yr oes yn gyfrifol am y diffyg ymdriniaeth ohono gan awgrymu bod ei arweinwyr wedi canolbwyntio yn bennaf ar

[10] Sidney Evans a Gomer M. Roberts (goln.), *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-1905* (Cronfa Goffa'r Diwygiad, Caernarfon, 1954); Mabel Bickerstaff, *Something Wonderful Happened* (Cronfa Goffa Diwygiad 1904-5, 1954). Er enghraifft gweler *Y Seren*, 13 Tachwedd 1954, 'Diwygiad 1904-05', t.4 sy'n disgrifio'r amrywiol weithgareddau a gafwyd i nodi'r achlysur.

faterion lleol yn ymwneud â throedigaethau unigolion a theuluoedd.[11] Ymhelaethir ar arwyddocâd natur yr hanesyddiaeth a'i dylanwad ar ffurf y mudiad a'i stori ers 1904-05 ym mhennod 1, a bydd cyfeirio at hyn yn rhan o'r drafodaeth yng nghorff y traethawd.

Mewn ymgais i gyfrannu at y gwaith o ddeall rhywfaint yn rhagor am natur y gweithgarwch yn ystod blynyddoedd 1904-05, bwriad y traethawd hwn yw astudio cynnwys elfennau ar y drafodaeth ar y pryd, yn benodol o safbwynt cyfarfodydd y capel, gweithgarwch y ferch, dylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas a rôl Evan Roberts fel ffigwr canolog. Gwneir hyn er mwyn ceisio cael darlun mwy eglur o rai o'r prosesau a oedd ar waith a roddodd ffurf i'r mudiad ar lawr gwlad. Yn ogystal, edrychir ar ran y drafodaeth honno yn y gwaith o gynnal y mudiad. Beth felly gall natur y drafodaeth a gafwyd ar y pryd ddatgelu am strwythur a ffurf y mudiad? Beth oedd y stori a luniwyd yn enw'r Diwygiad a beth oedd yr elfennau hynny a roddodd ffurf i'r mudiad fel un cyhoeddus a chenedlaethol ar y pryd? Dyma rai o'r cwestiynau y ceisir eu hateb wrth edrych ar weithgarwch y Diwygiad yn ystod 1904-05.

Fel y nodwyd eisoes, nid yw'r drafodaeth ar y Diwygiad yn gyfyngedig i flynyddoedd 1904-05. Yn wir, mae'r Diwygiad wedi ei drafod ar amrywiol gyfryngau yn ystod y ganrif ers hynny, a chynrychioliadau o'r Diwygiad wedi ymddangos ar sawl ffurf. Rhoddir ystyriaeth i'r drafodaeth a geir ar y Diwygiad ers blynyddoedd 1904-05 yn y traethawd hwn gan gwestiynu arwyddocâd y gweithiau o dan sylw. Yn naturiol, ni fydd modd crybwyll pob mymryn o drafodaeth ar y Diwygiad yn ystod y ganrif.

[11] Er enghraifft, mynegir hyn gan R. Hayward, 'From the Millennial Future to the Unconscious Past: The Transformation of Prophecy in Early Twentieth-Century Britain' yn Bertrand Taithe a Tim Thornton (goln.), *Prophecy, The Power of Inspired Language in History 1300-2000* (Stroud, 1997), t.161.

Fodd bynnag, y bwriad yw olrhain elfennau ar y drafodaeth hon gan ofyn beth yw natur stori'r Diwygiad ers blynyddoedd 1904-05, ac a yw'r stori hon yn gallu datgelu rhywfaint am ystyr y Diwygiad sydd ar gof. Beth gellir ei ddweud am natur y prosesau ar waith a roddodd fod i'r gweithiau a'r drafodaeth o dan sylw? A yw'r drafodaeth a'r gweithiau hyn yn arwyddocaol o agweddau a ffenomenau y gellir eu hadnabod a'u deall i wybod mwy am ffenomen y Diwygiad?

Eto, dylid pwysleisio nad detholiad sydd yma o'r holl weithiau sy'n trafod y Diwygiad yn ystod y ganrif ers hynny, ac nad aed ati i gyfeirio at bob gwaith a darn o lenyddiaeth sy'n ymdrin â'r Diwygiad. Mae'n siŵr y byddai angen cyfrolau i gyflawni hyn. Yr hyn a geir yma yw ystyriaeth o gofnodion ar hanes y Diwygiad ar y pryd ac ymdrech i ddarganfod patrymau yn yr adroddiadau a oedd yn arwyddocaol o brosesau a roddodd fod i'r mudiad. O safbwynt y drafodaeth ar y Diwygiad ers hynny, edrychir ar weithiau hanesyddol, newyddiadurol a chreadigol a ystyriwyd yn berthnasol, gan ganolbwyntio ar weithiau mwy diweddar, yn arbennig ar achlysur y canmlwyddiant a brofodd, fel y gwelwyd eisoes, yn gyfnod cynhyrchiol o drafod a chreu cynrychioliadau o'r Diwygiad.

Pam felly astudio'r chwedl? Yn un peth, er yr ystyrir yn gyffredinol fod bylchau sylfaenol yn yr hanesyddiaeth, mae'r prif fanylion o ran llawer o'r gweithgarwch wedi eu sefydlu o ganlyniad i adroddiadau helaeth y wasg ar gynnwys cyfarfodydd y Diwygiad.[12] Yn ogystal, mae llawer o'r dadleuon ynghylch natur y gweithgarwch

[12] Ym mhennod 1 ymhelaethir (gan nad oes lle yma i wneud hyn yn llawn) ar y modd y mae nifer o haneswyr wedi nodi mai'r hyn sy'n nodedig am hanesyddiaeth y Diwygiad yw'r diffyg ymdriniaeth arno.

hwn a'i ddylanwad ar unigolion a chymunedau wedi eu trafod.[13] Wedi dweud hyn, ni cheir ystyriaeth lawn o'r hyn ydoedd chwedl y Diwygiad ar y pryd ac yn ystod yr ugeinfed ganrif. O ganlyniad gellir ystyried y gwaith hwn yn astudiaeth sy'n dilyn trywydd newydd yn y maes. Ymhellach, mae astudio deunydd o amrywiol fathau a ymddangosodd ers 1904-05, o safbwynt eu harwyddocâd yn hanesyddol, yn dasg nad yw eto wedi ei gyflawni. Gall astudiaeth o'r fath gynnig golwg wahanol ar natur y mudiad fel ffenomen yn ystod 1904-05 ac ers hynny, gan gyfrannu at ddealltwriaeth o'r cof am y bennod hon yn hanes y Gymru fodern.

Dylid nodi bod sawl hanesydd wedi cyfeirio at gyflwr y Diwygiad fel mudiad sy'n fyw iawn yng nghof gwerin, ac y mae'n rhesymegol ystyried yn wyneb sylwadau o'r fath fod gan y Diwygiad ei ffurf a'i hunaniaeth benodol yn y meddwl poblogaidd. Serch hyn, nid oes astudiaeth fanwl o'r ffenomen hon. Ymhlyg yn y gweithiau sy'n cynnwys sylwadau o'r fath gwelir haneswyr yn gweithio yn erbyn y syniadau sefydledig hyn, gan ymroi i ddymchwel rhai o'r ystrydebau am yr hanes. Gwelir hyn ar waith ar ei amlycaf o bosib yn ysgrif Robert Pope, 'Dadfythu "Diwygiad Evan Roberts"'.[14] Mae Pope yn mynd ati i danseilio nifer o'r delweddau poblogaidd

---

[13] O safbwynt gweithiau diweddar, ystyrir astudiaeth R. Tudur Jones o'r Diwygiad gyda'r cyfraniad mwyaf cynhwysfawr i hanesyddiaeth y maes. Gweler R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru 1890-1914,* Cyf. 1 (Abertawe, 1981) a Chyf. 2 (Abertawe, 1982). Ymysg eraill, rhoddwyd sylw i'r Diwygiad gan Basil Hall, 'The Welsh Revival of 1904-05: A Critique' yn G. J. Cuming a Derek Baker (goln.), *Popular belief and practice : papers read at the ninth summer meeting and the tenth winter meeting of the Ecclesiastical History* (1972) ac yn David Jenkins, *The Agricultural Community in South West Wales* (Caerdydd, 1971); Norman Williams, 'Evan Roberts and the 1904-5 Revival' yn Stuart Williams (gol.) *Glamorgan Historian*, Cyf.5 (1968) ac yn Russell Davies, *Secret Sins, Sex, Violence and society in Carmarthenshire 1870-1920* (Caerdydd, 1996). Ymysg nifer o ysgrifau gwerthfawr y bydd cyfeirio atynt yn y traethawd hwn mae Glanmor Williams, 'Diwygiad 1904-05', yn *Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr* 2005, J. Gwynfor Jones, 'Ebychiad Mawr Olaf Anghydffurfiaeth yng Nghymru': Diwygiad 1904-05' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion 2004*, Cyfres Newydd, Cyf. 11, 2005 a J. Gwynfor Jones, 'Reflections on The Religious Revival in Wales 1904-05' yn *Journal of the United Reformed Church History Society*, Cyf.7, Rhif.7, 2005. Ceir golwg mwy llawn ar yr hanesyddiaeth ym mhennod 1.

[14] Robert Pope, 'Dadfythu "Diwygiad Evan Roberts"', yn *Y Traethodydd*, Gorffennaf 2004. Gweler fersiwn o'r ysgrif ar ffurf pennod o dan yr un teitl yn Robert Pope, *Codi Muriau Dinas Duw: Anghydffurfiaeth ac Anghydffurfwyr Cymru'r Ugeinfed Ganrif* (Bangor, 2005).

ynghlwm wrth y mudiad gan gynnwys y syniadau am y mudiad fel Diwygiad Cymreig a oedd yn gyfyng ei ddylanwad ac wrth gwrs y syniad mae 'Diwygiad Evan Roberts' oedd Diwygiad 1904-05. Mae Pope yn disgrifio nifer o nodweddion y Diwygiad sydd wedi mabwysiadu ansawdd chwedlonol a chyfeiria at rai o'r nodweddion hyn fel 'pileri'r chwedloniaeth'. Cydiwyd yn yr ymadrodd yn nheitl y traethawd hwn ac ymestynnwyd y syniad i edrych yn fanwl ar elfennau o weithgarwch y Diwygiad yma, gan gynnwys ffurf y cyfarfodydd, gweithgarwch y ferch, ei ddylanwadau ar y gymdeithas ac Evan Roberts fel prif gymeriad. Dyma nodweddion, ymysg eraill, y gellir eu hystyried, fel y gwelir yng nghorff y traethawd yn rhai o bileri'r chwedloniaeth. Bydd cyfeirio cyson at ysgrif Pope yn y traethawd hwn, ac ymhelaethir ar ei chynnwys ym mhennod 1. Mae'r ysgrif yn grynodeb da o'r ymagwedd a welir gan haneswyr sy'n brwydro yn erbyn rhai o'r ystrydebau am hanes y Diwygiad yn eu gwaith. Mae astudiaethau o'r fath yn sefydlu syniadau mwy eglur a manwl am y gweithgarwch a fu, a gellir ystyried y trywydd hwn gyda'r mwyaf amlwg yng ngwaith ysgolheigion diweddar.[15]

Ar lefel arall, fel yr awgrymwyd eisoes, wrth ymateb i'r syniadau sefydledig yr ystyrir eu bod ar led, mae gweithiau o'r fath yn eu tro yn cynnal cynrychioliadau o'r delweddau hyn o'r gweithgarwch. Bydd trafodaeth o enghreifftiau penodol o hyn yng nghorff y traethawd. Un enghraifft y bydd cyfeirio ati ym mhennod 2 yw'r modd yr aethpwyd ati gan haneswyr diweddar i olrhain natur y cyfarfodydd yn ystod y

[15] Er enghraifft, mae'r ymagwedd hon i'w weld yng ngwaith R. Tudur Jones yn ei ddadansoddiad o weithgarwch Evan Roberts a rôl y wasg, gweler *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2 (Abertawe, 1982), t.214 (bydd trafod pellach o hyn ym mhennod 5). Enghraifft arall y bydd cyfeirio ato ym mhennod 3 yw sylwadau Deirdre Beddoe yn ei chyfrol *Out Of The Shadows* (Caerdydd, 2000), t.11-12, sy'n herio'r delweddau ystrydebol sydd ar led o ymddygiad a gweithgarwch merched yn y Diwygiad. Mae pwyslais Sion Aled Owen ar dreiddio y tu hwnt i fythau'r Diwygiad a'r darlun ohono yng nghof gwerin yn enghraifft arall. Gweler Rhagarweiniad traethawd doethur John Aled Owen, 'A Study of Orality and Conceptuality During the Welsh Religious Revival of 1904-06', cyflwynedig i Brifysgol Birmingham, 1997.

Diwygiad. Ymdrechir i ddangos amrywiaeth y profiadau o safbwynt y defnydd a wnaed o'r bregeth yn y cyfarfodydd, yn wyneb yr ystrydeb sefydledig o'r gynulleidfa yn meddiannu'r digwydd a'r bregeth a'r gweinidog yn cael eu gosod o'r neilltu. Trwy hyn, dadleuir yn y traethawd hwn y gwelir y gwaith o gynnal yr ystrydeb hon ar ryw lefel. Gwelir grym y ddelwedd o'r gynulleidfa nwydus, yn penderfynu ar drywydd y drafodaeth. Wrth gwrs, gellir ystyried natur gweithgarwch y Diwygiad yn gyfrifol am hyn hefyd, ac o safbwynt arall gellir dadlau bod y drafodaeth hon yn arwyddocaol o safle'r hanesyddiaeth yn y broses o ddod i ddeall am natur y Diwygiad fel mudiad hefyd.

Ceir trafodaeth o'r modd y gwelir y broses hon mewn ffuglen hefyd yn y traethawd hwn, yn yr ystyr, hyd yn oed pan welir y gwaith o lunio delweddau sy'n tanseilio'r ystrydebau am weithgarwch y Diwygiad, y gellir yn aml ddadlau mai'r hyn a geir yw adwaith yr awdur, fel y gwelir gan haneswyr, at y syniadau hyn. O ganlyniad, mae'r gweithiau ar lefel sylfaenol yn cynnal cynrychioliad o'r ystrydebau hyn gan sgwrsio â'u cynnwys, ac o ganlyniad yn cynnal y Diwygiad fel ffenomen sy'n meddu ar drafodaeth benodol yn ei chylch. Ar ben hyn, gellir dehongli cynnwys yr amrywiol weithiau newyddiadurol, creadigol a hanesyddol a gafwyd yn ystod y ganrif ers hynny yn gyfrifol am gynnal llawer o'r delweddau sefydledig am weithgarwch y Diwygiad ar lefel syml, drwy ail-greu ac ail-lansio'r delweddau o dan sylw ar amrywiol ffurfiau newydd.

Yn ôl haneswyr, a'r gweithiau eraill o dan sylw, beth gellir ei gasglu am y syniadau sydd ar led am ffurf y Diwygiad ers blynyddoedd 1904-05? Ymddengys, yn gryno, mai mudiad rhyfeddol, dadleuol, cyffrous ac enigmatig ydyw'r Diwygiad yn y

meddwl poblogaidd, wedi ei gysylltu'n bennaf ag Evan Roberts, y ffigwr a ystyrir yn brif gymeriad y Diwygiad yn hytrach nag yn arweinydd arno gan nifer o ysgolheigion. Ymddengys yn ôl ysgolheigion bod y Diwygiad yn y meddwl poblogaidd yn fudiad emosiynol, lle gwelwyd y bobl yn meddiannu cyfarfodydd y capel, pobl ifanc a merched yn arbennig yn troi at Grist, a'r gymdeithas yn cael ei thrawsnewid o dan ei ddylanwad.

Rhoddir sylw yn yr astudiaeth hon i'r cynrychioliad hwn o'r mudiad gan edrych yn benodol, fel y soniwyd eisoes ar ffurf y cyfarfodydd, gweithgarwch merched, dylanwad y Diwygiad ar fywyd y gymdeithas ac ar Evan Roberts fel prif gymeriad. Gwneir hyn drwy ystyried y drafodaeth a gafwyd ar y pryd ac ers hynny ynghylch y mudiad gan gael golwg ar rai o'r prosesau a blannodd yr elfen ryfeddol a chyffrous yn ganolog i stori'r Diwygiad. Bydd cyfeirio at y syniad o'r Diwygiad fel mudiad rhyfeddol drwy gydol y traethawd yn y cyswllt hwn. Beth bynnag, mae'n sicr bod y nodweddion a restrir uchod yn rhan o'r hyn a ystyriwyd fel ffenomen gweithgarwch y Diwygiad ar y pryd. Ers hynny, gwelir mai amlygu amrywiaeth a chymhlethdod y profiad a oedd ohoni yw cynnwys y brif ffrwd o weithiau ysgolheigaidd. Serch hyn, dylid nodi bod nifer o haneswyr wedi pwysleisio mor rhyfeddol oedd ffenomen y mudiad. Er enghraifft, nododd R. Tudur Jones wrth wneud casgliadau am y Diwygiad, '..fe erys yn un o ddigwyddiadau mwyaf syfrdanol hanes y genedl yn y cyfnod modern.'[16] Gwnaeth John Davies sylw tebyg, gan gyfeirio at y Diwygiad fel 'un o ddigwyddiadau hynotaf Cymru'r ugeinfed ganrif '.[17] Dylid ychwanegu yma nad yw presenoldeb y darlun hwn yn y meddwl poblogaidd o'r mudiad fel un enigmatig, rhyfeddol a chyffrous yn golygu nad oes sail i'r ddelwedd hon yn y gweithgarwch yn

[16] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl* (Abertawe, 1982), Cyf.2, t.222.
[17] John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990), t. 485.

ystod blynyddoedd 1904-05. Yn wir, un o amcanion y traethawd hwn yw esbonio o ble y deilliodd y stori gan olrhain elfennau arni i natur a ffurf dimensiwn o weithgarwch y Diwygiad ar y pryd.

Yn hytrach nag ymgeisio i ddymchwel y delweddau sy'n bod yn rhan o'r cof gwerin hwn, ymroddir i ddeall ffynhonnell y ffurf hon ar y Diwygiad yma. Gwneir hyn drwy edrych ar ffurf y mudiad yn ystod 1904-05 a'r stori yr ymroddwyd i'w hadrodd yn enw'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny. Bydd edrych felly ar nodweddion o'r stori boblogaidd yr ymddengys eu bod ar led, gan graffu yn benodol, fel y mynegwyd uchod, ar weithgarwch y bobl yng nghyfarfodydd y Diwygiad, y ferch yn y mudiad, y gymdeithas o dan ei ddylanwad ac Evan Roberts fel ffigwr canolog. Edrychir ar le'r elfennau hyn wrth roi ffurf i fudiad a stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny gan roi sylw i'r ddelwedd sefydledig o'r mudiad fel un rhyfeddol. Gwneir hyn gan geisio sefydlu cyswllt rhwng y gweithgarwch a gafwyd yn ystod 1904-05 a chynrychioliad y gweithgarwch hwn ers hynny. Yn hyn o beth, ystyrir arwyddocâd ffurf y Diwygiad fel chwedl yn ystod blynyddoedd 1904-05 hyd heddiw.

Trwy hyn, y gobaith yw y bydd y traethawd hwn yn cyfrannu at y gwaith o oleuo'r hyn ydoedd chwedl y Diwygiad, er mwyn deall rhan y chwedl honno wrth gyfrannu at yr hyn ydoedd mudiad y Diwygiad ar y pryd a'r ffenomen ydoedd ers hynny. Gan nad oes modd rhannu'r chwedl oddi wrth y digwydd, ac oherwydd bod y digwydd yn gymysg â'r chwedl, y gobaith, yn sgil natur yr astudiaeth, yw y ceir golwg ar y berthynas rhwng y ffurfiau hyn, gan edrych ar y modd y cyfrannodd y chwedl at y digwydd a'r digwydd at y chwedl.

Y gobaith ymhellach yw y bydd y traethawd hwn yn cyfrannu at ddealltwriaeth o natur ymddygiad a gweithgarwch unigolion a chymunedau yn ystod Diwygiad 1904-05 yng Nghymru ar y pryd, drwy ddatgelu rhywfaint am y prosesau roddodd fod i'r Diwygiad fel cysyniad haniaethol ac fel mudiad ymarferol. Y bwriad yw ceisio datgelu rhywfaint ar y strwythur a'r ffurf a fabwysiadodd y mudiad yn ystod blynyddoedd 1904-05, gan amlygu rhywfaint ar rôl y stori yr ymroddwyd i'w chynnal ar y pryd. Yn hyn o beth, y gobaith yw dod i ddeall y prosesau a benderfynodd ar ffurf y stori a'i datblygiad ers hynny.

Yr amcan ehangach yw ceisio cyfrannu at y gwaith o glirio'r llwybr ar gyfer ymchwil bellach i ymateb i Ddiwygiad 1904-05, heb reidrwydd i ymhél mor fanwl â'r syniadau sefydledig sy'n rhan o stori'r Diwygiad. I ryw raddau, yn ystod y ganrif ers 1904-05, ac yn enwedig mewn gweithiau diweddar, fel y gwelir yn y traethawd hwn, gwelwyd trywydd astudiaethau yn y maes yn cael ei benderfynu gan angen i rannu'r chwedl oddi wrth y digwydd. Amcan y traethawd hwn yw amlygu rôl y chwedl hon yn y digwydd ar y pryd ac wedi hynny. Trwy hyn, y gobaith yw ymgorfforі stori fawr y Diwygiad ar y pryd a'r broses o'i hadrodd ers hynny yn rhan o hanesyddiaeth y mudiad. Y gobaith wedyn yw rhyddhau astudiaethau pellach i ymhél ag amrywiol agweddau ar hanes y mudiad ar drywyddau newydd.

Y bwriad hefyd yw amlygu elfen strwythurol, mecanyddol y gweithgarwch yn y gymdeithas, gan bwysleisio'r elfen o drefn a oedd yn perthyn i sefydlu'r mudiad. Yn hyn o beth, y gobaith yw y bydd y traethawd hwn yn cyfrannu at yr hanesyddiaeth yn y maes gan bwysleisio elfen nad yw'n draddodiadol wedi'i phwysleisio gan haneswyr. Bydd y traethawd hwn yn cyfrannu at y gwaith o gydbwyso'r gweithiau

hynny sy'n pwysleisio natur ryfeddol y gweithgarwch a gafwyd. Yn hyn o beth, yn ogystal, rhyddheir astudiaethau eraill i ddehongli'r gweithgarwch a gafwyd heb ymhél o reidrwydd â'r gwaith o gyfleu ei natur anesboniadwy.

Un o'r problemau amlwg wrth astudio stori'r Diwygiad yn ystod 1904-05 ac ers hynny, yw'r cymhlethdodau sydd ymhlyg yn y gwaith o astudio bywyd y gorffennol ar unrhyw ffurf. Mae rhwystrau amseryddol ac amgylcheddol yn golygu nad oes modd cyflawni astudiaeth sydd heb ei rhagfarnau. Gellir datgan y dylanwadau y mae dyn yn ymwybodol ohonynt er mwyn cydnabod eu heffaith ar y gwaith. Yng nghyswllt yr astudiaeth hon, dylid cydnabod y graddau y cafodd amseru'r ymchwil ddylanwad ar ei chynnwys a'i thrywydd. Fel y nodwyd eisoes, profodd adeg canmlwyddiant y Diwygiad yn gyfnod bywiog a chynhyrchiol o'i ddynodi a'i gofio yng Nghymru. Yn ogystal â defnyddio'r gweithgarwch hwn fel deunydd ymchwil, yn amlwg, mae'r astudiaeth yn gynnyrch y cyfnod. O ganlyniad, gwelir bod cynnwys y traethawd hwn, ymysg y gweithiau amrywiol eraill y bydd cyfeirio atynt, yn gynnyrch y ffenomen yr ymdrechir yma i'w disgrifio.

Trwy ddarllen y nofelau pan ymddangosasant a gwylio'r rhaglenni dogfen y cyfeirir atynt, ar adeg y canmlwyddiant, ac wrth fynd i weld sioe a drama wedi eu seilio ar y Diwygiad a mynychu cynadleddau yn ymwneud â'r pwnc yr adeg hon, mae'n sicr mai gwaith unigolyn a oedd yn rhan o'r hyn ydoedd ffenomen y canmlwyddiant sydd yma. Mae diddordeb mewn llenyddiaeth Gymraeg ac o Gymru wrth wraidd natur yr astudiaeth hon hefyd. Yn ogystal, mae'n sicr bod profiad plentyndod o'r mudiad Anghydffurfiol Cymraeg dirywiedig yn negawdau olaf yr ugeinfed ganrif yn gyfrifol am ddiddordeb a chydymdeimlad â'r testun o dan sylw.

Mae cymhlethdodau ymhlyg yn y gwaith o astudio'r Diwygiad o safbwynt ei gyflwr fel mudiad crefyddol. Dylid nodi nad yw'r gwaith hwn yn cynnig astudiaeth ddiwinyddol o'i weithgarwch. Ymysg y cymhlethdodau o'r safbwynt hwn mae'r cwestiynau a geir ynghylch tarddiad y mudiad, a chymhelliad y gweithgarwch, sy'n codi materion ynglŷn â sylwedd ysbrydol y mudiad. Er nad oes bwriad yma i ymdrin â'r materion o dan sylw (na chymhwyster i wneud hynny) yr hyn a wneir yn hytrach yw ceisio ystyried y dystiolaeth am ddylanwad y meddylfryd a fynegwyd ar y pryd ynglŷn â natur yr ysbrydoliaeth newydd ar y gweithgarwch.

Bwriad y traethawd hwn yw craffu ar ffurf a strwythur y mudiad a'r gwaith o sefydlu'r stori yn hytrach na mesur maint a natur dylanwad y Diwygiad ar unigolion a chymunedau, 'mewn gwirionedd', fel petai. Er bod y stori'n gymysg â'r digwydd, fel y nodwyd eisoes, y gobaith yw y bydd pwyslais y gwaith yn golygu y bydd modd osgoi beirniadu'r mudiad o safbwynt ei les ar yr unigolyn a'i gymdeithas. Nid dibrisio'r mudiad a'i gyflawniadau a'i ddylanwad ar unigolion a chymunedau yw'r nod, ar unrhyw gyfri. Serch hyn, yn naturiol mae trywydd y gwaith, ei gynnwys, a'r hyn nad yw'n gynwysedig yn anorfod yn ymroi i'r sbectrwm hwn o ddadleuon i'r rheiny sydd am ymhél â hwy.

Gwaith newyddiadurol o bapurau newyddion ac adroddiadau'r cyfnodolion yw'r prif ffynonellau a ddefnyddiwyd wrth graffu ar flynyddoedd 1904-05. Bydd defnydd helaeth o waith y wasg yn y traethawd hwn felly. Ystyrir gweithgarwch y wasg yn sylfaenol i'r broses yr eir ati i'w disgrifio yn yr astudiaeth hon o'r modd y sefydlwyd mudiad yn enw Diwygiad 1904-05 ar y pryd. Bu'r wasg yn gyfrifol am ledaenu

gwybodaeth a syniadau am weithgarwch y Diwygiad, gan ddylanwadu ar ffurf y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus a chenedlaethol. Profodd cynnwys llawer o'r adroddiadau, yn enwedig yn y wasg genedlaethol, yn ddadleuol ar y pryd ac ers hynny. Mae haneswyr wedi nodi'r modd brwdfrydig yr aethpwyd ati i gofnodi elfennau cyffrous gweithgarwch y Diwygiad.[18] Yn ogystal, cafwyd beirniadu ar y pryd ac ers hynny o'r modd y portreadwyd Evan Roberts fel cychwynnydd ac arweinydd y Diwygiad gan y wasg.[19] Yn hyn o beth, gwelwyd rôl y wasg yn bresennol yn yr hyn ydoedd stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers 1904-05. Yn wir, bydd dadlau yn y traethawd hwn y gwelwyd y wasg yn ddylanwadol ar agweddau o fudiad y Diwygiad nid yn unig yn ystod 1904-05 ond ers hynny hefyd gan ddylanwadu ar natur y drafodaeth, drwy sefydlu'r mudiad fel un dadleuol a chyffrous ar y pryd. Yn y traethawd hwn, nid mesur cywirdeb yr adroddiadau yn y wasg yw'r bwriad, ond yn hytrach ystyrir cyfraniad y wasg o safbwynt ei gwaith wrth roi ffurf i fudiad y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus a chenedlaethol, a hynny drwy rannu syniadau a delweddau penodol o'r hyn a ystyriwyd yn weithgarwch y mudiad.

Edrychwyd ar waith newyddiadurol, academaidd, hanesyddol a chreadigol wrth graffu ar weithgarwch ynghlwm wrth y Diwygiad yn ystod y ganrif ers 1904-05. Wrth ymdrin â'r gweithiau hyn, ystyrir y deunydd yn dystiolaeth o gyflwr stori'r Diwygiad ers 1904-05. O safbwynt y gweithiau hanesyddol, yn amlwg bydd cyfeirio at waith haneswyr gyda'r bwriad o gydnabod yr hyn a wnaed eisoes gan osod y drafodaeth yn y cyd-destun hwn. Defnyddir gwaith haneswyr hefyd i atgyfnerthu neu i ymhelaethu ar drafodaeth. Fodd bynnag, fel yr awgrymwyd uchod, mae gan

[18] Er enghraifft, gweler sylwadau John Davies, t.486.
[19] Er enghraifft, gweler R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2 (Abertawe, 1982), t.136.

hanesyddiaeth y Diwygiad rôl arall yn y traethawd hwn hefyd. Mynegwyd y canlynol yn Rhagair *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-05* (1954):

> Gwerthfawrogwn y fraint o ddadorchuddio eto Golofn Goffa arall, er mwyn cadw mewn cof rai o rymusterau Diwygiad 1904-05, ac i gadw enw'r arweinydd o ochr y ddaear - Mr. Evan Roberts - rhag mynd ar ddifancoll. Colofn o faen oedd y gyntaf, a godwyd ar lawnt eglwys Moriah, Casllwchwr, eglwys a fu'n fagwrfa grefyddol i Evan Roberts. Lleol ydyw'r golofn honno, a bydd yn gyrchfan pererinion, mae'n ddiau, am y blynyddoedd a ddaw. Ond nid lleol mo'r golofn hon, a ddwg mewn cyfres o erthyglau fendithion a chenadwriau a her y Diwygiad i sylw'r oes fodern bresennol.[20]

Wrth edrych ar y broses o adrodd a chreu hanes, nodwyd mewn erthygl ddiweddar mewn maes arall am gofgolofnau, eu bod yn ymwneud â chreu atgofion a hunaniaethau a'u bod yn gynnyrch y presennol sy'n gwyro syniadau yn fwriadol neu'n anfwriadol am y gorffennol gan sgwrsio â'r dyfodol.[21] Gellir ymestyn y dadansoddiad hwn, fel y mynegir uchod, i gynnwys cofnodion am y gorffennol ar amrywiol ffurf, gan gynnwys astudiaethau hanesyddol. Ceir cyfeirio at weithiau hanesyddol mewn sawl man wrth drafod ffurf stori'r Diwygiad ers blynyddoedd 1904-05 yn y traethawd hwn gan ystyried yr hanesyddiaeth hon, ymysg gweithiau eraill o amrywiol fathau, gan gynnwys ffuglen a chyhoeddiadau'r wasg, fel tystiolaeth o'r broses o roi ffurf ar y Diwygiad ers 1904-05. Yn wir, yn hanesyddiaeth y Diwygiad y gellir gweld y broses o adrodd stori'r Diwygiad ar ei amlycaf. Wrth ymdrin â'r hanesyddiaeth yn y cyswllt hwn, ymdrechir i wneud hynny yn gwbl eglur yn y drafodaeth.

O safbwynt gweithiau creadigol, edrychir ar nofelau, barddoniaeth, dramâu a sioeau cerdd yn ogystal â gweithgarwch y cyfryngau radio a theledu fel ffynonellau i'w hastudio wrth ystyried ffenomen y Diwygiad fel un fyw yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yn hyn o beth, mae'r traethawd yn un amlddisgyblaeth. Serch hyn, o safbwynt

[20] Howell Williams yn Rhagair *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-05,* t.5.
[21] Jonathan Porter, '"The Past is Present" The Construction of Macau's Historical Legacy' yn *History and Memory, Studies in Representation of the Past*, Cyf.21, Rhif.1, Gwanwyn /Haf 2009, tt. 65-66.

gweithiau creadigol, nid beirniadaeth lenyddol drwyadl a geir ond yn hytrach ystyriaeth o arwyddocâd ymddangosiad a chynnwys y gweithiau hyn o safbwynt cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol. Yn hyn o beth, gellir ystyried yr ymagwedd at lenyddiaeth yma yn unol â'r 'Hanesyddiaeth Newydd', term a fathwyd gan Stephen Greenblatt yn 1982 i ddisgrifio'r modd y gellir ymdrin â llenyddiaeth mewn modd sy'n cydnabod yr oes a'r amgylchiadau a roddodd fod iddi. Mae damcaniaeth Greenblatt yn ymwneud ag ymwrthod â'r syniad fod trafodaeth ar gynnwys gweithiau llenyddol y tu hwnt i ffiniau amser.[22] Bydd pwyslais yr agwedd hon ar y traethawd ar weithiau creadigol a ymddangosodd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif ac ar droad yr unfed ganrif ar hugain.

Ceir pum pennod yn y traethawd. Bydd y gyntaf yn gosod y Diwygiad yn ei gyd-destun hanesyddol gan ddisgrifio traddodiad diwygiadau'r Gymru Anghydffurfiol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir hefyd amlinelliad o weithgarwch Diwygiad 1904-05, er mwyn cynnig yr wybodaeth gefndirol berthnasol ar gyfer y drafodaeth i ddilyn yn y penodau dilynol. Yn ogystal, edrychir ar sut mae haneswyr wedi dehongli'r Diwygiad er mwyn gosod y traethawd hwn yn ei gyd-destun a cheir golwg ar gynnwys y gweithiau creadigol hynny y bydd cyfeirio atynt drwy gydol y traethawd. Yn ogystal, ymhelaethir ar y disgrifiad a gafwyd yn agoriad y Rhagarweiniad hwn o'r gweithgarwch a oedd ynghlwm wrth achlysur y canmlwyddiant er mwyn gosod y cyfeirio a geir yn y penodau dilynol at yr adeg hon yng nghyd-destun y cefndir perthnasol.

[22] Am esboniad, gweler M. Wynn Thomas, 'Pwys Llên a Phwysau Hanes', yn John Rowlands (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), t.3 ac am ymdriniaeth manwl, gweler H. Aram Veeser (gol.) *The New Historicism* (Llundain ac Efrog Newydd, 1989) ac am enghraifft o'r feirniadaeth ar waith gweler Stephen Greenblatt, *Shakespearean Negotiations* (Berkeley, 1988).

Mae'r pedair pennod sy'n dilyn yn ymdrin yn thematig ag elfennau penodol o'r Diwygiad y cyfeiriwyd atynt eisoes fel rhai o bileri'r chwedloniaeth. Canolbwyntir yn fanwl ar gyfarfodydd y capel, rôl y ferch, dylanwadau'r Diwygiad ar y gymdeithas ac ar Evan Roberts fel ffigwr, yn y drefn honno. Bydd y penodau hyn yn ymdrin â gweithgarwch ynghlwm wrth y Diwygiad yn ystod 1904-05 ac yn y ganrif ers hynny. Ym mhennod 2, edrychir ar gyfarfodydd y Diwygiad gan roi sylw arbennig i natur a threfn yr oedfaon o safbwynt y strwythurau ac arferion newydd a fabwysiadwyd gan y gynulleidfa yn y capel. Edrychir ar le'r bregeth a rôl y gweinidog, y canu mawl a'r weddi fel cyfryngau i gynnal y cyfarfodydd. Yna edrychir ar natur cyfraniadau unigolion yn y cyfarfodydd o safbwynt yr ieithwedd a'r elfen ddramatig a fabwysiadwyd. Wedyn, ystyrir arwyddocâd y gweithgarwch hwn o safbwynt y modd y democrateiddiwyd y cyfarfodydd o dan ddylanwad y mudiad. Creffir ar gyfarfodydd y Diwygiad yn gyntaf, oherwydd buont yn sylfaenol i'r holl weithgarwch a gysylltwyd â'r Diwygiad fel mudiad ar sawl ffurf. Roedd hyn oherwydd mai'r cyfarfodydd oedd canolbwynt y gweithgarwch yn y gymuned ac mai yn y capel yn bennaf y cafwyd profiadau yn gyhoeddus gan unigolion, yr ystyriwyd eu bod yn perthyn i ffenomen y Diwygiad.

I ddilyn, ym mhennod 3 rhoddir sylw i rôl a phrofiad y ferch yng nghyd-destun y mudiad. Profodd gweithgarwch merched yn arwyddocaol o safbwynt y diwylliant a'r ffurf newydd a gafwyd ar y cyfarfodydd. Ystyrir cyfraniad y ferch yn ymarferol ac yn symbolaidd i gynhaliaeth y mudiad ar y pryd ac ers hynny, ac yn ei stori. Edrychir yn benodol ar Florrie Evans a'i chyfraniad wrth ddynodi cychwyn y Diwygiad, gweithgarwch merched yn y cyfarfodydd cychwynnol yn Aberteifi, natur cyfraniadau merched yn y cyfarfodydd a'r modd y cafodd bywyd y ferch drafodaeth gyhoeddus yn

ystod y Diwygiad. Ceir golwg hefyd ar enwogrwydd stori Mrs. Jones Llanegryn ar y pryd ac ers hynny.

Ym mhennod 4 edrychir ar elfen arall ar chwedl y Diwygiad gan ystyried y modd y profodd dylanwadau'r mudiad ar gymdeithas yn un o'r elfennau a ddaeth ynghyd i roi ffurf i'r mudiad ar y pryd ac ers hynny. Creffir ar y delweddau a grëwyd o'r gymdeithas ar ei newydd wedd, gan gynnwys y syniadau ar led ynglŷn â'r dafarn wag, meddwon yn sobri ac yn troi at y capel, y capeli yn orlawn, lleihad ar drosedd a rhegi a chyfarfodydd gweddi yn y pyllau glo a'r chwareli. Edrychir ar y modd yr ymroddodd y wasg i gynnal y ddelwedd hon ar y pryd, cyn symud ymlaen i edrych ar arwyddocâd y ddelwedd ers hynny, mewn hanesyddiaeth, newyddiaduraeth a gweithiau creadigol. Mae amlygrwydd yr elfen hon o'r digwydd yn stori'r Diwygiad yn mynnu trafodaeth ohoni yn y traethawd hwn, ac archwilir y prosesau a roddodd iddi amlygrwydd ar y pryd ac wedi hynny.

Ym mhennod 5 edrychir ar Evan Roberts yng nghyswllt ei statws fel prif gymeriad yn stori'r Diwygiad. Ystyrir y delweddau a grëwyd ar y pryd yn enw Roberts, y modd y sefydlwyd Roberts yn ffigwr o ddiddordeb a dadl a'r modd y gwelwyd cynnal y delweddau hyn wedi hynny. Rhoddir sylw arbennig i ddelweddau o Roberts o safbwynt ei edrychiad, cyflwr ei feddwl, a'i hanes ar ôl y Diwygiad, yn arbennig y blynyddoedd a dreuliodd yng Nghaerlŷr yng nghartref y Penn-Lewisiaid. Fel y nodwyd eisoes, crybwyllir yr wybodaeth gefndirol i'r drafodaeth hon ym mhennod 1.

I gloi, cyflwynir casgliadau'r astudiaeth hon gan ystyried beth oedd dylanwadau'r elfennau a drafodwyd yng nghorff y traethawd gyda'i gilydd wrth roi ffurf i'r chwedl.

Gwneir hyn gan ystyried cyflwr ac arwyddocâd y Diwygiad fel stori fawr. Yn ogystal, disgrifir y modd y gall y traethawd hwn gyfrannu at ddealltwriaeth ac ymestyn y drafodaeth yn y maes gan gyfrannu at hanesyddiaeth y cof yng nghyswllt y Gymru fodern.

Wrth gyfeirio at ffynonellau Cymraeg a Saesneg cadwyd at yr orgraff a'r sillafu a geir yn y gwreiddiol drwy gydol y traethawd. Ni chyfieithwyd ffynonellau o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn unrhyw fan. Serch hyn, dyfynnir cyfieithiad a wnaed eisoes i'r Gymraeg gan Gareth Miles o rannau o astudiaeth Ffrangeg ar y Diwygiad mewn sawl man.[23]

[23] Ceir cyfieithiad o rannau o Rouges de Fursac, *Un Mouvement Mystique Contemporain: Le Reveil Religieux du Pays de Galles* (Paris, 1907) gan Gareth Miles, 'Y Diwygiad Trwy Lygaid Ffrancwr' yn *Taliesin*, 124, 2005, tt 22-26.

# Pennod 1

## Cyd-destun Hanesyddol Diwygiad 1904-05

Fel y nodwyd yn y Rhagarweiniad, un o amcanion y traethawd hwn yw edrych ar rai o'r prosesau a roddodd ffurf i elfennau o'r gweithgarwch a gafwyd yn ystod blynyddoedd 1904-05 fel mudiad yn enw diwygiad, ac ar ffurf y mudiad hwn fel chwedl ar y pryd ac ers hynny. Yma, ymroddir i gynnig cyd-destun i weithgarwch y mudiad a'i stori, a hynny o safbwynt hanesyddol, gan gynnig arweiniad i gynnwys a thrywydd y traethawd.

Yn gyntaf, gosodir Diwygiad 1904-05 yn fras yn ei gyd-destun hanesyddol, ac yng nghyd-destun diwygiadau crefyddol y Gymru Anghydffurfiol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwneir hyn er mwyn deall y Diwygiad fel ffenomen yng nghyd-destun y cefndir hwn, a diwylliant y gymdeithas a oedd ohoni ar y pryd. Yna amlinellir y gweithgarwch a gafwyd yn enw'r Diwygiad gan gynnig yr wybodaeth sylfaenol ynglŷn â'r mudiad fel sail i'r drafodaeth a geir yn y penodau dilynol, gan gyfeirio at yr hanesyddiaeth berthnasol. Yna olrheinir y drafodaeth a geir yng ngwaith ysgolheigion yn ystod y ganrif ers hynny, gan roi sylw i gasgliadau diweddar ar arwyddocâd y Diwygiad fel ffenomen yn hanes y Gymru fodern. Gwneir hyn er mwyn codi'r ystyriaethau ehangach perthnasol sydd ynghlwm wrth y drafodaeth a geir ar y Diwygiad, ac sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon. Yna ceir crynodeb o gynnwys y gweithiau ffuglen y ceir cyfeirio atynt yn y traethawd hwn ac ymhelaethir ar y disgrifiad a gafwyd yn y Rhagarweiniad o achlysur y canmlwyddiant yng Nghymru, er mwyn cynnig y cefndir perthnasol wrth gyfeirio at yr adeg hon yn y gwaith.

Gan ddechrau felly wrth edrych ar droad yr ugeinfed ganrif yng Nghymru, yr hyn sydd angen ei nodi yw'r modd y dynodir y cyfnod gan haneswyr yn un o newid cymdeithasol sylfaenol a hynny, mae'n ymddangos, yn wyneb newidiadau a oedd ar waith o sawl cyfeiriad. Canolbwynt cyfrolau cynhwysfawr R. Tudur Jones yw'r ansefydlogrwydd diwylliannol a chrefyddol y disgrifia sy'n nodweddu'r cyfnod 1890 - 1914 yng Nghymru.[1] Nododd am y cyfnod o dan sylw, '...fod ansicrwydd yn magu yn y meddwl Cymreig.', a disgrifiodd yr hyn a alwyd ganddo yn 'argyfwng ffydd'.[2]

Ymddengys fod y bygythiadau a gafwyd i Gristnogaeth yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru yn bod ymhlith llawer o wledydd Ewrop, o ganlyniad i newidiadau sylfaenol yn sgil y chwyldro diwydiannol a symudiad poblogaeth o'r wlad i'r dref. Sefydlwyd arferion newydd gan unigolion a chymunedau a fu'n gyfrifol am seciwlareiddio'r gymdeithas a fabwysiadodd ei gweithgarwch a'i syniadau ei hun.[3] Mae sawl sylwebydd wedi ystyried yr esboniad fod profiad y boblogaeth a symudwyd o'r wlad i'r dref yng Nghymru wrth wraidd gweithgarwch y Diwygiad.[4] Bydd sôn pellach am hyn yn y man. Beth bynnag, cafwyd datblygiadau syniadol a ddaeth i fygwth Cristnogaeth hefyd o gyfeiriad athronwyr megis Kant (1724-1804), Ernest Renan (1823-92), Auguste Comte (1798-1857), Marx (1818-83) a Nietzche (1844-1900). Lledaenwyd syniadau ynglŷn â gallu a gwerth dyn a chafodd hyn ei effaith ar y ffydd yng Nghymru.[5]

---

[1] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl, Hanes Crefydd yng Nghymru 1890-1914,* Cyf. 1 (Abertawe, 1981); R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl, Hanes Crefydd yng Nghymru 1980-1914*, Cyf. 2 (Abertawe, 1982).
[2] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl,* Cyf. 2, t.7.
[3] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl,* Cyf. 2, t.11.
[4] Er,enghraifft, gweler Gareth Williams, 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd', yn *Cof Cenedl V,* 1990, t.128.
[5] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf. 2, tt.13-14.

Yn ystod y cyfnod hwn o newid deallusol a chymdeithasol y gosodwyd sylfeini i Sosialaeth yng Nghymru.[6] Serch hyn, o safbwynt gwleidyddiaeth, parhaodd y mwyafrif o Anghydffurfwyr a'u harweinwyr yn gysylltiedig â'r Blaid Ryddfrydol. Cafwyd rhai ymdrechion o gyfeiriad yr enwadau Anghydffurfiol i gyplysu syniadau ynglŷn â Christnogaeth a Sosialaeth, gwleidyddiaeth a oedd yn ennill tir erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth i'r dosbarth gweithiol gyflym fagu ymwybyddiaeth wleidyddol. Bu T. E. Nicholas yn un o'r ffigyrau amlycaf yn hyn o beth. Esbonia Robert Pope athroniaeth Nicholas fel a ganlyn:

> Mae'r ddynoliaeth, a grëwyd yn *imago Dei,* yn byw gerbron y Duw a mynn ef i'r ddynoliaeth fyw yn foesol-gyfrifol ger ei fron. Canlyniad hyn i gyd, yn ôl Nicholas, oedd y dylai'r eglwys fel sefydliad a Christnogion yn unigol ystyried anghyfiawnder cymdeithas ac yna ymrwymo i'w gweddnewid er mwyn osgoi barn Duw a sicrhau budd y ddynoliaeth. O ganlyniad, honnodd Nicholas, ni allai'r eglwysi wneud dim byd ond ymuno â'r Sosialwyr i greu byd gwell.[7]

Ymhellach, mae D. Densil Morgan wedi trafod sut y profodd Anghydffurfiaeth a Sosialaeth ar y cyd yn ganolog i'r hunaniaeth Gymreig yn y cyfnod hwn, a sut y bu unigolion megis y Parch. Silyn Roberts yn gyfrifol am gyfuno'r ddwy wedd hon.[8]

Ar drywydd arall, pwysleisiodd Kenneth O. Morgan fod blynyddoedd 1880 - 1914 yn gyfnod o ddeffro diwylliannol yng Nghymru a hynny yn ymwneud ag adfywiad yn ei hymwybyddiaeth o'i chenedligrwydd. Dynodwyd y cyfnod yn un o lewyrch llenyddol a chelfyddydol. Yn ystod y cyfnod hwn, yn 1905, y gwelwyd sefydlu'r Llyfrgell a'r

---

[6] Robert Pope, *Codi Muriau Dinas Duw, Anghydffurfiaeth ac Anghydffurfwyr Cymru'r Ugeinfed Ganrif* (Bangor, 2005), t.90.

[7] Robert Pope, *Codi Muriau Dinas Duw*, t.95. Gweler yn yr un gyfrol drafodaeth ar Sosialaeth R. Silyn Roberts, t.112.

[8] D. Densil Morgan, *Wales and the Word, Historical Perspectives on Religion and Welsh Identity* (Caerdydd, 2008), tt.219-220.

Amgueddfa Genedlaethol ac y gwnaed Caerdydd yn ddinas.[9] Fodd bynnag, un o'r newidiadau pennaf a nododd Morgan, fel eraill, am y cyfnod hwn oedd disodli'r patrwm o awdurdod cymdeithasol a gafwyd yn sgil olion y drefn ffiwdal mewn ardaloedd gwledig a sefydlu'r fframwaith gwleidyddol, democrataidd. O ganlyniad mabwysiadwyd awdurdod yn y gymdeithas o gyfeiriadau newydd: y diwydianwyr, y manwerthwyr, y cyfreithwyr, y newyddiadurwyr, yr academyddion, y ffermwyr tenant a'r gweinidogion Anghydffurfiol.[10] Mae'n eglur bod troad yr ugeinfed ganrif yng Nghymru, fel mewn sawl man arall, yn gyfnod a brofodd ansefydlogrwydd o sawl math, yn wyneb y newidiadau a oedd ar waith. Yn wir, mae nifer o haneswyr yn ystyried y cyfnod yn un tyngedfennol yn hanes Cymru ac mae dryswch y cyfnod hwn wedi profi'n ganolog i sawl esboniad o weithgarwch Diwygiad 1904-05. Er enghraifft, nododd Dai Smith: *'The Religious Revival of 1904-5 is fascinating as a unique Welsh phenomenon expressive of the bewilderment people felt in this period.'*[11]

Er bod maint dylanwad y capel Anghydffurfiol ar gymdeithas yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi profi'n destun trafod ymysg haneswyr, yn wyneb yr ystrydeb sefydledig o'r Gymru Anghydffurfiol, ystyrir bod dylanwad y traddodiad Anghydffurfiol ar gymdeithas yng Nghymru'r oes yn sylweddol. Mae perthynas gymhleth a chlòs y traddodiad Anghydffurfiol â'r hunaniaeth Gymreig wedi ei phwysleisio gan haneswyr hefyd, a geiriau'r Prif Weinidog Gladstone yn 1891, a nododd mai 'Anghydffurfwyr Cymru yw pobl Cymru', ymysg sylwadau gan arweinwyr a gwleidyddion eraill i'r un perwyl, wedi eu hanfarwoli yn rhan o'r chwedl

[9] Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation* (Rhydychen, 1981), t.57.
[10] Kenneth O. Morgan, t.410.
[11] Dai Smith, 'Wales Through the Looking Glass', yn Dai Smith (gol.), *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales 1780-1980* (Llundain,1980), t.54.

ydyw Cymru grefyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[12] Mae olion y cysyniad hwn i'w gweld mewn mynegiant o hunaniaeth Gymreig ar sawl ffurf yn y gymdeithas sydd ohoni heddiw yng Nghymru a gwelir o ganlyniad bod lle amlwg i Anghydffurfiaeth fel rhan o stori'r genedl. Gellir ystyried ansawdd chwedlonol y Diwygiad ar y pryd ac yn ystod y ganrif ers hynny fel stori fawr yn y cyd-destun hwn felly.

Fodd bynnag, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y capel yn fan i addoli ac yn ganolbwynt i weithgarwch cymdeithasol y gymuned yn y dref a'r wlad i nifer sylweddol o'r boblogaeth. Mae cyfrif niferoedd aelodau a mynychwyr sefydliadau crefyddol yng Nghymru yn ystod y ganrif o dan sylw wedi profi'n anodd i haneswyr am nifer o resymau ymarferol, gan gynnwys natur a maint y ffynonellau o wybodaeth sydd ar gael. Ymhellach, yn naturiol, mae ysgolheigion yn ofalus wrth ymdrin ag ystadegau o'r fath, oherwydd yr anawsterau wrth fesur maint a natur cred ac ysbrydolrwydd unigolion a chymunedau. Mynegodd John Williams hyn wrth gyfeirio at y ffigyrau ar grefydd yn ei gyfrol o ystadegau hanesyddol ar Gymru:

> *If it is natural to associate religion with doubt, it is inescapable to surround any figures on religion with substantial doubts about their meaning and accuracy...Most of the difficulties are inherent in the subject and need no lengthy elaboration. It is not possible to reduce the depth of religious conviction or enthusiasm to a statistical measure - and certainly not to cover the population at large over any lengthy period of the past.*[13]

Fodd bynnag, ystyrir Cyfrifiad Crefydd 1851 Horace Mann fel y ffynhonnell gadarnaf am fanylion yr addoldai a'r niferoedd a oedd ynghlwm â hwy gan haneswyr y cyfnod. Nododd Mann yn ei gyfrifiad y dylid darparu lle yn yr addoldai i 76 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru a hyd at 100 y cant mewn rhai ardaloedd. O'r niferoedd o

---

[12] Mynegwyd hyn er enghraifft gan Russell Davies, *Secret Sins, Sex, Violence and society in Carmarthenshire 1870-1920* (Caerdydd, 1996), t. 186.
[13] John Williams, *Crynhoad o Ystadegau Hanesyddol Cymru*, Cyf.2 (Y Swyddfa Gymreig, 1985), t.250. Gweler pennod 13, tt. 250-353 am ei drafodaeth lawn a chynnwys yr ystadegau.

eisteddleoedd mewn addoldai yng Nghymru, roedd 32 y cant yn perthyn i'r Anglicaniaid, 2 y cant yn perthyn i'r lleiafrifoedd (er enghraifft, y Pabyddion, Undodiaid, Mormoniaid, a'r Crynwyr), a'r gweddill, sef 66 y cant, yn perthyn i'r enwadau Anghydffurfiol. Ar ddiwrnod y cyfrifiad, cofnodwyd bod 80 y cant o'r rhai a oedd yn bresennol yn yr addoldai yn y capeli Anghydffurfiol a 20 y cant yn yr eglwysi plwyf.[14] Beth bynnag y gellir ei ddweud am amwysedd cyfrifon o'r fath wrth wneud casgliadau manwl, ar lefel sylfaenol, mae'r ffigyrau yn dangos bod y mwyafrif o'r boblogaeth yn ymarfer crefydd ac mai i'r traddodiad Anghydffurfiol y perthynai'r brif ffrwd o addolwyr yng Nghymru. [15]

Yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg cafwyd cynnydd yn y niferoedd o addolwyr a berthynai i'r Eglwys sefydledig ac i'r Ymneilltuwyr yng Nghymru. Mae cyfrifiadau R. Tudur Jones wedi eu seilio ar gymhariaeth rhwng cyfrifiad Horace Mann 1851 o bresenoldeb yn yr oedfaon a chyfrifiad aelodaeth eglwysig 1905. Casglodd bod nifer mynychwyr yr Eglwys Anglicanaidd wedi dyblu yn y cyfnod hwn. Nododd i nifer aelodaeth yr eglwysi Ymneilltuol gynyddu o 268,512 o aelodau a gyfrifwyd yn bresennol yn oedfa'r bore ym Mawrth 1851 (cyfrifwyd 369,494 yn bresennol ar yr un dyddiad yn oedfa'r hwyr) i 550, 280 o aelodau ym 1905.[16]

Roedd llewyrch y mudiad Anghydffurfiol erbyn yr 1890au yn un gweledol iawn yn sgil y cynlluniau uchelgeisiol a roddwyd ar waith i atgyweirio ac adeiladu capeli newydd gan yr enwadau yn yr 1860au a'r 70au. Gwelwyd cefnu ar symlrwydd yr adeiladau a godwyd yn y gorffennol a chodwyd capeli enfawr, trawiadol, yn y trefi

[14] John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990), t.407.
[15] Ceir trafodaeth o arwyddocâd y ffigyrau sydd ar gael gan R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf. 1, tt.47-55. Ceir pennod yn nhraethawd doethur C.B. Turner, 'Revivals and Popular Religion' cyflwynedig i Brifysgol Aberystwyth, 1979, sy'n trafod yr ystadegau perthnasol hefyd.
[16] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.1, tt.51-52.

gan ddefnyddio arddulliau gothig a mwraidd.[17] Yn ogystal, yn y cyfnod hwn gwelwyd y wasg grefyddol yn ffynnu ac ymddengys bod achosion Cristnogol yn llwyddo.[18] Profodd yr Eglwys Anglicanaidd adfywiad o fath yn y cyfnod hwn hefyd. Cafwyd rhaglen i adnewyddu eu hadeiladau ac ymdrech gyffredinol i hybu eu hysgolion elfennol ac i efengylu.[19]

Roedd diwygiad crefyddol yn gysyniad cyfarwydd i Gymry'r oes. Profwyd y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif o dan arweinwyr megis Howel Harris, William Williams, Pantycelyn, Griffith Jones, Llanddowror a Daniel Rowland, pan welwyd pregethu grymus yn ennill dychweledigion. Wedi hynny, amcangyfrifodd Gomer Roberts y profwyd o leiaf un ar bymtheg o ddiwygiadau crefyddol, amrywiol eu dylanwad yng Nghymru, rhwng 1735 ac 1904.[20] Cafodd Diwygiad Beddgelert 1817-21 a Diwygiad Dirwestol 1839 ddylanwadau pellgyrhaeddol ar sawl ardal yng Nghymru. Profodd Diwygiad 1859-60, a darddodd o'r Unol Daleithiau, yn fudiad cenedlaethol, grymus yng Nghymru, ac ymddengys yr ystyriwyd y mudiad yn goron ar oes y diwygiadau yng Nghymru.[21] Nododd y Parch. Henry Hughes am Ddiwygiad 1859-60, yn ei gyfrol *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru* (1906), 'Ni bu yr un diwygiad erioed o'r blaen yn ein gwlad ni mor eang a helaeth ag ef.'[22]

---

[17] Kenneth O. Morgan, t.14. Yn ogystal gweler Anthony Jones, *Welsh Chapels* (Stroud, 1996).
[18] Glanmor Williams, 'Diwygiad 1904-05', yn *Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr,* 2005, t.6.
[19] Kenneth O. Morgan, t.14.
[20] Glanmor Williams, t.5.
[21] Gweler cyfrolau, Eifion Evans, *Revival Comes to Wales, The Story of the 1859 Revival* (Pen-y- bont ar Ogwr, 1967, cyhoeddwyd yn wreiddiol o dan y teitl *When He is Come* yn 1967); Eifion Evans, *Fire in the Thatch* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1996), sy'n cynnwys pennod ar Ddiwygiad Beddgelert.
[22] Henry Hughes, *Diwygiadau Crefyddol Cymru* (Caernarfon, 1906), t.392.

Cafwyd sawl diwygiad crefyddol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd nifer o'r diwygiadau yn rhai lleol a bychain ac weithiau yn gyfyngedig i brofiad un eglwys neu gapel. Ymysg y rhain, yn ystod ail hanner y ganrif o dan sylw, roedd adfywiadau Cwmafan, 1866, Cwm Rhondda, 1879, Caerfyrddin a Blaenau Ffestiniog, 1887, Dowlais, 1879, a Phontnewydd, Mynwy 1892.[23]

Ystyriwyd diwygiad yn gyfnod o adfywio neu ddwysáu ar fywyd yr eglwys. Roedd brwdfrydedd newydd i ymarfer crefydd a chynnydd yn nifer y tröedigaethau yn dynodi yr hyn a ystyriwyd yn ddiwygiad. Ystyriwyd presenoldeb a dylanwad yr Ysbryd Glân fel ffynhonnell yr ysbrydoliaeth newydd ac o ganlyniad ystyriwyd diwygiad yn ffenomen arbennig a oedd y tu hwnt i weithgarwch cyffredin yr eglwys. Disgrifiodd Glanmor Williams y ffenomen fel 'rhyw lifeiriant ysbrydol eithriadol sydd yn sgubo pawb a phopeth o'i flaen.'. Serch hyn, nododd: 'Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, byddai diwygiadau'n digwydd mor aml nes bod y boblogaeth yn disgwyl yn eiddgar i'r un nesaf wawrio.'[24] Nododd R. Tudur Jones i'r un perwyl: 'Yn wir, aethpwyd i feddwl am ddiwygiadau, nid fel ymweliadau hollol anghyffredin ac annisgwyliadwy, ond fel rhan o rythm bywyd yr eglwysi.'[25] Ymddengys y profodd y diwygiadau yn un o sefydliadau'r mudiad Anghydffurfiol ac yn sicr, mae lle i gredu felly fod patrwm sefydledig yn perthyn i'r anhrefn ymddangosiadol a gysylltwyd â diwygiad.

Nododd y seiciatrydd J. Rouges de Fursac, a gomisiynwyd gan weinidog cartref Ffrainc i astudio dylanwad cyfriniaeth ar ddatblygiad anhwylderau meddwl, ac a ymwelodd â Chymru yn ystod 1904-05 i'r perwyl hyn, ymhellach, fod yr anhrefn a

[23] Noel Gibbard, *Nefol Dân* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2004), t.13.
[24] Glanmor Williams, t.5.
[25] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf. 1, t.55.

gafwyd yn sgil diwygiad yn rhan o drefn yr eglwys a'r sefydliad Anghydffurfiol yng Nghymru. Nododd fod gweithgarwch anarferol o dro i dro yn rhan o batrwm nodweddiadol sy'n fframwaith i fywyd sefydliad o'r fath.[26] Mae'r syniad fod patrwm penodol yn perthyn i gyfarfodydd y Diwygiad yn sylfaenol i'r hyn y ceisir ei bwysleisio yn y traethawd hwn, fod trefn yn perthyn i'r anhrefn. Ceir trafodaeth bellach o'r syniad hwn ym mhennod 2, wrth edrych ar gyfarfodydd Diwygiad 1904-05. Yn ogystal, bydd ymhelaethu ar y safbwynt hwn yn y penodau dilynol wrth ystyried cymeriad y Diwygiad fel mudiad rhyfeddol; ffurf ar stori'r Diwygiad y cyfeiriwyd ati eisoes yn y Rhagarweiniad. Gan ddilyn trywydd de Fursac edrychir ar hunaniaeth y Diwygiad fel mudiad digymell, anhrefnus, rhyfeddol, gan geisio datgelu rhywfaint am y drefn ehangach a oedd ar waith a roddodd fod i'r Diwygiad yn y ffurf hon.

Yn sicr, roedd ymwybyddiaeth o'r traddodiad diwygiadol yn bod ar droad yr ugeinfed ganrif, a gellir gweld y feddylfryd hon wrth wraidd y gobaith a fynegwyd gan sawl carfan am ddiwygiad grymus arall. Ymhellach, mae elfen ar y gobaith hwn wedi ei hymgorffori yn rhan o chwedl Diwygiad 1904-05. Gwelir hyn wrth i eiriau'r Deon Howell ar ddiwedd ei oes yn 1903 gael eu croniclo'n rhan o'r stori. Yn y cyswllt hwn, nododd R. Hayward: '*The death-bed wish of Dean Howells that the Welsh people would enjoy a spiritual awakening was later reinterpreted as a prophecy of uncanny accuracy.*'[27] Fodd bynnag, canfyddir yr ymwybyddiaeth o'r traddodiad diwygiadol yng Nghymru wrth edrych ar gofnodion o weithgarwch Diwygiad 1904-05. Roedd

---

[26] Rouges de Fursac, *Un Mouvement Mystique Contemporain: Le Reveil Religieux du Pays de Galles* (Paris, 1907), gweler cyfieithiad Gareth Miles yn 'Y Diwygiad Trwy Lygaid Ffrancwr' yn *Taliesin* 124, 2005, t.25.
[27] R. Hayward, 'From the Millennial Future to the Unconscious Past: The Transformation of Prophecy in Early Twentieth-Century Britain' yn Bertrand Taithe a Tim Thornton (goln.) *Prophecy, The Power of Inspired Language in History 1300-2000* (Stroud,1997), t.163.

cyfeirio at ddiwygiadau'r gorffennol yn rhan o rethreg y Diwygiad, a dylid cofio bod cenhedlaeth o oedolion yn 1904-05 a fu'n dyst i brofiadau Diwygiad 1859-60, a chenedlaethau eraill y trosglwyddwyd y cof amdano iddynt. Gellir casglu felly fod syniadau ar led ynglŷn â'r hyn ydoedd natur diwygiad a'r drefn a'r dylanwadau y gellid eu disgwyl gan fudiad o'r fath. Gwelir yn *Y Tyst,* 21 Medi 1904, o dan y teitl 'Adfywiadau Diweddar', sut y cyfeirir at y modd y profodd sôn am ddiwygiadau'r gorffennol yn gyffredin ac yn rhan o'r gwaith o gynnal y diwylliant o ddiwygiadau yng Nghymru:

> Mynych y mae Cymru wedi ei galw yn 'Hen Wlad y Diwygiadau', a lluosog iawn yw y profion fod yr Arglwydd wedi gwneyd i'n cenedl 'bethau mawrion'...Pan yn rhoi mynegiad i'r awyddfryd yma, [am Ddiwygiad] mynych iawn y cyfeirir at Ddiwygiadau y gorphenol...Llawer gwaith y gwelsom galon siaradwr yn cynesu, ei wyneb yn disgleirio, a'i eiriau yn fflamio, wrth grybwyll ryfeddodau y diwygiadau hyny...Y maent wedi cryfhau ein ffydd yn ngallu yr Efengyl i newid hanes gwlad a chenedl; ac yr ydym wedi syrthio yn ol arnynt lawer gwaith. Diau y parhant hefyd i wneyd gwasanaeth mawr i ni eto am dymhor maith i dd'od.[28]

Serch hyn, ac er gwaethaf twf ymddangosiadol y mudiad Anghydffurfiol a chyfoeth ei draddodiad o ddiwygiadau yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae sawl hanesydd diweddar wedi nodi nad oedd ei seiliau mor gadarn ag y buont cynt. Nododd Glanmor Williams: 'Er bod Cymru i bob golwg yn dal yn wlad tra chrefyddol, o dan yr wyneb bodolai gwendidau na ellid mo'u cuddio.'[29] Ansawdd y grefydd oedd un o'r gwendidau hyn yn ôl sawl hanesydd. Nododd R. Tudur Jones mai pryder am hyn a fu'n gyfrifol am ddyheu cyffredinol am ddwysáu natur ysbrydol crefydd yng Nghymru. Meddai R. Tudur Jones am ddiwedd y bedwaredd ganrif ar

[28] *Y Tyst*, 21 Medi 1904, t.1.
[29] Glanmor Williams, t.7.

bymtheg fod yr ochr ddiwylliannol ar grefydd wedi dod yn bwysicach na'r elfen ysbrydol i nifer:

> Dangosai pobl fwy o frwdfrydedd tros yr ochr ddiwylliannol neu gymdeithasol neu adloniadol i fywyd yr eglwysi nag i'r ochr ddefosiynol, ysbrydol a Beiblaidd. Yn wir, un o'r datblygiadau mwyaf bygythiol at ddiwedd y ganrif oedd y trai mewn ysbrydolrwydd. Yr oedd ymwybod â'r byd tragwyddol yn pylu. A ffrwyth y dirywiad hwn oedd yr hiraeth ymhlith miloedd am weld Diwygiad mawr yn ysgubo'r wlad. Ac yr oedd Cymru i gael ei hysgytian i'w gwreiddiau cyn pen ychydig flynyddoedd gan Ddiwygiad 1904-5, gyda'i her ddwys i'r genedl gymryd yr ysbrydol o ddifrif unwaith eto.[30]

Ychwanegodd J. Gwynfor Jones:

> Teimlwyd bod angen diwygiad arall yn y wlad gan nad oedd cyflwr crefydd gyfundrefnol mor foddhaol ag y bu, ac er fod y peirianweithiau enwadol yn parhau i fod yn gryf, nid oedd ansawdd ysbrydol y genedl Anghydffurfiol ei hun mor gadarn, yn arbennig mewn ardaloedd trefol lle yr oedd absenoldeb o'r cwrdd yn amlycach nac mewn ardaloedd gwledig.[31]

Roedd y pryder hwn ynglŷn â chyflwr crefydd a'r awydd i brofi'r adfywio a gafwyd ar ffurf diwygiad yn y gorffennol, yn dir parod i feithrin mudiad arall o'r fath. Gellir gweld bod y pryder hwn hefyd yn ffrwyth y newid hir-dymor a welwyd yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a ddisgrifir gan R. Tudur Jones fel y Cytgord Efengylaidd yn dod yn safbwynt mwyafrif Cristnogion Cymru, a hynny ymysg Eglwyswyr ac Ymneilltuwyr. Serch hyn, nododd, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg: 'Edrychai'n wir fel petai cerrig sylfaen y Cytgord Efengylaidd yn cael eu cracio.'[32] Gellir gweld bod yr elfen efengylaidd hon yn ganolog i'r pryder ynghylch ansawdd y grefydd, ac yn sylfaen bellach i'r parodrwydd a oedd yn bodoli ar droad y ganrif i ymroi i adfywiad o'r math a brofwyd yn 1904-05.

---

[30] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf. 1, t.248.
[31] J. Gwynfor Jones, '"Ebychiad Mawr Olaf Anghydffurfiaeth yng Nghymru": Diwygiad 1904-05' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion 2004*, Cyfres Newydd, Cyf. 11, 2005, t.106.
[32] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.1, t.249.

O safbwynt ymarferol, mae sawl hanesydd wedi cyfeirio at y blynyddoedd sy'n arwain at Ddiwygiad 1904-05 fel cyfnod o baratoi. Cafwyd cynhadledd gyntaf Keswick yn 1875 yng ngogledd orllewin Lloegr, a gynlluniwyd i ddwysáu'r elfen ysbrydol wrth ymarfer crefydd. Roedd Diwygwyr o Loegr ac America yn bresennol, a chafodd hyn ddylanwad ar weithgarwch yng Nghymru. Yn yr 1890au gwelwyd pregethwyr yn weithgar yn cenhadu yng Nghymru ac fe brofodd gwaith efengylu'r Americanwyr, Dr. Reuben Torrey a William Alexander, yn ddylanwadol. Yn 1903 trefnwyd cynhadledd yn Llandrindod o dan arweiniad y Parch. Joseph Jenkins, Ceinewydd, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a'i nai y Parch. John Thickens, Aberaeron, a oedd i ddilyn patrwm y cyfarfod a gynhaliwyd yn Keswick yn ystod y flwyddyn flaenorol.[33]

Yn wir, ystyrir ymdrechion y Parch. Joseph Jenkins yng Ngheinewydd i ddwysáu'r elfen ysbrydol yng nghrefydd pobl ifanc yr ardal yn gychwyniadau Diwygiad 1904-05 gan sawl hanesydd. Profodd cychwyniadau'r Diwygiad yn destun trafod ar y pryd ac ers hynny, ac o ganlyniad profodd ei darddiad yn un o'r nodweddion hynny a roddodd ffurf i'r Diwygiad fel mudiad a stori ddadleuol. Mae'r dadleuon o dan sylw yn ymwneud â materion y bydd trafod pellach arnynt yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, yn benodol wrth edrych ar rôl Evan Roberts, y cymeriad amlycaf a gysylltir â'r Diwygiad, ym mhennod 5. Mae'r dadleuon hynny yn ymwneud yn bennaf â'r modd y priodolwyd Roberts a'i gyfarfodydd yng Nghasllwchwr fel cychwyn y Diwygiad gan y wasg ar y pryd.

[33] J. Gwynfor Jones, t.107.

Gellir ystyried bod y dadleuon o dan sylw yn enghraifft o'r modd y profodd y gwaith o adrodd stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny yn fater sensitif. Trwy hyn, gwelir y modd y bu creu cynrychiolaeth gyhoeddus o'r Diwygiad fel mudiad ar y pryd ac ers hynny yn broses arwyddocaol i garfanau o'r gymdeithas yn ystod 1904-05 ac wedi hynny, gan dystio i'r grym a briodolwyd i ddimensiwn poblogaidd, cyhoeddus y Diwygiad. Gellir priodoli'r sensitifrwydd hwn ymhellach i ymwybyddiaeth o gyflwr y Diwygiad fel mudiad a oedd yn cyfathrebu ac sy'n dal i wneud, nid yn unig â chynulleidfa leol, ond â chynulleidfa genedlaethol a thu hwnt. O'r safbwynt hwn gellir dadlau yr ystyriwyd y Diwygiad ar y pryd ac yn ystod y ganrif i'w dilyn yng Nghymru yn ddrych o gymeriad y genedl a'i phobl. Fodd bynnag, yn ei dro, fel y ceisir dangos yn y traethawd hwn, profodd yr elfen ddadleuol hon yn hanes y mudiad yn rhan o'i stori, a'r dadlau ei hun, ar amrywiol ffurfiau yn ymwneud â'r gwaith o'i chynnal.

Sefydlodd Jenkins gyfarfodydd i bobl ifanc, gyda'r bwriad o roi cyfle iddynt fynegi eu teimladau a'u profiadau ysbrydol. Ystyrir rhai o'r cyfraniadau a gafwyd yn y cyfarfodydd hyn yn gychwyn mudiad y Diwygiad gan rai. Gyda'r cyfraniad cyntaf a nodwyd yn arbennig roedd datganiad merch o'r enw Miss Florrie Evans mewn cyfarfod ym mis Chwefror 1904. Yr hyn a nodwyd yn arbennig am ei chyfraniad oedd argymhelliad ei datganiad, yr effaith a gafodd ar ei chynulleidfa a thrwy hyn y gred fod dylanwad yr Ysbryd Glân arni. Mae'n sicr y cafodd y cyfraniad hwn le yn stori'r Diwygiad a bydd trafod pellach ohoni o safbwynt symbolaidd rôl y ferch a'i gweithgarwch ym mhennod 3.

Cafwyd ymdrechion i gynnal cyfarfodydd a oedd yn dilyn y patrwm a sefydlwyd gan Jenkins mewn sawl rhan o Gymru a cheir tystiolaeth o adfywio yn y capeli tua'r adeg hon, gyda nifer yn nodi cynnydd yn y tröedigaethau a bedyddiadau. Ymysg y rhain roedd capeli Pisgah, Pîl, Pen Prysg, Pencoed a Rhos, Aberpennar. Erbyn haf 1904, cafwyd cyffro yng Ngheredigion, y Rhondda, ym Morgannwg ac yng ngogledd Cymru, a hynny o dan arweiniad nifer o weinidogion lleol ac eraill a wahoddwyd o ardaloedd eraill i bregethu mewn man penodol.[34] Mae'n sicr felly y cafwyd ymdrechion ymarferol gan arweinwyr yn lleol i sefydlu mudiad yn enw diwygiad ar y pryd, a hynny'n arwyddocaol o safbwynt yr hyn y ceisir ei ddadlau yn y traethawd hwn, fod elfen ymarferol a rhesymegol i'r strwythur a fabwysiadwyd yng ngweithgarwch y mudiad, a hynny yn rhan o'r gwaith a welwyd ymysg cymunedau wrth roi ffurf i fudiad y Diwygiad ar y pryd ac wrth adrodd ei stori. Gwelwyd y mudiad yn dylanwadu ar gymunedau ar draws Cymru a thu hwnt, gan brofi'n ffenomen ymhlith yr holl enwadau Anghydffurfiol; elfen y cyfeiriwyd ati ar y pryd ac ers hynny fel tystiolaeth mai o Dduw ac nid o ddyn roedd y mudiad. Cyfrannodd y dimensiwn hwn at ansawdd y Diwygiad fel stori fawr.

Yr hyn a nodwyd mewn llawer o'r adroddiadau am gychwyniadau'r cyffro mewn sawl man oedd parodrwydd a hyder yr ifanc, yn ferched ac yn fechgyn, i gymryd rhan, a phrofodd yr ifanc yn flaenllaw yng nghyfarfodydd y Diwygiad wedi hynny, ac mewn cynrychiolaethau o weithgarwch y Diwygiad ers hynny. Ystyrir y ffenomen hon yn y traethawd hwn o safbwynt y modd y sefydlwyd ffenomenau anarferol yn rhai nodweddiadol o'r Diwygiad, gan gynnig fframwaith penodol o weithgarwch a ddaeth i'w ystyried yn weithgarwch y Diwygiad. Bydd dadlau y gwelwyd dylanwad y

[34] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf. 2, tt.125-126.

diffiniadau a grëwyd ar y pryd o weithgareddau'r mudiad yn cael ei gynnal yn ystod y ganrif ers hynny hefyd. Yn y cyswllt hwn, arhosodd y ddelwedd hon o amlygrwydd yr ifanc yn y cyfarfodydd mewn delweddau o'r Diwygiad yn ystod yr ugeinfed ganrif gan brofi'n rhan o'i stori.

Gellir ystyried Hydref 1904 - Gwanwyn 1905 fel y cyfnod mwyaf bywiog yn hanes y mudiad. Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd cannoedd o gyfarfodydd yn enw'r Diwygiad yng Nghymru, a chafwyd ymddygiad gan unigolion a chymunedau yn y cartref a'r capel, yn y gwaith ac yn y gymdeithas a briodolwyd yn rhan o stori'r mudiad. Mae haneswyr wedi disgrifio'r modd roedd nifer o nodweddion y gweithgarwch yn gyffredin i ddiwygiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru. Mae ymwybyddiaeth gref o bechod, pryder ynglŷn ag achubiaeth, gweddïo hir ac emosiwn, gorfoleddu, moli a chanu hir ymysg y rhain.[35]

Mae lle i gredu bod gan yr elfen emosiynol wrth ymarfer crefydd le arbennig o amlwg yng ngweithgarwch Diwygiad 1904-05. Gwelwyd pwyslais y cyfarfodydd yn y capel, mewn cartrefi ac ar y stryd ar fynegiant personol gan unigolion o brofiadau a theimladau ysbrydol, gyda lle amlwg i emosiynau'r profiad. Gwelwyd yr elfen hon ar weithgarwch y mudiad, fel testun trafod ar y pryd, ac yn ystod y ganrif ers hynny yn cyfrannu at ffurf y mudiad fel un dadleuol a chyffrous. Gellir deall y dadlau a gafwyd ynglŷn â hyn, oherwydd y gred gyffredinol fod yr elfen emosiynol a'r elfen ddeallusol ar ddau begwn, ac o ganlyniad, mynegwyd pryder fod pwyslais ar yr ochr emosiynol yn tanseilio hygrededd deallusol, diwinyddol, ystyrlon y Diwygiad. Nododd Robert Pope na chafwyd dealltwriaeth ddiwinyddol ddigonol yng Nghymru i arddel emosiwn

[35] David Jenkins, *The Agricultural Community in South West Wales* (Caerdydd, 1971), t.244.

mewn bywyd crefyddol a bod disodli'r elfen emosiynol yng ngweithgarwch y capeli ers y Diwygiad wedi chwarae ei ran yn nirywiad Anghydffurfiaeth yn ystod yr ugeinfed ganrif. Nododd:

> Un adwaith ar ôl y Diwygiad oedd gwadu unrhyw rôl i emosiwn mewn crefydd o gwbl. Mae'n amlwg fod hyn yn gamgymeriad ar ran arweinwyr yr enwadau Ymneilltuol. Dengys mynegiant torfol emosiwn yn ystod y Diwygiad ei fod yn cwrdd ag angen cymunedol a phersonol, fel y mae profiadau ym Mharc yr Arfau ac yn Stadiwm y Mileniwm wedi gwneud i laweroedd wedi hynny.[36]

Gan osod y mater hwn o'r neilltu yma, yr hyn sy'n sicr yw, fel y gwelir yn yr astudiaeth hon, y bu'r elfen emosiynol o dan sylw, ymysg unigolion mewn cyfarfodydd, yn amlwg fel un o nodweddion y mudiad, yn stori'r Diwygiad. Mae'r ddelwedd o'r datganiad emosiynol gan yr unigolyn yn y capel yn mynnu trafodaeth benodol ym mhenodau 2 a 3, wrth ymdrin â natur gweithgarwch y capel a'r elfen ddramatig a oedd yn bresennol, wrth roi ffurf i'r mudiad.

Fel y soniwyd yn y Rhagarweiniad, mae'r hanesion lliwgar a geir o'r newidiadau yn y gymdeithas o dan ddylanwad y Diwygiad hefyd wedi aros yn y darlun poblogaidd o'r Diwygiad ers hynny; y ddelwedd o'r dafarn wag a'r capel gorlawn, cyfarfodydd yn parhau hyd oriau mân y bore, y meddwon yn newid eu ffyrdd, timau rygbi a phêl-droed yn dod i ben am fod cynifer o'r tîm wedi cael tröedigaeth, a chyfarfodydd gweddi yn y pyllau glo.[37] Mae'r gostyngiad a gafwyd mewn rhai ardaloedd ar drosedd a'r gweddustra a fabwysiadwyd gan unigolion wrth newid eu hiaith a'u harferion hefyd wedi aros yn y cof am ddylanwadau'r Diwygiad ar y gymdeithas. Serch hyn, mae lle i gwestiynu maint a natur dylanwad y Diwygiad ar ymddygiad

[36] Robert Pope, *Codi Muriau Dinas Duw*, t.62.

[37] Fel y gwelir mewn trafodaeth fwy manwl ym mhennod 4, mae Robert Pope yn cyfeirio at y ffenomen hon fel un o elfennau chwedlonol y Diwygiad. Gweler 'Dadfythu "Diwygiad Evan Roberts"' yn *Y Traethodydd*, Gorffennaf 2004, t.144.

aelodau o'r gymdeithas. Ceir trafodaeth benodol o hyn, a'r modd y cyfrannodd y delweddau hyn at chwedl y Diwygiad ym mhennod 4.

Daeth nifer o arweinwyr i'r amlwg yn ystod y Diwygiad, yn cynnwys gweinidogion a chantorion a diwygwyr ifanc.[38] Fodd bynnag, Evan Roberts yw'r enw amlycaf a gysylltir â Diwygiad 1904-05. Roedd Roberts yn chwech ar hugain oed, yn hanu o Gasllwchwr ac yn ddisgybl yn Ysgol John Phillips, Castell Newydd Emlyn ar y pryd. Bu'n mynychu'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ffrwyth gwaith Joseph Jenkins yn Aberteifi, ac mewn cyfarfod yng nghapel Blaenannerch o dan arweiniad Seth Joshua ar y 3ydd o Dachwedd 1904 y cafodd Roberts brofiad y mynegodd ei fod yn drobwynt yn ei feddylfryd. Wedi'r profiad hwn dychwelodd i Gasllwchwr i weithio ymysg y bobl ifanc ym Moriah, y capel y'i magwyd ynddo. Arweiniodd gyfarfodydd yng Nghasllwchwr ac oddi yno trefnwyd yr ymgyrch gyntaf ganddo a'i gyfeillion i ymweld ag ardaloedd eraill gyda'r nod o achub can mil o eneidiau. Roedd y can mil o eneidiau o dan sylw yn ffrwyth un o'r gweledigaethau a brofodd Roberts.[39]

Profodd dirgelwch ymddygiad Roberts yn gyffredinol mewn cyfarfodydd ac ar sawl achlysur penodol yn destun chwilfrydedd ac yn sail beirniadaeth ar y pryd ac ers hynny. Honnodd Roberts mai offeryn ydoedd yn llaw'r Ysbryd ac o ganlyniad ni fyddai'n gallu datgelu ei gynlluniau ac ym mhle y byddai ei ymweliad nesaf. Profodd y gred hon, ei fod yn offeryn yn llaw'r Ysbryd yn gynyddol niweidiol yn ôl nifer, i

[38] Gweler *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (Dolgellau, 1906) am wybodaeth am nifer o'r arweinwyr a Robert Ellis, *Living Echoes of the Welsh Revival 1904-5* (Llundain, 1951). Am waith mwy diweddar sy'n cynnwys crynodeb hwylus o rai o'r arweinwyr gweler Noel Gibbard (gol.), *Nefol Dân, Agweddau ar Diwygiad 1904-05* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2004), tt.22-78.
[39] Ceir cyfeirio at hyn ym mhennod 5.

Roberts yn bersonol, ac i raddau, gellid dadlau, i achos y Diwygiad.[40] Mae'n sicr y cyfrannodd Roberts fel ffigwr dadleuol at ffurf y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus ar y pryd, a mabwysiadodd rôl bendant fel prif gymeriad stori'r Diwygiad.

Ystyrir llythyr y Parchedig Peter Price, a oedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Nowlais, a ymddangosodd yn y *Western Mail* ar 31 Ionawr 1905, fel uchafbwynt yr ymosodiad cyhoeddus ar Roberts. Nododd yn ei lythyr, o dan y teitl, *'Double Revival in Wales'*, bod dau ddiwygiad ar waith, y cyntaf yn ddiwygiad diffuant a'r ail yn ddiwygiad ffals o dan arweiniad Roberts.[41] Ni chafwyd ymateb cyhoeddus i'r ymosodiad hwn gan Roberts ei hun. Fodd bynnag, profodd yr ymosodiad o dan sylw yn amlwg iawn yn chwedl y Diwygiad ers hynny. Ceir trafodaeth o arwyddocâd ymosodiad Price yn y cyd-destun hwn ym mhennod 5.

Yn ystod y cyfnod Hydref 1904 - Gwanwyn 1905 bu Roberts yn ymgyrchu drwy Gymru gan arwain cyfarfodydd yn y de a'r gogledd. Roedd ei ddulliau a'i ymddygiad yn destun diddordeb a dadl. Ymhelaethir ar hyn ym mhennod 5. Wedi cyffro misoedd bywiog y Diwygiad treuliodd Roberts dros bymtheng mlynedd yn byw yng nghartref Jessie Penn-Lewis a'i gŵr yng Nghaerlŷr. Roedd Penn-Lewis yn gymeriad amlwg yng nghynadleddau Keswick a bu'n llythyru â Roberts yn ystod y Diwygiad. Credir yn gyffredinol i Roberts ddioddef o straen a blinder eithafol o ganlyniad i'w weithgarwch yn ystod y Diwygiad. Yno y bu tan 1925 pan symudodd i Gaerdydd. Bu farw yng nghartref nyrsio Pen-y-lan, ar 29 Ionawr 1951. Mae'r dirgelwch a amgylchynai Roberts yn ystod y Diwygiad ac ers hynny, ac yn enwedig ei gyfnod

[40] Gweler John Aled Owen, 'A Study of Orality and Conceptuality During the Welsh Religious Revival of 1904-06', traethawd doethur cyflwynedig i Brifysgol Birmingham, 1997 am drafodaeth o ufudd-ddod Roberts i'r Ysbryd, ac yn benodol t.86.
[41] Ceir y llythyr yn llawn yn D. J. Roberts, *Cofiant Peter Price* (Abertawe, 1970), tt.97-98.

gyda'r Penn-Lewisiaid, wedi ennyn chwilfrydedd ac yn un o'r nodweddion eraill sy'n amlwg iawn yn chwedl y Diwygiad ganrif ers hynny. Eto, rhoddir ystyriaeth i'r cyfnod o dan sylw ym mhennod 5 wrth drafod y modd y cynrychiolwyd Roberts ar amrywiol ffurfiau yn ystod y ganrif gan gyfrannu at yr hyn ydoedd ffurf y Diwygiad ganrif yn ddiweddarach.

Mae haneswyr yn gytûn mai Roberts oedd prif gymeriad y Diwygiad. Serch hyn, bu ei ddulliau a'i ymddygiad yn ystod y Diwygiad yn bwnc llosg ar y pryd ac ers hynny. Nid ystyrir Roberts yn arweinydd ar y Diwygiad gan rai, mewn cylchoedd academaidd a chrefyddol, a cheir ymdrech amlwg mewn nifer o weithiau i bwysleisio'r gweithgarwch a oedd ar waith yn annibynnol ar ymdrechion Roberts. Gwneir hyn yn wyneb y modd, y soniwyd eisoes amdano, y portreadwyd Roberts fel cychwynnydd ac arweinydd y Diwygiad gan y wasg, a'r modd yr arhosodd y ddelwedd hon yn y meddwl poblogaidd ers hynny. Dylid nodi bod ambell hanesydd wedi cydio yn y gred hon hefyd. Nododd Kenneth O. Morgan am y Diwygiad: '*Inspired by the young Welsh evangelist, Evan Roberts, and radiating outwards from its place of origin at Loughor on the Carmarthenshire - Glamorgan boundary, it galvanized many militant young miners with a sense of a new social apocalypse...*'[42] Mae'r ymdrechion i gywiro'r darlun hwn o Roberts ymysg ysgolheigion yn ymdrech i oleuo eu cynulleidfa o'r manylion, a'r brif ddadl a gynhelir yw bod ffenomen helaethach ar waith a oedd y tu hwnt i gylchdro Roberts. Yn ogystal, pwysleisir y ddadl hon gan y garfan sy'n dadlau fod dylanwadau eraill ar waith a oedd y tu hwnt i weithgarwch a rheolaeth ddynol.

[42] Kenneth O. Morgan, tt.79-80.

Dylid cyfeirio yma at y modd bywiog y cofnodwyd hanes y Diwygiad gan y wasg ar y pryd. Roedd y wasg yn ddylanwadol iawn wrth ledaenu dylanwad y Diwygiad yn lleol, yn genedlaethol a thu hwnt. Nododd Aled Jones a Bill Jones yn y gyfrol *Welsh Reflections* sy'n olrhain hanes papur newydd *Y Drych*: '*The spasms of the revival on both sides of the Atlantic bore testimony not only to a crisis in religious life in Wales, but also to the power of journalism to help extend the revivalist experience into new areas, both geographical and cultural.*'[43] Nododd C. B. Turner ymhellach, fod y wasg ei hun wedi ei hadfywio yn sgil y modd yr aethpwyd ati i adrodd am y Diwygiad:

> *There was some truth in the theory that some newspapers had experienced a 'revival' in their own right. A mystic movement of mass proportion allowed journalists the scope to create fanciful illusions as to the origins and effects of the movement.*[44]

Mae eraill wedi esbonio diddordeb y wasg yn y Diwygiad yng nghyd-destun cyflwr y gymdeithas a oedd ohoni yng Nghymru ar y pryd. Nododd Dai Smith a Gareth Williams am y disgrifiadau a gafwyd o gyfarfodydd y Diwygiad yn y papurau:

> *The Welsh press reported these emotional, often colourful, meetings with the same degree of detail and fascination that they normally reserved for rugby football. This was not mere chance. Wales was a society in the making. All of its works intrigued the Welsh themselves.*[45]

Profodd ymrwymiad y wasg i adrodd hanes y Diwygiad yn ffenomen a phrofodd dylanwad y wasg ar natur y Diwygiad yn bwnc llosg. Dyma un farn mewn llythyr mewn llyfryn arbennig a gyhoeddwyd gan y *Western Mail* ar y pryd:

---

[43] Aled Jones a Bill Jones, *Welsh Reflections, Y Drych & America 1851-2001* (Llandysul, Awst 2001), t.64.
[44] C. B. Turner, 'Revivals and Popular Religion', traethawd doethur cyflwynedig i Brifysgol Aberystwyth, 1979, t.361.
[45] David Smith a Gareth Williams, *Fields of Praise, The Official History of The Welsh Rugby Union 1991-1981* (Caerdydd, 1980), t.126.

*The revival is like anything else in this world to which undue prominence is given in the press. It is just similar to the rage on Panama hats a few summers ago, or to ping-pong a couple of winters back. The similarity does not end there. Like them, it will die a natural death...I repeat that good results have sprung out of the whole thing, but, whilst I hold no brief on your behalf, I maintain that these results are due to you and not to Mr. Evan Roberts. He should be grateful to you for making him. Summed up, the whole thing is, and has been, a 'Western Mail' revival.*[46]

Yn hyn o beth gwelir sut roedd natur y gwaith newyddiadurol a oedd yn cofnodi hanes y Diwygiad yn destun ynddo'i hun i'w drafod yn y wasg. Yn y cyswllt hwn, gwelir ansawdd y Diwygiad fel testun trafod a stori fawr yn dod yn rhan o'r stori a adroddir. Gwelir hyn yn digwydd ar sawl ffurf yn ystod y ganrif ers hynny. Er enghraifft, ym mhennod 5 bydd cyfeirio at y broses hon ar waith mewn ffuglen, wrth i'r drafodaeth ar Evan Roberts ers 1904-05 brofi'n rhan o'r stori a adroddir am y Diwygiad. Gwelir hyn hefyd o safbwynt cynnwys hanesyddiaeth y Diwygiad, sy'n ymdrin â natur yr hanesyddiaeth honno, fel y gwelir yn y man yn y bennod hon.

Dylid cofio mai gyda Diwygiad 1904-05 y gwelwyd cofnodi gweithgarwch o'r fath yn drylwyr gan y wasg genedlaethol am y tro cyntaf a chafwyd cannoedd o ysgrifau yn y cyfnodolion Cymraeg niferus yn trafod amrywiol agweddau ar y Diwygiad. Yn wir, profodd y wasg genedlaethol yn gynhyrchiol iawn wrth olrhain y Diwygiad a manylion ei gyfarfodydd, a mynegwyd bodlonrwydd o sawl cyfeiriad ar y pryd o'i chefnogaeth i fudiad y Diwygiad. Gellir deall diddordeb y wasg yng nghyd-destun dylanwad y 'newyddiaduraeth newydd' a oedd yn ymroi i graffu ar aelodau amlwg yn y gymdeithas a'u portreadu. Nododd Aled Gruffydd Jones am y wasg yng Nghymru yn y cyfnod hwn:

[46] Barn a fynegwyd gan Howard. S. Wooding mewn llythyr a gyhoeddwyd yn rhifyn arbennig y *Western Mail, The Rev. Peter Price and Evan Roberts - Controversy on the Welsh Revival.*

> *...the press also contributed to the process of building and maintaining communities of locality and of belief. The sense of belonging to a place or to a group was articulated by both the local and sectarian press by means of detailed coverage of events, and features that included biographies and portraits of community leaders.*[47]

Yn y cyd-destun hwn felly gellir deall sut y lliwiodd y wasg gymeriad y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus, gan gyhoeddi portreadau o'r unigolion amlwg yn y mudiad ac wrth adrodd cynnwys y cyfarfodydd. Mae rôl y wasg yng ngweithgarwch y Diwygiad wedi profi'n ddadleuol, a haneswyr wedi ei beirniadu am ychwanegu at y cynnwrf arwynebol, gormodol a gafwyd.[48] Yn ystod misoedd Gwanwyn 1905 gwelwyd cyffro'r Diwygiad yn tawelu, a phrofodd natur gyffrous ond byrhoedlog y Diwygiad yn destun i sylwebyddion y dydd a haneswyr ers hynny ryfeddu yn ei gylch.

Er yr ystyrir y Diwygiad yng nghyd-destun y gyfres o ddiwygiadau crefyddol a brofwyd yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn gyffredinol, ymddengys bod haneswyr yn gweld y Diwygiad fel ffenomen a phrofiad unigryw i ryw raddau. Yn gyffredinol nid ystyrir y Diwygiad fel ffenomen sy'n perthyn yn daclus i'r gyfres o ddiwygiadau a brofwyd yng Nghymru. Cyfeiriwyd mewn gweithiau diweddar at y Diwygiad fel ffenomen a oedd yn dynodi diwedd cyfnod. Nododd R. Tudur Jones:

> Y mae rhywbeth yn alarnadol yn hytrach nag yn greadigol o gwmpas y Diwygiad hwn; nid pwerau ysgytiol yn cychwyn cyfnod newydd yn hanes Cristnogaeth Gymreig, fel y Diwygiad Piwritanaidd neu'r Diwygiad Methodistaidd, ond hen bwerau'n siglo'r genedl ar ddiwedd cyfnod.[49]

---

[47] Aled Gruffydd Jones, *Press, Politics and Society, A History of Journalism in Wales* (Caerdydd, 1993), t.199.
[48] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2, t.136.
[49] R. Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe, 1966), t.237.

Cyfeiriodd J. Gwynfor Jones at y Diwygiad fel, 'Ebychiad mawr olaf Anghydffurfiaeth yng Nghymru'. Nododd:

> O edrych ar safle'r Diwygiad mewn cyfnod a ddangosai newidiadau sylfaenol yn y gymdeithas, gwelir mai ef oedd yr olaf o'i fath yng Nghymru; arwydd ydoedd o ddirywiad mewn crefydd gyfundrefnol ac, fel yr awgrymwyd, y mynegiant grymus olaf o'r berthynas unigryw rhwng iaith, diwylliant a chrefydd ar raddfa genedlaethol.[50]

Yn wir, ystyrir y Diwygiad yng nghyd-destun y gyfres o ddiwygiadau crefyddol a brofwyd yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yma, gan mai hwn oedd 'yr olaf o'i fath'. Serch hyn, nodir mai arwydd ydoedd y Diwygiad o 'ddirywiad mewn crefydd gyfundrefnol', gan awgrymu nad deffroad a gafwyd mewn gwirionedd yn Niwygiad 1904-05. Cyfrannodd Gareth Williams i'r un perwyl at y drafodaeth gan nodi: 'Nid cyhoeddi milflwydd newydd a wnaeth Diwygiad Evan Roberts, ond tynnu'r llen ar gyfnod neilltuol yn hanes crefydd a chymdeithas yng Nghymru.' Gan gynnig dehongliad cymdeithasol, y cyfeiriwyd ato ar ddechrau'r bennod, awgryma Williams mai gweithgarwch wedi ei gyflyru gan yr emosiynau ynghlwm wrth brofiad poblogaeth a drawsblannwyd o'r wlad i'r dref oedd y Diwygiad. Cyfeiria at y Diwygiad fel 'math o edifeirwch torfol...gan bobl a oedd newydd eu dadwreiddio o sicrwydd eu cynefin gwledig a'u hyrddio i ganol trobwll trefol, dieithr...'[51] Mynegodd, ymhellach, yn unol â'r farn hon mai gwaedd pobl wedi eu rhwygo rhwng dau ddiwylliant a gafwyd yn Niwygiad 1904-05.[52]

Ymddengys nad yw lle'r Diwygiad yn hanes y Gymru fodern wedi ei sefydlu'n llawn. Fel y nodwyd yn y Rhagarweiniad, ymysg rhesymau eraill, gellir deall natur anghyflawn hanesyddiaeth y Diwygiad yn wyneb y drafferth a geir wrth esbonio

[50] J. Gwynfor Jones, t.137.
[51] Gareth Williams, 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd', t.128.
[52] Mynegwyd hyn yn David Smith a Gareth Williams, *Fields of Praise*, t.120 ac mewn cyd-destun arall yn Gareth Williams, *1905 and All That: Essays on Rugby Football, Sport and Welsh Society* (Llandysul, 1991), t.76.

tarddiad y mudiad a natur y gweithgarwch. Mae'r modd yr hepgorwyd y Diwygiad o astudiaethau ar y Gymru fodern wedi ennyn beirniadaeth. Nododd R. Tudur Jones:

> ...mae'n rhaid sylwi ar dawedogrwydd haneswyr ynglŷn â'r Diwygiad. Efallai nad yw'n syndod na cheir crybwylliad amdano mewn llyfrau cwmpasog eu harolwg fel *Christianity in a Revolutionary Age* gan K.S. Latourette neu *The Church in an Age of Revolution* gan Alec R. Vidler. Ond mae'r darllenwr yn codi aeliau wrth sylwi nad yw David Williams yn ei drafod yn *Modern Wales.* Mae'n enghraifft ddiddorol o'r ffordd y gall rhagdybiau a rhagfarnau dynion wyro barn haneswyr.[53]

Mae sawl ysgolhaig wedi nodi eu rhyfeddod at y diffyg ymdriniaeth a geir ar y Diwygiad mewn gweithiau eraill. Mae Robert Pope yn ei adolygiad o'r gyfrol *Nefol Dân* (2004) yn nodi sut y bu ysgolheigion yn gyndyn i fynd at wraidd gweithgarwch y Diwygiad. Nododd:

> Ni lwyddodd yr haneswyr cymdeithasol (megis C.R. Williams yn ei erthygl yn *The British Journal of Sociology* (1952), tt.245-51) i'n darbwyllo gyda'u cynigion gwahanol am achosion y diwygiad. A dichon mai dyna'r rheswm i rai ohonynt beidio â meiddio sôn amdano o gwbl (e.e. David Williams, *A History of Modern Wales* (Llundain, 1950) a Philip Jenkins, *A History of Modern Wales 1536-1990* (Llundain, 1992).[54]

Ychwanegodd nad yw'r cwestiynau sylfaenol ynglŷn â tharddiad y Diwygiad wedi eu hateb, ac nad oes atebion cadarn wedi eu sefydlu ynglŷn â rôl Evan Roberts, ei berthynas â Jesse Penn-Lewis a byrhoedledd y gweithgarwch. Nododd am y materion hyn, 'Dyma'r math o gwestiynau y dylid eu gofyn yn awr, ganrif ar ôl y diwygiad, nid er mwyn bychanu yr atgofion amdano ond i ddangos mor bwysig ydoedd yn hanes y genedl (ac nid yn ein hanes crefyddol yn unig)'.[55]

Gwelir bod natur ddrylliog hanesyddiaeth y Diwygiad yn hawlio trafodaeth gan ysgolheigion. Nid yn unig felly, y gwelir nad yw'r Diwygiad wedi ennyn ystyriaeth

---

[53] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl,* Cyf. 2, t.200.
[54] Robert Pope, 'Adolygiad o *Nefol Dân*: Noel Gibbard' yn *Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd,* Rhif 28, 2004, tt.100-101.
[55] Robert Pope, 'Adolygiad o *Nefol Dân'*, tt.97-103.

lawn yng nghyd-destun y drafodaeth ar hanes y Gymru fodern, ond hefyd gwelir sut y mae'r diffyg hwn yn hanesyddiaeth y Diwygiad yn destun trafod i'w ddehongli mewn astudiaethau diweddar. O ganlyniad, gwelir yr hanesyddiaeth ddrylliog yn profi'n rhan o'r stori a adroddir am y Diwygiad. Gwelir y drafodaeth a geir ar y Diwygiad yn ymwneud â natur y drafodaeth honno. Fel yr awgrymwyd eisoes, mae hyn ar un lefel yn adlewyrchu'r modd y gwelwyd y wasg ar y pryd yn trafod ei chynnwys ei hun. Gwelir felly debygrwydd yn y broses a oedd ar waith wrth roi ffurf i stori'r Diwygiad ar y pryd, ar waith ers hynny. Dyma enghraifft berthnasol i un o ddadleuon canolog y traethawd hwn, fod prosesau tebyg i'r rhai a welwyd ar y pryd wrth gynnal stori'r Diwygiad ar waith ers blynyddoedd 1904-05. Gellir dadlau ymhellach fod y drafodaeth ar natur ddrylliog yr hanesyddiaeth yn cynnal syniadau am y Diwygiad fel mudiad rhyfeddol sy'n llawn dirgelwch. Yn rhan o'r astudiaeth hon edrychir ar gynnwys rhai o'r gweithiau hanesyddol diweddar ar y Diwygiad o safbwynt eu harwyddocâd wrth edrych ar fodolaeth y Diwygiad fel ffenomen ers 1904-05 a natur y cynrychioliadau yr ymroddwyd i'w creu.

Wrth edrych ar hanesyddiaeth y Diwygiad yn ystod y ganrif ers blynyddoedd 1904-05, dylid nodi y cafwyd dadansoddiadau o weithgarwch y Diwygiad ar y pryd gan ddau Ffrancwr a fu'n ymweld â Chymru.[56] Roedd Henri Bois yn Athro yng nghyfadran Diwinyddiaeth Brotestannaidd Montauban yn ne Ffrainc a J. Rogues de Fursac y soniwyd amdano eisoes, yn seiciatrydd. Gweithiodd y ddau Ffrancwr a ymwelodd â Chymru yn ystod y Diwygiad heb yn wybod i'w gilydd ac yn ôl

[56] Henri Bois, *Le Reveil au Pays de Galles* (Toulouse, Rhagymadrodd Rhagfyr 1905); Rouges de Fursac, *Un Mouvement Mystique Contemporain: Le Reveil Religieux du Pays de Galles* (Paris, 1907).

haneswyr cyflawnwyd ganddynt ddwy astudiaeth sy'n rhagori ar astudiaethau eraill ar y Diwygiad ers hynny.[57]

Mae'r ddau Ffrancwr yn pwysleisio arwyddocâd diwylliannol gweithgarwch y Diwygiad. Yn ei astudiaeth, *Le Reveil au Pays de Galles* (1905) mae Bois yn pwysleisio cysylltiad y Diwygiad â chenedligrwydd Cymru ac yn cyfeirio at ddiwygiadau crefyddol achlysurol Cymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fel adfywiadau i'r genedl fel cenedl. Mae de Fursac yn *Un Mouvement Mystique Contemporain: Le Réveil Religieux du Pays de Galles* (1907) yn cynnig dadansoddiad seicolegol o'r broses o brofi tröedigaeth. Nododd fod y Cymry yn drwythedig yn y Beibl ac wedi eu disgyblu yn safonau a gwerthoedd y capel, ac mai deffro'r cyfan hyn yn eu hisymwybod oedd wrth wraidd tröedigaethau sydyn y Diwygiad.[58] Nododd de Fursac yn ei gasgliadau:

> Yn bennaf oll, teimlaf barch yn gymysg ag edmygedd at genedl fechan y Cymry sydd mor hyderus yn ei dyfodol, mor ddiffuant yn ei hargyhoeddiadau ac mor frwd i'w mynegi...Yn ail, mae gen i feddwl uchel o'r mudiad cyfriniol, a lwyddodd, am gyfnod o leiaf, i atal y cynnydd dychrynllyd mewn alcoholiaeth ac i droi'r ieuenctid oddi wrth ddiddanion afiach, gan ddod â chysur a hedd i aelwydydd aflawen...[59]

Serch yr edmygedd hwn, roedd gan de Fursac ei amheuon ynglŷn â natur y Diwygiad hefyd, ac yn benodol ynglŷn â gallu'r gorfoledd a gafwyd i effeithio ar feddyliau bregus. Ceir cyfeirio at y mater hwn ym mhennod 4.

---

[57] Mynegwyd hyn gan R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl,* Cyf. 2, t.205; Basil Hall, 'The Welsh Revival of 1904-05: A Critique' yn G. J. Cuming a Derek Baker (goln.) *Popular belief and practice : papers read at the ninth summer meeting and the tenth winter meeting of the Ecclesiastical History* (1972), t.292; Gareth Miles, 'Y Diwygiad Trwy Lygaid Ffrancwr', *Taliesin* 124, 2005, t.22.
[58] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl,* Cyf. 2, tt.203-207.
[59] Cyfieithiad i'r Gymraeg gan Gareth Miles yn ei erthygl, 'Y Diwygiad trwy lygaid Ffrancwr', yn *Taliesin 124*, 2005, t.25.

Yn ystod y degawd yn dilyn y Diwygiad cyhoeddwyd sawl cyfrol sylweddol yng Nghymru ar ei hanes. Gellir ystyried y gweithiau hyn fel y llif cyntaf o lenyddiaeth hanesyddol ar y Diwygiad. Mae ymddangosiad buan y gweithiau o dan sylw ynghyd ag arddull llawer o'r gwaith yn dadlennu awydd i osod y Diwygiad mewn cyd-destun hanesyddol. Fel y soniwyd eisoes, dadleuir yn y traethawd hwn yr aethwyd ati ar y pryd i sefydlu Diwygiad 1904-05, ac yn hyn o beth, gellir ystyried bod y gweithiau o dan sylw yn y cyswllt hwn yn arbennig o arwyddocaol o'r modd yr ymroddwyd i sefydlu'r mudiad fel un hanesyddol bwysig. Cyfeirir at hyn o safbwynt Evan Roberts fel ffigwr ym mhennod 5. Gellir ystyried yr ymdrechion buan hyn i rhoi lle i'r Diwygiad mewn hanes yn arwyddocaol o'r sensitifrwydd y cyfeiriwyd ato eisoes ynghylch ffurf y stori a adroddwyd yn enw'r mudiad. Ymhellach gellir ystyried y gwaith yn arwyddocaol o ymwybyddiaeth ymysg cyfoeswyr o'u cymdeithas a'u lle mewn amser, a hynny mae'n bosib oherwydd y newidiadau sylfaenol a oedd ar waith ar droad yr ugeinfed ganrif.

Yn 1906 cyhoeddwyd ymdriniaeth Elfed o brofiadau'r Diwygiad yn ei gyfrol, *With Christ Among the Miners*, sy'n olrhain hanesion cymeriadau unigol di-enw a'r hyn a welwyd ac a brofwyd gan yr awdur ei hun a rhai cyfeillion. Mae'r gwaith yn pwysleisio cyfraniad y bobl i weithgarwch y Diwygiad, ac yn ei gasgliadau mae Elfed yn nodi mai un o gyflawniadau'r mudiad oedd arddangos perthnasedd y ffydd Gristnogol yn y byd modern.[60] Yn unol â'r casgliad hwn, mae astudiaethau diweddar yn y maes wedi dehongli'r mudiad fel cyfle i efengylwyr arddangos perthnasedd y traddodiad diwygiadol yn y gymdeithas 'fodern'.[61] Hefyd yn 1906 cyhoeddwyd cyfrol

[60] H. Elvet Lewis, *With Christ Among the Miners, Incidents and Impressions of The Welsh Revival* (Llundain, 1906), t.185. Am ddisgrifiad o'r Diwygiad yng nghyd-destun bywyd a gyrfa Elfed gweler Emlyn G. Jenkins, *Cofiant Elfed 1860-1953* (Aberystwyth, 1957), tt.120-143.
[61] Gweler Janice Holmes, *Religious Revivals in Britain and Ireland 1859-1905* (Dulyn, 2000), t.181.

D. M. Phillips, *Evan Roberts the Great Welsh Revivalist and his Work* a gwelwyd cyhoeddi fersiwn Gymraeg, *Evan Roberts a'i Waith,* yn 1912.[62] Ystyrir y Parch. Daniel Mydrim Phillips, Tylorstown, yn un o awduron mwyaf toreithiog y Rhondda yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif a oedd 'yn un o'r Cristnogion uniongred hynny...a geisiai gyhoeddi'r neges Gristnogol glasurol yn wyneb llawer o anawsterau a gwrthwynebiad grymus.'[63] Mae tri chwarter y gyfrol, sy'n llawn manylion, yn ymroi i gyflwyno hanes Roberts o'i eni hyd y Diwygiad gan awgrymu mai ffawd Roberts o'r cychwyn oedd cyflawni'r gwaith a wnaed ganddo yn y mudiad. Yn ogystal cyhoeddwyd cyfrol sy'n gasgliad o adroddiadau a gafwyd yn *Y Goleuad* yn ystod y Diwygiad yn 1906, sef *Y Diwygiad a'r Diwygwyr.*[64] Ceir disgrifiadau manwl o gyfarfodydd y Diwygiad ym mhob rhan o Gymru yn y gyfrol ac fe'i defnyddir yn helaeth gan haneswyr diweddar ac yn y gwaith hwn. Yn ddiweddarach, cyhoeddwyd cyfrol yr ystyrir ei bod gyda'r mwyaf beirniadol o weithgarwch y Diwygiad o dan arweiniad Evan Roberts gan J. Vyrnwy Morgan, sef *The Welsh Religious Revival, 1904-05 A Retrospect and a Criticism* (1909). Fel y gwelir ym mhennod 5, mae'r ymosodiad a geir ar Roberts yn y gwaith yn amlwg iawn.[65] Cyhoeddwyd ambell gyfrol yn ystod y degawdau dilynol,[66] a chododd y Diwygiad mewn gweithiau ar hanes capeli'r enwadau Anghydffurfiol.[67] Ar adeg yr hanner can mlwyddiant

[62] D. M. Phillips, *Evan Roberts a'i Waith,* (y degfed argraffiad, Caerdydd, 1924, cyhoeddwyd yn gyntaf yn Gymraeg yn 1912 ac yn Saesneg yn 1906).
[63] Gweler Menna Davies, 'Traddodiad Llenyddol y Rhondda', traethawd doethur cyflwynedig i Brifysgol Aberystwyth, 1981, t.220.
[64] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (Dolgellau, 1906).
[65] J. Vyrnwy Morgan, *The Welsh Religious Revival, 1904-05 A Retrospect and a Criticism* (1909).
[66] Ymysg gweithiau cynnar eraill ceir, Anthropos, *Perlau'r Diwygiad* (1906), R. B. Jones, *Rent Heavens, The Revival of 1904* (Cyhoeddwyd yn gyntaf yn Llundain, 1930, ailargraffiad, Llundain, 1948); Robert Ellis, *Living Echoes of The Welsh Religious Revival* (1951).
[67] Er enghraifft, gweler, Edwin Watkins, *Hanes Eglwys Penuel Casllwchwr* (Eglwys Penuel Casllwchwr, 1933), tt.59-67; Rex H. Pugh, *A History of the Baptist Church Abercarn* (Casnewydd, 1932), tt.85-87; *Bethel (M.C) Heolfach, Ystrad, Rhondda, Dathlu Canmlwyddiant yr Achos 1855-1856 - 1955-1956, Rhaglen cyfarfodydd y Dathlu a Braslun o Hanes yr Achos* (Tonypandy, 1956), tt.33-35.

cyhoeddwyd dwy gyfrol goffa.[68] Yn ddiweddarach cafwyd gweithiau gan Eifion Evans a Brynmor P. Jones sy'n cynnwys bywgraffiad o Roberts.[69] Cyhoeddwyd sawl ysgrif gynhwysfawr yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif y bydd cyfeirio atynt yn y traethawd hwn sy'n cynnwys dadansoddiadau'r haneswyr, Basil Hall a Norman Williams o'r mudiad.[70]

Mae haneswyr cyfoes wedi trafod llawer o agweddau ar y Diwygiad. Mae dwy gyfrol R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl 1 a 2* (1981-82), y cyfeiriwyd atynt eisoes, yn gosod y Diwygiad yng nghyd-destun cyflwr diwylliannol a chrefyddol Cymru'r oes gan gynnig esboniad o weithgarwch y Diwygiad yn y cyswllt hwn. Pwysleisir bod y Diwygiad yn perthyn i un o gyfnodau mwyaf tyngedfennol y Gymru fodern a bod Cymru ar yr adeg hon o safbwynt ei diwylliant, ei chymdeithas a'i chrefydd yn profi cyfnod o argyfwng.[71] Ystyrir y gwaith gyda'r pwysicaf a mwyaf cynhwysfawr ymysg gweithiau diweddar o ran ei gyfraniad i hanesyddiaeth y Diwygiad.

Ceir astudiaethau sy'n manylu ar agweddau penodol ac sy'n craffu ar ardaloedd lleol.[72] Mae dylanwad y Diwygiad yn rhyngwladol hefyd wedi mynd â bryd haneswyr. Mae cyfrol Noel Gibbard, *On The Wings of The Dove* (2002), yn gyfraniad sylweddol i hanesyddiaeth y Diwygiad yn y cyswllt hwn. Mae'r gyfrol yn ein goleuo ar

---

[68] Sidney Evans a Gomer M. Roberts (goln.), *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-1905* (Caernarfon, 1954) a Mabel Bickerstaff, *Something Wonderful Happened* (Cronfa Goffa Diwygiad 1904-05, 1954).
[69] Brynmor P. Jones, *Voices from the Welsh Revival* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1995); Brynmor P. Jones, *An Instrument of Revival, The Complete Life of Evan Roberts* 1878-1951 (NJ, 1995); Eifion Evans, *The Welsh Revival of 1904* (Llundain, 1969).
[70] Basil Hall, 'The Welsh Revival of 1904-05: A Critique' yn G. J. Cuming a Derek Baker (goln.) *Popular belief and practice : papers read at the ninth summer meeting and the tenth winter meeting of the Ecclesiastical History* (1972); Norman Williams, 'Evan Roberts and the 1904-5 Revival' yn Stuart Williams (gol.) *Glamorgan Historian*, Cyf.5 (1968).
[71] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf. 1 a 2 (Abertawe, 1981 ac 1982).
[72] R. Tudur Jones, Geraint Tudur (gol.) *Tân ar yr Ynys* (Caernarfon, 2004); David Jenkins, *The Agricultural Community in South West Wales* (Caerdydd, 1971); Stuart Williams (gol.) *The Glamorgan Historian,* Cyf. 5 (1968); Russell Davies, *Secret Sins. Sex, Violence and Society in Carmarthenshire. 1870-1920* (Caerdydd, 1996).

ddylanwad y Diwygiad ar gymunedau dros y byd gan olrhain hanes gweithgarwch ynghlwm wrth y mudiad mewn sawl lle gan gynnwys gwledydd Ewrop, America ac India'r Gorllewin, Affrica, Madagasgar, Asia ac Awstralia. Serch hyn, dywed Gibbard yn ei gasgliadau, y dylid cofio yr amrywiwyd ar faint dylanwad uniongyrchol y Diwygiad mewn cymunedau dros y byd:

> *Zeal for revival can lead to exaggerated claims concerning a particular awakening. It is right to say that the 1904-05 Revival in Wales profoundly influenced most of the countries that have been considered. It is necessary, though, to distinguish between primary and secondary influence. In India, Madagascar, Patagonia and France, the Revival in Wales was the main influence; but in Korea, Austalia and New Zealand the influence was not so direct. In countries where the influence was direct, it varied in degree: the meetings in India and Madagascar were very similar to those in Wales, while meetings in Russia were quieter.* [73]

Nodir bod y cenhadon a'r gweinidogion o Gymru yn allweddol wrth gynnal diwygiadau tramor yn y cyfnod hwn. Ymddengys y cynlluniwyd y gyfrol i apelio at gynulleidfa fyd-eang. Mae sawl cyfrol wedi ei chyhoeddi'n ddiweddar yn Saesneg ar gyfer cynulleidfa Efengylaidd fyd-eang, ac ambell gyfrol yn ymddangos ôl paratoi penodol i apelio at gynulleidfa Efengylaidd yr Unol Daleithiau. Gellir deall rhai o'r gweithiau hyn yn gynnyrch ffenomen canmlwyddiant y Diwygiad. Gellir ystyried gwaith Kevin Adams yn y cyswllt hwn. Mae *A Diary of Revival, The Outbreak of the 1904 Welsh Awakening* (2004) a'r llyfr lluniau a'r fideo i gyd-fynd â'r gyfres yn gynnyrch a baratowyd mewn modd sy'n dathlu'r Diwygiad i'w werthu'n fyd-eang. Ar glawr y fideo defnyddir y darlun canlynol o Gymru i apelio at gynulleidfa ryngwladol:

> *Wales 'CYMRU' a small land of hills, mountains and once industrial valleys. A nation proud of its history and determined to guard its unique inheritance. A people with their own culture with many still speaking its own distinct tongue - Welsh - or 'Cymraeg' as the 'Cymro' or Welshman might say. A little land littered with castles and forts - remnants of battles with their Anglo*

[73] Noel Gibbard, *On the Wings of the Dove, The International effects of the 1904-05 Revival* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2002), t.220.

*Saxon neighbours. Yet a land covered with churches and chapels that speak of other battles of a more spiritual nature. The land that became known as the Land of Revival.*[74]

Ceir cyfeirio pellach at arwyddocâd y gwaith o dan sylw wrth drafod ffenomen y canmlwyddiant yn y traethawd hwn. Fodd bynnag, ceir cyfeiriadau at y Diwygiad mewn astudiaethau rhyngwladol cymharol ddiweddar o safbwynt mudiadau efegylaidd a phentecostaidd.[75] Yn ogystal, ceir ystyriaeth o'r Diwygiad mewn astudiaethau o adfywiadau crefyddol eraill a brofwyd ar ynysoedd Prydain yng ngwaith Janice Holmes.[76] A cheir cymhariaeth mewn ysgrif gymharol ddiweddar o'r Diwygiad â ffenomenau crefyddol diweddar yn yr 1980au a 90au.[77] Gwelwyd maes astudio Diwygiad 1904-05 yn ehangu yn ddiweddar. Ceir dadansoddiadau newydd, o safbwynt seicoleg y Diwygiad. Mae Gaius Davies yn ei bennod, 'Evan Roberts: wedi ei ddifa gan y tân', yn cynnig golwg ar brofiadau meddyliol Evan Roberts gan graffu ar ei ymddygiad a'i gymeriad gan gynnig ymdriniaeth manwl o fath newydd ar ei weithgarwch. Nododd:

> Credaf fod Roberts wedi methu â gweld perygl 'dychmygion o bob rhyw', a'i fod wedi drysu'n fawr wrth gymysgu ei ddychymyg ei hun ag arweiniad yr Ysbryd. Mae llawer mwy na hyn o'i le hefyd: os yr Ysbryd sydd ar waith yn y galon, ei bwrpas yw gogoneddu Crist; nid dwyn sylw ato ei hun y mae'r Ysbryd. Aeth yn obsesiwn gan Evan Roberts i sôn am yr Ysbryd Glân o'i fewn, a hynny mewn ffyrdd arbennig.[78]

Gan gyfeirio at bersonoliaeth Roberts nododd:

---

[74] Kevin Adams, *A Diary of Revival, The Outbreak of the 1904 Welsh Awakening* (CWR, 2004); Kevin Adams ac Emyr Jones, *A Pictorial History of Revival* (CWR, 2004).
[75] Er enghraifft, Edith L. Blumhofer a Randall Balmar (goln.) *Modern Christian Revivals* (Chicago, 1993).
[76] Janice Holmes, *Religious Revivals in Britain and Ireland 1859-1905* (Dulyn, 2000).
[77] Nigel Wright, 'Does Revival Quicken or Deaden the Church? A Comparison of the 1904 Welsh Revival and John Wimber in the 1980s and 1990s' yn Andrew Walker a Kristin Aune (goln.), *On Revival, A Critical Examination* (Carlisle, 2003), tt.121-135.
[78] Gaius Davies, 'Evan Roberts: wedi ei ddifa gan y tân?', yn Noel Gibbard (gol.), *Nefol Dân* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2004), t.160.

> Y gair y bydd cyfreithwyr a meddygon yn ei arfer am berson fel hyn yw'r gair *vulnerable*, a hynny yw, rhywun sydd yn hawdd ei niweidio, rhywun sydd yn archolladwy yn ei hanfod...Heb fynd mor bell â sôn am fod yn ofergoelus, gellir dweud fod elfennau *hygoelus* ym mhersonoliaeth Evan Roberts. Hynny yw, roedd yn *suggestible*, yn barod i gredu yn hawdd - ac yn sicr roedd ei ddilynwyr weithiau yn hygoelus dros ben. Dyma'r tir meddyliol lle y gellir disgwyl math arbennig o fywyd ysbrydol.[79]

Yn ogystal ceir cwestiynu newydd gan Davies ar baham y daeth y Diwygiad i ben a beth yn union oedd wrth wraidd y gweithgarwch a gafwyd. Ceir astudiaethau diweddar ar emynau a llenyddiaeth y Diwygiad hefyd.[80]

Ni cheir trafodaeth helaeth o'r agweddau a fabwysiadwyd tuag at y Diwygiad wedi 1904-05. Mae R. Tudur Jones yn ymdrin â'r feirniadaeth lem a gafwyd o'r Diwygiad yn ystod y degawdau a'i dilynodd gan ddisgrifio'r feirniadaeth ohoni o sawl cyfeiriad yn faleisus ac yn ganlyniad o bosib i'r siom a deimlwyd yn sgil methiannau'r mudiad.[81] Gellir ystyried yr ymateb hon yn adwaith o ganlyniad i gywilydd a deimlwyd yn sgil natur liwgar a chyffrous ond byrhoedlog y Diwygiad. Ymhellach nododd Jones y mabwysiadodd Cristionogion Cymru'r ugeinfed ganrif syniadau Gnosticaidd sy'n ystyried mynegiant emosiynol boed yn wylo neu'n orfoledd wrth ymarfer crefydd yn anweddus ac amhriodol. Nododd: 'A dichon fod a wnelo'r Diwygiad ei hun - neu'r syniadau poblogaidd amdano - rywbeth â thyfiant yr agwedd hon.'[82] Mae'n sicr y mynegwyd dryswch ynglŷn â natur y mudiad yn ystod y degawdau dilynol beth bynnag, a hynny mae'n bosib yn sgil natur ddramatig y Diwygiad a'r tawelwch a gafwyd wedi'r cyffro. Er enghraifft, mynegodd y Parch O.

[79] Gaius Davies, t.161.
[80] Noel Gibbard, *Caniadau'r Diwygiad, Golwg ar Emynau, Penillion a Thonau Diwygiad 1904-05* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2003).
[81] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf. 2, tt. 200-201.
[82] R. Tudur Jones, *Tân ar yr Ynys*, t.91.

Lloyd Owen y dryswch hwn yn ei atgofion yn ei gyfrol, *Cofion 60 Mlynedd* (1927). Er iddo fynegi ei werthfawrogiad o gyflawniadau'r Diwygiad, nododd: 'yr oedd yn gymysg iawn o wir a gau, o garu a chasâu, o ddynol a dwyfol, o erlid ac edmygu.'[83]

Fodd bynnag, prin yw'r drafodaeth uniongyrchol o gyflwr Diwygiad 1904-05 fel ffenomen yn ystod yr ugeinfed ganrif, ond serch hyn ceir ambell astudiaeth sy'n delio â'r cysyniad. Mae Robert Pope yn ei ysgrif, 'Dadfythu "Diwygiad Evan Roberts"', y cyfeiriwyd ati yn y Rhagarweiniad, yn ymdrin â'r delweddau a sefydlwyd o'r Diwygiad yng nghof gwerin ac yn cwestiynu sail rhai o'r delweddau hyn. Ymysg y nodweddion a ystyrir yn 'bileri'r chwedloniaeth' ganddo yw'r defnydd a wneir o'r enw 'Diwygiad Evan Roberts' (yma y cydia yn nehongliad Siôn Aled Owen o'r syniad fod 'Diwygiad Evan Roberts' yn eiddo cyhoeddus). Cyfeiria at y gred nad oedd pregethu yn ystod y Diwygiad a'r syniad fod gweithgarwch y Diwygiad wedi ei gyfyngu i Gymru fel elfennau chwedlonol o'r hanes hefyd. Bwriad yr ysgrif yw tanseilio'r credoau poblogaidd hyn. [84]

Yn rhan o fwriad y traethawd hwn o olrhain yr hyn ydoedd stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny, bydd cyfeirio cyson at yr ysgrif uchod gan Pope, oherwydd y modd y cyfeiria yn uniongyrchol at rai o'r elfennau hynny yr ystyrir yn y traethawd hwn iddynt fod yn ganolog i stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny. Gan ddilyn trywydd ysgrif Pope i raddau, edrychir ar y nodweddion hynny a oedd yn perthyn i weithgarwch y Diwygiad yn ystod 1904-05 yma a ganiataodd rhoi bod i'r Diwygiad fel mudiad ac ar ffurf stori ar y pryd ac yn ystod y ganrif ers hynny.

---

[83] O. Lloyd Owen, *Cofion 60 Mlynedd* (Merthyr Tudful, 1927), t.152.
[84] Robert Pope, 'Dadfythu "Diwygiad Evan Roberts"' yn *Y Traethodydd,* Gorffennaf 2004.

Mae traethawd doethur Siôn Aled Owen ar lafaredd a chysyniadoldeb y Diwygiad yn delio â'r pwnc hefyd. Ym mrawddeg gychwynnol ei draethawd dywed: '*The Religious Revival of 1904-06 in Wales is an event which remains very much alive in the folk memory of the Nonconformist churches in Wales, and beyond them.*'[85] Ymysg y rhesymau a nodir gan Owen am hyn, mae natur genedlaethol y mudiad, a'r ffaith mai'r Diwygiad ydoedd yr olaf o'i fath. Nodir hefyd bod rôl y wasg genedlaethol yn bwysig yn hyn o beth, yn ogystal â'r cysyniad a oedd ar led ar y pryd, y ffafriwyd Cymru gan Dduw. Nodir rôl Evan Roberts fel arweinydd y Diwygiad fel nodwedd bennaf y chwedloniaeth sy'n bod. Bwriad ei waith, fel ysgrif Pope, yw mynd y tu hwnt i'r darlun poblogaidd gan chwalu'r 'mythau' hyn.

Bydd y traethawd hwn ar y naill law yn dilyn trywydd y gweithiau hyn, yn yr ystyr y rhoddir ystyriaeth sylweddol i natur chwedl y Diwygiad â'r hyn ydoedd natur y cynrychioliad a gafwyd o'r Diwygiad ers 1904-05. Serch hynny, ar y llaw arall, nid bwriad y traethawd hwn yw cwestiynu fel y gwna Owen beth a ddigwyddodd mewn gwirionedd, ond yn hytrach y bwriad yw edrych ar yr hyn ydoedd chwedl y Diwygiad ar y pryd ac ers hynny, gan geisio datgelu rhai o'r prosesau a roddodd ffurf i'r chwedl ar y pryd a'i datblygiad ers blynyddoedd 1904-05. Trwy hyn, y gobaith yw dangos sut y bu'r chwedl hon ar amrywiol ffurfiau yn arwyddocaol o ystyr y Diwygiad i gymdeithas ar y pryd ac ers hynny. Yn y cyd-destun hwn felly, ystyrir gweithiau hanesyddol, newyddiadurol a chreadigol a gynhyrchwyd ers 1904-05 fel tystiolaeth o ffenomen y Diwygiad yn y ganrif a'i dilynodd.

[85] John Aled Owen, t.i.

Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar arwyddocâd rhai o'r gweithiau creadigol a ymddangosodd wedi 1904-05 eisoes. Mae nifer o weithiau diweddar a seiliwyd ar y Diwygiad wedi ennyn trafodaeth mewn cylchoedd llenyddol yng Nghymru. O ganlyniad ceir cynrychioliad o'r Diwygiad mewn ysgrifau beirniadol sy'n ymdrin â'r gweithiau o dan sylw, a hyn oll yn cyfrannu at yr hyn oedd ffenomen Diwygiad 1904-05 yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae ysgrif Katie Gramich, 'Dehongli'r Diwygiad: Ymateb Awduron Cymreig i Ddiwygiad 1904-05'[86] yn trafod y modd y cynrychiolwyd y mudiad mewn cyfrolau ffuglen a gyhoeddwyd yn ystod y degawd yn dilyn y Diwygiad. Mae Gramich yn canolbwyntio ar _Queen of the Rushes_ (1906) gan Allen Raine, a'r cyfrolau *Y Diwygiad ym Mhentre Alun* (1907) a *Llithiau o Bentre Alun* (1908) gan S. M. Saunders, *O Gorlannau y Defaid* (1905), gan Gwyneth Vaughan a nofel Rhys Davies, *The Withered Root,* (1927). Mae ei thrafodaeth yn ymwneud yn bennaf â chymharu agweddau'r awduron tuag at y Diwygiad.[87] Rhoddir sylw ganddi i'r gwahaniaethau yn y modd y cyflwynwyd y Diwygiad mewn gweithiau Cymraeg a Saesneg a gan awduron benywaidd a gwrywaidd.[88] Bydd cyfeirio at yr ysgrif hon wrth edrych ar y ferch ym mhennod 3 ac wrth edrych ar Evan Roberts ym mhennod 5. Mae traethawd doethur Philippa Margaret Davies yn ymdrin â'r modd y cynrychiolwyd y Diwygiad yng ngwaith Rhys Davies ac Allen Raine hefyd a cheir cyfeirio at ei gwaith yn y traethawd hwn hefyd.[89] Serch hyn, mae ffocws yr ymdriniaeth o weithiau creadigol yn y traethawd hwn ar weithiau mwy diweddar.

---

[86] *Taliesin* 128, 2006.

[87] Allen Raine, _Queen of the Rushes_ (Llundain, 1905); Gwyneth Vaughan, _O Gorlannau'r Defaid_ (Caerfyrddin 1905); Rhys Davies, *The Withered Root* (Llundain, 1927); S. M Saunders, *Y Diwygiad ym Mhentre Alun* (Wrecsam, 1907); S. M. Saunders, *Llithau o Bentref Alun* (1908). Ymysg gweithiau ffuglen cynnar eraill mae Max Baring, *A Prophet of Wales* (Llundain, 1905) a W. Margam Jones, The *Stars of the Revival* (Llundain, 1910).

[88] Katie Gramich, 'Dehongli'r Diwygiad: Ymateb Awduron Cymreig i Ddiwygiad 1904-05', *Taliesin* 128, 2006, tt.12-28.

[89] Philippa Margaret Davies, 'History in literature: the writings of Rhys Davies, a case study', traethawd doethur cyflwynedig i Brifysgol Caerdydd 2001.

Ceir ymdriniaeth ddiweddar o ddrama a seiliwyd ar y Diwygiad a gynhyrchwyd yn 1980. Mae Urien Wiliam yn ei ysgrif 'Cnawdol Dân neu Nefol Dân?: Dramateiddio Adfywiad Crefyddol 1904-05' yn sôn am ei ddrama 'Cnawdol Dân' a seiliwyd ar y Diwygiad ac a gomisiynwyd ar adeg Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Lliw 1980.[90] Bydd cyfeirio at y gweithiau hyn ym mhennod 5 wrth edrych ar Evan Roberts. Serch hyn, oni bai am ambell erthygl neu adolygiad a gafwyd yn y wasg o ddramâu a nofelau a seiliwyd ar y Diwygiad, prin iawn yw'r drafodaeth ynghylch arwyddocâd gweithiau mwy diweddar.[91] Nid yw'r corff o weithiau creadigol a ymddangosodd yn ddiweddar iawn wedi eu hystyried yn llawn o safbwynt eu hystyr yn hanesyddol.

Ceir trafodaethau tebyg mewn meysydd eraill, er enghraifft mewn ysgrif ddiweddar yn *Taliesin* mae R.Alun Evans yn trafod sut y portreadwyd Ann Griffiths yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf gan y cyfryngau radio a theledu ac mewn llenyddiaeth, dramâu a sioeau cerdd a gyfansoddwyd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Er yr ymddengys mai mesur y dehongliadau a gafwyd o gymeriad Ann Griffiths yw bwriad y gwaith, mae'r ysgrif yn codi cwestiynau allweddol ynglŷn â pherthynas y cyfryngau creadigol â hanes ac yn arddangos yr angen i ystyried y math hwn o waith mewn cyswllt hanesyddol.[92]

---

[90] Urien Wiliam, 'Cnawdol Dân neu Nefol Dân?: Dramateiddio Adfywiad Crefyddol 1904-05' yn *Taliesin* 124, 2005, tt.27-33.

[91] Adolygiad o 'r ddrama 'Cnawdol Dân', Eigra Lewis Roberts, 'Cerdda nôl Cnawdol Dân', *Y Cymro*, 12 Awst 1980, t.14; Adolygiad o 'Hen Rebel', Dafydd Llewelyn, 'Y Diwygiad di- ddigwyddiad', *Barn*, Rhagfyr/Ionawr 2005-6 tt. 96-99; Adolygiad o 'Hen Rebel', Cynhyrchiad Hydref 2005, Eleri James, 'Diwygiad Dramatig?' yn *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, Cyf.42, Rhif 3, tt. 24-26; Erthygl am y sioe 'Amazing Grace', 'Sioe y Diwygiad', *Golwg*, 7 Ebrill 2005; Erthygl am y nofel *Fel Nerthol Wynt*, Elfyn Pritchard, 'Gwallgofrwydd a Chrefydd, *Golwg*, 15 Ionawr 2005, t.19. Erthygl am y nofel *Tocyn i'r Nefoedd*, 'Haleliwia Dyn y Rhifau', *Golwg*, 4 Tachwedd 2004.

[92] R. Alun Evans, 'Dehongli Merch Gyffredin Anghyffredin' *Sylwedd darlith a draddodwyd i Gymdeithas Emynau Cymru yn Aberystwyth 23 Ebrill 2005 yn *Taliesin 126*, 2005, tt.129-142.

Fel y soniwyd yn y Rhagarweiniad, mae'n debyg y gellir ystyried yr ymdriniaeth â geir yn y traethawd hwn o lenyddiaeth ar ryw lefel yn unol â damcaniaeth yr 'Hanesyddiaeth Newydd', term a fathwyd gan Stephen Greenblatt yn 1982 a ddadleuodd, yn ôl esboniad M. Wynn Thomas, 'nad am 'y wedd hanesyddol' ar lên y dylid sôn, eithr am y ffordd y mae llên, bob amser, yn wedd ar hanes.'[93] Hynny yw, ystyrir llenyddiaeth yn gynnyrch yr oes yr ymddangosodd yma, ac yn gyfrwng i ddadansoddi agweddau arni. Fodd bynnag, nid ar y wedd lenyddol y ceir y pwyslais yn y traethawd hwn wrth ymdrin â'r gweithiau creadigol. Ceir ymdrech yma i ystyried y gweithiau creadigol (diweddar yn arbennig) a seiliwyd ar y Diwygiad yn eu cyfanrwydd fel corff o weithiau arwyddocaol o safbwynt bodolaeth y Diwygiad fel ffenomen ers blynyddoedd 1904-05. Serch hyn, dylid pwysleisio eto, nad oes cofnod llawn yma o'r holl weithiau sy'n ymdrin â'r Diwygiad, a byddai sawl prosiect arall yn ofynnol i ymgymryd â gwaith o'r fath.

Ymddangosodd nifer o weithiau creadigol yn ystod yr ugeinfed ganrif a oedd yn portreadu'r Diwygiad gan gyfrannu at y stôr o ddeunyddiau a chyfryngau sy'n rhoi bodolaeth i'r Diwygiad mewn ffurf newydd. Ymysg nifer o weithiau eraill, mae'r Diwygiad yn ffenomen gefndirol yn nofel Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad*, (1961) lle y mae'r themâu o wallgofrwydd a chrefydd yn amlwg.[94] Cyfeirir yn y

---

[93] M. Wynn Thomas, 'Pwys Llên a Phwysau Hanes', yn John Rowlands (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), t.3, ac am ymdriniaeth manwl, gweler H. Aram Veeser (gol.) *The New Historicism* (Llundain ac Efrog Newydd, 1989) ac am enghraifft o'r feirniadaeth ar waith, gweler Stephen Greenblatt, *Shakespearean Negotiations* (Berkeley, 1988).

[94] Ymysg y nofelau perthnasol mae nofelau Rhys Davies, *The Withered Root* (1927); E.E.Thomas, *Where Eagles Fly...No Bird Sings* (Lerpwl, 1961); Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad* (Gwasg Gee, 1961); Pennar Davies, *Anadl o'r Uchelder* (Abertawe, 1958?); Pennar Davies, *Mabinogi Mwys* (Abertawe, 1979); Pennar Davies, *Gwas y Gwaredwr* (Abertawe, 1991); Gwenallt, *Ffwrneisiau, Cronicl Blynyddoedd Mebyd* (Llandysul, 1982); Elfyn Pritchard, *Fel Nerthol Wynt* (Llandysul, 2005); Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (Llanrwst, 2007); Dafydd Llewelyn, *Tocyn i'r Nefoedd* (Caerdydd, 2004). Mae gweithiau eraill yn cynnwys Gwilym Ap Ifor, *Yr Hen Bwerau, Detholiad o Ddyddiadur Dychmygol Evan Roberts Y Diwygiwr* (Aberystwyth, 2004, Cyhoeddiad cyntaf, Abertawe,1981) a straeon byrion, er enghraifft, Mihangel Morgan, Y *Corff yn y Parc a Storiau*

traethawd hwn at nofel Rhys Davies, *The Withered Root*, (1927) sy'n olrhain hanes y prif gymeriad Reuben Daniels, sydd wedi ei seilio i raddau helaeth ar Evan Roberts. Mae'r nofel yn naturiol yn gynnyrch ei oes o ran arddull ac yn gynnyrch awdur a gafodd ei fagu yn y cymoedd, cyn gadael yn fachgen ifanc gan ymsefydlu yn Llundain. Mae'r nofel yn cynnig darlun tywyll o fywyd y cymoedd a threfn y byd yno: '*...its squat rock-crowned hills imprisoned hardly any but the native Welsh, and in their bleak isolation the people lived their lives with all the primitive force of the Welsh - a natural life of toil, lust, and worship...These people toiled and died and the world knew little of them.*' [95]

Ceir darluniau lliwgar yn y gwaith o weithgarwch sy'n adleisio'r hyn a welwyd yng nghyfarfodydd y Diwygiad, y bydd cyfeirio atynt yn y traethawd hwn. Mynegir amheuaeth ddofn yn y gwaith o ddiffuantrwydd y moesoldeb newydd a fynegwyd ac o les gweithgarwch y Diwygiad a bortreadir yn y nofel. Gellir gosod yr ymateb hon gan Davies yng nghyd-destun ei syniadau am Anghydffurfiaeth yn gyffredinol. Yn ei hastudiaeth o'i lenyddiaeth, mae Philippa Margaret Davies yn ymdrin ag agweddau'r awdur tuag at Anghydffurfiaeth yn ei nofelau, gan gynnwys, *Count Your Blessings* (1932), *Jubilee Blues* (1938) yn ogystal â *The Withered Root* (1927).[96] Nododd am agweddau Rhys Davies fel a ganlyn: '*Nonconformity itself held no appeal for Davies. To him it had mysterious and inexplicable capacity to subdue rather than uplift the spirit and for this reason, all the blessings of religion were lost on him.*'[97] Eir ymlaen

---

*Ffeithiol Eraill* (Llanrwst, Hydref 1999). Cafwyd Sioeau cerdd gan The Wales Theatr Company, 'Amazing Grace' a Theatr Genedlaethol Cymru, 'Hen Rebel', yn ogystal â dramau eraill y bydd cyfeirio atynt yn y traethawd hwn.

[95] Rhys Davies, *The Withered Root* (Cyhoeddiad, The Library of Wales, 2007, Cyhoeddwyd yn gyntaf yn 1927), tt.1-2.

[96] Rhys Davies, *The Withered Root* (Llundain, 1927); Rhys Davies, *Count Your Blessings* (Llundain, 1932); Rhys Davies, *Jubilee Blues* (Llundain, 1938).

[97] Philippa Margaret Davies, t.171.

yn ei dadansoddiad i sôn am arwyddocâd y disgrifio a geir ar y Diwygiad yn y nofel, gan nodi: '*Traditionally held as a rebirth of spirituality, The Withered Root shows revivalism to be anything but spiritual in essence.*'[98]

Archwilir y tensiynau a geir rhwng y cnawd, yr ysbryd a moesoldeb yn y nofel gan olrhain hanes Reuben yn ymuno â'r Corinthiaid, ac yn dod yn arweinydd ar ddiwygiad crefyddol. Fel y nododd Gramich, mae'r portread o Reuben yn un o gydymdeimlad, sy'n ei liwio'n un diffuant a gonest ei galon a'i feddwl, a'i ddioddef ar ddiwedd y nofel sy'n ddramatig ac yn drist yn pwysleisio'r darlun hwn.[99] Er bod lle felly i ystyried y nofel yn gynnyrch y cyfnod hwnnw y gellir ei ystyried fel adeg pan oedd beirniadu llym ar y mudiad yn ffasiwn, ceir amrywiaeth o ystyriaethau sy'n pryfocio'r meddwl ynglŷn a natur cymhelliad y gweithgarwch a gafwyd yn y nofel. Ceir cyfeirio at nofel E. E. Thomas, *Where Eagles Fly...No Bird Sings* (1961) hefyd. Mae'r nofel yn dilyn bywyd y prif gymeriad Edward Lewis Evans, sy'n adleisio stori Evan Roberts i ryw raddau. Serch hyn, ceir cyfeirio uniongyrchol at Roberts a Diwygiad 1904-05 yn y nofel, gan gynnig darlun o'r ymateb a gafwyd tuag at y mudiad a'i weithgarwch yng ngogledd Cymru yn arbennig. O safbwynt y portread o dan sylw y cyfeirir at y gwaith yn y traethawd hwn.[100]

Mae tair nofel gan Pennar Davies a allai fod yn perthyn i'r maes, ond nid yn union chwaith: *Anadl o'r Uchelder* (1958); *Mabinogi Mwys* (1979); *Gwas y Gwaredwr* (1991).[101] Am drafodaeth o'r gweithiau sy'n cynnwys cyfeiriadau at y Diwygiad o

---

[98] Philippa Margaret Davies, t.191.
[99] Katie Gramich, t.25.
[100] E.E Thomas, *Where Eagles Fly...No Bird Sings* (Lerpwl, 1961).
[101] Pennar Davies, *Anadl o'r Uchelder* (Abertawe, 1958?); Pennar Davies, *Mabinogi Mwys* (Abertawe, 1979); Pennar Davies, *Gwas y Gwaredwr* (Abertawe, 1991).

safbwynt diwinyddiaeth yng Nghymru gweler gwaith Dewi Eirug Davies.[102] Yn y Rhagymadrodd i *Gwas y Gwaredwr* mae Pennar Davies yn dweud bod y nofel gyntaf yn ymwneud â 'gweithgarwch dychmygol Elias John, a'i lef megis yn adleisio gwaedd Ioan Fedyddiwr wrth herio drygau ei oes'. Yn yr ail, *Mabinogi Mwys*, caiff Arthur Morgan ei eni ac medd Davies: 'mae rhywfaint o gyfatebiaeth rhwng y rhain [amgylchiadau genedigaeth a magwraeth Arthur] a'r hanesion yn Efengylau Mathew a Luc am enedigaeth a mebyd yr Iesu.' Mae Pennar Davies yn dweud am *Gwas y Gwaredwr*: 'mae'r cymeriad canolog, Arthur Morgan, yn adlewyrchu rhywfaint o ddaioni yr Iesu'. Dyw'r rhain, felly, ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Diwygiad. Wedi dweud hynny, mae Elias John yn *Anadl o'r Uchelder* yn cychwyn 'Ymgyrch Crist y Cymry' gan ddefnyddio symboliaeth codi o'r marw yn un o nodweddion y mudiad, gan ddefnyddio arch at y pwrpas. Mae profiadau crefyddol cynhyrfus yn codi'n gyson yn ei waith ac mae D. Densil Morgan wedi disgrifio'r modd y dangosodd y nofel 'fod gwedd brofiadol troedigaeth ysbrydol yn bwysig iddo'.[103] Gellir gweld adlais o agweddau ar weithgarwch Diwygiad 1904-05 yn y gwaith a cheir cyfeirio at gynnwys y gweithiau o dan sylw yn y traethawd hwn.

Bydd cyfeirio cyson at nofel Gwenallt, *Ffwrneisiau, Cronicl Blynyddoedd Mebyd* (1982) hefyd yn yr astudiaeth hon. Ystyrir y nofel yn un hunangofiannol, a cheir yn y gwaith ddarlun cyfoethog o gymdeithas yng nghwm Tawe ar droad yr ugeinfed ganrif. Mae'r Diwygiad yn bresennol yn y nofel fel ffenomen gefndirol sy'n cyffwrdd â'r gymdeithas a ddisgrifir, a darlunnir yr amrywiol agweddau a fabwysiadwyd tuag at

[102] Dewi Eirug Davies, Pennod 2, 'Person Crist a Grym yr Ysbryd Glân', yn Dewi Eirug Davies, *Diwinyddiaeth yng Nghymru 1927-1977* (Llandysul, 1984).
[103] Gweler D. Densil Morgan, *Pennar Davies* (Caerdydd 2003), tt.10-11 a D. Densil Morgan, *Cedyrn Canrif, Crefydd a Chymdeithas yng Nghymru'r Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd, 2001), t.161. Am ddisgrifiad gan Pennar Davies o'i brofiad yntau o droedigaeth o dan ddylanwad efengylwr crwydrol yn Aberpennar gweler atodiad yn ysgrif J. Gwyn Griffiths, 'Coffáu Pennar Davies' yn *Taliesin* 97, 1997.

y mudiad gan rai o gymeriadau'r nofel. Bydd cyfeirio hefyd at gyfrol Ifor Ap Gwilym, *Yr Hen Bwerau*, sy'n ddetholiad o ddyddiadur dychmygol Evan Roberts. Cyhoeddwyd hi yn gyntaf yn 1981, ac ailargraffwyd hi yn 2004 ym mlwyddyn y canmlwyddiant. Ceir golwg yn y gwaith ar ddehongliad o feddylfryd Roberts o fis Tachwedd 1903, cyn iddo ddod i amlygrwydd yn enw'r Diwygiad, hyd at Ebrill 1906, wedi cyffro'r digwydd, lle y cofnodir ei feddyliau ar ei daith ar y trên i Gaerlŷr at y Penn-Lewisiaid.

Cyhoeddwyd sawl nofel Gymraeg y cyfeiriwyd atynt eisoes yn y Rhagarweiniad ar adeg y canmlwyddiant a oedd yn ymdrin â'r Diwygiad. Mae ymddangosiad y nofelau yn y lle cyntaf yn ategu arwyddocâd y Diwygiad fel ffenomen, ganrif yn ddiweddarach, yn y Gymru Gymraeg. Ar un lefel, gellir deall ymddangosiad y nofelau fel un ffurf ar ddiwylliant Cymraeg ei iaith yn ymateb i ffurf flaenorol arno, nad yw'n bodoli mwyach. Mae'r ffurf ddiweddar, sef y nofel Gymraeg, yn cyfathrebu â chynulleidfa leiafrifol, o ran maint a meddylfryd, ac yn dehongli mudiad crefyddol, Cymreig a Chymraeg a brofodd yn fudiad torfol a phoblogaidd.

Mae ymddangosiad y gweithiau ganrif wedi'r Diwygiad hefyd yn arwyddocaol. Mae'r gweithiau yn amlwg yn rhan o ffenomen y Diwygiad ganrif yn ddiweddarach, ond gwelir hefyd fod dathliadau'r canmlwyddiant yng Nghymru ar amrywiol ffurfiau yn ddeunydd crai i'r gwaith.[104] Bydd cyfeirio at y gweithiau o dan sylw drwy gydol y traethawd hwn wrth drafod y cynrychioliad o'r Diwygiad ers hynny ac ar adeg y canmlwyddiant. Ceir yn y nofelau ddehongliadau penodol o gymuned y capel ac o

[104] Er enghraifft, mae nofel Dafydd Llewelyn, *Tocyn i'r Nefoedd,* wrth bortreadu'r gweithgarwch a geir wrth ddathlu canmlwyddiant capel y pentref dychmygol, Llanaber, yn dehongli'r meddylfryd a gafwyd wrth ddathlu canmlwyddiant Diwygiad 1904-05 yng Nghymru. Yn nofel Elfyn Pritchard, *Fel Nerthol Wynt*, ceir darlun o'r modd y nodwyd y canmlwyddiant drwy gyfarfodydd arbennig yn y capel, a darlithiau gan haneswyr, gan godi cwestiynau ynglŷn ag ystyr y gweithgarwch.

weithgarwch y gynulleidfa yn ystod Diwygiad 1904-05.[105] Mae nofel Elfyn Pritchard *Fel Nerthol Wynt* (2005), sydd wedi ei lleoli yn y Gymru gyfoes, yn olrhain hanes y prif gymeriad, Ifan Roberts sy'n cael profiad ysgytwol mewn eglwys yn La Clusaz tra ar ei wyliau gyda'i wraig yn yr Alpau yn ne Ffrainc. Dilynir meddylfryd Ifan, wedi'r profiad hwn, wrth iddo frwydro â chyfrifoldeb newydd y credir iddo'i fabwysiadu. Credodd y trosglwyddwyd dogfen iddo ar ei gof drwy wyrth, sy'n destament coll a ddarganfuwyd am hanes yr Iesu a'i ddilynwyr, a'r ddogfen honno'n datgelu sut y cynlluniwyd y croeshoeliad, a hynny'n rhan o'r cynllun i ddarbwyllo'r byd o wirionedd y ffydd Gristnogol. Meddai Elfyn Pritchard mewn erthygl yn *Golwg*: 'Yn y nofel, o'n i eisiau gwneud rhyw gyfochredd rhwng y prif gymeriad ac Evan Roberts, y Diwygiwr...Ac mae yna lawer o bobol o ffydd y diwygiwr yn rhyw ddweud o hyd "rhyw reidrwydd roddwyd arna i". On i'n trio darlunio Ifan Roberts felly.'[106]

Ceir portread yn y nofel o effaith argyhoeddiad yr unigolyn yn y fath sefyllfa ar yr unigolion o'i gwmpas ac unigedd yr unigolyn hwn yn ei gymdeithas. Ar un wedd, trawsblennir profiad Evan Roberts yn y nofel i'r gymdeithas gyfoes, gan gwestiynu ystyr y cofiannu a gafwyd ar achlysur y canmlwyddiant yn y cyswllt hwn. Gwneir hyn, drwy blannu Ifan, a'i argyhoeddiadau newydd, mewn cyfarfod a drefnwyd yn y capel i goffáu Diwygiad 1904-05. Yn hyn o beth mae'r nofel yn cynnig dimensiynau diddorol i archwilio'r hyn ydoedd ffenomen y canmlwyddiant yn 2004-05.

Nofel gan Gareth Miles yw *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (2007). Bydd cyfeirio cyson ati yn yr astudiaeth hon. Mae ôl ymchwil manwl i adroddiadau'r papurau newyddion yn y nofel, ac ystyrir y gwaith, ymysg gweithiau ffuglen eraill, gwaith newyddiadurol

[105] Dafydd Llewelyn, *Tocyn i'r Nefoedd* (Caerdydd, 2004); Elfyn Pritchard, *Fel Nerthol Wynt* (Llandysul, 2005); Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (Llanrwst, 2007).
[106] *Golwg*, 15 Ionawr 2005, t.19.

a hanesyddol fel cynnyrch sy'n ymroi i adrodd stori'r Diwygiad gan greu delweddau o'r mudiad ers 1904-05. Adroddiadau newyddiadurol dychmygol y newyddiadurwr W. T. Davies yw sail cynnwys y nofel, a'r ysgrifennu mewn sawl man o ganlyniad yn adleisio'r arddull a gafwyd mewn adroddiadau ar y pryd. Yn wir, gellir gweld yn yr agosatrwydd hwn ddychaniaeth gan yr awdur o'r modd yr aethpwyd ati ar y pryd i gofnodi'r gweithgarwch. Er yr adlewyrchir llawer o gynnwys yr adroddiadau o dan sylw, ceir dryllio ar y ddelwedd o'r Diwygiad fel mudiad a foddodd y gymdeithas yn llwyr. Yn wir, aeth un adolygydd mor bell â nodi fod y nofel, '...yn datgelu agwedd newydd o'r bennod hon yn hanes crefyddol Cymru.'[107] Nododd y newyddiadurwr dychmygol yn y Rhagymadrodd, dyddiedig Medi 1926: 'Ni faliai hanner y boblogaeth - o leiaf - y naill ffordd na'r llall ynglŷn ag effeithiau'r Diwygiad ar fywyd crefyddol Cymru. Ond ni allai'r mwyaf di-hid o foddion gras ei anwybyddu, gan i'r wasg feunyddiol a chyfnodol roi cymaint o sylw iddo, ac i'r meibion a'r merched a'i harweiniai.'[108] Ceir sylwebaeth yma ar stori'r Diwygiad ar y pryd.

Ceir yn y gwaith bortreadu nifer o sefyllfaoedd a chymeriadau i bryfocio rhai o'r syniadau hynny a geir ynglŷn â'r gweithgarwch gyda thinc o ddychan am gymhelliad y rhai a gymerodd ran yn y mudiad. Serch hyn, mae'r gwaith yn frith o ddisgrifiadau o olygfeydd y Diwygiad, ac felly ar un lefel yn ymwneud â'r gwaith o gynnal delweddau o weithgarwch y Diwygiad ganrif yn ddiweddarach, gan gyfrannu at yr hyn yw stori'r Diwygiad ers hynny. Yn ychwanegol, ymhlyg yn y dimensiwn hwnnw o'r gwaith sy'n mynd ati i danseilio rhai o'r delweddau traddodiadol, cynhelir yr elfen honno ar ffurf y mudiad fel un sy'n pryfocio, ac o ganlyniad mae'r gwaith ar ryw lefel yn cynnal y mudiad fel ffenomen ddadleuol yn y ffurf hon. Yn y traethawd hwn,

[107] Catrin Beard, 'Purdeb a Phechod', Adolygiad yn, *Barn*, Rhif 541, Chwefror 2008.
[108] Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel*, t.9.

bydd cyfeirio at y broses hon o gynnal y drafodaeth ar y Diwygiad mewn ffurf benodol mewn gweithiau hanesyddol, newyddiadurol a chreadigol.

Mae *Tocyn i'r Nefoedd* (2004) gan Dafydd Llewelyn yn nofel arall a ysbrydolwyd gan agweddau ar weithgarwch y Diwygiad, ond ni cheir cyfeirio uniongyrchol ati yn y gwaith. Ceir hanes gweinidog ifanc sy'n darogan rhifau'r loteri a phortread o ymateb y gymdeithas o'i gwmpas wrth i'r sefyllfa gael ei briodoli'n ffenomen. Gellir dehongli'r portread hwn yn sylwebaeth ar y berthynas honno, rhwng yr unigolyn, ei gymdeithas, y cyfryngau a'r gymuned ehangach. Gellir gweld adlais mewn mannau o'r hyn ydoedd ffenomen y canmlwyddiant yng Nghymru hefyd. Bydd cyfeirio at hyn yn y traethawd.

Nid ar ffurf y nofel ffuglen yn unig y profodd y Diwygiad yn ysbrydoliaeth i weithiau creadigol. Ar adeg y canmlwyddiant cafwyd cynhyrchiad gan gwmni theatr Solo a oedd yn ddrama un-dyn a oedd wedi ei seilio ar y Diwygiad. Fe'i perfformiwyd yn ystod wythnos Eisteddfod Casnewydd 2004 gan Llion Williams. Nodwyd yn y cylchgrawn *Golwg*: 'Mae Dafydd Arthur Jones wedi gwneud gwaith ymchwil manwl; cyn dechrau ysgrifennu, ac mae'n awyddus i adrodd y stori o safbwynt pobol gyffredin.', '"Ymateb llygad dystion i'r Diwygiad ydan ni am ei bortreadu, yn hytrach na phortreadu Evan Roberts ei hun"'[109] Perfformiwyd y sioe 'Dyna Ddiwygiad' gan Nan Lewis a seiliwyd ar y Diwygiad, yr adeg hon yn neuadd Pontyberem yn Ebrill 2004.[110]

[109] *Golwg*, 8 Ebrill 2004, t.19.
[110] Cyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Meinir Richards.

Cafwyd perfformiad o ddrama Aled Lewis Evans, 'Mari'r Golau', sydd wedi ei seilio ar y golau anesboniadwy a welwyd yn yr awyr yn Egryn yn ystod misoedd bywiog y Diwygiad rhwng Hydref 1904 a Mai 1905, yn Theatr y Stiwt Rhosllannerchrugog. Mae'r golau y tystiodd pobl yr ardal iddynt ei weld yn sail i un o'r straeon a geir yng nghyfrol Mihangel Morgan, Y *Corff yn y Parc a Storïau Ffeithiol Eraill.*[111] Bydd cyfeirio at y ffenomen a'r gweithiau o dan sylw ym mhennod 3 wrth edrych ar y ferch ac enwogrwydd stori Mrs Jones Llanegryn.

Cafwyd sioeau cerdd wedi eu seilio ar y Diwygiad a berfformiwyd ar adeg y canmlwyddiant hefyd. Roedd y cynyrchiadau yn gyfle i brofi dimensiwn arbennig o weithgarwch nodi'r achlysur. Gwelwyd y broses o ail-greu Diwygiad 1904-05 ar ei ffurf fwyaf byw drwy gyflwyno ar lwyfan olygfeydd a oedd wedi eu gosod yn ystod y blynyddoedd hynny. Bu cynhyrchiad The Wales Theatre Company, 'Amazing Grace' o waith Mal Pope ar daith yng ngwanwyn 2005. Ar ddiwedd y sioe, mewn perfformiad yn Theatr Clwyd, cafwyd ymgais i gynnwys y gynulleidfa yn rhan o'r perfformiad gydag aelodau o'r cast yn gadael y llwyfan i grwydro ymhlith y gynulleidfa dan ganu a churo dwylo gan annog y dorf i gyfrannu mewn gweithgaredd a oedd ar yr un pryd yn artiffisial ac yn real wrth ymwneud â nodi achlysur y canmlwyddiant. Nododd Mal Pope am hanes y Diwygiad:

> 'Y mwya ' o'n i'n ymchwilio, y mwya' oedd y cyfan yn ymddangos fel rhyw ddrama Shakespearaidd fawr: Yn raddol, mae pethau'n dirywio i Evan Roberts, ac mae e'n diodde'n feddyliol o'r holl sylw a'r holl deithio. Mae yna deimlad mai'r status quo sy'n ennill y frwydr wedi i rywun ifanc, brwdfrydig drio'i orau i roi cic yn nhin y drefn. Ond mae e'n talu'r pris ar y diwedd'[112]

[111] Mihangel Morgan, Y *Corff yn y Parc a Storïau Ffeithiol Eraill* (Llanrwst, 1999).
[112] *Golwg*, 7 Ebrill 2005, t.18.

Aethpwyd â'r sioe ar daith eto yn Hydref 2006, a chafwyd perfformiadau mewn lleoliadau yn cynnwys Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth a Chanolfan y Mileniwm, Caerdydd. Mae casgliad Mal Pope ar ei gryno ddisg, 'Why Me?', yn cynnwys pedair ar ddeg o ganeuon y sioe ac yn gynnyrch yr hyn oedd ffenomen y canmlwyddiant yng Nghymru. Perfformiwyd cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru, 'Hen Rebel' gan Valmai Jones, mewn sawl canolfan theatr yng Nghymru yn 2005 hefyd. Gan gyfeirio at weithgarwch y canmlwyddiant, nododd Dafydd Llewelyn yn ei adolygiad o 'Hen Rebel', yn *Barn* Rhagfyr/Ionawr 2006:

> Gyda sawl rhaglen radio a theledu, ynghyd â llu o lyfrau, wedi eu neilltuo'n benodol i ganolbwyntio ar natur a goblygiadau'r Diwygiad, roedd yn anorfod y byddai pwnc o'r fath yn ei gynnig ei hun fel testun priodol ar gyfer ymdriniaeth theatrig.[113]

Gwelir yn y sioeau ymdrech i adrodd stori'r Diwygiad ar waith, a'r adrodd hwnnw'n rhan o'r hyn ydoedd ffenomen canmlwyddiant y Diwygiad. Ymysg gweithiau eraill a ymddangosodd yr adeg hon roedd cynnyrch wedi ei baratoi ar gyfer cystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol a chasgliad Lleuwen Steffan o'i dehongliadau o emynau'r Diwygiad ar ei chryno ddisg, *Duw â Ŵyr*, a ryddhawyd gan gwmni recordio *Sain* ym Medi 2005.[114] Ceir ar ei chryno ddisg ddehongliad o emynau'r Diwygiad mewn arddull jazz.

Bu cyflwyno agweddau o hanes y Diwygiad ar ffurfiau creadigol yn amlwg yn y broses o ail-greu gweithgarwch y Diwygiad ar adeg y canmlwyddiant. Roedd gan y gweithiau rôl arbennig wrth gynnig darluniau newydd o ryfeddod a chyffro blynyddoedd 1904-05. Roedd y sioeau a'r dramâu yn benodol yn gyfle i unigolion

---

[113] Dafydd Llewelyn, 'Y Diwygiad - Di-ddigwyddiad', *Barn* Rhagfyr/Ionawr 2006, t.96.
[114] Gweler J. Elwyn Hughes (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau, (Llys yr Eisteddfod, 2005). Yng nghystadleuaeth y Goron cafwyd cerddi a oedd yn pontio delweddau o 1904 ac 1950 o'r Diwygiad ac Evan Roberts mewn cartref hen bobl yng Nghaerdydd gan 'Lleufer'.

ymgynnull gan brofi gweithgaredd a oedd yn ymwneud â sefydlu'r canmlwyddiant yn achlysur cymdeithasol a diwylliannol.

Roedd agweddau eraill ar y gweithgarwch a gafwyd ynghlwm wrth y canmlwyddiant hefyd, megis y math o ddigwyddiadau y cyfeiriwyd atynt yn y Rhagarweiniad gan gynnwys sgyrsiau a chyngherddau. Mae mudiad o'r enw 'Celebration for The Nations' a sefydlwyd yn 2004 yn enghraifft o'r ymwybyddiaeth a geir o'r Diwygiad gan fudiadau pentecostaidd. Ysbrydoliaeth y mudiad oedd gweledigaeth honedig a gafodd gwraig o'r enw Gail Dickson. Yn ôl ei dehongliad o'r hyn a welwyd ganddi, sef delwedd o ddŵr a goleuni y tu ôl iddo, ei thasg oedd ymgynnull pobl o'r holl genhedloedd a effeithiwyd gan y Diwygiad ynghyd i foli a chanu. Mae'r mudiad yn enghraifft o'r modd y profodd y Diwygiad yn ffenomen ystyrlon fyw i unigolion, ganrif ers 1904-05. Ar wefan y mudiad disgrifir y cyfarfodydd a drefnwyd gan y mudiad yn Llanelli fel: '*A gathering of worshippers in Wales from the nations touched by the 1904 Welsh Revival, to reopen the wells dug by our forefahers, and find new ones for our time...*' [115] Enghraifft arall yw gwaith y CWR (Crusade for World Revival), a drefnodd gyfarfod yn y Drenewydd ar 3 Ebrill 2004 i ddathlu canmlwyddiant y Diwygiad. Traddododd Selwyn Hughes, sylfaenydd y mudiad ar y pwnc, 'Why Revival Waits', fel rhan o'i ymgyrch ar draws y Deyrnas Unedig.[116]

Ar adeg canmlwyddiant y Diwygiad yn arbennig roedd maint ac amrywiaeth y cynnyrch a seiliwyd ar weithgarwch y Diwygiad yn drawiadol. Gwelwyd y broses o

[115] Gweler www.celebrationforthenations.org. Ym mlwyddyn y canmlwyddiant yn 2004 meddai Gail Dickson y cafodd y weledigaeth. Ceir fideo ohoni yn esbonio'r weledigaeth ar wefan 'You Tube' yn ogystal â chlipiau fideo o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd.

[116] Gweler erthygl yn y *Western Mail*, o dan y pennawd, 'Reviving Revival 100 years on.', 27 Mawrth, 2004. Gweler yn ogystal, erthygl yn y *Guardian*, 29 Mawrth, 2004, t.26, sy'n crybwyll cyfarfod diwygiadol a gynhaliwyd yn Arena Rhyngwladol Caerdydd i ddathlu'r canmlwyddiant.

ail-greu gweithgarwch y Diwygiad ar sawl ffurf, gan gynnwys y cyfryngau newyddiadurol a chreadigol. Mae gwaith Kevin Adams, sy'n cynnwys cyfrol ar hanes y Diwygiad a llyfr lluniau a fideo sy'n cyd-fynd yn enghraifft amlwg o gynnyrch y dathlu. Mae'r casgliad sydd wedi ei labelu'n 'Special Centenary Edition' yn arddangos y meddylfryd a wnaeth achlysur hanesyddol a chrefyddol o'r canmlwyddiant.[117] Nodir ar glawr y cyfrolau i hysbysebu'r fideo, '*2004 is the hundred-year anniversary of the great Welsh Revival - celebrate with us this significant moment in history and learn what it can teach us today.*'

Gwelwyd awydd yn y byd academaidd yng Nghymru i gofnodi'r achlysur hefyd. Bu'r canmlwyddiant yn sbardun i ail argraffu cyhoeddiadau yn y maes ac yn sbardun i weithiau newydd ar y pwnc.[118] Neilltuwyd rhifynnau ac adrannau o gylchgronau yn arbennig i drafod y Diwygiad. Er enghraifft, gweler *Taliesin* 124 a'r *Merthyr Historian*, Cyfrol 17.[119] Cafwyd sawl darlith a chynhadledd i'w ddathlu gan amrywiol gymdeithasau a sefydliadau drwy Gymru gan gynnwys cynhadledd ryngwladol, 'Diwygiad, Adnewyddiad a'r Ysbryd Glân' ym Mhrifysgol Bangor ym Mehefin 2004.

Cafwyd gwasanaethau a chymanfaoedd arbennig i nodi'r achlysur mewn sawl capel a chafwyd arddangosfa yn y Llyfrgell Genedlaethol i'w nodi.[120] Bu'r sylw a roddwyd i'r Diwygiad gan y wasg Gymraeg a'r cyfryngau mewn rhaglenni radio a theledu yn sylweddol. Gwelwyd adrodd stori'r Diwygiad ar amrywiol ffurfiau mewn

117 Kevin Adams, *A Diary of Revival, The Outbreak of the 1904 Welsh Awakening* (CWR, Surrey, 2004); Kevin Adams ac Emyr Jones, *A Pictorial History of Revival, The Outbreak of the 1904 Welsh Awakening* (CWR, Surrey, 2004).
118 Er enghraifft, Noel Gibbard (gol.) *Nefol Dân* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2004); R. Tudur Jones, *Tân ar yr Ynys* (Caernarfon, 2004). Gweler hefyd D. Ben Rees, *Mr Evan Roberts, Y Diwygiwr yn Sir Fôn 1905* (Capel Tŷ Rhys, Llangoed, Ynys Môn, Mehefin 2005).
119 *Merthyr Historian*, Cyf. 17 2004; *Taliesin* 124, 2005.
120 Cafwyd arddangosfa yn y Llyfrgell Genedlaethol, 10 Mehefin 2004- 8 Ionawr 2005 a chynrychiolaeth o'r Diwygiad mewn arddangosfa yn Oriel 1 yn Amgueddfa Hanes Genedlaethol Sain Ffagan a agorwyd yn 2007 ar ffurf cerdd gan Gillian Clark. Gweler y gerdd yn llawn ym mhennod 5.

llenyddiaeth ac mewn gweithgarwch mewn cymunedau ers blynyddoedd 1904-05 felly, a gwelwyd hyn yn arbennig o amlwg ar adegau penodol, megis y canmlwyddiant. Bydd cyfeirio at y cynnyrch a'r gweithgarwch a gafwyd ynghlwm wrth y Diwygiad ers blynyddoedd 1904-05 yn y penodau dilynol wrth edrych ar ffurf y stori yn ystod y ganrif a'i dilynodd. Edrychir ar elfennau penodol ar stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny, gan ddechrau drwy edrych ar natur y cyfarfodydd. Roedd gweithgarwch y cyfarfodydd yn ganolog i fudiad y Diwygiad a'i stori ar sawl ffurf.

# Pennod 2

## Cyfarfodydd y Diwygiad

Roedd y cyfarfodydd a gafwyd yn enw Diwygiad 1904-05 yn ganolog i'w stori ar y pryd ac yn ystod y ganrif ers hynny. Y cyfarfodydd oedd canolbwynt y gweithgarwch a phrofodd natur y cyfarfodydd yn rhan o'r chwedloniaeth. Trafodir y cyfarfodydd o dan sylw yn y cyswllt hwn yma, gan edrych yn benodol ar weithgarwch y gynulleidfa. Ystyrir ymddygiad y gynulleidfa ymysg ffenomenau eraill a drafodir yn y traethawd hwn gan gynnwys amlygrwydd y ferch yn y Diwygiad, dylanwadau'r mudiad ar y gymdeithas a rôl Evan Roberts, fel un o elfennau sylfaenol y mudiad yn ei ffurf fel stori fawr ar y pryd ac ers hynny.

Y bwriad yw esbonio rhywfaint am natur y cyfarfodydd gan ddatgelu rhai o'r prosesau a oedd wrth wraidd ymddygiad y gynulleidfa a ddisgrifir yn fynych fel gweithgarwch digymell ac fel ffenomen i ryfeddu ati. Yn rhan o hyn edrychir ar y modd y crëwyd stori yn enw'r Diwygiad ar y pryd a'r modd y gwelwyd gweithgarwch y gynulleidfa yn cynnal y stori hon. Cyfeirir at gyfarfodydd y capel yn bennaf, oherwydd mai yno gan amlaf y gwelwyd cynulleidfaoedd sylweddol yn ymroi i'r broses o sefydlu arferion a ddaeth i'w hystyried fel gweithgarwch y Diwygiad. Dylid nodi, wrth gwrs, yr ystyriwyd y cyfarfodydd a gynhaliwyd y tu allan i'r capel, yn yr awyr agored, mewn man gwaith, neu ar y stryd, yn un o ffenomenau cyffrous gweithgarwch y Diwygiad. Gwelir hyn, yn naturiol o safbwynt yr hyn y ceisir ei ddadlau yn y traethawd hwn, ac yn benodol yma wrth edrych ar y cyfarfodydd, mai ffenomenau a ystyriwyd yn anarferol a sefydlwyd yn eu tro fel meini prawf bod y Diwygiad ar waith.

Adroddiadau'r cyfnodolion a'r papurau newyddion yw'r prif ddeunydd a ddefnyddir fel tystiolaeth yn y bennod hon wrth drafod blynyddoedd 1904-05. Yn wir canolbwynt y mwyafrif o'r adroddiadau ar gyfarfodydd y Diwygiad ar y pryd yw disgrifiadau o weithgareddau'r gynulleidfa. Fel y soniwyd eisoes ym mhennod 1, mae llawer o haneswyr wedi beirniadu'r adroddiadau a gafwyd yn y papurau cenedlaethol yn arbennig am bwysleisio elfennau cyffrous y cyfarfodydd. Gan gyfeirio yn benodol at y modd y portreadwyd Evan Roberts fel cychwynnydd ac arweinydd y mudiad yn y wasg, nododd, R. Tudur Jones: 'Ac er bod adroddiadau'r papurau'n drysorfa o wybodaeth fanwl am y cyfarfodydd, buont yn foddion hefyd i greu darlun cwbl anghymesur ac anghytbwys o'r Diwygiad.'[1] Fodd bynnag, yn hytrach na mesur cywirdeb y ddelwedd a bortreadwyd gan y papurau, y bwriad yma yw edrych ar y modd y cyfrannodd y papurau newydd, wrth adrodd am y cyfarfodydd, at y gwaith o lunio mytholeg y Diwygiad. Wrth edrych ar naratif y Diwygiad ers 1904-05, defnyddir gwaith haneswyr a chynnyrch y cyfryngau newyddiadurol a chreadigol, ac edrychir yn arbennig, fel y nodwyd eisoes yn y Rhagarweiniad ac ym mhennod 1, ar adeg y canmlwyddiant, a brofodd yn gyfnod cynhyrchiol yn hyn o beth. Beth felly oedd natur gweithgarwch y gynulleidfa o dan ddylanwad y Diwygiad? Sut y cyfrannodd y gweithgarwch hwn at y broses o sefydlu mudiad yn enw Diwygiad 1904-05 ar y pryd? Sut y cyfrannodd y wasg at y broses hon, a sut yr ymroddwyd i gynnal stori'r Diwygiad ar ffurf benodol yn ystod 1904-05 ac ers hynny? Ceisir cynnig atebion i'r cwestiynau hyn yn y bennod hon.

---

[1] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl, Hanes Crefydd yng Nghymru 1890-1914*, Cyf.2, (Abertawe, 1982), t. 136.

Yn gyntaf, ceir disgrifiad bras o ffurf y cyfarfodydd yn y capel o dan ddylanwad y mudiad a'r meddylfryd wrth wraidd y newid a welwyd. Wedyn ceir golwg ar beth mae haneswyr wedi'i ddweud am hyn. Yna creffir ar y fframwaith newydd a sefydlwyd yn y capel o safbwynt y bregeth a rôl y gweinidog, y canu cynulleidfaol a'r weddi a'r cwrdd gweddi yn hyn o beth hefyd. Yna, manylir ar gyfraniadau unigolion, gan edrych yn gyntaf ar yr ieithwedd a fabwysiadwyd ac yna ar elfen o berfformio a welwyd. Gwneir hyn gan ystyried y modd yr oedd yr arddulliau a'r arferion newydd yn rhan o'r broses o sefydlu confensiynau a roddodd ffurf i'r Diwygiad fel mudiad a stori fawr ar y pryd. Rhoddir wedyn ystyriaeth i'r modd y cynrychiolwyd y gweithgarwch cynulleidfaol wedi blynyddoedd 1904-05 ar amrywiol ffurfiau. Edrychir ar y modd y democrateiddiwyd cyfarfodydd y capel a'i chymuned, a'r modd y profodd yr elfen hon yn rhan o stori'r Diwygiad hefyd.

**Ffurf y cyfarfodydd**

Dylid nodi ei bod yn amlwg y cafwyd amrywiaeth ar ffurf y cyfarfodydd ac amrywiol brofiadau gan gymunedau ac unigolion o dan ddylanwad y mudiad. Fodd bynnag, ymddengys y bu llacio cyffredinol ar drefn y cyfarfodydd ac ar le'r bregeth yn ystod Diwygiad 1904-05, a hynny yn fwy felly nag a welwyd mewn diwygiadau blaenorol. Mae haneswyr wedi ymdrin â'r ffenomen hon yn ofalus, a bydd cyfeirio at yr ymdriniaeth hon yn y man. Fodd bynnag, gellir dweud yn sicr y bu'r llacio ar strwythur y gwasanaeth yn un o nodweddion amlycaf dylanwad y Diwygiad ar weithgarwch y capel, a phrofodd y llacio hwn yn nodwedd amlwg iawn yn ei chwedloniaeth.

Mewn gwasanaeth traddodiadol, byddai'r gynulleidfa yn cyfrannu drwy gydganu neu gydweddïo gan ddilyn arweiniad ffigwr o awdurdod. O dan ddylanwad y Diwygiad, cafwyd newid yn rôl y gynulleidfa a gwelwyd aelodau o'i mysg yn cyfrannu yn unigol ac yn ddigymell. Gwelwyd gweithgarwch torfol gan gynulleidfaoedd wrth foli a chanu a gweddïo. Yn ogystal, gwelwyd y Diwygiad yn gymhelliad i gynnal cyfarfodydd gweddi ychwanegol a chyfarfodydd arbennig ar gyfer pobl ifanc a merched, er mwyn meithrin dylanwadau'r mudiad. Mae'r bregeth yn draddodiadol ganolog i wasanaeth y capel Anghydffurfiol a rôl y gweinidog yn un o awdurdod yn y capel ac yn un o statws yn y gymdeithas. Yn draddodiadol mae dyletswydd y gweinidog yn ymwneud â chynnig arweiniad, ac yn arferol mae'r bregeth wedi ei pharatoi ac yn ganolbwynt i'r gwasanaeth. Yn ystod y gwasanaeth, geiriau wedi eu paratoi gan y pregethwr yw'r prif gyfathrebu rhyngddo a'r gynulleidfa. O dan ddylanwad y Diwygiad, fel y gwelir yn y bennod hon, cafwyd gwasanaethau a chyfarfodydd yn y capel lle y rhoddwyd y bregeth o'r neilltu, a gwelwyd aelodau o'r gynulleidfa ac arweinwyr y Diwygiad yn annerch cynulleidfaoedd gan ddefnyddio dulliau a ystyriwyd y tu hwnt i'r drefn arferol. Gan gyfeirio yn benodol at Evan Roberts meddai Siôn Aled Owen, '*Traditionally, the Welsh preacher would spend many hours preparing a sermon on a carefully chosen text, or even from brief notes, and it was uncommon for him* [Roberts] *even to quote a verse as a "text" at all*'.[2] Mae Owen yn rhoi sylw yn arbennig i'r symudiad a gafwyd oddi wrth y gair ysgrifenedig at fynegiant llafar yn ystod y Diwygiad. Roedd y symudiad hwn yn caniatáu i unigolion gyfrannu yn ddigymell a dod yn gyfrifol am drefn y cyfarfod. Cafwyd y crynodeb isod o'r hyn a welwyd mewn cyfarfod yn ystod y Diwygiad yn, *Y Drysorfa,* Ionawr 1905:

[2] John Aled Owen, 'A Study of Orality and Conceptuality During The Welsh Religious Revival of 1904-06', traethawd doethur cyflwynedig i Brifysgol Birmingham, 1997, t.116.

> Amlwg yw fod yr hen ffurfiau a defodau arferedig wedi eu dymchwel oddiar yr orsedd, a'r Ysbryd tragwyddol yn cymhwyso corff iddo ei hun ym moliant a gweddiau a phrofiadau y Saint, yn ogystal ac yng nghyffes a gweddiau y dychweledigion. Nid yw yr Ysbryd yn lladd ffurfioldeb. Bron nad ydoedd yn drosedd dyblu pennill wrth ganu mawl y Goruchaf gan mor gaeth i ffurfioldeb yr oeddym wedi myned. Nid oedd neb yn meddwl gweddio heb ei gymhell, ond y mae yr Ysbryd yn peri i ddynion ymgiprys am y gwaith. Nid y bregeth yn awr, ond y weddi; nid areithyddiaeth flodeuog, ond mawl gorfoleddus; nid anerchiad gorffenedig, ond profiad byw; dyna, mae'n ymddangos, lwybrau y fendith, a sianel y dylanwadau dwyfol...[3]

Creffir ar y ffenomen a ddisgrifir uchod o'r cyfarfod anffurfiol yn y bennod hon, gan gynnig astudiaeth o'r modd y gosodwyd 'yr hen ffurfiau a defodau arferedig' o'r neilltu a'r arwyddocâd a briodolwyd i'r arferion newydd. Sylwer y nodir: 'Nid y bregeth yn awr, ond y weddi; nid areithyddiaeth flodeuog, ond mawl gorfoleddus...' Astudir y newidiadau hyn, gan ystyried arwyddocâd y meddylfryd a fynegir uchod fod yr Ysbryd ar waith ac yn defnyddio aelodau o'r gynulleidfa i gyflawni ei waith.

Fel y nodwyd eisoes, yn sicr, o edrych ar yr adroddiadau niferus a gafwyd yn y wasg a'r cyfnodolion ar gyfarfodydd y Diwygiad, sefydlwyd gweithgarwch y gynulleidfa yn rhan ganolog o stori'r Diwygiad ar y pryd. Yn y cyfnodolion Cymraeg ceir adroddiadau di-ri ar gyfarfodydd y capel sy'n disgrifio'r gynulleidfa yn meddiannu'r digwydd. Disgrifir y gynulleidfa yn canu ac yn moli ac yn cyfrannu yn unigol gan wneud datganiadau, ar weddi a chân. Mae'n amlwg y mabwysiadwyd y gred mai'r Ysbryd a oedd yn arwain trefn y gwasanaeth ac mai dyma oedd yn gyfrifol am ffurf newydd y cyfarfodydd. Gwelwyd y gred hon yn sylfaenol i gynnal y mudiad yn ei ffurf ymarferol gan ddylanwadu ar natur gweithgarwch y capel a strwythur y cyfarfodydd. Ar yr un pryd, gwelwyd y gweithgarwch a'r drefn newydd yn y capel yn cael ei sefydlu'n symbol o ddylanwad yr Ysbryd, ac felly'n ganolog i gynnal y mudiad

[3] *Y Drysorfa*, Ionawr 1905, tt.57-58.

yn ei ffurf cysyniadol. Nododd R. Tudur Jones i'r perwyl hwn, 'Nodwedd amlycaf Diwygiad 1904 er hynny oedd y cyfarfodydd "di-gymell", fel y gelwid hwy...Ac yr oedd yn gred gyffredinol fod yr anhrefn ei hunan yn profi mai'r Ysbryd oedd gwir lywydd y cyfarfod.'[4] Mae'r agwedd hon yn rhan o batrwm meddylfryd ehangach y ceisir ei ddisgrifio yn y traethawd hwn a oedd yn ganolog i gynnal mudiad y Diwygiad. Roedd y meddylfryd yn un a sefydlodd ffenomenau anarferol yn dystiolaeth o ymyrraeth yr Ysbryd, ac o ganlyniad yn feini prawf fod mudiad yn enw Diwygiad ar waith. Trwy hyn, crëwyd mudiad gyda'i sylfeini yn y rhyfeddol a'r anesboniadwy. Yn y darn isod, mewn adroddiad a gafwyd yn *Seren Gomer,* Mawrth 1905, cyfeirir at y meddylfryd a sefydlwyd o safbwynt strwythur y cyfarfodydd:

> Egwyddor y drefn yw fod y cyfarfodydd dan arweinyddiaeth yr Ysbryd, a bod yr hyn a wneir yn cael ei wneud dan ei gymhelliad. Y prif gyfryngau yn nygiad y cyfarfodydd ymlaen yw y bobl ieuanc a'r merched, ac yn arbennig y dychweledigion...Treulir llawer o'r cyfarfodydd, y rhai a gynhelir weithiau am oriau lawer yn olynol, ac mewn rhai enghreifftiau hyd ganol y nos a throsodd, mewn canu mawl trwy gymorth emynau a thonau adnabyddus, fel ag i adael o'r neilltu y llyfrau emynau a thonau arferol.[5]

Cyfeirir uchod at y ffenomenau anarferol a brofwyd o ganlyniad i arweinyddiaeth yr Ysbryd, gan gynnwys cyfraniad y bobl ieuanc a'r merched, hyd y cyfarfodydd, a chanu mawl, 'fel ag i adael o'r neilltu y llyfrau a thonau arferol'. Dadleuir yn y bennod hon y sefydlwyd y fath ffenomenau yn gonfensiynau ymddygiad wrth ymroi i gynnal y cyfarfodydd ac yn nodweddion confensiynol i sôn amdanynt wrth adrodd am eu gweithgarwch. Trwy hyn, gwelwyd ymdrechion i roi ffurf i'r stori a'r broses o roi'r stori ar waith. Ceisir dangos fod ffurf a threfn yn perthyn i'r gweithgarwch yn hyn o beth. Ceir trafodaeth o gyfraniad y ferch yn y cyfarfodydd o'r safbwynt hwn ym mhennod 3.

---

[4] R. Tudur Jones, *Ffydd Ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2, tt. 209-210.
[5] *Seren Gomer*, Mawrth 1905, t.62.

Fel y gwelir yn y bennod hon, profodd gweithgarwch cyfarfodydd y Diwygiad yn destun trafodaeth a beirniadaeth ar y pryd ac ers hynny, yn bennaf oherwydd yr amheuaeth a fynegwyd am natur a lles y cyffro a'r emosiwn a gafwyd. Bydd cyfeirio at y feirniadaeth a fynegwyd ar amrywiol ffurfiau o gyfarfodydd y Diwygiad mewn mannau eraill yn y traethawd hwn hefyd. Cyfeirir at y feirniadaeth hon o safbwynt cyfraniad y ferch ym mhennod 3, a'r modd yr effeithiwyd ar unigolion bregus ym mhennod 4 ac o safbwynt rhai o gyfarfodydd Evan Roberts ym mhennod 5. Profodd y feirniadaeth hon yn ganolog i gymeriad y Diwygiad fel mudiad dadleuol ar y pryd ac wedi hynny. Roedd y drafodaeth ynghylch natur y cyfarfodydd yn rhan ganolog o'r elfen hon o'r stori.

**Beth mae haneswyr wedi'i ddweud am hyn?**

Mae natur y drefn yn y cyfarfodydd wedi profi'n destun sensitif yng ngwaith haneswyr, ac wedi ymwneud ag ystyriaethau eraill ynghylch ffurf a tharddiad y mudiad, gan gynnwys rôl y wasg a rhan Evan Roberts yn y cwbl. Yn ogystal, ceir carfan sy'n dadlau yng nghyswllt y drafodaeth hon, yn naturiol o ystyried natur y mudiad, bod grymoedd y tu hwnt i reolaeth dyn ar waith. Mynegwyd hyn ar y pryd, ac mewn astudiaethau ers hynny. Yn unol â'r rhesymeg hon, gan esbonio'r gweithgarwch yn y cyfarfodydd ynghyd â gwaith Roberts fel ffurfiau ar y mudiad, nododd Brynmor P. Jones: *'Is it so suprising that the Spirit of God had worked quietly and simultaneously within movements, churches, prayer groups, chosen*

*helpers, and in the one hidden messenger? Are not these ways prescribed in the Word of God?'* [6]

Beth bynnag, mae ysgolheigion wedi pwysleisio natur y gweithgarwch cynulleidfaol fel ffenomen. Nododd Robert Pope, yn ei ysgrif 'Dadfythu "Diwygiad Evan Roberts"', y ceir crynodeb ohono ym mhennod 1: 'Erys diwygiad 1904-05 yn un o ddigwyddiadau mwyaf rhyfeddol a diddorol yr ugeinfed ganrif. Yr oedd yn nodedig oherwydd fod cynulleidfaoedd yn cymryd rhan yn hytrach nag oherwydd cyfraniad yr arweinyddion.'[7] Awgrymir yma mai gweithgarwch cynulleidfaoedd sydd wrth wraidd ffurf y Diwygiad fel stori fawr yn hanes y Gymru fodern. Ar y cyfan, rhyfedda ysgolheigion at ddiffyg strwythur ymddangosiadol y cyfarfodydd a'r modd y meddiannwyd hwy gan y gynulleidfa. Pwysleisiodd Basil Hall fod y diffyg paratoi a'r trefnu a gafwyd ar gyfarfodydd y Diwygiad yn eu gwneud yn ffenomen wirioneddol ryfeddol. Nododd mai'r hyn oedd yn unigryw am y Diwygiad, o'i gymharu â'r diwygiadau blaenorol yng Nghymru, oedd ei natur ddigymell, y ffaith nad anerchwyd cynulleidfaoedd gan bregethwyr mawr, ac na chafodd ei drefnu gan ddiwygwyr proffesiynol fel Torrey ac Alexander, a oedd yn weithgar ar y pryd.[8] Nododd Norman Williams i'r cyfeiriad hwn: '*The services took no recognised form but were rather outbursts of spontaneous praise by any member of the congregation.*'[9] Ar y llaw arall, nododd R. Tudur Jones y dylid cofio y cafwyd trefnu ar lawer o'r cyfarfodydd, yn cynnwys llawer o'r rhai a oedd yn rhan o ymgyrch Evan Roberts.[10]

---

[6] Brynmor P. Jones, *Voices from the Welsh Revival* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1995), t.22.
[7] Robert Pope, 'Dadfythu "Diwygiad Evan Roberts"' yn, *Y Traethodydd*, Gorffennaf 2004, t.147.
[8] Basil Hall, 'The Welsh Revival of 1904-05: A Critique' yn G.J. Cuming a Derek Baker (goln.), *Popular belief and practice : papers read at the ninth summer meeting and the tenth winter meeting of the Ecclesiastical History* (Caergrawnt, 1972), t.295.
[9] Norman Williams, 'Evan Roberts and the 1904-5 Revival' yn Stuart Williams (gol.) *Glamorgan Historian*, Cyf. 5 (1986), t.31.
[10] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2, tt.209-210.

Gwelwyd y cynllunio mwyaf manwl ar gyfarfodydd y Diwygiad ar gyfer ymgyrch Roberts yn Lerpwl ddiwedd Mawrth 1905. Trefnwyd yr ymgyrch gan Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymraeg y ddinas a wahoddodd Roberts i fod yn bresennol mewn 17 o gyfarfodydd. Canfasiwyd cartrefi Lerpwl a gwerthwyd tocynnau i'r cyfarfodydd yn rhan o'r ymdrech.[11] Roedd yr ymgyrch yn Lerpwl yn unigryw yn hyn o beth, ac wrth gwrs, fel y cydnabyddir yn gyffredinol, gwelwyd dylanwadau mudiad y Diwygiad ar waith mewn sawl ardal, y tu hwnt i gylchdro Roberts. Ar nodyn cyffredinol, wrth drafod natur y cyfarfodydd, dywed Noel Gibbard y gwelwyd Roberts a llawer o'r diwygwyr, gan gynnwys Seth Joshua, Joseph Jenkins a D. M Phillips yn dibynnu ar gantorion ac unawdwyr i gynnal y gwasanaeth ar ei newydd wedd, gan awgrymu bod y cyfarfodydd yn dilyn trefn benodol.[12]

Ymhellach, mae'r seiciatrydd J. Rouges de Fursac yn dadlau yn ei adroddiad ar weithgarwch y Diwygiad fod yr anhrefn a gafwyd yn sgil dylanwad y Diwygiad yn rhan o drefn yr eglwys a'r sefydliad Anghydffurfiol yng Nghymru. Nododd:

> Fel pob sefydliad arall, ni all eglwys barhau mewn bodolaeth heb drefn, heb hierarchiaeth o arweinwyr disgybliedig. Ac mae hynny'n wir mewn perthynas ag eglwysi anghydffurfiol Cymru, er gwaethaf eu natur ddemocrataidd. Eithr mae pob mudiad cyfriniol, oherwydd brwdfrydedd ei anian a'i ymchwyddiadau byrfyfyr, yn chwyldroadol i ryw raddau. Ei dueddiad yw chwalu'r drefn a thanseilio'r hierarchiaeth. Mae'n wrth-glerigol a'i fwriad digamsyniol yw tywys y gynulleidfa y tu hwnt i ororau'r bywyd crefyddol normal.[13]

Gellir ystyried llawer o weithgarwch y Diwygiad yn y cyd-destun hwn, yn enwedig wrth edrych ar y modd y sefydlwyd confensiynau newydd a oedd yn tanseilio'r drefn a'i harweinwyr gan y gynulleidfa. Gellir deall yr hyder a gafwyd i herio'r drefn

---

[11] R.Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2, t.168.
[12] Noel Gibbard, *Caniadau'r Diwygiad* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2003), t.58.
[13] Rouges de Fursac, *Un Mouvement Mystique Contemporain: Le Reveil Religieux du Pays de Galles* (Paris, 1907), cyfieithiad Gareth Miles yn 'Y Diwygiad Trwy Lygaid Ffrancwr', yn *Taliesin* 124, 2005, t.25.

sefydledig yn wyneb y meddylfryd fod y newidiadau o dan sylw yn perthyn i fudiad arbennig yr ystyriwyd ei fod y tu hwnt i derfynau'r confensiynau arferol. Mudiad o'r fath, yn ôl de Fursac, sy'n sylfaenol i gynnal y sefydliad Anghydffurfiol.

**Y bregeth a'r gweinidog**

Un o'r materion amlycaf a drafodwyd ar y pryd yn y cyfnodolion yn wyneb y newid ar ffurf y cyfarfodydd oedd lle'r bregeth. Mae'n sicr y profodd y newid yn yr arfer o roi'r bregeth yn rhan o stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny. Gellir ystyried yr arfer newydd o hepgor y bregeth yn un o'r confensiynau a sefydlwyd mewn cyfarfodydd yr ystyrid eu bod o dan ddylanwad y Diwygiad, gan ganiatáu i'r gweithgarwch cynulleidfaol fynd yn ei flaen. Fel y gwelir yn y man, gwelwyd cynnyrch y wasg yn ganolog wrth sefydlu'r ddelwedd hon o'r cyfarfod wedi ei feddiannu gan y gynulleidfa a heb bregeth yn ganolog i chwedloniaeth y Diwygiad.

Dylid pwysleisio yr ymddengys fod yr arfer o gyflwyno pregeth mewn cyfarfodydd o dan ddylanwad y Diwygiad yn amrywio o gyfarfod i gyfarfod ac o ardal i ardal. Cyfeirir yn y darn isod at yr amrywiaeth a gafwyd ar ffurf y cyfarfodydd yr ystyriwyd eu bod o dan ddylanwad y mudiad, a chyfeirir at y poblogeiddio a gafwyd ar y cwrdd gweddi. Nodwyd eto yn *Seren Gomer,* Mawrth 1905:

> Mewn rhai ardaloedd adroddir adnodau, emyn neu brofiad, yn gymysg â'r canu a'r gweddïo. Mewn ardaloedd eraill, ceir yn achlysurol gyfres o bregethau, ond pa le bynnag y gwneir hyn, blaenorir neu ddilynir y bregeth, neu y naill a'r llall, gan y cyfarfod gweddi. Mewn rhai manau y mae y cyfarfodydd gweddi a mawl wedi gwneud i ffwrdd â'r bregeth arferol am Suliau yn olynol.[14]

[14] *Seren Gomer,* Mawrth 1905, t.62.

Ceir tystiolaeth fod nifer o arweinwyr wedi rhoi pwyslais ar bregethu yn ystod y Diwygiad, a bod y bregeth yn dal yn ganolog i nifer o'r cyfarfodydd. Yn ei hunangofiant nododd Rosina Davies, yr efengyles o Dreherbert a fu'n pregethu yng nghymoedd y de yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac ar ôl hynny:

> *I was compelled to take a rest, during the high water mark of the Revival when the people were demonstrative, and the Sermons were put aside; but I did not have those interruptions, which were then so common in Revival meetings, in one of my services. I had to deliver my Message with the usual Amen, and expressions of joy and praise.*[15]

Mae'n amlwg y profodd yr arfer o hepgor y bregeth yn destun trafod ac yn sail beirniadaeth ar y pryd. Ceir yr argraff mewn rhai adroddiadau y cafwyd ymdrech i gyfiawnhau'r diffyg hwn. Yn yr un erthygl yn *Seren Gomer* nodwyd:

> Er fod y bregeth ffurfiol wedi ei difodi o'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd a gynhelir, nid yw pregethu wedi ei ddifodi, oblegyd gwneir hyn trwy yr emynau a genir, a'r mawl a offrymir, y rhai yn fynych sydd yn cynnwys cymaint o apeliadau at ddynion ac o ddyfeisiadau at Dduw.[16]

Ceir tystiolaeth mewn llawer o'r adroddiadau bod disodli'r bregeth yn cael ei ystyried yn fater o falchder, oherwydd gellid datgan bod newid sylfaenol yn nhrefn y gwasanaeth wedi digwydd, ac felly fod dylanwadau'r Ysbryd ar waith mewn ardal neu gapel penodol. Yn y darn isod gan y Parch. J. Stephens, Brynteg, a gafwyd yn *Y Diwygiwr,* Ionawr 1905, cyfeirir at y feirniadaeth a fynegwyd ar y pryd o'r arferion newydd a sefydlwyd yn y capel ac ymhyfrydir yn y drefn newydd:

> Bu llawer yn edrych ar y cyffroad fel peth amheus. Rhai a ddywedent yn groew nad oedd yr oll ond nwydau cnawdol yn cael eu cymell gan anrhefn, megys cadw oriau hirion, a phob un at ei ryddid i ymgymeryd ag unrhyw ran o'r gwasanaeth yn ôl ei deimlad ei hun, ac yr oedd pethau fel yna yn peri i'r oer a'r caled basio barn lem ar yr oll...Y mae rheolau dynol yn dda ar adeg oer, ond amhosibl yw eu cadw ar adeg fel hon. Nid oes angen meddwl am pwy i

[15] Rosina Davies, *The Story of My Life* (Llandysul, 1942), tt.187-188.
[16] *Seren Gomer*, Mawrth 1905, t.62.

> ddechreu y gwasanaeth a phwy yn ail &c, a pha nifer sydd i wasanaethu. Does dim angen dweyd rhagor na'i bod yn bryd dechreu, ac nid rhyfedd gwelid amryw ar eu traed yn cyfeirio at y Beibl, a hwyrach y bydd rhyw frawd neu chwaer wedi cael y blaen ar yr oll trwy roddi emyn allan, ac amryw ar eu gliniau yn barod i dywallt eu diolch a'u dymuniadau wrth orsedd Gras.[17]

Ymddengys yma fod disodli'r bregeth a sefydlu strwythur anffurfiol newydd yn y cyfarfodydd yn rhywbeth y gellid ymfalchïo ynddo ac yn rhyw fath o dystiolaeth o bresenoldeb yr Ysbryd Glân ac o ddylanwad y Diwygiad mewn capel neu ardal benodol. Yn wyneb y ddelwedd a'r meddylfryd hwn, byddai modd i gynulleidfaoedd ymroi i feddiannu'r cyfarfodydd gan gynnal y stori fod y Diwygiad ar waith. Byddai modd cyhoeddi y cafwyd newid yn nhrefn y cyfarfod a theimlo'n rhan o fudiad Diwygiad 1904-05. Gwelwyd adroddiadau'n ymroi i gofnodi a chyhoeddi'r fath newidiadau, gan roi ffurf i stori'r Diwygiad ar y pryd. Nodwyd yn *Y Gwyliedydd*, newyddiadur wythnosol y Wesleaid Cymreig, 5 Ionawr 1905: 'Mae y Diwygiad wedi dryllio peirianwaith y weinidogaeth mewn rhai manau. Y pregethwr wedi ei ddiorseddu am ysbaid, a'r bobl wedi meddianu y gwasanaeth. Mae rhai gweinidogion heb draddodi pregeth er's mis neu bum wythnos.'[18] Nododd Eilir ym mhamffledi Awstin yn rhifynnau arbennig y *Western Mail* ar y Diwygiad, '*The Revival has even changed the tone and character of Sunday services in numberless cases, the formal having given way to the spontaneous and free.*'[19] Trwy hyn, gwelir sut y sefydlwyd yr arfer hon o hepgor y bregeth yn un o'r confensiynau a sefydlwyd, ymysg eraill, yn nodweddiadol o weithgarwch y mudiad yn y capel ac yn rhan o'r stori fawr. Sefydlwyd y ddelwedd o'r gweinidog ar gyrion y gweithgarwch yn ganolog i gymeriad y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus a gwelwyd ymdrechion i hyrwyddo'r gred mai'r Ysbryd a oedd ar waith. Gwelir adroddiadau'r cyfnodolion yn ymroi i

[17] *Y Diwygiwr,* Ionawr 1905, t.25.
[18] *Y Gwyliedydd*, 5 Ionawr 1905, t.2.
[19] Eilir yn Rhifynnau Arbennig y Diwygiad y *Western Mail* gan Awstin, *Revival Edition 3.*

gynnal y ddelwedd o'r gweinidog ar y cyrion. Adroddwyd yn *Y Drysorfa*, Ionawr 1905, am gyfarfodydd yn ardal Port Talbot:

> Nid yw y cyfarfodydd yn rhai o ffurf osodedig gyfyng, ond rhai cwbl rydd, ac yn ymddadblygu yn unol a'r teimlad ar y pryd trwy ganu, gweddïo, darllen rhannau o'r Beibl, cyffesu, ynghyda cheisiadau neillduol. Amlwg yw mai y peth pennaf a mwyaf amlwg ynddynt ydyw cael yr Ysbryd Glan i arwain, argyhoeddi a dyddanu. Ni elwir ar weinidog, yn amgen rhywun arall, i ddechreu y cyfarfodydd, ond gweithredir fel y bydd yr Ysbryd yn tywys.[20]

Ynghlwm wrth y gwaith o sefydlu arferion a thueddiadau yn rhai nodweddiadol o ddylanwad y mudiad ar waith, gwelir y broses o sefydlu patrwm a threfn i'w dilyn, a thrwy hyn, gwelir bod elfen o resymeg yn perthyn i'r gweithgarwch a ystyriwyd yn gyffredinol yn weithgarwch rhyfeddol, anhrefnus a digymell. Gwelwyd confensiynau ac arddull benodol yn datblygu wrth ddisgrifio gweithgarwch y Diwygiad yn y wasg. Roedd y confensiynau o dan sylw yn ymwneud â chydymffurfio â syniadau penodol ynglŷn â'r hyn ydoedd gweithgarwch y mudiad. Trwy hyn gwelwyd y wasg yn cofleidio'r meddylfryd mai ffenomenau anarferol ac arferion newydd o ymddygiad a oedd yn nodweddu'r Diwygiad. O ganlyniad cafwyd cannoedd o erthyglau yn disgrifio ymddygiad y gynulleidfa yn y capel. Wrth gwrs, mae'n hawdd dychmygu y cofnodwyd y cyffro i ddenu'r darllenydd. Yn ogystal, mae lle i gredu bod sawl rheswm arall am y modd yr ysgubwyd y wasg gan ffenomen y Diwygiad. Gwelwyd sawl newyddiadurwr yn frwdfrydig dros y mudiad. Nododd y newyddiadurwr Anthony W. Davies (Llygad Llwchwr) yn ei ddyddiadur iddo godi ar ei draed mewn cyfarfod ar ddydd Nadolig 1904 i dystiolaethu ei gred, a mynegodd y canlynol yn ei ddyddiadur ar 28 Rhagfyr 1904:

> Y Golygydd yn ymosod arnaf heno am imi amddiffyn y Diwygiad! Aeth i Gasllwchwr neithiwr, ac yn ei ddoethineb gwelodd taw nonsens oedd y cyfan! Os nonsens ydyw, paham y mae'n cyhoeddi cymaint o adroddiadau'r

[20] *Y Drysorfa*, Ionawr 1905, t.32.

> cyfarfodydd a ysgrifennaf i'w bapur? Y gwir yw ei fod yntau, fel eraill o'r gwrthwynebwyr, yn ofni dweud gair yn agored yn erbyn y symudiad dwyfol sy'n ysgubo'r wlad.[21]

Beth bynnag y gellir ei ddweud am ofnau neu gymhelliad y wasg, nid oes amheuaeth y bu'r wasg yn gynhyrchiol dros ben wrth adrodd am weithgarwch y Diwygiad. Bu'r wasg yn gyfrifol am roi ffurf ar stori cyhoeddus y Diwygiad a lledaenwyd delweddau unffurf, gellir dadlau, o'r gweithgarwch cynulleidfaol. Gwelwyd ymddygiad y gynulleidfa yn cael ei bortreadu fel ffenomen ryfeddol a chyffrous a chafwyd darlun o'r capel lle roedd y drefn arferol, a'r arfer o bregethu yn aml iawn yn cael ei disodli.

Yn wir, gellir dadlau bod nifer fawr yr adroddiadau sy'n disgrifio'r gweithgarwch cynulleidfaol cyffrous yn gyfrifol am y drafodaeth ynglŷn â'r graddau y disodlwyd y bregeth, ac yr anffurfiolwyd cyfarfodydd y capel. Gwelir bod gwaith haneswyr diweddar sy'n ymhél â'r dadleuon ynghylch y graddau y profwyd chwyldro yn y capel yn dystiolaeth o'r modd y parhaodd y ddelwedd hon o'r gynulleidfa yn un sefydledig o'r Diwygiad yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Mae hyn oherwydd bod llawer o'r hanesyddiaeth yn ymwneud â herio'r delweddau sefydledig. Trwy hyn, gellir dadlau, bu'r cysyniad o'r Diwygiad yr ymroddwyd i'w ddiffinio a'i greu gan y cynulleidfaoedd ar y pryd a chan y wasg a'i disgrifiodd, yn bod ganrif yn ddiweddarach. Wrth drafod y modd y disodlwyd y bregeth, er enghraifft, mewn sawl cyfarfod yn ystod y Diwygiad, mae haneswyr diweddar yn ymdrechu i amlygu amrywiaeth a chymhlethdod y sefyllfa. Nododd R. Tudur Jones:

> Wrth drafod natur y Diwygiad, nid yw bob amser yn hawdd cyffredinoli. Er enghraifft, dywedwyd lawer gwaith fod pregethu wedi ei ddisodli'n llwyr gan

---

[21] W.Anthony Davies, yn J. Ellis Williams (gol.) *Berw Bywyd 1903-1955, Detholiad o Ddyddiadur W.Anthony Davies* (Llandysul, 1968), t.20.

> y Diwygiad. Ac eto, dywed Elfed mai eithriad oedd hynny yn y Gogledd, er ei fod yn gyffredin yn y De.[22]

Sylwer y nodir fod y gred fod pregethu wedi ei ddisodli'n llwyr wedi ei grybwyll lawer gwaith, gan awgrymu fod yr elfen hon o'r gweithgarwch yn rhan o'r stori a adroddwyd ar y pryd ac ers hynny. Ceir cyfeiriadau uniongyrchol at y ffenomen hon mewn ambell astudiaeth. Nododd Robert Pope mai un o bileri chwedloniaeth y Diwygiad oedd y cysyniad nad oedd pregethu yn y cyfarfodydd:

> Un o bileri'r chwedloniaeth boblogaidd yw'r gred am ddiffyg pregethu yn ystod y diwygiad. Mae'n siŵr i'r syniad hwn godi oherwydd y pwyslais ar ganu cynulleidfaol (er i Roberts ar lawer achlysur roi taw ar y canu a dweud wrth y gynulleidfa am weddïo mwy), gweddi a chyffesu cyhoeddus. Yn Rhosllannerchrugog, er enghraifft, cyrhaeddodd y diwygiad a ffynnu heb gymorth gan Evan Roberts a chadwodd y bregeth ei phwysigrwydd.[23]

Dyma gyfeirio'n uniongyrchol at y syniadau a sefydlwyd ers hynny ynglŷn â chyfarfodydd y Diwygiad a'r gred na chafwyd fawr o bregethu. Mae'n amlwg yn nhyb Pope fod y ddelwedd o'r gynulleidfa yn meddiannu'r digwydd ar draul y bregeth yn un bresennol iawn yn stori'r Diwygiad ers 1904-05 felly. Mewn modd tebyg, cyfeiriodd Dafydd Job (cyfeiriwyd ato eisoes yn y Rhagarweiniad) wrth drafod cynnwys dyddiaduron ei dad-cu, J.T. Job, a oedd yn weinidog ym Methesda ar y pryd ac a fu'n amlwg iawn yng ngweithgarwch y Diwygiad yno, 'bod llawer wedi ei wneud' o'r ffenomenau anarferol. Pwysleisiodd y defnydd a wnaed o'r bregeth yn y cyd-destun hwn:

> Mae'n debyg y gellid dweud ei fod wedi mynegi'r hyn oedd yn digwydd yn ei bregethau yn anad dim. Er bod llawer wedi ei wneud o'r amgylchiadau o emosiwn, a'r ffenomenâu anarferol, mynnai Job fod i bregethu ei le canolog yn y gwaith. Roedd hyn yn wir am sawl un o arweinwyr y Diwygiad.[24]

---

[22] R.Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf. 2, t.209.
[23] Robert Pope, 'Dadfythu "Diwygiad Evan Roberts"', t. 136.
[24] Dafydd Job, 'Dyddiaduron Tad-cu', yn *Taliesin* 124, 2005, t.19.

Gwelir felly sut mae stori'r Diwygiad wedi pryfocio'r hanesydd i ymateb mewn modd sy'n ymdrin â'r ffurf hon ar y mudiad. Gwelir yma natur y Diwygiad fel chwedl yn dylanwadu ar broses o adrodd y stori ganrif yn ddiweddarach. Wrth gwrs, gellir ystyried y modd mae haneswyr wedi pwysleisio amrywiaeth y profiadau o dan ddylanwad y mudiad, yn wyneb y feirniadaeth a fynegwyd am rai o ffenomenau'r Diwygiad. Yn y cyswllt hwn, mae disgrifio'r modd y cafwyd pregethu yn ystod y Diwygiad yn ymwneud â dadlau bod lle i'r deallusol a'r cymedrol yn y cyfarfodydd. Mae'r dadlau yn ymateb i'r delweddau hynny a sefydlwyd yn rhan o stori'r Diwygiad yn ystod 1904-05 ac ers hynny. Gwelir bod y drafodaeth yn cynnal elfen ar y ddadl a sefydlwyd ar y pryd.

Ers digwyddiadau Diwygiad 1904-05, nid yng ngwaith haneswyr yn unig y ceir cynrychioliad o'r elfen hon ar y stori. Cyfeiriodd Katie Gramich at y delweddau o'r cyfarfodydd yng ngweithiau ffuglen S. M Saunders, *Y Diwygiad ym Mhentre Alun* (1907) a *Llithau o Bentre Alun* (1908). Meddai: 'Yn wir mae gweinidogion y capeli fwy neu lai'n diflannu i'r cefndir, a'r cymeriadau benywaidd cryf...yn cymryd eu lle yng nghanol y llwyfan.'[25] Fel y nodwyd eisoes bydd cyfeirio yn y traethawd hwn at weithiau a ymddangosodd ers 1904-05, gan gynnwys gweithiau creadigol o amrywiol fathau, a hynny er mwyn olrhain cyflwr y Diwygiad fel ffenomen ers blynyddoedd 1904-05. Gan gyfeirio am y tro cyntaf yma felly at waith creadigol diweddar, edrychir ar nofel Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (2007) yma. Mae'r nofel yn un o nifer o weithiau creadigol sydd wedi eu seilio ar weithgarwch ynghlwm wrth y Diwygiad a ymddangosodd ganrif wedi'r Diwygiad y bydd cyfeirio cyson ato yn y

[25] Katie Gramich, 'Dehongli'r Diwygiad: Ymateb Awduron Cymreig i Ddiwygiad 1904-05' yn *Taliesin* 128, 2006, t.23.

traethawd hwn. Yn y nofel, sy'n cynnwys atgofion ac adroddiadau y newyddiadurwr dychmygol, W. T. Davies, ceir adroddiad newyddiadurol sy'n disgrifio gweithgarwch y gynulleidfa yn y capel ac ymateb y gweinidogion:

> Daeth nifer fawr o weinidogion y cylch i'r cyfarfod, megis rhai o Lanelli, Pontarddulais, Llwynhendy, Gowerton a Gorseinon; ond ni siaradodd rhagor nag un o honynt. Dyma y cyfarfod y bu y plygu mwyaf ofnadwy ynddo o'r gyfres mor belled. Synnodd pawb oedd yn bresennol at yr olygfa. Bu llawer ar eu gliniau yn hir a methu dywedyd gair gan y bangfa a'r caledi. Gwnâi eraill eu goreu i'w cynorthwyo a'u harwain allan o'u cyfyngder. Byddai rhai yn cwympo yn ddiymadferth dan y dylanwad mawr, ac ereill yn dolefain nes y gellid eu clywed yn y pellder. Fan draw, cyfyd un i weddïo dros y meddwon, nes gyrru y lle yn arswydus i fod ynddo; fan yma, gwaedda merch fach, - 'Beth am y nefoedd os yw hi mor dda yma?'
> Edrych yn syn ar y golygfeydd a wnâi y gweinidogion, heb wybod beth i'w ddywedyd ac ni ddarfu ond un o honynt agor ei enau...[26]

Mae'r disgrifiadau o ymddygiad y gynulleidfa yn adlewyrchu'n agos y math o ddisgrifiadau a gafwyd ar y pryd o gyfarfodydd y Diwygiad. Gwelir felly y broses o efelychu a dilyn y confensiynau sefydledig o ysgrifennu am weithgarwch y Diwygiad yn digwydd ganrif yn ddiweddarach. Ceir ail-greu y darlun o weithgarwch y capel a oedd yn rhan o stori'r Diwygiad ar y pryd yma, gan adlewyrchu, o bosib, natur gartwnaidd y darlun hwnnw. Gellir dadlau mai'r hyn a welir yw elfen o stori'r Diwygiad ar y pryd yn mynnu trafodaeth gan fabwysiadu ffurf newydd, ganrif yn ddiweddarach. Gellir gweld yr ysgrifennu hefyd yn dystiolaeth o'r modd yr oedd adroddiadau am weithgarwch y Diwygiad yn dilyn fformiwla benodol, yn yr ystyr fod ffurf yr adroddiadau'n caniatáu efelychiadau hwylus. Bu ail-greu'r fath adroddiadau yn y cyfnodolion ac yn y papurau lleol yn ganolog i'r gwaith o ledu a chynnal y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus a chenedlaethol ar y pryd.

---

[26] Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (Llanrwst, 2007), t.28.

**Y canu cynulleidfaol a'r emyn**

Un o'r strwythurau amlycaf a fabwysiadwyd gan y gynulleidfa wrth gynnal y gweithgarwch newydd oedd y canu cynulleidfaol. Mae'n sicr y profodd yr arferion newydd a fabwysiadwyd gan y gynulleidfa o safbwynt canu emynau yn sylfaenol i'r drefn newydd a sefydlwyd. Ers hynny, mae canu'r emyn yn un o'r nodweddion amlycaf a gysylltir â gweithgarwch y Diwygiad. Mewn cyfarfodydd yr ystyriwyd eu bod o dan ddylanwad y mudiad cafwyd canu cynulleidfaol ymddangosiadol ddigymell ar emynau a phenillion yn ogystal â chyfraniadau gan unawdwyr, cantorion ac aelodau o'r gynulleidfa. Mae cefndir a chynnwys llawer o'r emynau a gysylltir â'r Diwygiad wedi eu trafod gan ysgolheigion ac mae'r cantorion a'r cantoresau a fu'n amlwg yn ystod y Diwygiad hefyd wedi cael sylw mewn astudiaethau yn y maes.[27] Yma, ceisir dangos bod yr emyn a'r weithred o'i ganu, yn ganolog yn y gwaith o gynnal y Diwygiad fel mudiad yn ymarferol ar lawr y capel, gan brofi'n elfen amlwg o stori'r gynulleidfa ar waith yn y Diwygiad. Mae sawl ysgolhaig wedi cyfeirio at rôl yr emyn o safbwynt ei ddefnydd wrth gynnal cyfarfodydd y Diwygiad. Dywed Noel Gibbard fod Elfed wedi myfyrio ar rôl yr emyn fel cyfrwng i'r gynulleidfa:

> Er ei fod yn pwysleisio gwrthrychedd emyn, daeth yr elfen oddrychol i'r amlwg yn y Diwygiad. Mae'n siwr i'r Diwygiad gadarnhau ei argyhoeddiad mai cyfrwng i'r gynulleidfa yw emyn, ond medrai Elfed gyfuno dwy wedd. Hynny yw medrai ganu gyda'r gynulleidfa yr hyn oedd yn brofiadau byw ar y pryd, a hefyd medrai eiriol dros eraill yn y canu.[28]

Gwelwyd yr arferion a'r arddull wrth ganu yn cael ei ddefnyddio i fesur ansawdd ysbrydol y cyfarfodydd. Cyfeiriodd Elfed at ansawdd y canu, wrth ddisgrifio cyfarfod

---

[27] Er enghraifft, Noel A. Gibbard, *Caniadau'r Diwygiad, Golwg ar Emynau, Penillion a Thonau Diwygiad 1904-05* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2003).
[28] Noel Gibbard, *Elfed a Diwygiad 1904-05* (Abertawe, 2004), t.37.

ar 7 Rhagfyr 1904 yn Rhosllannerchrugog yn ei gyfrol *With Christ Among the Miners* (1906):

> *I am finding out that this revival has added something indefinable to the ordinary human voice, not there usually...Such unison of awe, and affection, and tender sorrow there was in the singing that morning. I had never felt before, I thought, how much music was in the name Iesu as the voice lingered over it in the refrain...Nothing mattered in the world exept this - 'Pass me not, O gentle Saviour.'* [29]

Gwelwyd disgrifio'r canu mawl a gafwyd yn un o'r confensiynau a fabwysiadwyd wrth adrodd am gynnwys y cyfarfodydd. Yn ei dro, gwelwyd y canu mawl yn nodwedd symbolaidd yn y gwaith o gyfleu'r syniad fod y mudiad ar waith, ac o ganlyniad fe'i plannwyd yn ganolog i stori'r cyfarfodydd yn y capel. Dehonglwyd ffenomenau penodol yn ymwneud â'r canu fel tystiolaeth o ansawdd ysbrydol y gweithgarwch. Nodwyd am y Diwygiad yn *Y Diwygiwr* Ionawr 1905: 'Hen dônau, hen emynau, hen wrandawyr, a hen wrthgilwyr - arwyddion sicr fod y "peth hwn" o Dduw ac nid o ddynion.'[30] Gellir gweld sut y bu poblogeiddio'r emynau cyfarwydd yn ddefnyddiol wrth ryddhau cynulleidfaoedd i'w dehongli mewn amrywiol ddulliau. Wrth ddibynnu ar y cof am eiriau a thonau nid oedd angen canolbwyntio ar ddarllen na dilyn arweiniad. O ganlyniad rhyddhawyd y meddwl a'r corff i ymroi yn llawn i'r gweithgaredd gan gynnal y cyfarfod.

Mae'r darn isod yn disgrifio'r arddull newydd a welwyd wrth ganu'r emyn. Disgrifir cyfarfod ar nos Sul 20 Tachwedd 1904 ym Mhort Talbot gan J. E. Rees yn y gyfrol *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (1906):

---

[29] Elvet Lewis, *With Christ Among The Miners: Incidents and Iimpressions of the Welsh Revival* (Llundain, 1906), t.106.
[30] *Y Diwygiwr*, Ionawr 1905, t.29.

> Torodd rhywun allan i ganu 'Wrth gofio'i ruddfanau yn yr ardd', ac yna un arall 'Cerdd ymlaen nefol dân,' &c. Ac yno y buom yn dyblu, ac yn dyblu, ac yn dyblu y llinellau olaf, nes yr oedd y tân yn cerdded fel y mynai.[31]

Ymddengys y dehonglwyd y newid a gafwyd wrth gyflwyno'r emyn yn symbolaidd o'r newid ysbrydol a deimlwyd. Trosir y weithred o ddyblu llinellau gan yr awdur i gyfleu syniadau am erfyn ar yr Ysbryd ac o dderbyn ei ddylanwad. Roedd newid y modd y cyflwynwyd yr emyn yn symbol i arddangos y newid ysbrydol a deimlwyd ac yn gyfrwng i weithredu'r newid hwn gan ddylanwadu ar yr awyrgylch. Gellir ystyried y newid wrth gyflwyno'r emyn yn rhan o'r strwythur newydd a fabwysiadwyd i gynnal y gweithgarwch cynulleidfaol, ac yn fframwaith i'r anffurfioli ymddangosiadol byr-dymor o dan ddylanwad y mudiad. Meddir mewn adroddiad yn *Y Drych* ar ddylanwad y Diwygiad mewn cyfarfodydd yn Edwardsdale yn yr Unol Daleithiau: 'Ystyriem gynt fod canu yr un dôn fwy nag unwaith mewn cyfarfod braidd yn bechod, yn erbyn yr Ysbryd, ond yn awr fe genir yr un gair mewn ambell gwrdd lawer o weithiau!'[32] Gwelir yma sut y profodd sefydlu'r arferion newydd, o safbwynt y canu yn y fan hon, yn gonfensiynol o gyfarfod yn ystod y Diwygiad. Trwy hyn, gwelir y broses o roi ffurf i'r mudiad a'i stori, a'r stori honno yn ei dro yn mabwysiadu cymeriad yn genedlaethol a thu hwnt.

Roedd gan yr emyn ran amlwg wrth sefydlu patrwm confensiynol ar gyfer cyfarfodydd y Diwygiad. Ar y naill law, gellir gweld sut y dehonglwyd y newid a welwyd yn y modd y cyflwynwyd yr emyn yn arwydd o sut y torrwyd ar drefn y crefyddoldeb arferol ac felly yn arwydd o burdeb yr ymdeimlad ysbrydol. Mae'r darn isod yn *Seren Gomer* Mawrth 1905 yn mynegi'r ymdeimlad y cysylltwyd

[31] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr, Hanes Toriad Gwawr Diwygiad 1904-05* (Dolgellau, 1906), t.180.
[32] *Y Drych*, 2 Chwefror 1905, t.5.

'celfyddgarwch mewn canu' â chrefyddoldeb arwynebol ac felly ystyriwyd yr arddull newydd anffurfiol o ganu'r emyn yn arwydd o ddylanwad gwirioneddol yr ysbrydol ar y pryd:

> Nodweddid crefydd ysbrydol gan iselder dwfn a chrefydd ymarferol gan ffurfioldeb diarebol. Llafurid mwy er sicrhau gwychder mewn addoldai, celfyddgarwch mewn canu a dysgeidiaeth a hylithder mewn pregethu, nag y llafurid i sicrhau uniongrededd mewn athrawiaeth, sancteiddrwydd mewn ymarweddiad, a ffrwythlondeb mewn bywyd cyffredin.[33]

Datblygodd y canu digymell yn un o gonfensiynau'r strwythur newydd a gafwyd yn y capel. O ganlyniad, datblygodd y defnydd newydd a wnaed o'r emyn yn rhyw fath o dystiolaeth i arddangos fod dylanwad yr ysbryd wedi cyrraedd cyfarfod penodol. Trwy hyn, gwelwyd y canu mawl torfol yn rhan o'r broses a welwyd gan gynulleidfaoedd o ddilyn confensiynau gan roi trefn ar y cyfarfodydd a'r stori ar waith.

Yn wir, profodd yr emyn yn asiant yn y gwaith o roi trefn ar y cyfarfodydd i'r fath raddau nes y gwelwyd yr emyn yn offeryn yn y gwaith o reoli'r cyfarfod hefyd. Cyfeiriodd Sion Aled Owen at rôl ymarferol y canu yn y gwaith o gynnal y gweithgarwch. Awgryma fod yr emyn yn gyfrwng i fynegi teimlad ac yn asiant a oedd yn dylanwadu ar ffurf y cyfarfodydd:

> *There is no doubt that one component which brought an albeit inconstant unity to the proceedings was the hymn - singing...There is no doubt that congregational hymn- singing does bring emotional release...On other occasions, however, the outbreak of singing could inject new order and unity into a meeting which was in danger of going adrift...*[34]

Sylwer y nodir bod gan y weithred o ganu'r emyn rôl wrth roi bywyd a threfn i'r cyfarfodydd. Defnyddiwyd yr emyn i greu a rheoli naws. Gwelir hyn yn eglur mewn

---

[33] *Seren Gomer*, Mawrth 1905, t.60.
[34] John Aled Owen, tt.133-134.

adroddiadau o rai o gyfarfodydd Evan Roberts. Mae'r modd y torrodd Roberts ar draws y canu cynulleidfaol ar sawl achlysur wedi ei feirniadu gan rai. Mae J. Vyrnwy Morgan, a ystyrir gyda'r mwyaf beirniadol o gyfraniad Roberts, yn mynd mor bell â dweud bod Roberts yn gyfrifol am ddiffodd y tân, a hynny drwy rheoli'r canu. Disgrifir cyfarfod yn Zoar Castell Nedd ganddo yn ei bennod ar Roberts:

> *A young woman in the gallery cried out for mercy. Then there occurred a very remarkable thing. The whole congregation, as if divinely inspired, commenced to sing a hymn - the same hymn. Nobody gave the lead. It was spontaneous, unanimous, and full of holy fervour. It had not entered into the heart of any man present to conceive such a thing possible. It was three o'clock. Then someone whispered, 'Here he comes.' The whole congregation was on its feet in an instant. There was Evan Roberts being brought in between two policemen. He at once ascended the pulpit stairs, sat down, and as usual buried his face in his hands. Shortly afterwards he stood on his feet, and began the process of scanning. At last he said, ' The Spirit is gone here.'...The dismissal was sudden, abrupt and even annoying.*[35]

Beth bynnag oedd y farn ynglŷn â lles dylanwad Roberts fel ffigwr yn ystod y Diwygiad, ni ellir amau y gwelwyd Roberts ar adegau yn rheoli naws ac ymddygiad cynulleidfa drwy gyfrwng y canu. Mae llawer o adroddiadau yn nodi gorchmynion Roberts. Nodwyd mewn adroddiad yn *Y Genedl Gymreig,* 6 Rhagfyr 1904, am Roberts mewn cyfarfod yn Nhreorci yn ceisio dylanwadu ar y naws wrth ganu, 'Sylwodd y Diwygiwr eu bod yn canu un emyn yn rhy araf i fod yn arwydd o ddiolchgarwch. "Mae bywyd newydd yn dyfod i Gymru" meddai.'[36] Roedd y dull y canwyd yr emyn felly yn offeryn i reoli naws cyfarfod, ac o ganlyniad gwelir y modd y gellid rheoli'r gweithgarwch a oedd yn ymddangosiadol ddigymell a thu hwnt i reaolaeth dyn.

---

[35] J. Vyrnwy Morgan, *The Welsh Religious Revival, 1904-05 A Retrospect and a Criticism* (1909), t.53.
[36] *Y Genedl Gymreig*, 6 Rhagfyr 1904, t.3.

Roedd gan yr emyn ran ganolog yng nghymeriad y Diwygiad fel mudiad cenedlaethol a chyhoeddus hefyd. Gwelir hyn wrth i ambell emyn fabwysiadu statws fel emyn a oedd yn perthyn i fudiad y Diwygiad. Mae'r disgrifiad isod a gafwyd yn y gyfrol *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (1906) yn dangos y cafwyd ymwybyddiaeth o'r emynau a sefydlwyd fel 'emynau'r Diwygiad' ac yn arddangos dylanwad yr ymwybyddiaeth hon ar y gwaith o gynnal y cyfarfodydd:

> Dechreuodd rhywun y cwrdd trwy ganu emyn y Diwygiad, 'Dyma gariad fel y moroedd,'&c. Cenid hi hefyd ar dôn yr Adfywiad, sef 'Ebenezer.' Teimlem ar unwaith fod yr Ysbryd yn cyniwair trwy y lle.[37]

Ac mewn adroddiad sy'n disgrifio cyfarfod yn Llanrwst nodwyd:

> Y mae canu yn dweyd yn llawn mwy na dim yn y cyfarfodydd yma, ac nid ydym byth yn blino ar ganu rhai emynau, yn enwedig 'Dyma gariad fel y moroedd' &c., ar y don 'Resolven.' Os bydd eisieu codi y cyfarfod i mwy o wres, nid oes dim yn cyraedd hyny yn well na chanu y geiriau hyn.[38]

Mae'n amlwg bod sefydlu emynau'r Diwygiad yn rhan o'r gwaith o roi ffurf i'r mudiad ar y pryd ac y gwelwyd yr emynau o dan sylw yn cael eu defnyddio mewn ymgais i roi'r mudiad a'i stori ar waith. Bu sefydlu 'emynau'r Diwygiad' hefyd yn ddylanwad ar gymeriad ffenomen y Diwygiad wedi hynny. Yn sicr gwelwyd y canu yn cael ei gynrychioli'n amlwg iawn mewn gweithiau y bydd trafod pellach arnynt, gan gynnwys sioeau a dramâu, yn y bennod hon. Yn ogystal, ar adeg canmlwyddiant y Diwygiad, roedd ymddangosiad casgliad Lleuwen Steffan o emynau'r Diwygiad ar ei chryno ddisg *Duw a Ŵyr,* a ryddhawyd ym Medi 2005 gan gwmni recordio *Sain,* yn arwyddocaol o'r modd y plannwyd yr emynau yn ganolog yn hunaniaeth a stori'r Diwygiad ers hynny.

---

[37] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*, t.342.
[38] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*, t.235.

**Y weddi a'r cyfarfod gweddi**

Un o'r elfennau eraill ar weithgarwch y gynulleidfa a sefydlwyd yn rhan o'i stori yn y Diwygiad oedd y gweddïo. Gwelwyd y weddi yn datblygu yn gonfensiwn nodweddiadol i'r gynulleidfa gyfrannu yn gyhoeddus a gwelwyd sefydlu cyrddau gweddi yn rhan o'r ymdrech i roi'r mudiad a'i stori ar waith. Yn ôl yr adroddiadau, trefnwyd cyrddau gweddi ychwanegol a briodolwyd yn arbennig fel rhai a berthynai i'r Diwygiad mewn ymgais i feithrin dylanwad yr Ysbryd, a gwelwyd cyfarfodydd cyffredinol yn cael eu meddiannu gan weddi. Gwelwyd gweddïo yn cael ei sefydlu yn un o gonfensiynau gweithgarwch y mudiad, a phrofodd y ffurfiau hyn yn rhan o'r strwythur newydd wrth ymarfer crefydd yn ystod y Diwygiad. O ganlyniad, gwelwyd cyfeirio cyson at gyfarfodydd gweddi yn y wasg wrth adrodd am y mudiad, a defnyddiwyd y cyfarfodydd gweddi yn symbolaidd fel tystiolaeth fod y Diwygiad ar waith ar y pryd. Nodwyd yn *Y Tyst,* 22 Chwefror 1905, am Dalysarn: 'Da genym hysbysu fod y Diwygiad yn parhau yn ei wres yn Seion o hyd. Yr ydym yn cael gwell cyfarfodydd gweddïo yn awr nag ydym wedi gael o gwbl.'[39] Cyfeiriwyd at y cyrddau gweddi mewn sawl adroddiad fel tystiolaeth bod dylanwad y Diwygiad ar waith mewn ardal benodol. Am yr Wyddgrug a Sychtyn nodwyd: 'Da gennym allu hysbysu fod awelon hyfryd y Diwygiad wedi cyrhaedd yr ardal dawel hon er's peth amser. Ymunodd y ddwy eglwys i gynal cyfarfodydd gweddïo bob nos er dechreu y flwyddyn.'[40] Trwy hyn, gwelwyd y cyrddau gweddi yn mabwysiadu rôl ymarferol a symbolaidd yn y gwaith o gynnal y mudiad yn ymarferol ar lawr y capel ac yn ei ffurf fel mudiad cyhoeddus. Gwelir yr un math o broses ar waith wrth edrych ar agweddau

[39] *Y Tyst*, 22 Chwefror, 1905, t.4.
[40] *Y Tyst*, 22 Chwefror, 1905, t.4.

eraill ar ffurf y mudiad yn y traethawd hwn, o safbwynt gweithgarwch y ferch ym mhennod 3 er enghraifft a dylanwadau'r Diwygiad ar weithgarwch y gymdeithas ym mhennod 4. Drwy'r broses hon gwelir y modd y rhoddwyd ffurf ar stori'r Diwygiad ar y pryd.

Daeth y weddi yn rhan bwysig o'r strwythur newydd a sefydlwyd wrth gyfarfod yn y capel. Mae'n amlwg y poblogeiddiwyd cyrddau gweddi o dan ddylanwad y Diwygiad mewn sawl man, a chafwyd pwyslais ar gyfraniadau gan unigolion mewn cyfarfodydd eraill a hynny yn aml drwy weddi. Roedd y symudiad hwn tuag at y pwyslais newydd ar y weddi yn sail i bryderon ynglŷn ag ansawdd deallusol y gweithgarwch gan rai. Yn ei gyfrol, *'Her y Ffydd: Ddoe, Heddiw ac Yfory' Hanes Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg 1876-2005*, mae J. Gwynfor Jones yn crybwyll pryderon y Parch. William Lewis, Cwm-parc, am y pwyslais ar y weddi ar draul yr elfen ddeallusol yn ystod y Diwygiad, yn Adroddiad y Cyfarfod Misol 1905. Nododd:

> Teimlai nad oedd y Diwygiad, er cymaint ei rymuster, wedi dysgu'r rhai a ddaethai dan ei ddylanwad, i ddarllen ac ystyried dyfnion egwyddorion y ffydd Gristnogol. Awgryma fod y Diwygiad wedi rhoi gormod o bwyslais ar gyfarfodydd lle yr amlygwyd gweddi, a hynny'n aml mewn dull anrhefnus tra y collwyd golwg ar y Cyfarfod Darllen traddodiadol.[41]

Gwelir o ganlyniad ffenomen y weddi yn ystod y Diwygiad yn destun trafod ar y pryd ac ers hynny, a gwelir yr un math o drafodaeth a gafwyd ar y pryd ynglŷn â lles natur y mudiad yn cael ei chynnal.

Roedd ymwybyddiaeth o arwyddocâd y poblogeiddio a fu ar weddïo ac o gynnal cyrddau gweddi ar y pryd. Ystyriwyd y weddi yn draddodiadol fel cyfrwng

[41] J. Gwynfor Jones, *Her y Ffydd, Ddoe, Heddiw ac Yfory, Hanes Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg 1876-2005* (Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg, 2006), t.143.

CARDIFF UNIVERSITY

mynegiant yn ystod cyfnod o adfywio yn y capel, a hynny yn naturiol iawn gan fod y cysyniad o weddi yn ymwneud â chyfathrebu yn uniongyrchol â Duw. Ymhellach, cafwyd ymwybyddiaeth ddiwylliannol o rôl y weddi fel cyfrwng yn ystod cyfnod o adfywio. Mewn cyfres o erthyglau o dan y teitl, 'Adfywiadau Diweddar' yn *Y Tyst*, 21 Medi - 19 Hydref 1904, cafwyd gwybodaeth a gasglwyd mewn holiaduron a anfonwyd gan *Y Tyst* at weinidogion eu henwad, yr Annibynwyr, yn gofyn am wybodaeth am natur unrhyw adfywiadau a brofwyd yn eu capeli. Yn yr erthygl olaf o'r gyfres, 19 Hydref 1904, rhestrwyd nodweddion y gellid eu priodoli'n gyffredinol i'r holl adfywiadau a ddisgrifiwyd yn yr holiaduron, a nodwyd y canlynol am y weddi:

> Edrychasom unwaith yn ychwaneg drwy ysgrifau y brodyr a anfonasant atom, a nodwn yn awr rai pethau sydd yn gwbl amlwg ynddynt. Yn mysg y pethau hynny gwelwn:-
>
> 1. fod gweddi wedi cael lle mawr yn mhob adfywiad. Cyfeiria pob un o'r ysgrifenwyr at gyfarfodydd gweddi wedi bod yn blaenori yr adfywiadau. Dywedant hefyd fod llawer o weddio wedi bod yn ystod yr adfywiadau, ac ar ôl iddynt basio...[nodwyd mewn un ymateb i'r holiadur]...'Yr oedd gweddiau bach yn myned yn fawr, a rhai mawr yn myned yn fwy'...[a nodwyd mewn un arall]...'Ceid anerchiadau byrion, ond hynod effeithiol, gan rai a waredasid yn gymharol ddiweddar o grafanc y llew, ac o balf yr arth, ac yr oedd eu geiriau yn cerdded fel tân trwy y gynulleidfa.'[42]

Mae'r erthygl o dan sylw yn enghraifft o'r ymdrechion penodol a gafwyd gan arweinwyr yr enwadau i ymroi i'r gwaith o gynnal mudiad o'r fath a bod y fath ymdrechion yn dangos y modd yr aethpwyd ati yn rhesymegol i roi ffurf ar y mudiad, gan amlinellu'r nodweddion hynny sy'n perthyn i adfywiad crefyddol. Drwy hyn, gwelwyd sut y croesawyd confensiynau newydd i'w mabwysiadu yn ystod y Diwygiad a sut yr oedd y gwaith o ddilyn y confensiynau hyn yn ganolog i gynhaliaeth y mudiad. Gwelir o ganlyniad yr elfen o drefn a berthynai i weithgarwch

[42] *Y Tyst*, 19 Hydref, 1904, t.3.

y Diwygiad, a'r drefn honno yn deillio o ymdrech i sefydlu diwylliant newydd yn enw adfywiad crefyddol.

**Yr unigolyn yn y gynulleidfa**

Roedd ymddygiad yr unigolyn yn y cyfarfodydd yn sicr yn rhan o stori'r Diwygiad ar y pryd a gwelwyd y ddelwedd o gyfraniad emosiynol yr unigolyn yn aros yn rhan o'r chwedloniaeth yn y ganrif ers hynny. Mae haneswyr wedi cyfeirio yn benodol at yr agwedd hon o weithgarwch y Diwygiad. Mae Russell Davies, er enghraifft, wedi dehongli natur a chynnwys y cyfraniadau a gafwyd yng nghyfarfodydd y Diwygiad yng nghyd-destun ofnau'r unigolyn yn y cyfnod hwn ac fel mynegiant o'r pryder a deimlai pobl mewn byd o anobaith.[43] Ar lefel arall gellir gweld fod dwysâd mewn teimladau ac emosiynau yn perthyn i'r newid ideolegol a brofwyd o dan ddylanwad y mudiad a chafwyd angen pellach i'w cyfleu. Roedd y cysyniad y cyfeiriwyd ato eisoes, fod dyfodiad newydd o ysbrydoliaeth i ymarfer crefydd, yn caniatáu newid ymarferol yn nhrefn y cyrddau ac o ganlyniad yn y dulliau a ddefnyddiwyd gan unigolion i fynegi eu hunain. Yn ogystal, roedd strwythur newydd y gwasanaethau yn ystod cyffro'r Diwygiad yn caniatáu i unigolion, a fyddai yn draddodiadol yn derbyn rôl oddefol, gyfrannu gan fynegi eu teimladau a'u profiadau yn gyhoeddus. Mae'r modd y gwelwyd unigolion di-nod yn cyfrannu yn huawdl ar lafar yn sicr yn un o nodweddion chwedlonol y Diwygiad. Cyfeiriodd Norman Williams at y ddelwedd hon gan nodi: '*It must be remembered however that they were perhaps drawing on a*

[43] Russell Davies, 'Voices from the Void: Social Crisis, Social Problems and the Individual in South West Wales *c.*1876-1920' yn Geraint H. Jenkins a J. Beverley Smith (goln.), *Politics and Society in Wales, 1840-1922* (Caerdydd, 1988), t.91.

*wealth of subconsciously acquired phraseology.'*[44] Gellir gweld hefyd y modd y tarddodd yr iaith a glywyd yn y capel o ffynonellau newydd a thrwy hyn cafwyd cynnwys ac arddull ieithyddol wahanol o dan ddylanwad y mudiad. Gwnaed yr iaith fwy anffurfiol hon yn dderbyniol i'w defnyddio yn y capel ac yn ei dro ystyriwyd yr ieithwedd hon yn dystiolaeth fod dylanwad yr Ysbryd yn bresennol mewn cyfarfod neu gapel penodol. Mae'n sicr y gwelwyd yr elfen hon ar y gweithgarwch yn rhan o'r stori a adroddwyd ar y pryd, ac y gwelwyd unigolion yn rhoi'r stori hon ar waith yn eu gweithgaredd. Mae'r gyfrol *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (1906) yn frith o ddisgrifiadau o'r modd newydd y gwelwyd unigolion yn cyfrannu yn y capel. Nodwyd ar nos Sadwrn 7 Ionawr 1905 i ŵr fynd ymlaen i weddïo yng nghapel yr Annibynwyr yn Llanegryn ger Towyn:

> Swm a sylwedd ei weddi y noson honno ydoedd ar i'r Arglwydd roddi tystiolaeth iddo ei fod wedi ei symud o farwolaeth i fywyd, a thra yn taer ymbil o flaen yr orsedd am oleuni - y dagrau yn treiglo dros ei ruddiau, a'r chwys yn diferu i lawr, wele ef yn sydyn yn gwaeddi ar uchaf ei lais - 'Diolch! Diolch!! Diolch!!!' Ar hyn safodd i fyny, ei freichiau yn estynedig tua'r nef, a'i wyneb yn disglaerio fel angel...a thra yr oedd y gynulleidfa yn canu trodd at ei weinidog y Parch. D. James, cofleidiodd a chusanodd ef, a dywedodd, 'Yr wyf yn ddiogel, byddaf ar gael y dydd hwnw - ar ddeheulaw y Barnwr yn y farn a ddaw. Cefais olwg ar fy Ngheidwad anwyl yn marw yn fy lle ar ben Calfaria - Diolch; O! diolch, yr wyf yn ddiogel byth!'[45]

Roedd y ddelwedd o'r unigolyn heb awdurdod a statws yn y gymdeithas yn cymryd rôl flaenllaw yng ngweithgareddau'r capel ac yn ganolbwynt i strwythur y cyfarfodydd yn un a ddarluniwyd yn gyson a cheir llawer o ddisgrifiadau o'r arddull syml newydd wrth weddïo mewn adroddiadau. Disgrifiwyd gweddi mewn cyfarfod yn Llanbed yn *Y Gwyliedydd* 12 Ionawr 1905: 'Gweddiodd rhyw wraig yn Saesneg yn angerddol a drylliog. Meddai hi, "O Lord, I used to think that I was all right, but now

---

[44] Norman Williams, 'Evan Roberts and the 1904-5 Revival' yn Stuart Williams (gol.) *Glamorgan Historian*, Cyf.5 (1968), t32.
[45] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*, t.308.

I see that I am all wrong. I thank Thee for showing me to be all wrong."'[46] Gellir dadlau, yn y pen draw y datblygodd yr arddull newydd hwn wrth fynegi'r hunan yn gonfensiwn wrth gyfrannu yn y capel yn ystod y Diwygiad gan gynnig elfen a oedd yn nodweddiadol o weithgarwch y Diwygiad. Roedd sefydlu arferion a chonfensiynau a ystyriwyd yn nodweddiadol fel canlyniadau gweledol dylanwad yr Ysbryd yn cynnig undod i weithgarwch a gafwyd o ardal i ardal gan sefydlu'r Diwygiad yn fudiad cenedlaethol. Bu adrodd am y ffenomenau yn y wasg hefyd yn gyfrifol am sefydlu'r fath arferion yn rhai nodweddiadol o weithgarwch y Diwygiad, a hynny gan greu darlun unffurf o'r mudiad a fu'n gyfrifol yn ei dro am lunio ei stori yn genedlaethol ar y pryd ac ers hynny.

Profodd yr iaith newydd anffurfiol syml yn y capel yn bwnc llosg ar y pryd ac yn rhan o stori'r Diwygiad fel mudiad dadleuol. Sylwer y cyfeirir at yr 'ymadroddion rhyfedd' a ddefnyddiwyd, mewn erthygl yn *Y Tyst* 18 Ionawr 1905, 'Pa un sydd i'w gondemnio fwyaf - seguryd dilwydd neu frwdfrydedd eithafol':

> Y mae tipyn o eithafedd i'w ganfod yn ddiau yn rhai o gyfarfodydd y Diwygiad. Clywir ef mewn ambell ymadrodd a ddefnyddir, a gwelir ef yn y dull y cyflawna ambell un ei ran yn y gwasanaeth. Gwelir nifer yn gweddio yr un pryd, ac weithiau mewn ieithoedd gwahanol. Cymer ambell un ran fwy nag unwaith yn yr un gwasanaeth. 'Portha' rhai y gwasanaeth mewn ymadroddion rhyfedd. Ceir ambell waith bobl yn colli yn mron arnynt eu hunain yn rhai o'r dulliau hyn - A dyna swm gwrthwynebiad un dosbarth o bobl i'r Diwygiad.[47]

Defnyddir arddull ac arferion ieithyddol yma, gan gynnwys geirfa ac ymadroddion, i fesur natur a lles gweithgarwch y capel o dan ddylanwad y Diwygiad. Trafodwyd arwyddocâd y newid ieithyddol hwn yn *Seren Gomer,* Mawrth 1905: 'Pennod

[46] *Y Gwyliedydd*, 12 Ionawr 1905, t.6.
[47] *Y Tyst*, 18 Ionawr 1905, t.8.

ddyddorol yn hanes y diwygiad fydd honno gofnoda'r cymariaethau gwreiddiol sydd wedi disodli ymadroddion ystrydebol y gweddïau arferol'.[48] Dyma fynegiant hefyd o ymwybyddiaeth o ffurf y Diwygiad fel hanes ers blynyddoedd 1904-05 ac o ffurf y Diwygiad ar y pryd fel stori fawr. Ymroddodd cyfrol gyfan a gyhoeddwyd ym 1906, sef *Perlau'r Diwygiad,* i gofnodi'r dywediadau a glywyd yn ystod y Diwygiad. Nodwyd:

> Wedi i ymchwydd y Diwygiad gilio draw; wedi iddo ddod yn bwnc o hanes a beirniadaeth, fe erys y 'Perlau' i dystiolaethu am dano, ac i'w gadw yn fyw yn meddwl y dyfodol. Gall haneswyr wahaniaethu yn eu barn mewn perthynas iddo, ond nis gellir byth ddileu y ffaith ddarfod iddo *ysbrydoli y bobl,* ac i'r ysbrydoliaeth hwnnw roddi bod i berl-ddywediadau nad ânt byth yn hen.[49]

Dadansoddwyd y mynegiant anffurfiol newydd fel mynegiant naturiol ac felly yn fynegiant diffuant o ymdeimlad ysbrydol. Yn *Y Tyst,* 18 Ionawr 1905, mewn ysgrif o dan y teitl 'Y weddi gyhoeddus', mynegwyd canmoliaeth mawr i'r arddull newydd a fabwysiadwyd gan yr ifanc wrth weddïo:

> Ond y mae y Cymru ieuanc ar ei gliniau - ar ei gliniau ar ben y mynydd. A phaham y mae ein pobl ieuanc ar eu gliniau? Yn sicr, yr ateb goreu - wel, yr unig ateb, debygwn ni, yw - am eu bod, yn ufuddhau i'r Prif Arweinydd, yr Hwn a ddywedodd, 'Ar eich gliniau.' Ond ymddangosant yn ufuddhau heb yn wybod iddynt eu hunain. A dyma sydd yn gwneyd y weithred mor lawn o ystyr - o wirionedd. Nid celfyddyd, ond naturioldeb, welwn. Ac y mae naturioldeb a symledd yn gyfystyr. Peidiodd y weddi gyhoeddus a bod yn berfformiad - am byth, ni a hyderwn. Clywsom rai yn son am y 'weddi fawr' ac am 'ddawn gweddi'. O gabledd! Ac er iddo fod yn wir fod gweddi yn waith, ac yn waith caletach a mwy cynyrchiol nag un arall, nid yw hyn yn gwneyd i ffwrdd â'i naturioldeb...Clywais wr ieuanc y noson o'r blaen yn cychwyn ei weddi gan ddyweyd, 'Ein Tad, yr Hwn wyt yn y nefoedd', 'Na', eb efe, 'gallwn ddyweyd yn awr, 'Ein Tad, yr Hwn wyt ar y ddaear.' Ac aeth yn mlaen gan siarad fel plentyn bach gyda'i dad. A dyma nodwedd y weddi gyhoeddus newydd - nid ymdrech at fod yn ddoniol, ac yn *striking*, ac yn soniarus - ond y *neges* yn cael ei dyweyd yn syml, a gonest, a ffyddiog, gan blentyn wrth ei Dad - ie, ac heb ddim tonyddiaeth.[50]

---

[48] *Seren Gomer,* Mawrth 1905, t.59.
[49] Anthropos (gol.) *Perlau'r Diwygiad, sef Perl-Ddywediadau y Cyfarfod Gweddi, Y Seiat Brofiad, Y Pulpud* (Caernarfon, 1906), t.12.
[50] *Y Tyst*, 18 Ionawr 1905, t.1.

Ystyriwyd natur newydd y weddi yn welliant gan rai. Nodwyd yn *Seren Gomer* Mawrth 1905: 'Glyner hefyd wrth y gweddïau byrion, gyda neges iddynt, sydd mor nodweddiadol o'r cyfarfodydd, ac na ddychweler yn ôl i'r gweddïau hirion dineges oedd yn ein nodweddu yn y blwyddi a fu.'[51] Nid oedd yr arddull newydd wrth weddïo at ddant pawb, fodd bynnag. Nodwyd mewn llythyr yn *Y Cymro* ym Mawrth 1905:

> Syr. - Fel aelod eglwysig er's dros 30 o flynyddoedd, mae yn dda dros ben genyf am y deffroad presenol yn yr Eglwysi mewn gwahanol barthau o'r wlad, ac un o'r pethau mwyaf amlwg yn nglyn ag ef ydyw creu awydd yn y tô ieuanc i gyfarch gorsedd gras, ac wrth wrando arnynt mae fy nghalon yn lloni, a'm gobeithion yn uchel at y dyfodol. Ond y mae yna un peth yn nglyn a hwy ag y carwn iddo gael sylw gan arweinwyr yr achos, sef y priodoldeb o gyfarwyddo y rhai ieuanc hyn, pa *fodd* i gyfarch gorsedd gras yn *weddus*. Y bai mwyaf cyffredin yn eu plith ydyw arfer enw yr Hollalluog bron yn mhob brawddeg, clywsom un yn ddiweddar yn anerch gorsedd gras, ac yn gwneud defnydd o frawddeg fel hyn tua 30 o weithiau, 'O Arglwydd, os gweli di'n dda.' Credwn pe buasai y cyfaill yn rhoddi ychydig o ystyriaeth i'r mater y buasai yn ymddwyn yn wahanol, ar weddi yn llawer mwy effeithiol. Credaf fod y gwres yn ddigon uchel yn ein plith yn bresenol, fel y gallem ddal 'gair y cynghor' yn y cyfeiriad hwn. Er ein mawr fantais, cofiwn mai *unwaith* yn unig y gwna y Gwaredwr ddefnydd o'i *enw* pan yn dysgu ei ddisgyblion i weddio.
>
> Hen Aelod![52]

Mae'n sicr y profodd natur y datganiadau a gafwyd ar lafar yn rhan o stori'r Diwygiad ar y pryd. Gwelwyd arddull newydd wrth gyfathrebu yn y capel wrth i unigolion fabwysiadu swyddogaethau newydd gan gyfrannu am y tro cyntaf yn gyhoeddus ar lafar. Ers hynny, arhosodd nodweddion ieithyddol y cyfraniadau a gafwyd ar lafar yn ystod y Diwygiad yn y cof. Mewn erthygl a nododd hanner canmlwyddiant y Diwygiad yn *Y Seren,* 11 Rhagfyr 1954, cyfeirir at y mynegiant trwsgl a glywyd fel testun tristwch a chywilydd, ond eto awgrymir mai profiad diffuant a oedd wrth wraidd y fath gyfraniad:

> Ond yr oedd yna dristwch pan fyddai yr Ysbryd yn ysgwyd ambell un anllythrennog - a bum droeon yn gwenu ar ambell frawddeg o ymbil un o'r

[51] *Seren Gomer,* Mawrth 1905, t.64.
[52] *Y Cymro,* 9 Mawrth 1905, t.6.

> brodyr llai, er enghraifft yn un o gyfarfodydd gwresog Festri Tegid, pan oedd y Diwygiad yn anterth ei nerth, llefodd un o hen drigolion Pla Sey Alley - fel cloch arian trwy'r canu a'r gweddio 'Arglwydd mawr,' meddai 'mae llawer o ddefaid yn brefu arna Ti heno, gwranda arna i yn brefu yn eu canol,' a phwy all brofi nad oedd ei ymbil yn onest.[53]

Yn nofel Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (2007) y cyfeiriwyd ati eisoes, gwelir yr arddull ieithyddol a fabwysiadwyd yn ystod y Diwygiad yn cael ei hefelychu. Mae Miles yn amlwg yn mwynhau chwarae â'r arddull ieithyddol hwn a gyda hiwmor yn efelychu rhai o'r datganiadau a wnaed gan gynnig amrywiadau ar y cynnwys. Dyfynnodd eiriau cymeriad yn gwneud datganiad yn y capel fel a ganlyn: 'Rwy'n dwlu ar bwdin reis, O Arglwydd,' cyffesodd un llanc, 'ond mae'n well 'da fi Ti!'[54] Gwelir o ganlyniad rym y fath gyfraniadau a gafwyd ar y pryd, gan aros yn rhan o stori'r Diwygiad.

Gellir ystyried yr arferion newydd a welwyd gan unigolion wrth gyfrannu ar lafar yn y capel yn gynnyrch y diwylliant a'r drefn newydd a fabwysiadwyd yn y capel ac yn rhan o'r gwaith o gynnal y Diwygiad fel mudiad a stori fawr. Roedd natur y datganiadau a gafwyd gan unigolion ar lafar yn aml yn ysgogi cynulleidfa i gydganu neu lefaru. Yn aml gwelir arddull ieithyddol penodol gan yr unigolyn yn cyflyru'r math hwn o ymateb. Ymddengys bod sawl nodwedd ieithyddol yn gyffredin i lawer o'r datganiadau gan unigolion yr adroddwyd amdanynt yn y wasg ac yn y cyfnodolion Cymraeg a oedd yn cyflyru ymateb gan y gynulleidfa. Profodd ailadrodd yn arfer effeithiol wrth ennyn cyfraniad cynulleidfaol. Er enghraifft nodwyd am 'y tywalltiad' ym Mhwllheli gan D. Caradog Evans:

> Toc, fe glywid y gwr ieuanc cyntaf yn erfyn ar yr Arglwydd roddi i ni yr un peth ag a roddasai yn Llithfaen,. 'Dyro yn awr - *yn awr* - YN AWR,' meddai ar

[53] *Y Seren*, 'Nodion Peryddon: cofio Diwygiad 1904-05', 11 Rhagfyr 1954, t.3.
[54] Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel*, t.118.

> uchaf ei lais, a dyma ugeiniau yn ymuno yn y deisyfiad, ac ar y foment dyma Duw yn ateb.[55]

Mae ailadrodd y geiriau, 'yn awr' gan yr unigolyn yma yn ysgogi eraill i ymuno ag ef, o ganlyniad gwelir arddull ieithyddol yn dylanwadu yn amlwg ar ffurf a natur y gweithgaredd. Mae'r mynegiant personol o ganlyniad i batrwm yr iaith a ddefnyddiwyd yn ysgogi'r gynulleidfa i gydlefaru. Roedd cynulleidfa ac unigolion yn cydio yng ngeiriau ei gilydd yn y modd hwn ac yn gallu meithrin perthynas rhwng unigolion a'i gilydd. Apeliwyd at y glust gan ailadrodd geiriau a llinellau er mwyn cyfrannu at y naws ysbrydol a ddymunwyd. Cafwyd y disgrifiad canlynol o gyfarfod yn *Y Cymro*, 1 Rhagfyr 1904:

> Gynted ag y bydd y bregeth drosodd, tyr rhywun allan i ganu, i orfoleddu, neu i waeddi am drugaredd. Clywir gweddiau byrion, taer, fel y canlyn, yn cael eu hoffrymu yn mhob cwr o'r gynulleidfa: 'O, anfon yr Ysbryd Glan, yn awr , er mwyn Iesu Grist, Amen.' 'O, anfon Ef yn rymus, er mwyn Iesu Grist Amen' 'O anfon Ef yn fwy grymus, er mwyn Iesu Grist, Amen.' Yna torir allan i ganu, -
> Dyma gariad fel y moroedd,...[56]

Yma, gwelir datganiadau unigol o fath penodol yn ysgogi ymateb cynulleidfaol. Ceir enghreifftiau tebyg mewn nifer o'r adroddiadau. Rhoddodd y fath fynegiant ymdeimlad i'r unigolyn ei fod yn perthyn i weithgarwch y Diwygiad yn lleol ac i fudiad y Diwygiad ar lefel genedlaethol hefyd. Yn ogystal, gwelwyd datganiad personol ar ffurf emyn neu weddi yn dylanwadu ar gynnwys cyfarfod drwy gynnig thema neu ganolbwynt i'r sawl oedd yn annerch y gynulleidfa. Er enghraifft, adroddir hanes Evan Roberts mewn cyfarfod yn Lerpwl gan A. Sheldrick:

> Cyn iddo siarad, offrymwyd gweddi daer gan ferch fach ieuanc, a chlywem 'Er Ei Fwyn Ef' yn fynych yn ei deisyfiadau. Mor rhyfeddol ydoedd dylanwad hyn fel y cymrodd Mr Roberts (o bosibl ar gynhyrfiad y foment) 'Er Ei Fwyn Ef' fel ei destyn.[57]

---

[55] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*, t.263.
[56] *Y Cymro*, 1 Rhagfyr 1904, t.3.
[57] A. Sheldrick, *Evan Roberts: Arholiad, Gwerthfawrogiad ac Amddiffyniad* (1907), t.7.

Sylwer y cyfeirir at y modd y dewiswyd testun gan Roberts fel 'cynhyrfiad y foment', a gwelir o ganlyniad sut y dehonglwyd llawer o'r cyfarfodydd fel gweithgarwch digymell, anffurfiol. Fodd bynnag, gellir dadlau mai sefydlu trefn o fath newydd a fu'n gyfrifol am y modd y gellid dilyn trywydd penodol gan aelodau o'r gynulleidfa yn ogystal â'r arweinwyr, yn y fan a'r lle. Gellir dadlau mai'r hyn a welwyd oedd ymroddiad i ddiwylliant newydd yn enw'r Diwygiad ac ymdrech i gynnal yr hyn ydoedd stori'r Diwygiad.

Gellir ystyried y pwyslais ar fynegiant personol a'r cyfraniadau dramatig a gafwyd o ganlyniad fel un o'r elfennau a roddodd ffurf i fudiad y Diwygiad ar y pryd. Roedd cyfraniadau dramatig gan unigolion yn un o'r nodweddion hynny y gellid eu priodoli i gyfarfod a oedd o dan ddylanwad yr Ysbryd. Yn ei dro, sefydlwyd y fath gyfraniad yn nodweddiadol o ymddygiad unigolyn yn un o gyfarfodydd y Diwygiad. Gwelir felly sut y sefydlwyd confensiynau i'r gynulleidfa ac unigolion ymddwyn er mwyn bod yn rhan o fudiad y Diwygiad trwy dderbyn trefn sefydledig newydd a rhoi'r stori ar waith. Ers hynny, profodd cyfraniad yr unigolyn yn y capel yn amlwg yn chwedloniaeth y Diwygiad.

Gwelwyd unigolion yn cyfrannu mewn modd animeiddiedig. Ac yn ei dro, daeth y math yma o gyfraniad yn un o ddelweddau stori'r Diwygiad. O ganlyniad bu perfformiadau o'r fath yn ganolog i ffurf y Diwygiad fel stori ar y pryd ac ers hynny. Mabwysiadodd unigolion arddulliau dramatig wrth ddisgrifio eu teimladau a'u gweledigaethau. Mae'r disgrifiad canlynol yn un o ŵr yn codi i weddïo mewn cyfarfod yn y Bala: 'Cododd gŵr ieuanc i weddïo, a rhoes *vent* i'w deimlad - gwelai harddwch yr Iesu; yr oedd Efe yn y fan a'r lle. A disgynodd fel trydan ar y bobl

ieuanc, a chyffrowyd hwy.'[58] Naill ai gellir deall i'r gŵr roi disgrifiad manwl o 'harddwch yr Iesu' oherwydd nodir 'yr oedd Efe yn y fan a'r lle', neu arddangosodd eglurder ei weledigaeth drwy ddefnyddio ei lais neu iaith ei gorff. Mae'r ddau ddehongliad posib hyn yn nodweddiadol o'r confensiynau a sefydlwyd wrth wneud datganiad yng nghyfarfodydd y Diwygiad. Mae'r cyntaf yn awgrymu y mabwysiadwyd arddull ieithyddol benodol gan y gŵr er mwyn llunio'r darlun a welodd a'r ail yn awgrymu bod elfen weladwy neu glywadwy arbennig yn perthyn i'w ddatganiad. Yn ogystal, mae'r effaith a nodwyd ac a gafwyd ar y bobl ifanc yn awgrymu iddo gyfathrebu yn llawn mynegiant drwy gyfrwng ei eiriau neu ei gorff.

Gellir deall mynegiant dramatig o'r math hwn yn ganolog wrth lunio delweddau ym meddyliau unigolion yn y gynulleidfa gan gynnal y cyffro. Gwelir o ganlyniad sut y cynhaliwyd yr anffurfioldeb ymddangosiadol a gafwyd yn y capel o dan ddylanwad y Diwygiad, a hynny wrth i'r gynulleidfa ysgogi ei gilydd gan roi trefn newydd ar y cyfarfodydd. Ceir llawer o dystiolaeth o hyn. Mae'r disgrifiad canlynol o gyfraniad gwraig mewn cyfarfod yng Nghastell-nedd yn arddangos sut y rhoddodd y drefn newydd gyfle i'r unigolyn i fynegi ei hun. Yn yr achos hwn darparodd strwythur y gweithgarwch yn y capel lwyfan ac amser i'r unigolyn ddehongli testun o'r Beibl yn greadigol. Eto, mae'r ymateb tuag at ei chyfraniad gan y gynulleidfa yn arddangos sut yr ymroddai'r fath fynegiant i'r diwylliant newydd a sefydlwyd:

> Dyna wraig ieuanc yn myned at y bwrdd i ddarllen y bumed benod o Daniel, ac O! y fath bwyslais a goslef oedd yn ei darlleniad. Yr oedd gwledd Belsasar yn fyw o'ch blaen, ac fel pe yn gweled y cwbl yn llythyrenol; ac nid yn unig darllen, ond hefyd esbonio y gwahanol gymeriadau a'r canlyniadau echryslawn nes oedd y lle yn ofnadwy...Yr oedd ei llygaid yn serenu gan fel yr oedd yn teimlo, a dyma hi ar ei gliniau Os oedd y dylanwadau yn effeithiol

[58] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*, t.361.

> a gorychfygol wrth ddarllen ac esbonio, yr oedd yn awr yn llawer mwy, nes oedd rhai yn gruddfan yn eu hwyl.[59]

Mae'r sylw a roddir i symudiad y wraig i'w gliniau a'i effaith ar unigolion eraill yn amlygu'r elfen theatrig o safbwynt perthynas y wraig â'i chynulleidfa. Mae'r elfen theatrig o berfformio yn perthyn i sawl disgrifiad a geir o gyfraniadau gan unigolion sy'n amlygu presenoldeb y ddelwedd hon yn stori'r Diwygiad ar y pryd. Cafwyd y disgrifiad canlynol o gyfraniad Miss Annie Rees, mewn cofnod o hanes y Diwygiad yn Llanwrtyd gan Evan Jones:

> Nos Sul, Gorffenaf 30, yng nghapel yr annibynwyr, ar ddiwedd yr oedfa, esgynodd Mis [sic] Rees, Gors Einon, risiau'r areithfa, darllenodd ran o air Duw, cafwyd gair byr ganddi, a hynny mewn naws ac ysbryd dwys a difrifol, yna canodd 'Dyma Feibl annwyl Iesu' gan ddal y beibl i fynnu a hyny nes gwefreiddio y dorf fawr oedd yn bresennol.[60]

Mae'r elfennau dramatig a theatrig a berthynai i weithgaredd y Diwygiad yn y capel yn amlwg yma. Mae'n debygol bod y weithred o godi'r Beibl yn fynegiant o'r emosiwn a deimlwyd gan Miss Rees. Mae'r ymateb a gafwyd gan y gynulleidfa i'r weithred yn arddangos dylanwad elfen weledol ei datganiad ar ansawdd ysbrydol y cyfarfod. Caniataodd trefn y cyfarfodydd yn y capel gyfraniadau o'r fath a phrofodd y fath gyfraniadau yn rhan o'r strwythur newydd a gafwyd yn ystod y Diwygiad ac yn rhan ganolog o'i stori.

Gwelwyd delweddau dramatig o weithgarwch yr unigolyn yn codi mewn gweithiau yn ystod y ganrif ers hynny. Mae'r darn isod o ysgrif gan R. Eifion Jones, a luniwyd ym 1962, am ei atgofion o'r Diwygiad yn Llanuwchllyn yn enghraifft. Nododd ei fod yn blentyn pump i chwech oed ar y pryd:

---

[59] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*, t.225.
[60] Llawysgrifau Amgueddfa Sain Ffagan, 1793/158-185, Evan Jones, 'Hanes Diwygiad y flwyddyn 1904-5 yn Llanwrtyd a'r amgylchedd'.

> Cofiaf yn dda i hen frawd a adwaenwn yn dda lwyddo i gyrraedd y sêt fawr. Yr oedd yn arfer dal tyrchod a lladd môch yn fy nghartref. Nid oedd ef yn gapelwr cyn hyn, ond nid oedd hynny yn atalfa arno y noson hon. Aeth ar ei liniau wrth y sedd, a dechreuodd waeddi gan ddefnyddio geiriau a thermau dieithr iawn gan nad oedd adnodau ac emynau'n gyfarwydd iddo. Dyrna'r sedd yn ddidrugaredd wrth sôn am y Diafol nes yr oeddwn yn crynnu yn ei ofn. Gwaeddai ar nerthaf ei lais cras 'Rho dy draed ar i gorn gwddw; rho dy draed ar ei gorn gwddw o Arglwydd mawr' fel pe buasai yn lladd hen hwch ystyfnig. Yr oeddwn mewn braw a dychryn, ac yn falch o allu mynd allan i'r awyr agored ar derfyn y cyfarfod.[61]

Sylwer, yn ôl yr atgof a ddisgrifir, 'nad oedd adnodau ac emynau'n gyfarwydd' i'r 'hen frawd', a gwelir o ganlyniad y ddelwedd o'r unigolyn anllythrennog yn cyfrannu'n gyhoeddus yn fyw yn chwedl y Diwygiad. Roedd cyfraniadau gan unigolion newydd nad oeddynt yn arferol yn cyfrannu yn gyhoeddus yn y capel yn golygu y cafwyd iaith ac ymddygiad o fath newydd mewn cyfarfodydd yn ystod y Diwygiad. Roedd yr iaith a'r ymddygiad hwnnw yn greadigol yn ei hanfod wrth i unigolion roi mynegiant i deimladau a phrofiadau newydd, a gwelwyd y fath ddelweddau yn ganolog i stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny.

Roedd gan unigolion le canolog wrth gynnal y drefn newydd a sefydlwyd ar gyfer cyfarfodydd y Diwygiad, a gwelir hyn yn glir wrth ystyried y cantorion a ddaeth i amlygrwydd yn y cyfarfodydd. Byddai unawdwyr yn teithio o gyfarfod i gyfarfod yng nghwmni arweinwyr y Diwygiad gan hwyluso llif y cyfarfodydd. Cyfeiriwyd eisoes at y modd yr awgrymodd Noel Gibbard fod trefn benodol yn perthyn i'r cyfarfodydd. Meddai: 'Nid Evan Roberts oedd yr unig un a hoffai gymorth y merched a'u canu. Dyma oedd patrwm cyfarfodydd Seth Joshua, Joseph Jenkins a D. M. Phillips.'[62] Mae cyfeiriad Gibbard yma at batrwm y cyfarfodydd yn pwysleisio'r modd nid yn unig y bu'r unawdwyr yn ganolog wrth gynnal strwythur y cyfarfodydd

---

[61] Llawysgrifau Amgueddfa Sain Ffagan, 1601/1-3, R. Eifion Jones, Llanuwchllyn, 'Y Diwygiad', Ysgrif Eisteddfodol 1962.

[62] Noel Gibbard, *Caniadau'r Diwygiad*, t.58.

ond hefyd y modd y bu'r canu digymell gan unigolion yn y gynulleidfa a'r cantorion o dan sylw yn ei dro yn gyfrifol am ymroi a chynnal y drefn newydd a sefydlwyd ar gyfer cyfarfodydd y Diwygiad. Mae lle i gredu, felly, bod tipyn o drefn yn perthyn i gyfarfodydd digymell, anhrefnus y Diwygiad, a'r drefn honno yn ymwneud â chynnal y delweddau a sefydlwyd yn ganolog i stori'r Diwygiad ar y pryd.

Cyfeiriwyd at ffurf ymddangosiadol anhrefnus y cyfarfodydd fel trefn o fath newydd mewn sawl cofnod ar y pryd. Yn *Y Cymro,* 9 Mawrth 1905, nodwyd am gyfarfodydd yn Llandrillo:

> Gweddio ydoedd nodwedd y gorfoledd, pob un yn dwyn ei faich ei hun at ei Dduw, ac yn gweddio fel pe na b'ai neb ond ef yn gweddio yn yr ystafell, ac yn ymdrechu gyda Duw nes y rhedai y chwys ar hyd eu gruddiau. Ac er fod oddeutu deg-ar-hugain yn gweddio ar unwaith, yr oedd yno rhyw drefn ryfedd yn nghanol yr anrhefn i gyd...[63]

Ceir sawl cyfeiriad o'r fath mewn adroddiadau yn y wasg, a gellir tybio bod y cyfeiriadau yn cyd-fynd â'r gred fod y cyfarfodydd o dan arweiniad yr Ysbryd. Fodd bynnag, mae sylwadau o'r fath yn awgrymu y teimlwyd bod trefn o fath newydd yn bod. Gellir dadlau bod y drefn newydd hon yn ymwneud â chynnal delweddau o'r gweithgarwch fel digwydd digymell heb drefn, ac mai dyma a fu'n gyfrifol am y rhyfeddu a wnaed ar y pryd ac ers hynny ar ffurf y cyfarfodydd. Gwelir hyn yn yr adroddiad isod a gafwyd yn *Y Tyst,* 11 Ionawr 1905. Disgrifiwyd cyfarfod a gafwyd ar Nos Galan, o dan ddylanwad y Diwygiad ym Mhontybodcin fel a ganlyn:

> Am 10 o'r gloch yn yr hwyr cynaliwyd cyfarfod yn yr awyr agored, mewn canu, anerch, a gweddio. Pan yn terfynu y cyfarfod hwn, ac yn dychwelyd i gyfeiriad y capel, cyfarfyddwyd y dorf gan dorf arall oeddynt wedi bod yn cynnal cyfarfod gwlithog yn nghapel y Methodistiaid Calfinaidd, Coedllai, ar derfyn pa un y penderfynwyd myned i uno â'r eglwys yn Mhontybodcin yn ei hymdrech mawr o blaid Teyrnas Iesu Grist, a hyny yn y nos. Yr oedd cyfarfyddiad y ddwy dorf fel hyn, bron yn anysg-wyliadwy, ac heb unrhyw

[63] *Y Cymro*, 9 Mawrth 1905, t.3.

> gyd-ddealldwriaeth rhyngddynt, yn un o'r pethau mwyaf effeithiol a welwyd yn yr ardal erioed. Unwyd mewn canu, gweddio, a gwahodd am ychydig amser, yn y man lle cyfarfyddwyd mor rhyfedd.[64]

Sylwer sut y pwysleisiwyd bod y digwydd, 'bron yn anysg-wyliadwy' a'r modd y nodir nad oedd ' unrhyw gyd-ddeall', ac ymhellach, y modd y cyfeiriwyd at y cyfarfod fel 'un o'r pethau mwyaf effeithiol a welwyd yn yr ardal erioed'. Roedd y meddylfryd bod y digwydd heb ei baratoi yn sylfaenol i'r elfen o ryfeddod a briodolwyd i'r gweithgarwch. Gellir honni bod disgrifiad o'r fath yn arwyddocaol o'r meddylfryd a oedd yn sylfaenol i gynhaliaeth y Diwygiad fel mudiad gan gynnal ei ansawdd chwedlonol. Gellir dadlau bod cyd-ddeall, a bod y profiad yn un a rannwyd. Roedd y cyfan yn rhan o ddiwylliant a gofleidiwyd, yn ymwneud â sefydlu ffenomenau anarferol a rhyfeddol yn bethau derbyniol ac yn rhan o rythm y mudiad, gan gynnal y syniad ei fod ar waith.

**Adrodd stori'r gynulleidfa**

Profodd natur liwgar gweithgarwch y gynulleidfa yn ddeunydd atyniadol i adrodd amdano mewn gwaith newyddiadurol ar y pryd ac ers hynny yn arbennig mewn gweithiau creadigol. Gwelir o ganlyniad y modd yr arhosodd gweithgarwch y gynulleidfa yn rhan elfennol o naratif y Diwygiad ers blynyddoedd 1904-05. Profodd natur ddramatig llawer o'r gweithgarwch yn ddadleuol ar y pryd, ac mewn trafodaethau ers hynny. Gwelwyd natur ddadleuol yr ymddygiad o dan sylw yn ysgogi sawl dehongliad ar sawl ffurf. Yn nofel Rhys Davies, *The Withered Root* (1927), cafwyd y dehongliad canlynol o gymhelliad y cyfraniadau a gafwyd gan aelodau o'r gynulleidfa. Meddai Reuben Daniel, y prif gymeriad a seiliwyd yn amlwg

[64] *Y Tyst*, 11 Ionawr 1905, t.7.

ar Evan Roberts, '*I have had a suspicion, sometimes when we have been at the meetings, that the people attend as they would at a circus where they'll be able to perform themselves.*' [65] Yn wir, mae meddiant y gynulleidfa ar drefn y cyfarfodydd yn un o'r delweddau poblogaidd sydd wedi eu sefydlu yn y cof am y Diwygiad. Gellir deall y modd y cynhaliwyd y ddelwedd hon yn ystod yr ugeinfed ganrif yn sgil y modd yr ymroddwyd mor frwdfrydig ar y pryd i sefydlu gweithgarwch y gynulleidfa yn ffenomen ryfeddol a oedd yn ganolog i'w stori. Serch hyn, mae beirniadaeth o'r gweithgarwch hwn yn ystod y degawdau yn dilyn y Diwygiad wedi rhoi bod i broses o greu delweddau lliwgar o'r cyfraniadau cynulleidfaol hefyd. Er enghraifft, eto yng ngwaith Rhys Davies, *The Withered Root*, ceir portreadau lliwgar o ymddygiad y gynulleidfa sy'n cwestiynu cymhelliad a lles y cyfan. Gan ddisgrifio cyfarfod lle bu'r cymeriad Reuben Daniels yn bresennol, nodwyd am y gynulleidfa:

> *The people moaned in the gratification of religious pleasure; some were audible in abandonment to weeping, others, occupied in private trances of their own, uttered little noises of devotion. The sermon lasted beyond an hour, but time was nothing and fled unheeded...Conversions continued. Old Sam Williams the Sack, who was accustomed to attendance in a very earthly Court, for frequent pilfering of coal from the wagons at the side of the pit, was now received into the Greater Court. He fell down on the floor in his piety and beat his head against the uncarpeted wood. A grey, shrivelled old woman lifted a poor little voice that became shrill as she described the subsequent significance of her dry life when Jesus came to her 'big, and took her to his breast.'...* [66]

Yn sicr, mae'r gwaith yn cynnig darlun tywyll o fywyd y cymoedd yn ne Cymru a cheir dirmyg amlwg o gymhelliad y math o weithgarwch a gafwyd gan unigolion o dan ddylanwad mudiad y Diwygiad. Gwneir hyn yn bennaf yn y nofel drwy'r disgrifio manwl ar ymddygiad a chyfraniadau unigolion yn y capel. Fel yn y darn uchod, mae'r cymeriadau sy'n hawlio llwyfan yn y cyfarfodydd yn aml yn cael eu

[65] Rhys Davies, *The Withered Root* (Argraffiad The Library of Wales: 2007, cyhoeddwyd yn gyntaf yn 1927). t.263.
[66] Rhys Davies, *The Withered Root*, tt.155-157.

portreadu'n rhai truenus.[67] Mae'r delweddau lliwgar yn sicr yn cyfrannu at y gwaith o gynnal y ddelwedd o'r Diwygiad fel mudiad lle roedd y gynulleidfa a'i gweithgarwch yn ganolog.

Ers hynny, gellir tybio mai prinder yr hanesyddiaeth berthnasol, yn hytrach na beirniadaeth, sy'n gyfrifol am ganiatáu i'r dystiolaeth amrwd a gafwyd yn adroddiadau'r wasg ddylanwadu ar natur y ddealltwriaeth sy'n bodoli am y Diwygiad ers 1904-05. Gellir dadlau, o ganlyniad i'r hanesyddiaeth ddrylliog yn y maes, bod darlun eglur iawn o ddelweddau'r cyfnod wedi eu cadw mewn gweithiau diweddar sy'n ail-greu'r gweithgarwch, hynny yw, mae diffyg ymdriniaethau manwl ar weithgarwch y Diwygiad ac o bosib y diffyg diddordeb cyffredinol yn yr agwedd hon o'r maes wedi golygu nad yw'r arbenigedd yn y maes wedi treiddio y tu hwnt i'r drafodaeth academaidd. O ganlyniad, mae'r delweddau a grëir o'r Diwygiad mewn amrywiol ffurfiau ers blynyddoedd 1904-05 yn adlewyrchu'n agos y delweddau a grëwyd ar y pryd.

Gwelwyd bod y cynyrchiadau a seiliwyd ar y Diwygiad gan Theatr Genedlaethol Cymru, 'Hen Rebel', a'r Wales Theatre Company, 'Amazing Grace', ar adeg y canmlwyddiant yn rhoi pwys ar bortreadu'r ymddygiad cynulleidfaol. Mae apêl y gweithgarwch yn amlwg iawn fel deunydd i'w ddefnyddio ar y llwyfan. Gwelwyd dylanwad yr adroddiadau cyffrous am y gynulleidfa yn y capel yn amlwg yn y delweddau a bortreadwyd gan y cynyrchiadau. Disgrifiodd Mal Pope, awdur y sioe gerdd 'Amazing Grace', mewn erthygl yn y cylchgrawn *Golwg*, mor uniongyrchol oedd y broses o drosglwyddo deunydd y papurau newyddion i'r llwyfan:

[67] Mae Philippa Margaret Davies yn ymhelaethu ar hyn. Gweler ei thraethawd doethur, 'History in literature: the writings of Rhys Davies, a case study', cyflwynedig i Brifysgol Caerdydd 2001, t.195.

> 'Fe es ati i wneud lot o waith ymchwil ac, yn lwcus iawn, roedd llawer o adroddiadau papur newydd yn cynnwys adroddiadau gan lygad dystion ar y pryd. Y mwya' o'n i'n darllen, y mwya' rhyfedd oedd yr holl beth yn ymddangos i mi...'Fe dries i weithio gyda chwpwl o ysgrifennwyr eraill ar y sgript, ond wnaeth hynny ddim gweithio ma's, ...'Felly, fe dynnes i gwpwl o daflenni papur mawr ma's a thynnu lluniau bocsys arnyn nhw yn dangos yr holl olygfeydd ar wahân...' [68]

Mae'n werth nodi y cyfeirir yma at natur ryfeddol y gweithgarwch. Gellir gweld bod yr ymdeimlad hwn o ryfeddod yn ysbrydoliaeth i lawer o'r gweithiau sy'n ymhél â'r gwaith o gynrychioli'r Diwygiad. O ganlyniad gwelir y cysyniad o'r Diwygiad fel ffenomen ryfeddol yn aros yn y meddwl poblogaidd. Trwy hyn mae'r gwaith o sefydlu ffenomenau anarferol yn y capel yn ystod blynyddoedd 1904-05 fel fframwaith ar gyfer mudiad y Diwygiad yn digwydd eto mewn cyd-destun newydd, wrth gynrychioli mudiad y Diwygiad ganrif yn ddiweddarach. Gwelir o ganlyniad sut mae'r rhyfeddu wedi cadw'r drafodaeth yn y maes yn un sy'n cynnal y ddelwedd hon o'r Diwygiad fel mudiad rhyfeddol.

Mewn adolygiadau o'r sioeau cerdd o dan sylw gwelir y graddau y portreadwyd elfen gyffrous y gweithgarwch cynulleidfaol yn llinyn mesur ar gyfer llwyddiant y perfformiad. Mae hyn yn arwydd o'r awydd cyffredinol i gynnal syniadau am fudiad y Diwygiad fel mudiad cyffrous. Nododd Dafydd Llewelyn mewn adolygiad o 'Hen Rebel' yn y cylchgrawn *Barn*:

> Yn gynharach eleni cafwyd sioe *Amazing Grace* o eiddo Mal Pope oedd yn trafod yr un maes yn union â chynhyrchiad diweddaraf y Theatr Genedlaethol. Yn sicr, roedd gwendidau'n perthyn i'r cynhyrchiad hwnnw, ond o leiaf roedd yn cynnig cipolwg ar fwrlwm ac ysbryd heintus y Diwygiad. Yng nghyd-destun *Hen Rebel* roedd y cyfan wedi'i dan chwarae, ac yn achlysurol roedd rhywun yn cael yr argraff bod profiad Diwygiad yn debycach i gladdedigaeth yn hytrach na'r gorfoledd o ganfod gwir ryddid i'r enaid.[69]

---

[68] *Golwg*, 7 Ebrill 2005, t.18.
[69] Dafydd Llewelyn, 'Y Diwygiad Di-ddigwyddiad', yn *Barn*, Rhagfyr/Ionawr 2005/6, t.99.

O safbwynt adloniant, gellir deall yr awydd i weld elfen fyrlymus gweithgarwch y Diwygiad ar lwyfan. Ar lefel arall, gellir gweld bod yr awydd i gynnal y ddelwedd o'r gynulleidfa fel un fywiog, frwdfrydig a gweithredol yn wyneb hoffter o'r syniad fod y rhyfeddod a gafwyd o dan ddylanwad y Diwygiad yn deillio o weithredoedd y bobl. Gellir dehongli'r awydd i gofio am brofiadau pobl yn ymgynnull gan arddangos bwriad a gallu i ymroi i fudiad ar lefel ehangach yn ymgais i ddiffinio'r gweithgarwch yn un democrataidd, brawdgarol ei natur.

**Democrateiddio**

Roedd yr anffurfioldeb newydd a welwyd yn ystod blynyddoedd 1904-05 yn nhrefn y gwasanaeth yn gyfrifol am newid arwyddocaol yng nghydbwysedd cymdeithas y capel. O dan ddylanwad y mudiad, nid y gweinidog a'r diaconiaid yn unig a gâi gyfrannu ar lafar. Profodd y democrateiddio hwn yn rhan o stori fawr y Diwygiad ar y pryd. Gan gyfeirio at amlygrwydd Evan Roberts yng ngweithgarwch y Diwygiad nodwyd mewn adroddiad ar 'Y Diwygiad yn Casllwchwr' yn *Y Drysorfa*, Ionawr 1905:

> Ond y mae yn amlwg fod yr Arglwydd wedi ei [Evan Roberts] wisgo a nerth o'r uchelder a'i anfon yn uniongyrchol atom, a hynny, feallai, yn un peth, er mwyn dangos fod pethau goreu Duw o fewn cyrhaedd pawb, ac mai nid dysg ac athrylith yw cyfryngau eu rhoddid. Pe buasent wedi dyfod drwy ddoniau pregethwyr mawr Cymru buasai llawer o honom yn barod i ddweyd mai drwy ddoniau dynion mawr fel hwy yn unig y buasai yn bossibl eu cael, a thrwy hynny golli ein golwg ar ogoniant Duw.[70]

Gwelwyd y modd y cafwyd arddel ar y ddelfryd ddemocrataidd yn ystod y Diwygiad ar sawl ffurf. Gwelir hyn, er enghraifft, mewn gweddi a gofnodwyd yn y gyfrol *Perlau'r Diwygiad* (1906): 'Yr ydym yn diolch i Ti, O Arglwydd, am y Diwygiad

[70] *Y Drysorfa*, Ionawr 1905, t.72.

hwn, ac am agor y set fawr i ni sydd wedi ein cau allan ohoni yn rhy hir'[71] Mae'n sicr y dyrchafwyd statws yr unigolyn yng nghymuned y capel. Serch hyn, roedd y rhyddfreiniad hwn yn aml yn brofiad grŵp a gellir dadlau y bu cyfraniad llafar yr unigolyn yn bosib oherwydd y grym a fabwysiadwyd gan y gynulleidfa fel uned. Gwnaed sylwadau ar y ffenomen hon ar y pryd. Nododd y newyddiadurwr, W. T. Stead: '*As a Study of the psychology of crowds I have seen nothing like it. You feel that the thousand or fifteen hundred persons before you have become merged into one myriad - headed, but single souled personality...*'[72] Mae lle i gredu y dyrchafwyd yr unigolyn felly, yn yr ystyr y gwerthfawrogwyd cyfraniadau a phrofiadau unigol, ond serch hyn, roedd y cyfraniadau yn cydymffurfio â chonfensiynau penodol o ymddygiad yn enw stori'r mudiad. O ganlyniad roedd y cyfraniadau gan unigolion yn debyg o ran natur.

Serch hynny, wrth gymryd rhan yng ngweithgarwch y Diwygiad yn gyhoeddus neu ar lefel bersonol, cydymffurfiwyd â chonfensiynau newydd a grëwyd gan bobl nad oeddynt yn meddu ar awdurdod sefydledig yn y gymdeithas. Gwelwyd cynulleidfaoedd yn mabwysiadu arferion a chonfensiynau newydd o ymddygiad yn y capel a bu'r arferion a grëwyd yn ganolog i'r broses o ddiffinio'r hyn a ddaeth i'w ystyried yn weithgarwch y Diwygiad. Roedd hyn yn ymwneud â sefydlu ffenomenau annisgwyl ac anarferol yn gonfensiynau disgwyliedig yn y pen draw o weithgarwch y mudiad ac yn ganolog i'w stori.

Er nad y ddelfryd ddemocrataidd oedd cymhelliad uniongyrchol y newidiadau cymdeithasol a welwyd, gellir dadlau y gwelwyd diwylliant democrataidd yn

[71] Anthropos, *Perlau'r Diwygiad* (1906), t. 19.
[72] W. T. Stead, 'The Story of the Awakening' yn, *The Story of the Welsh Revival as Told by Eye Witnesses* (1905), t.65.

datblygu yn y capel yn ystod y Diwygiad. Mae ysgolheigion wedi trafod arwyddocâd gweithgarwch y Diwygiad yn y cyd-destun hwn. Gan gyfeirio at ddamcaniaethau Michel Foucault a Michel de Certeau nododd R. Hayward yn ei ysgrif ar ddimensiwn broffwydol y Diwygiad: '*Revivalism may have been superficially apolitical, yet it undermined the basic notions upon which politics, history and society depended.*'[73] Eir ymlaen yn yr erthygl i sôn am y modd yr oedd iaith broffwydol y Diwygiad yn fynegiant o ymwrthod â syniadau sefydledig y gymdeithas gan wahanu gorffennol a chyfrifoldeb yr unigolyn oddi wrth ei weithredoedd. Gellir plethu'r syniadau hyn â'r farn a fynegwyd gan sawl hanesydd fod cymhlethdod y gymdeithas a oedd yn trawsnewid a phrofiad y boblogaeth ar y pryd wrth wraidd gweithgarwch y Diwygiad.[74] Trwy hyn gellir dadlau bod y gweithgarwch a gafwyd yn lleisio rhyw fath o brotest ynglŷn â'r newidiadau ar waith.

Mae'r diwylliant hwn i'w weld yn y modd y dyrchafwyd gwerth yr unigolyn yng nghyfundrefn y capel a hefyd yn y modd y rhyddhawyd yr unigolyn i gyfrannu, yn aml gan fynegi profiad personol. Gan wneud casgliadau ar brif nodweddion y Diwygiad nododd Basil Hall: '*Whatever else it was, the Welsh revival was a remarkable example of popular religion: it came from the people,...their emotions and their religious aspirations shaped it*'.[75] Nododd Siôn Aled Owen am natur y gweithgarwch a gafwyd: '*My own view is that we are witnessing here the eruption into the religious sphere of a "lay" fluency which was already a part of the secular Welsh culture, but which had generally been suppressed in both Anglican and*

[73] R. Hayward, 'From the Millennial Future to the Unconscious Past: The Transformation of Prophecy in Early Twentieth-Century Britain' yn Bertrand Taithe a Tim Thornton (goln.) *Prophecy, The Power of Inspired Language in History 1300-2000* (Stroud,1997), t.164.
[74] Er enghraifft mynegwyd hyn yn David Smith a Gareth Williams, *Fields of Praise*, t.120 ac mewn trafodaeth arall yn Gareth Williams, *1905 and All That: Essays on Rugby Football, Sport and Welsh Society* (Llandysul, 1991), t.76. Trafodir yr hyn a ddywedir yn y gweithiau ym mhennod 1.
[75] Basil Hall, t.293.

*Nonconformist religious activity.*'[76] Ceir sawl disgrifiad o weithgarwch y capel sy'n arddangos y graddau y profodd delweddau o'r gynulleidfa wedi ei democrateiddio yn ganolog i stori'r Diwygiad ar y pryd. Am gyfarfodydd yn Aberdâr a'r cylch nodwyd yn *Y Tyst,* Tachwedd 1904:

> Yn mhob cyfarfod bydd cryn nifer yn gwaeddi am drugaredd, ac eraill yn dymuno cael rhan yn ngweddiau y gynulleidfa. Mae y cyfarfodydd yn cael eu cario yn mlaen mewn gweddiau, dyweyd profiadau, siarad a chanu, a'r oll yn cael ei wneyd, nid trwy gymhell, ond o ufudd dod a pharodrwydd personol, pob un yn ei le a'r man lle yr eistedda.[77]

Ers hynny, mae'n sicr y cofleidiwyd y ddelwedd hon, a phrofodd gweithgarwch o'r fath yn ganolog i'r syniadau ynglŷn â'r hyn ydoedd mudiad y Diwygiad yn ymarferol. Gwelwyd ffurf cyfarfodydd y Diwygiad yn destun diddordeb ers blynyddoedd 1904-05 a gwelir ambell erthygl mewn cylchgronau Cymraeg yn cynnal y ddelwedd o'r cyfarfod cynulleidfaol, democrataidd. Yn *Y Drysorfa*, Mehefin 1939, cafwyd ysgrif o dan y teitl, 'Oedfa yn Niwygiad 1905', gan Mr. John Thomas, Sgiwen, yn disgrifio'r olygfa yn y capel. Nododd:

> Y fath Olygfa! Y ddeuryw o bob oed yn cydaddoli yn wresog ac yn rhydd. Yno y maent yn llên a lleyg yn llafar ganu i'r Arglwydd...Yna clywir rhyw gystadlu bendigedig: dau neu dri ar eu traed yn gweddio, ac efallai un arall yn ceisio dweud ei brofiad, a'r dorf yn 'porthi' yn galonnog a'u 'hamenau' a'u diolchiadau.[78]

Profodd cyfraniadau unigol yn un o nodweddion amlycaf y gweithgarwch yn y capel yn ystod y Diwygiad, ac mewn delweddau o'r Diwygiad ar amrywiol ffurfiau ers hynny. Roedd y fath fynegiant yn cynnig ymdeimlad i'r unigolyn ei fod yn perthyn i

---

[76] John Aled Owen, t.141.
[77] *Y Tyst*, 23 Tachwedd 1904, t.4.
[78] *Y Drysorfa*, Mehefin 1939, t.237. Cyhoeddwyd hefyd yn *Y Drych*, 17 Awst 1939.

stori'r Diwygiad. Roedd gwneud datganiad ar lafar o safbwynt yr unigolyn yn rhan o'r broses o roi'r stori hon ar waith.

Mae'r berthynas rhwng yr unigolyn a'i gymuned wedi profi'n ganolog mewn sawl dehongliad o weithgarwch y Diwygiad yn ystod y ganrif ers hynny, a hynny o sawl cyfeiriad. Mae'r darn canlynol o erthygl a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 1954 i gofnodi achlysur yr hanner canmlwyddiant yn *Baner ac Amserau Cymru* yn cynnig esboniad o berthynas y cyfraniadau a wnaed gan unigolion â'r ymdeimlad o gymuned a adeiladwyd o ganlyniad:

> Drwy ddweud eu profiadau gwelai un fod y teimlad a ddaeth iddo ef wedi dyfod hefyd i'w gymydog. Nid dychymyg felly ydoedd yr hyn a ddigwyddai i'r unigolyn gan y digwyddai i bawb. Teimlid fod ysbryd yn treiglo drwy bob un, a chodai ymdeimlad o undeb, o Dduw, fel cyfangwbledd perffaith. Achosai hyn frawdoliaeth gan fod yr ymdeimlad o Dduw yn dibynnu arnynt hwy fel unigolion.[79]

Yn ôl yr adroddiadau ar y pryd, ac yng ngweithiau nifer o haneswyr ers hynny, ystyriwyd yr hyn a welwyd yn y cyfarfodydd gan y gynulleidfa fel gweithgarwch digymell y foment ac o ganlyniad yn ffenomen i ryfeddu ati. Gellir dadlau bod y modd y sefydlwyd ffenomenau anarferol yn y capel fel confensiynau ymddygiad a gweithgarwch yn gyfrifol am gynnal y Diwygiad fel mudiad rhyfeddol yn ei hanfod ar y pryd. Gellir dadlau yn sgil sefydlu'r arferion a'r confensiynau hyn fod elfen o drefn yn perthyn i'r gweithgarwch , a'r drefn hon yn ymwneud â chynulliad o bobl yn ymroi i ddiwylliant newydd, dros dro yn y capel. Gellir gweld bod y diwylliant hwn yn deillio o'r ymwybyddiaeth ddiwylliannol o'r gweithgarwch yr ymgymerwyd ag ef ar y pryd, a chyswllt hwn yng nghyd-destun y traddodiad diwygiadol yn hanes Anghydffurfiaeth yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

---

[79] *Baner ac Amserau Cymru*, 17 Tachwedd 1954, t.3.

Gwelwyd fframwaith o strwythurau yn cael ei sefydlu i gynnal cyfarfodydd y capel ar ei newydd wedd, gan gynnwys mabwysiadu hyblygrwydd ar le'r bregeth a'r gweinidog gan beri bod meddiant y gynulleidfa ar y cyfarfodydd yn dderbyniol. Profodd y canu cynulleidfaol, a'r weddi yn gyfryngau yn y gwaith hwn hefyd. O safbwynt gweithgarwch y gynulleidfa, roedd yr arferion newydd a sefydlwyd fel confensiynau ymddygiad a gweithgarwch yn cynnig cyfle i aelodau o'r gynulleidfa gymryd rhan.

Ymroddodd cynulleidfaoedd ar y pryd i greu mudiad y gellid ei ddiffinio drwy ymroi i gonfensiynau newydd o arferion. Yn eu tro, sefydlwyd y newidiadau hyn a oedd y tu hwnt i'r drefn arferol yn rhan o drefn newydd, confensiynol mudiad Diwygiad 1904-05. Gwelwyd rheolau ymddygiad newydd yn cael eu sefydlu ar gyfer unigolion yn y capel a gwelwyd sefydlu'r rheolau hyn yn offeryn yn y gwaith o gynnal mudiad y Diwygiad mewn capel neu ardal benodol, drwy gynnig fframwaith disgwyliedig a oedd yn cynnwys rheolau penodol o ymddygiad a threfn ymddangosiadol anhrefnus ar gyfer y cyfarfodydd. Bu'r patrwm hwn yn ganolog i'r gwaith o roi ffurf ar stori'r Diwygiad ar y pryd gan gynnal a lledaenu dylanwad y Diwygiad wrth gynnig patrwm sefydledig o'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig mewn cyfarfod a oedd yn perthyn i fudiad y Diwygiad. Ers hynny, gwelir ymddygiad cyffrous y gynulleidfa yn cael ei ddefnyddio i drosglwyddo syniadau am ryfeddod ffenomen Diwygiad 1904-05. Gwelir yr un deunydd yn cael ei ddefnyddio felly mewn ymgais i gynnal mudiad y Diwygiad ar ffurf benodol, a hynny fel mudiad cyffrous, rhyfeddol yn ystod blynyddoedd 1904-05 a chanrif yn ddiweddarach. Nid yw'n syndod felly, ers 1904-05, i weithgarwch y capel brofi'n amlwg iawn mewn gweithiau sy'n ymwneud â

chyfleu syniadau am Ddiwygiad 1904-05, ac y ceir syniadau penodol am y gweithgarwch, a'r rheiny'n adlewyrchu natur y stori a adroddwyd ar y pryd.

Ar adeg canmlwyddiant y Diwygiad, ymddengys fod yr awydd i gynrychioli'r Diwygiad ar ffurfiau newydd yn ymwneud â chynnal yr elfen ryfeddol a blannwyd yn greiddiol i fudiad y Diwygiad ar y pryd. Gwelir hefyd fod rhai o'r prosesau a gafwyd ar y pryd wrth roi ffurf i'r mudiad o hyd ar waith yr adeg hon. Archwilir y prosesau o dan sylw wrth edrych ar y ferch yn y bennod ganlynol.

# Pennod 3

# Y Ferch

Bu gweithgarwch merched yn elfen amlwg iawn o chwedl Diwygiad 1904-05 ar y pryd ac yn ystod y ganrif ers hynny. Er mwyn olrhain sylfeini'r elfen hon ar y stori, creffir yma ar y ferch o dan ddylanwad y mudiad. Edrychir ar gyfraniadau merched yng nghyfarfodydd y capel yn bennaf. Ystyrir y modd y profodd amlygrwydd y ferch yn y cyfarfodydd yn ganolog i'r gwaith o gynnal y Diwygiad ar lawr y capel. Yn ogystal, edrychir ar rôl symbolaidd y ferch, wrth gynnal y mudiad fel cysyniad yn ffenomen grefyddol a chymdeithasol, yng Nghymru'r dydd. Y bwriad yw deall rhan y ferch yn stori fawr y Diwygiad ar y pryd a'r rôl oedd gan ferched yn y gwaith o roi stori'r Diwygiad ar waith. Yn ogystal, olrheinir y modd yr adlewyrchwyd gweithgarwch merched yn y Diwygiad mewn amrywiol weithiau ers 1904-05, gan ystyried y modd yr esblygodd y stori.

Eir ati i edrych ar sut y mabwysiadodd y ferch rôl mor amlwg yn stori'r Diwygiad. Beth oedd y prosesau ar waith a roddodd lwyfan i'r ferch yn y cyfarfodydd a beth oedd natur ac arwyddocâd y cyfraniadau a gafwyd gan ferched? Sut y bu gweithgarwch y ferch yn ganolog i'r broses o roi ffurf i'r mudiad ar y pryd a sut y bu merched yn gyfrifol am gynnal a lledaenu ei ddylanwad? Ym mha ffordd y bu'r ferch yn rhan o'r broses o greu chwedl y Diwygiad yn ystod 1904-05 ac ers hynny? Dyma rai o'r cwestiynau y ceisir eu hateb yn y bennod hon.

Yn gyntaf, ceir crynodeb o'r modd y bu merched yn amlwg yn y Diwygiad a golwg ar yr hyn y mae haneswyr wedi'i ddweud am hyn. Yna edrychir ar weithgarwch

merched yn y cyfarfodydd cynnar yng ngorllewin Cymru. Ystyrir cyfraniad Florrie Evans yn benodol, gan ystyried ei chyflwr symbolaidd fel merch. Yna edrychir ar y modd y bu merched yn amlwg yn y cyfarfodydd cychwynnol yn gyffredinol. Wedyn, ystyrir arwyddocâd y math o gyfraniadau a gafwyd gan ferched, a rhoddir ystyriaeth i'r modd y bu meithrin ar ddiddordeb ym mywydau merched yng nghymuned y capel ac o ganlyniad mewn gwaith newyddiadurol ac yn gyhoeddus. Yna, cyn cloi rhoddir sylw penodol i Mrs Jones Llanegryn, gwraig a enillodd enwogrwydd yn ystod y Diwygiad gan brofi'n ganolbwynt i stori a esblygodd yn chwedl ynddi'i hun.

Nid mesur maint cyfraniad merched wrth gynnal y Diwygiad ac asesu haeddiant eu lle yn y stori yw'r nod. Yn hytrach, y bwriad yw edrych ar y modd y sefydlwyd cyfraniad y ferch, ymysg ffenomenau eraill, er enghraifft, cyfraniad pobl ifanc, a chyfraniad gan unigolion yr ystyriwyd eu bod yn arferol swil a dihyder, yn nodweddiadol o gyfarfodydd Diwygiad. Trwy hyn, ceisir dangos y modd y plannwyd y ferch yn ganolog i stori'r Diwygiad ar y pryd, a thrwy hyn ddangos sut y mabwysiadodd y ferch rôl wrth gynnal cyfarfodydd y Diwygiad â'r cysyniad fod y mudiad ar waith.

Adroddiadau'r papurau newydd a'r cyfnodolion yw'r prif ffynhonellau a ddefnyddir wrth edrych ar flynyddoedd 1904-05. Drwy gydol y bennod, cyfeirir at y modd y cynrychiolwyd gweithgarwch y ferch yn ystod y Diwygiad mewn gweithiau a ymddangosodd ers hynny, gan edrych yn arbennig ar weithiau a ymddangosodd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif ac ar y canmlwyddiant. Edrychir ar waith newyddiadurol a chreadigol yn hyn o beth. Nid asesu cywirdeb y ddelwedd o'r ferch yn ystod y Diwygiad yn y gweithiau hyn a wneir, ond yn hytrach ystyried

arwyddocâd y delweddau a geir o'r ferch yn y gweithiau o dan sylw o safbwynt cyflwr y Diwygiad fel mytholeg ers hynny.

Bu merched yn amlwg iawn yng nghyfarfodydd y Diwygiad, gan weddïo, canu a gwneud datganiadau ar lafar. Profodd y gweithgarwch hwn o ddiddordeb ar y pryd. Ystyriwyd eu cyfraniad, ymysg eraill a ddisgrifiwyd ym mhennod 2, gan gynnwys y canu mawl, a'r modd yr hepgorwyd y bregeth yn un o nodweddion hynod dylanwad y mudiad ar gyfarfodydd. Nodwyd yn *Seren Gomer*:

> Ymhlith neilltuolion y diwygiad, gellir nodi y rhai canlynol:- Amledd, hyd, a'r ffurf gymer y cyfarfodydd...Dygir y rhan fwyaf o honynt ymlaen fel rhai o weddi a mawl heb arweiniad dynol...Y prif gyfryngau yn nygiad y cyfarfodydd ymlaen yw y bobl ieuainc a'r merched ac yn arbennig y dychweledigion.[1]

Yn wir, roedd cyfraniad y ferch yn rhan o'r rhyddfreinio a ddisgrifiwyd eisoes ym mhennod 2, lle gwelwyd unigolion na fyddai'n arferol yn cymryd rhan yn gyhoeddus yn gwneud hynny, yn sgil trefn newydd y cyfarfodydd. Yn hyn o beth, mae gweithgarwch merched yn arwyddocaol o safbwynt y modd y democrateiddiwyd cymuned y capel o dan ddylanwad y mudiad. Ymhellach, ymysg y ffenomenau a ddisgrifiwyd eisoes ac a nodir uchod, gellir deall amlygrwydd y ferch yng nghyfarfodydd y capel yn un o'r ffenomenau anarferol a sefydlwyd yn eu tro yn nodweddiadol o weithgarwch y Diwygiad. O ganlyniad, gellir dadlau bod gan weithgarwch y ferch rôl wrth gynnal y mudiad, drwy i'w chyfraniad gynnal y syniad fod rhywbeth rhyfeddol yn digwydd a bod dylanwad yr Ysbryd ar waith. Trwy hyn, gwelir y modd y profodd y ferch yn y Diwygiad i fod yn ganolog i gynhaliaeth y stori ar y pryd fel un i ryfeddu ati.

[1] *Seren Gomer*, Mawrth 1905, t.62.

Yn ogystal â chyfraniad cyffredinol merched yn y cyfarfodydd, roedd y criw o ferched a deithiodd gydag Evan Roberts ar ei ymgyrchoedd yn destun trafod ar y pryd hefyd. Bu'r criw o ferched o dan sylw yn gyfrifol am ennyn beirniadaeth, yn enwedig ar y pryd, oherwydd yr amheuon a gafwyd ynglŷn â rôl y merched a'u perthynas â Roberts. Ystyrir yn gyffredinol, yn ychwanegol at amlygrwydd y cymeriadau hyn yn llawer o'r cyfarfodydd yr oedd Roberts yn bresennol ynddynt, fod presenoldeb gweledol y merched o dan sylw mewn ffotograffau yn y papurau newyddion a'u hagosatrwydd at Roberts yn gyfrifol am ddwysáu'r diddordeb a'r feirniadaeth a fynegwyd. Ar y pryd, felly, rhoddwyd sylw i weithgarwch merched yn y wasg a chafwyd trafodaeth ar arwyddocâd y ffenomen gan blannu merched yn ganolog i'r Diwygiad fel stori fawr. Profodd y drafodaeth a gafwyd ar ferched yn un ddadleuol yn ystod blynyddoedd 1904-05 felly, ac fel y gwelir yn y bennod hon bu felly yn ystod y ganrif ers hynny hefyd.

Mae sawl hanesydd wedi disgrifio cyfraniadau merched yn ystod y Diwygiad ac mae astudiaethau o amrywiol fathau wedi olrhain gweithgarwch rhai o'r merched a fu'n amlwg yn y mudiad.[2] Ceir manylion am gyfraniad llawer o'r merched a fu'n canu yng nghyfarfodydd y Diwygiad yng nghyfrol Noel Gibbard, *Caniadau'r Diwygiad.* Pwysleisiodd rôl ymarferol ac amrywiol rhai o'r merched a ddaeth i amlygrwydd yn nifer o'r cyfarfodydd. Nododd am y pum merch ifanc o Orseinon a deithiodd gydag Evan Roberts ar ei ymgyrch gyntaf: 'Cymharol ifanc oedd pob un ohonynt...Plant y capel...Roedd pob un ohonynt yn gerddorol...Ar wahân i ganu byddai'r merched yn

[2] Ceir astudiaeth o ferched yn y Diwygiad yn nhraethawd doethur Deborah James, Prifysgol Morgannwg. Nid oedd y gwaith ar gadw nac ar gael yn Llyfrgell Prifysgol Morgannwg nac yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru pan y cyflwynwyd y traethawd hwn. Bellach, mae'r traethawd ar gael yn Llyfrgell Prifysgol Morgannwg.

tystiolaethu i'w profiad ysbrydol, ac ambell un yn arwain cyfarfod ar ei hyd.'[3] Dylid cofio, yn ogystal â'r unawdwyr, i rai merched ddod i amlygrwydd arbennig yn ystod y Diwygiad. Mae cyfraniad yr efengyles Rosina Davies, y cyfeiriwyd ati eisoes ym mhennod 2 fel un o arweinyddion y Diwygiad, yn enghraifft amlwg. Am gyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd ganddi ym Mae Colwyn nodwyd: 'Cafwyd gweled a phrofi pethau annisgrifiadwy. Yr oedd arddeliad rhyfedd ar weinidogaeth Miss Davies ar hyd yr wythnos'.[4] Serch hyn, yn ei ysgrif, 'Rosina Davies: Yr Efengyles Fach Anghofiedig', atgoffa E. Wyn James y darllenydd mai eithriad oedd profiad Davies yn ei hoes, o safbwynt ei statws a'i hagweddau. Cyfeiria ati fel 'Cymraes, a oedd bron yn unigryw yn ei dydd, o ran ei safle cyhoeddus Cymru-lydan ac o ran yr agweddau amrywiol a gyfarfyddai ynddi.'[5] Cafodd merched nad oeddynt eisoes yn meddu ar statws yn y gymdeithas lwyfan yn ystod y Diwygiad gan ddod i amlygrwydd am gyfnod hefyd. Gan osod y cantorion a'r unawdwyr, a'r rhai a deithiai gyda Roberts o'r neilltu, yr enghraifft amlycaf mae'n siŵr yw Mrs. Jones Llanegryn, y bydd cyfeirio pellach ati yn y bennod hon. Stori gyfriniol a oedd wrth wraidd enwogrwydd byrhoedlog y wraig a adwaenir fel Mrs. Jones. Beth bynnag, ni cheir craffu penodol ar unigolion yma fel y cyfryw, yn hytrach y bwriad yw ystyried cyfraniad y ferch yn gyffredinol ac yn symbolaidd fel asiant yn y gwaith o gynnal mudiad y Diwygiad ar y pryd, ac ers hynny. Yn gyffredinol, cesglir i ferched brofi statws ac amlygrwydd newydd ac arwyddocaol o safbwynt cymdeithasol o dan ddylanwad y mudiad, ond mai byrhoedlog y bu'r rhyddfreinio hwn. Nododd Robert Pope:

> Nid oes unrhyw amheuaeth na fu'r Diwygiad yn fodd i newid agweddau tuag at swyddogaeth gyhoeddus gwragedd. Cymerodd gwragedd ran yng nghyfarfodydd y Diwygiad, gan ddweud ac adrodd tystiolaeth, a chan

[3] Noel Gibbard, *Caniadau'r Diwygiad* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2003), t.55.
[4] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (Dolgellau, 1906), t.163.
[5] Gweler ysgrif E. Wyn James, 'Rosina Davies, "Yr Efengyles Fach Anghofiedig"' yn *Taliesin* 124, Gwanwyn 2005, t.39.

bregethu weithiau. Ond byddai peth amser yn mynd heibio cyn i'r eglwysi Anghydffurfiol ordeinio gwragedd i'r weinidogaeth, a delwedd y wraig, y fam a chysurwraig yr aelwyd fyddai'n tra-arglwyddiaethu yn y gymdeithas Gymreig am lawer blwyddyn eto.[6]

Fel y nodwyd eisoes, profodd gweithgarwch y ferch yn destun dadleuol ar y pryd, ac mae'r modd y portreadwyd hi yng ngweithgarwch y Diwygiad ar amrywiol ffurfiau, gan gynnwys astudiaethau hanesyddol hefyd wedi profi'n bwnc llosg. Gwelir y ferch fel testun dadlau yn parhau felly, a hynny mae'n debyg oherwydd y delweddau a geir o'r ferch mewn amrywiol ffurfiau sy'n ei darlunio yn gwneud perfformiad a sioe o'r gwaith o gyfleu ei hemosiwn. Bydd cyfeirio at y fath ddelweddau yn y man. Mae Deirdre Beddoe yn beirniadu'r modd y portreadwyd cyfraniad y merched a deithiai gyda Roberts yn ystod y Diwygiad gan haneswyr, gan bwysleisio eu cyfraniad ymarferol i waith y mudiad. Yn ei chyfrol ar hanes merched yn ystod yr ugeinfed ganrif yng Nghymru, nododd:

> *Pushing the established chapel hierarchies aside, women and young men organized their own more democratic services with their outpourings of emotional fevour. Eight of Roberts's team of ten followers on his first missionary journey were women who, far from being besotted religious 'groupies', as male versions of history frequently depict them, in fact, played a key part in organizing meetings and preaching. But the Revival was short-lived and women were expected to keep to their divinely allotted role, espousing the virtues of obedience to male authority, godliness, cleanliness, sobriety and thrift.*[7]

Eto, fel y soniwyd ym mhennod 2, mewn cyd-destun arall wrth drafod y bregeth, ac ym mhennod 1 wrth edrych ar gasgliadau ynglŷn â mudiad y Diwygiad yn gyffredinol, gwelir natur hanesyddiaeth y Diwygiad, a natur ddrylliog yr hanesyddiaeth honno'n pryfocio'r hanesydd i ymdrin â hi yn rhan o'r gwaith wrth ddehongli gweithgarwch y mudiad. Mae Katie Gramich mewn erthygl sy'n edrych ar

[6] Robert Pope, *Codi Muriau Dinas Duw* (Bangor, 2005), t.32.
[7] Deirdre Beddoe, *Out Of The Shadows* (Caerdydd, 2000), tt.11-12.

ddehongliadau o'r Diwygiad yn y nofelau cynnar ar y Diwygiad yn *Taliesin* 128, 2006, (y cyfeiriwyd ati ym mhennod 1) yn beirniadu agwedd Eifion Evans ynglŷn a chyfraniad merched yn ystod y Diwygiad yn benodol. Meddai:

> Mae cyfrol Eifion Evans, *The Welsh Revival of 1904*, er enghraifft, yn cydnabod rôl flaenllaw menywod yn y Diwygiad ond gwna hynny'n anfoddog, gan awgrymu bod rhai o wendidau gwaethaf y mudiad i'w priodoli i ddylanwad ysgeler y merched.[8]

Ymhellach, gan gyfeirio at y gyfrol goffa[9] a gyhoeddwyd i ddathlu hanner can mlwyddiant y Diwygiad yn 1954, meddai: '...mae'r un ysgrif ar ddeg gan wrywod, deg ohonynt yn weinidogion. Ac mae'r parchedigion i gyd fel petaent yn unfryd yn eu hewyllys i ysgrifennu merched allan o'r Diwygiad.'[10] Gwelir yma y modd yr arhosodd y drafodaeth ar ferched yn y Diwygiad yn un ddadleuol. Wrth ymateb i rai o'r delweddau dadleuol sefydledig yma o'r ferch yn y Diwygiad, mae gweithiau o'r fath yn naturiol yn herio'r syniadau hyn. Serch hyn, fel y dadleuir wrth drafod y bregeth a natur y cyfarfodydd ym mhennod 2, gwelir yn y fath ymateb y delweddau sefydledig hyn sy'n rhan o chwedl y Diwygiad yn penderfynu natur y drafodaeth. O ganlyniad, gwelir y Diwygiad fel ffenomen ddadleuol yn parhau. Beth bynnag, nid ymdrech yw'r bennod hon i ddilyn y trywydd hwn, gan fesur gwerth a chyfraniad gweithgarwch merched yn ystod y Diwygiad. Y bwriad yw ystyried gweithgarwch y ferch fel ffenomen yng nghyd-destun y gwaith ar y pryd o roi bod i'r mudiad yn enw Diwygiad 1904-05. Serch hyn, mae'r astudiaeth yn amlygu pwysigrwydd cyfraniad merched i'r gwaith o gynnal y mudiad ar y pryd gan ddangos ei rôl wrth roi ffurf i'r stori ac wrth roi'r stori ar waith.

---

[8] Katie Gramich, 'Dehongli'r Diwygiad: Ymateb Awduron Cymreig i Ddiwygiad 1904-05' yn *Taliesin* 128, 2006, tt.12-28.
[9] Sidney Evans, Gomer M. Roberts (goln.), *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-1905* (Caernarfon, 1954).
[10] Katie Gramich, tt.14-15.

Fel y gwelir yn y man, ystyriwyd cyfraniad gan ferch ifanc fel cychwyn ar fudiad Diwygiad 1904-05 gan nifer, ar y pryd, ac ers hynny gan haneswyr. Ymddengys y gellir deall cyfraniad merch fel cyfrwng i ddynodi cychwyn ar ddiwygiad crefyddol fel un sefydledig ar y pryd. Ceir sawl cofnod am ddiwygiadau crefyddol yng Nghymru a thu hwnt sy'n disgrifio cyfraniadau gan ferched fel y weithred gychwynnol. Cofnodwyd cyfraniad gan ferch ifanc fel cychwyn Diwygiad Beddgelert 1817, ac yn ôl cofnodion, ymddengys y dylanwadwyd yn fawr ar ferched gan y mudiad. Gwelwyd merch ifanc yn allweddol i gychwyniadau diwygiad yn Sir Benfro yn 1860. Bu cyfraniadau gan ferched yn allweddol ar gychwyn mudiadau diwygiadol yn Ne Affrica, India ac Unol Daleithiau America hefyd.[11] Mae'n siŵr bod nifer o resymau diwylliannol sy'n golygu y gwelwyd merched yn mabwysiadu rôl fel dynodwyr ar gychwyn mudiadau crefyddol mewn sawl man. Mae'n bosib, oherwydd y traddodiad hwn, yr ystyriwyd cyfraniad gan ferch yn gyfrwng tebygol a derbyniol i gychwyn mudiad y Diwygiad yn 1904.

Fodd bynnag, yng nghyswllt Diwygiad 1904-05, ymddengys nad confensiwn yn unig a benderfynodd ar amlygrwydd merch ifanc fel y ffigwr a oedd i ddynodi cychwyniadau'r mudiad. Dadleuir yma bod priodoli cyfraniad gan ferch yn arwydd o gychwyn y mudiad yn arwyddocaol o feddylfryd a fabwysiadwyd ar y pryd. Roedd arddel y syniad bod rhinweddau ysbrydol arbennig yn perthyn i ferched yn ganolog i'r meddylfryd hwn. Rhoddodd syniadau o'r fath rôl benodol i'r ferch yng ngweithgarwch y mudiad.

[11] John Aled Owen, 'A Study of Orality and Conceptuality During The Welsh Religious Revival of 1904-06', traethawd doethur cyflwynedig i Brifysgol Birmingham, 1997, tt.149-150.

Gan graffu ar y digwyddiad o dan sylw felly, fel y nodwyd eisoes ym mhennod 1, cafwyd cyfarfodydd yng Ngheinewydd o dan arweiniad y Parch. Joseph Jenkins mewn ymdrech i adfywio'r elfen ysbrydol ymysg pobl ifanc yn ystod misoedd cynta'r flwyddyn ym 1904. Ym mis Chwefror 1904 cafwyd cyfraniad gan ferch o'r enw Florrie Evans yn un o'r cyfarfodydd. Ystyrir ei datganiad gyda'r cyntaf i fod yn fynegiant o bresenoldeb yr Ysbryd. Nodir mewn disgrifiad o'r achlysur yn y gyfrol *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (1906):

> Y Sabbath dilynol, ar ôl odfa y boreu, yn nghyfarfodydd y bobl ieuainc, dywedodd Mr. Jenkins, 'Yr wyf yn cael fy nghymell i ofyn i chwi symud ymlaen gam arall. Gawn ni brofiad - rhywun i ddweyd profiad crefyddol. Peth prin ydyw - gadewch i mi egluro.' Cododd dyn ieuanc, ac un arall drachefn. "Diolch i chwi," meddai'r gweinidog, 'ond areithio yw hyna, ac nid profiad-rhaid cael profiad heddyw; bydd i mi egluro hyn y Sul nesaf eto.' Ond gyda hyn dacw Florrie Evans ar ei thraed, a dyna i gyd ddywedodd - 'Yr wyf fi yn caru Iesu Grist a'm holl galon.' Yr oedd yr effaith yn drydanol a dwfn, y tu hwnt i bob desgrifiad - yr oedd yn wylo a 'sobbio' distaw drwy yr holl le. Ar ei ffordd adref, galwodd y gweinidog gyda'r eneth, a dywedodd, 'Diolch, Florrie fach, chwi roisoch lifft i'r cwrdd.' 'Na ddiolchwch i mi,' meddai, 'ond i'r Ysbryd Glan. Yr oedd yn rhaid i mi ddweyd.' Dyna ysgub gyntaf y cynhauaf - dyna flaen y don, a dechreu gwyrthiau yr Ysbryd Glan.[12]

Sylwer mai o dan arweiniad y Parch. Joseph Jenkins yr anogwyd cyfraniadau o'r fath, ac nad oedd areithiau di-deimlad y dynion ifanc yn bodloni ei ddisgwyliadau. Ar un lefel, felly, gellir deall y datganiad a wnaed gan Florrie Evans yn gyfraniad a oedd yn cydymffurfio â'r disgwyliadau a osodwyd gerbron y gynulleidfa gan y gweinidog. Yn hyn o beth, gellir deall ei chyfraniad fel un a oedd yn cydymffurfio â syniadau Jenkins ynglŷn â beth oedd ffurf dderbyniol o fynegiant ar gyfer y cyfarfod. Dylid cofio yma y sefydlwyd y cyfarfodydd yn benodol gan Jenkins er mwyn gwella a dwysáu'r elfen ysbrydol yng nghrefydd yr ifanc, ac roedd y gwaith yr ymgymerwyd ag ef yng nghyd-destun y cyfarfodydd o dan sylw yn ffrwyth pryder a fynegwyd o sawl cyfeiriad ar y pryd am ansawdd y grefydd yng Nghymru.

[12] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (Dolgellau, 1906), t.53.

Fodd bynnag, gwelwyd Florrie Evans yn dod i amlygrwydd o ganlyniad i'w datganiad, a phriodolwyd rhinweddau arbennig iddi. O ganlyniad gwelwyd y ferch fel ffigwr yn cael ei dyrchafu. Mabwysiadodd y ferch ffurf symbolaidd o'r cychwyn felly, gan fod yn arwydd o ddylanwadau'r Ysbryd ar waith. Yn wir, gwelwyd y cyfraniad hwn gan Florrie Evans yn cael ei ddehongli fel ffurf ar ddylanwad yr Ysbryd. Nodwyd yn *Y Tyst* 23, Tachwedd 1904, o dan y teitl 'Y Diwygiad': 'Torrodd allan yn Ngheinewydd. Un o'r ffurfiau cyntaf arno ydoedd merch ieuanc yn gwneyd cyffes gyhoeddus o'i chariad at Iesu Grist.'[13] Sylwer, y cyfeirir at y ferch yn gwneud cyffes fel ffurf ar y Diwygiad. O'r cychwyn, felly, ystyriwyd cyfraniad teimladwy gan ferch yn arwydd o ddylanwad yr Ysbryd. O ganlyniad, datblygodd y ferch yn symbol o ddylanwad y mudiad ar waith. Gellir deall y modd y profodd cyfraniadau gan ferched yn amlwg iawn yng nghyfarfodydd y Diwygiad, felly, yn wyneb y modd y sefydlwyd y syniad o'r cychwyn fod cyfraniad grymus a theimladwy gan ferch ifanc yn ffurf ddiriaethol ar ddylanwadau'r Ysbryd.

Gellir dadlau y rhyddfreiniodd y meddylfryd hwn ferched i gyfrannu yn gyhoeddus yng nghyfarfodydd y capel, a phlannwyd amlygrwydd y ferch yn ganolog i'r stori a oedd ar led am y Diwygiad. Yn ei dro, sefydlwyd cyfraniadau o'r fath gan ferched yn nodweddiadol o gyfarfodydd yr ystyriwyd eu bod o dan ddylanwad y mudiad. Oherwydd hyn, sefydlwyd y fath gyfraniadau yn un o'r confensiynau ar gyfer sefydlu cyfarfod yn un o gyfarfodydd y Diwygiad. Drwy hyn, gwelwyd gweithgarwch y ferch yn ymarferol ac yn symbolaidd yn rhoi ffurf i fudiad y Diwygiad ac yn offeryn hwylus yn y gwaith o ledaenu ei ddylanwadau. Nid yng Nghymru yn unig y bu hyn,

[13] *Y Tyst*, 23 Tachwedd 1904, t.4.

ond hefyd ymysg cymdeithasau Cymraeg Unol Daleithiau America. Gwelwyd y ferch yn cael ei defnyddio yn symbolaidd yn y darn isod o'r *Drych* Ionawr 1905, papur newyddion Cymry America, i gyfathrebu bod y Diwygiad ar waith yn Scranton:

> Mae arwyddion parhaus fod ein heglwysi yn y dyffryn hwn yn cael eu bywhau, a diolch am hyny. Fel yn Edwardsdale a mannau eraill y bobl ieuanc, yn neillduol y merched ieuanc a ddefnyddir yn brif offerynau yn llaw yr Ysbryd Glan i ddodi cynulleidfaoedd ar dân... [14]

Gwelwyd adroddiadau yn y wasg yn cyfeirio at y nodweddion sefydledig hynny a ystyriwyd yn rhan o stori'r Diwygiad, gan gynnwys cyfraniad y ferch mewn disgrifiadau o'r gweithgarwch fel math o dystiolaeth fod y Diwygiad wedi cyrraedd man neu gapel penodol. Trwy hyn, gwelwyd adroddiadau'r wasg yn lluosogi'r delweddau o'r ferch a'i chyfraniad gan gynnal y mudiad a'r stori yn y ffurf hon. Gwelwyd hyn o safbwynt elfennau eraill a drafodir yn y traethawd hwn, gan gynnwys y modd y meddiannodd y gynulleidfa'r cyfarfodydd mewn canu mawl, ac wrth gynnal cyfarfodydd gweddi ym mhennod 2, er enghraifft, ac wrth edrych ar y modd yr adroddwyd am ddylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas ym mhennod 4.

Gyda brwdfrydedd i gynnal mudiad y Diwygiad, byddai modd i ferched efelychu'r math o gyfraniadau a gafwyd a rhannu profiad a oedd i ledaenu dylanwadau'r mudiad. Nid yw hyn yn golygu wrth gwrs nad oedd y datganiadau niferus a gafwyd yn y cyfarfodydd yn rhai ystyrlon. Yn wir, gellir dadlau y datblygwyd diwylliant newydd yn y capel yn sgil y broses o sefydlu confensiynau ymddygiad newydd i ferched. Roedd hyn yn ddiwylliant a berthynai yn unigryw i fudiad y Diwygiad, a dyna, gellir dadlau, a fu'n gyfrifol am y cyfraniadau niferus, tebyg o ran natur a gafwyd gan

[14] *Y Drych,* 26 Ionawr 1905, t.5.

ferched. Drwy wneud datganiadau yn gyhoeddus yn y capel felly, gwelwyd merched yn rhoi'r Diwygiad a'i stori ar waith.

Gwelir cyfraniad Florrie Evans yn cael ei ail-greu mewn gweithiau creadigol diweddar. Yn nofel Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel*, (2007) ceir y darlun canlynol:

> Yng nghyfarfod y bobol ifanc, wedi oedfa'r Sul nesaf, gwahoddodd Mr Jenkins y rhai a oedd yn bresennol i draethu eu profiadau ysbrydol. Ymatebodd nifer heb fod yr un cyfraniad yn nodedig. Hyd nes y cododd Phoebe Evans ar ei thraed a datgan yn grynedig: 'Yr wyf fi'n caru Iesu Grist â'm holl galon.'
>
> Taniodd geiriau'r eneth ei chyfeillion, yn fechgyn a merched, yn enwedig y merched.[15]

Fel y gwelir, mae'r darn yn adlewyrchu'r hyn a gofnodwyd mewn adroddiadau ar y pryd yn agos iawn a gwelir amlygrwydd cyfraniad Florrie Evans yn stori'r Diwygiad yn cael ei gynnal dros ganrif yn ddiweddarach. Sylwer yma y cyfeirir at gyfraniad Evans fel un crynedig. Ceir darlun bregus o'r ferch o ganlyniad. Gellir deall y modd y cyferbynnir y syniad o'r datganiad crynedig â'r dylanwad grymus a gafodd er mwyn creu golygfa drawiadol. Mae'n werth sylwi, yn y portread uchod, y dylanwadwyd ar ferched yn arbennig gan ei datganiad. Gwelir felly yma gynrychiolaeth o'r syniadau penodol hynny a sefydlwyd am ferched o dan ddylanwad mudiad y Diwygiad.

Mae'r portread o Phoebe Evans, sy'n amlwg wedi ei seilio ar brofiad Florrie Evans, yn un o ferch a wnaeth ddatganiad crynedig, sy'n awgrymu bod naill ai nerfusrwydd yn ei llais neu ei bod o dan deimlad. Serch hyn, pwysleisir dylanwad ei chyfraniad. Yn hyn o beth, adlewyrchir yma'r rôl a briodolwyd i'r ferch yn ystod y Diwygiad. Gellir

[15] Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (Llanrwst, 2007), t.65.

dadlau y mabwysiadodd y ferch rôl ymarferol wrth gynnal mudiad y Diwygiad ac y dyrchafwyd statws y ferch yng nghyfarfodydd y capel. Ond gellir dadlau y gwelwyd darlun o'r ferch yn cael ei sefydlu mewn modd penodol yn un lle gwelwyd y ferch yn gwneud cyfraniad grymus o dan deimlad. Drwy hyn, mabwysiadodd y ferch rôl symbolaidd, gan gynnig perfformiad o weithred a ddaeth i'w hadnabod fel un o ganlyniadau diriaethol dylanwadau'r Ysbryd. Yn ogystal, drwy nodi y bu datganiad Phoebe yn y nofel yn arbennig o ddylanwadol ar y merched, ceir darlun o'r ferch sy'n ei phortreadu'n arbennig o sensitif i'r fath gyfraniad ac o bosib i ddylanwadau'r Ysbryd. Roedd hyn yn gred, fel y gwelir yn y drafodaeth hon, a fabwysiadwyd ar y pryd ac yn gred a gynhelir yma ar ffurf y nofel.

Beth bynnag y gellir ei ddweud am gymhelliad y darlun yn y nofel gwelir rhai o'r prosesau a oedd ar waith yn ystod blynyddoedd 1904-05 ar waith ers hynny yma. Mae hyn i'w weld yn y modd yr ymroddwyd i ail-greu'r darlun o dan sylw. Gellir dadlau mai'r hyn a welir yng ngwaith Gareth Miles yw parhad y gwaith o gynnal y delweddau a sefydlwyd ar y pryd yn yr adroddiadau yn y wasg, ac felly gwelir ymgymryd â disgrifio gweithgarwch y Diwygiad fel y gwnaethpwyd ar y pryd ganrif yn ddiweddarach. Mae'r un broses i'w weld mewn gweithiau eraill a drafodir mewn sawl man yn y traethawd hwn, er enghraifft, wrth edrych ar drafodaeth haneswyr diweddar ar ddylanwadau'r Diwygiad ar chwaraeon ym mhennod 4. Ar un lefel, yr hyn a welir yw grym y meddylfryd a roddodd lwyfan a phwysigrwydd i'r ferch a'i chyfraniad ar y pryd ar waith ganrif ers hynny. Dylid cydnabod wrth gwrs bod y nofel yn un ddychanol mewn sawl man, ac y gellir deall y delweddau yn y nofel sy'n adlewyrchu'n agos y math o ysgrifennu a gafwyd ar y pryd yn ddychan o'r delweddau yr ymroddwyd i'w creu. Serch hyn, ni ellir osgoi'r ffaith y ceir ail-greu ar y

delweddau a sefydlwyd ar y pryd yn y nofel, gan roi ffurf i'r Diwygiad ar ei newydd wedd. Yn ogystal, gellir dadlau bod yr ail-greu hwn yn arwyddocaol o'r modd y mae'r ddelwedd o dan sylw yn un grymus, yn yr ystyr, beth bynnag yw'r farn am y Diwygiad sy'n sail i'r gwaith, y mae'r ddelwedd yma'n mynnu cael ei thrafod. Trwy hyn amlygir ansawdd y Diwygiad fel stori sy'n gyfres o ddelweddau lliwgar. Mae ymddangosiad y nofel wedi blynyddoedd y canmlwyddiant yn arwyddocaol hefyd o'r broses a welwyd gan amrywiol gyfryngau ar yr adeg hon o adrodd stori'r Diwygiad.

Mae'r modd yr ymdrinnir â'r Diwygiad yng ngwaith Kevin Adams, yn y gyfres a gyhoeddwyd i ddathlu canmlwyddiant y Diwygiad, yn enghraifft dda o'r math o gynnyrch sy'n arwyddocaol o safbwynt cyflwr y Diwygiad fel ffenomen ers blynyddoedd 1904-05 ac o'r hyn ydoedd ffenomen achlysur y canmlwyddiant.[16] O safbwynt y portread a geir o Florrie Evans yn ei lyfr lluniau gwelir ymdriniaeth sy'n adlewyrchu'n agos iawn y math o ymdriniaeth a gafwyd yn y wasg ar y pryd. Ceir ffotograff o Florrie Evans a'r pennawd, '*Testimony and Prayer*' ac oddi tano, ddyfyniad o ddatganiad a wnaed ganddi.[17] Mae natur y gwaith yn dangos bod y modd y bu ymdrechion ar adeg y canmlwyddiant i aildanio diddordeb a brwdfrydedd yn y Diwygiad yn gyfrifol am roi bod i'r Diwygiad fel ffenomen ganrif yn ddiweddarach. Yma, gwelir hyn yn y gwaith o ymhél â'r un fath o waith ag a welwyd ar y pryd mewn ymdrech i gynnal y mudiad a lledaenu ei ddylanwad yn y wasg a'r cyfnodolion, gan gynnal syniadau am y Diwygiad fel mudiad rhyfeddol. Yn naturiol, gellir deall agenda efengylaidd fel cymhelliad llawer o'r gwaith hwn. Fodd bynnag, yn ogystal, yr hyn a welir yw achlysur yn cael ei sefydlu o'r canmlwyddiant. Mewn hysbyseb ar gyfer y llyfr lluniau a geir yng nghefn cyfrol Adams *A Diary of Revival*, nodir:

[16] Kevin Adams, *A Diary of Revival, Special Centenary Edition* (CWR, 2004); Kevin Adams ac Emyr Jones, *A Pictorial History of Revival* (CWR, 2004). Ceir DFD a fideo sy'n cyd-fynd â'r gyfres hefyd.
[17] Kevin Adams ac Emyr Jones, *A Pictorial History of Revival*, t.40.

> *2004 is the hundred-year anniversary of the great Welsh Revival - celebrate with us this significant moment in history and learn what it can teach us today.*
> *This treasury of images brings to life the people, the places and the times of the 1904 Welsh Revival. Lavishly illustrated with photographs and reproductions, many of which have never been seen before.*

Mae'n sicr y cafodd gweithgarwch merched le amlwg yn stori'r Diwygiad yn y math hwn o gynnyrch ar adeg y canmlwyddiant. Mae cyfrol Karen Lowe *Carriers of The Fire* (2004), sy'n edrych yn benodol ar rai o ferched y Diwygiad, yn amlwg yn gynnyrch y dathlu sy'n rhan o ymdrech i ddefnyddio deunydd y Diwygiad i roi hwb i'r achos efengylaidd yr adeg hon. Er enghraifft, cyfeiriodd Lowe at gyfraniad Florrie ac eraill: '*Can He raise up again such radical, fiery teenage revivalists?*'[18] Ceir cydnabyddiaeth yn y gwaith mai ymchwil Kevin Adams sydd wrth wraidd y gyfrol. Gan graffu unwaith yn rhagor ar gyfraniad Florrie Evans, gwelwyd ei chyfraniad yn cael ei bortreadu mewn gwaith newyddiadurol yr adeg hon hefyd. Mae'r erthygl y bydd dyfynnu ohoni isod o *Golwg*, 4 Mawrth 2004, wedi ei ffurfio mewn ymdrech i ryfeddu'r darllenydd. Yn hyn o beth, mae'r gwaith yn cynnal yr elfen gyffrous a fabwysiadwyd ar y pryd wrth olrhain digwyddiadau'r mudiad. Gwelir hyn mewn ymdriniaeth o elfennau eraill ar y Diwygiad a drafodir yn y traethawd hwn, o safbwynt dylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas ym mhennod 4 ac wrth drafod Evan Roberts ym mhennod 5. Gellir dadlau mai'r hyn a welir yw parhad y gwaith o ymdrin â mudiad y Diwygiad mewn modd gyffrous, fel y gwnaed gan yr adroddiadau a gafwyd ar y pryd. Yn hyn o beth gwelir y meddylfryd a roddodd fod i weithgarwch y Diwygiad fel ffenomen gyffrous yn bod ers hynny mewn gweithiau sy'n ail-greu'r Diwygiad, a gwelir y stori yn cael ei chynnal mewn ffurf go debyg ganrif yn ddiweddarach. O dan y pennawd, "04/'05 - Diwygiad y Ferch', nodwyd:

---

[18] Karen Lowe, *Carriers of The Fire, The Women of The Welsh Revival, their impact then, their challenge now*...(Llanelli 2004), t.103.

> Nid y pregethwr Evan Roberts a ddechreuodd Diwygiad 1904-05, ond gwraig ifanc o Geredigion. Er i'r gweinidog carismataidd o Gasllwchwr dderbyn y clod am gynnau'r deffroad ysbrydol a ledaenodd dros rannau o Gymru ganrif yn ôl, fe ddaeth y sbarc cynta' mewn capel bychan yng ngorllewin Cymru yng nghanol mis Chwefror 1904.
> Florrie Evans oedd y wraig ifanc yng Nghapel Tabernacl, Cei Newydd, a safodd ar ei thraed yn ystod oedfa gan y Parchedig Joshua Jenkins, a gweiddi nerth ei phen, 'Rwy'n caru'r Iesu!'.[19]

Ar yr un pryd, mae'r darn yn cyfeirio at gyfraniad Evan Roberts, a oedd yn un o elfennau amlycaf ffurf y Diwygiad yn gyhoeddus ar y pryd ac ers hynny. Yn y gwaith yr ymroddir i'w gyflawni yn y darn o gywiro'r darlun hwn, cynhelir y ddelwedd o weithgarwch Roberts fel testun trafod dadleuol, ganrif yn ddiweddarach. Bydd trafod pellach ar y ffenomen hon ym mhennod 5. Sylwer, yn y dehongliad uchod, i Evans weiddi, 'nerth ei phen', fodd bynnag nid mesur cywirdeb y ddelwedd a bortreadir yw'r nod yma, yn hytrach y bwriad yw dangos y modd ar adeg canmlwyddiant y Diwygiad y lansiwyd y fath ddelweddau i'w derbyn gan gynulleidfa o ddarllenwyr gan roi bod i'r Diwygiad fel ffenomen ers 1904-05, a gwelwyd rhan y ferch yng ngweithgarwch y Diwygiad yn rhan o'r chwedloniaeth.

Cafwyd sioeau cerdd ar adeg canmlwyddiant y Diwygiad y soniwyd amdanynt eisoes yn y traethawd hwn,[20] a gwelwyd amlygrwydd merched yng nghyfarfodydd y Diwygiad yn cael ei bortreadu mewn nifer o'r golygfeydd a gafwyd yn y ddwy sioe. Mae'n sicr y profodd cynnwys y sioe yn ddeunydd i drafodaeth ynghylch rôl merched yn y Diwygiad, oherwydd natur y gweithgaredd o bortreadu cymeriadau ar lwyfan. Nododd Cefin Roberts yn rhaglen y ddrama gerdd 'Hen Rebel':

---

[19] Erthygl o dan y pennawd, '04/'05 - Diwygiad y Ferch', yn *Golwg*, 4 Mawrth 2004.

[20] 'Hen Rebel', Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru; 'Amazing Grace', Cynhyrchiad The Wales Theatre Company. Cafwyd perfformiadau o'r sioeau mewn sawl theatr yng Nghymru adeg y canmlwyddiant.

> Gan mlynedd yn ôl y machludodd yr haul ar ddiwygiad '04-'05 yng Nghymru. Am ddwy flynedd fe ledaenodd y fflam fechan a gynheuwyd gan ferch ifanc o'r enw Florrie Jenkins mewn oedfa yng Ngheinewydd, a thyfodd yn goelcerth anferth drwy Gymru gyfan. Sefyll ar ei thraed wnaeth Florrie, a chyffesu ei chariad i Grist ar ganol yr oedfa.[21]

Gan gymryd mai Florrie Evans oedd gan Cefin Roberts mewn golwg, gwelir yma sut y dramateiddiwyd y digwyddiad yn ei eiriau. Nid codi a chyffesu ei chariad at Grist ynghanol yr oedfa, fe ymddengys, a wnaeth Florrie yn ôl y cofnodion, ond codi a gwneud datganiad yn ôl dymuniad y Parch. Joseph Jenkins. Gofynnodd Jenkins i aelod o'i gynulleidfa yng nghyfarfod y bobl ifanc ar ôl oedfa'r bore, godi a rhannu profiad crefyddol, a dyma, fe ymddengys, a wnaeth Florrie.[22] Nid beirniadu unrhyw esgeulustod yw'r nod yma, ond dangos sut y ceir disgrifiadau o weithgarwch y Diwygiad ar amrywiol ffurfiau ganrif yn ddiweddarach sy'n ymroi i gyffroi gweithgarwch y Diwygiad, ac yn yr achos hwn i briodoli arwyddocâd arbennig i gyfraniad Florrie, fel y gwnaed ar y pryd. Yn hyn o beth felly, gwelir rhai o'r prosesau a oedd ar waith wrth sefydlu mudiad y Diwygiad yn ffenomen rhyfeddol ar y pryd yn digwydd ers hynny. Yng nghyswllt y drafodaeth yn y fan hon, gwelir cyfraniad Florrie Evans yn cael ei sefydlu yn un arbennig ac yn rhan o stori'r Diwygiad ers blynyddoedd 1904-05.

Fel y gellid casglu eisoes mae'n siŵr, nid fel dynodwr cychwyn y gweithgarwch yn unig y profodd y ferch yn amlwg yng ngweithgarwch cynnar mudiad y Diwygiad. Roedd llawer o ferched ifanc i'w gweld yn cyfrannu yn y cyfarfodydd yng Ngheinewydd. Ysgrifennodd E. Davies o Geinewydd at ei mab-yng-nghyfraith J.T.

[21] Nodyn gan Cefin Roberts yn rhaglen y ddrama gerdd 'Hen Rebel' gan Theatr Genedlaethol Cymru.
[22] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (Dolgellau, 1906), t.53.

Job, a oedd yn weinidog ym Methesda, Dyffryn Ogwen, ar y pryd am newyddion y Diwygiad yn Aberteifi. Cyfeiriwyd at Job eisoes ym mhennod 2 wrth drafod y bregeth yn y cyfarfodydd: roedd yn un o arweinwyr y Diwygiad yn yr ardal. Soniodd E. Davies yn y llythyr, dyddiedig, 5 Mai 1904, am gyfraniad merched yn y cyfarfodydd:

> Merched mewn gwasanaeth yn mynd ymlaen y weddi heb ofyn iddynt...Mae llygaid pawb yn nofiad mewn dagrau pan bydd y merched yn gweddio. Fe enwaf rhai ohonynt. Florie Evans about 20 yrs age She lives few doors above us in this street. She is about the first that the spirit commenced upon. Maude Davies y gantores. May Phillips Park st. Maggie Davies forwyn sydd gyda Mrs. Phillips. D Jenkin Evans Wellington yn yr eglwys oedd hwn, ond mae wedi dod attom ni nawr. Ag mae mor llawn or Ysbpryd Glan fel yn amser yr apostolion, ag amryw ereill merched o'r Albion, a Ellen yma yn cymeryd rhan. Darllen Salm, a rhoi gair mas y ganu, a degau ereill.[23]

Sylwer y cyfeirir at gyfraniad Florrie Evans. Bu nifer o'r merched a enwir yn weithgar yng nghyfarfodydd y Diwygiad, gan deithio i gymryd rhan mewn cyfarfodydd mewn ardaloedd eraill. Gwelir o ganlyniad sut y bu'r merched hyn yn ymgymryd â'r gwaith o gynnal mudiad y Diwygiad yn ymarferol. Er enghraifft, nodwyd mewn adroddiad am y Diwygiad yn Nyffryn Nantlle i swyddogion yr eglwysi lleol ddod ynghyd i drefnu cyfarfod arbennig ar gyfer y bobl ifanc, er mwyn cefnogi 'eu symudiad'. Gwahoddwyd Joseph Jenkins, Maud Davies a Florrie Evans i fod yn bresennol, a nodwyd am y cyfarfod: 'Gwelwyd mai peth doeth oedd sicrhau y chwiorydd hefyd. Toddai anerchiadau cynes Miss Evans a chaneuon swynol Miss Davies, galon y gynulleidfa yn llwyr.' [24] Gwelir yn yr ymdrechion hyn i ledaenu dylanwad y mudiad, y cydweithio a gafwyd yn lleol i drefnu cyfarfodydd arbennig a'r paratoi ar gyfer eu cynnwys, gan wahodd arweinwyr ac unigolion blaenllaw yn y mudiad i gymryd rhan. Trafodwyd yr elfen hon o drefnu a chydweithio o safbwynt y

[23] Llythyr gan E. Davies at ei mab-yng-nghyfraith, J.T.Job sy'n rhan o gasgliad personol Dafydd Job, o ddogfennau ei dad-cu, J.T Job.
[24] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*, tt. 213-214.

cyfarfodydd gweddi a drefnwyd mewn sawl man, ym mhennod 2. Trwy hyn, ceir golwg ar yr elfen strwythurol a gafwyd wrth roi'r mudiad ar waith gan ddatgelu'r drefn a oedd yn bresennol yn y gweithgarwch a ddisgrifir mor aml fel digwydd digymell a rhyfeddol o'r herwydd. Yn y cyswllt hwn, yma, gwelwyd bod cyfraniadau gan ferched yn ganolog i'r gwaith o gynnal fframwaith o weithgarwch a ystyriwyd yn rhan o stori'r Diwygiad ar y pryd.

Mae'n amlwg yr ystyriwyd natur y cyfraniadau gan y merched yn y cyfarfodydd o dan sylw yn arbennig. Nododd y Parch R.R. Davies yn *Y Drysorfa*, Ionawr 1905, am gyfraniadau merched yn y cyfarfodydd cychwynnol yn Aberteifi: 'Anhawdd yw i neb nas clywodd hwynt synied mor glir yw eu gwelediad i'r byd ysbrydol.'[25] Mae'r disgrifio helaeth a geir yn y adroddiad o gyfraniadau'r merched hefyd yn dangos y modd yr ystyriwyd bod gan y ferch allu arbennig i dderbyn dylanwadau'r Ysbryd. Nodwyd: 'Gweddiau un o honynt yn debyg i hyn, "O rho gywirdeb, rho onestrwydd, rho burdeb. 'Rwyt ti yn lan, yn bur, yn gywir - y gwirionedd; y Thi yw y Gwirionedd, - Gwirionedd wyt ti i gyd. O! y gwirionedd anfeidrol. Yr wyt yn fy llethu, O Dduw y Gwirionedd"...'[26] Gellir gweld felly sut y bu cyfraniadau'r ferch ar lafar yn ganolbwynt i lawer o'r gweithgarwch yn y capel ac yn destun trafod mewn adroddiadau ar weithgarwch y Diwygiad yn y wasg. Gwelir yma'r meddylfryd a sefydlodd rôl benodol i'r ferch fel un â gallu arbennig i ymgyffwrdd â'r byd Ysbrydol. Mae modd gweld y meddylfryd hwn yn unol â'r un a drafodwyd ym mhennod 2 a sefydlodd gweithgarwch o fath penodol o ran ieithwedd a dulliau unigolion wrth gyfrannu yn gyfryngau confensiynol a berthynai i'r mudiad, oherwydd yr ystyriwyd eu bod yn brawf o ddylanwad yr Ysbryd.

---

[25] *Y Drysorfa*, Ionawr 1905, t.66.
[26] *Y Drysorfa*, Ionawr 1905, t.66.

Fel yr awgrymwyd eisoes, profodd cyfraniad y ferch yn un o'r arwyddion a roddodd ymwybyddiaeth i unigolion o weithgarwch y capel fel rhan o weithgarwch mudiad y Diwygiad yn ehangach. Gwelir felly sut roedd gan anerchiadau y ferch ran yn y broses o roi ffurf i fudiad y Diwygiad. Rhyddhawyd merched i gyfrannu a hynny gan ddefnyddio iaith, dulliau ac arddulliau na welwyd yn arferol yn y capel. Yn aml, disgrifiwyd y cyfraniadau a gafwyd gan ferched fel rhai trawiadol a grymus mewn adroddiadau yn y cyfnodolion a'r wasg. Gwelwyd iaith syml yn cael ei ddefnyddio gan yr ifanc a merched wrth iddynt gyfrannu mewn modd wreiddiol. Roedd yr arddull a'r mynegiant arbennig a fabwysiadwyd gan ferched wrth gyfrannu yn rhywbeth y cyfeiriwyd ato'n aml mewn adroddiadau o gyfarfodydd a ddaeth o dan ddylanwad y Diwygiad. Gellir deall y disgrifiadau a gafwyd o'r cyfraniadau arbennig o gyfeiriad y ferch yn rhan o'r gwaith o gydymffurfio â'r ddelwedd sefydledig o weithgarwch y mudiad ac yn rhan o'r broses o ledaenu dylanwad y mudiad yn gyhoeddus, gan gynnig fframwaith unffurf i'r gweithgarwch a gafwyd yn genedlaethol. Nodwyd yn *Y Tyst*, 28 Rhagfyr 1904, am gyfarfodydd ym Merthyr, 'Ceid unawdau yn rhyfeddol o effeithiol, a gweddïai merched ieuainc a gwragedd oedrannus, gydag eneiniad a dylanwad rhyfeddol.'[27] Ymddengys y rhoddodd y weddi fel cyfrwng a'r arddull arbennig a fabwysiadwyd gan rai rôl benodol i'r ferch mewn cyfarfodydd gan ei rhyddfreinio i gyfrannu yn ddigymell. Roedd confensiynau newydd pendant a hyblyg ar yr un pryd gan y ferch i'w dilyn a oedd yn cynnig lle i emosiwn, nwyd, a rhyddid ieithyddol hefyd.

[27] *Y Tyst*, 28 Rhagfyr 1904, t.1.

Mae'n bosib hefyd, oherwydd y pwyslais a gafwyd ar y weddi o dan ddylanwad y Diwygiad, y cafwyd teimlad mai cyfathrebu â'r Ysbryd ac nid â chyd-ddynion neu'r gymdeithas a wnaed wrth siarad yn gyhoeddus. Yn amlwg, wrth gyfrannu ar lafar yn y capel, yr oedd cynulleidfa o wrandawyr, ond yn seicolegol, gellir dadlau oherwydd y meddylfryd hwn cyfrannwyd at y broses o ryddfreinio merched i gyfrannu'n gyhoeddus. Mabwysiadwyd meddylfryd o fath newydd; nid oedd angen ufuddhau i drefn ac arferion disgwyliedig dynion a chapel wrth gyfrannu; bellach symudwyd y pwyslais at y berthynas rhwng yr hunan â'r Ysbryd.

Wedi dweud hyn, gellir gweld bod y cyfraniadau a wnaed gan ferched yn gyfrwng a ystyriwyd yn arbennig. Fel y nodwyd eisoes, ymddengys y credwyd bod natur ysbrydol, pwerus yn perthyn i nifer o'r cyfraniadau a wnaed gan ferched. Gellir dadlau mai dyma'r meddylfryd a ryddfreiniodd y ferch i gymryd rhan, ac a roddodd statws symbolaidd arbennig iddi yng nghyfarfodydd y Diwygiad. Roedd y ferch yng nghyfarfodydd y Diwygiad yn sicr yn flaenllaw ac yn hawlio sylw'r gynulleidfa. Ar un lefel dyrchafwyd y ferch felly o ganlyniad i'r natur ysbrydol arbennig yr ystyriwyd ei bod yn perthyn iddi. Mae llawer o dystiolaeth o'r parch a fabwysiadwyd tuag at gyfraniad merched i fudiad y Diwygiad. Awgrymir gan y newyddiadurwr W. Anthony Davies mai merched oedd mwyafrif y gynulleidfa ac ystyriai mai eu gweithgarwch oedd asgwrn cefn y mudiad. Nododd yn ei ddyddiadur ar 15 Rhagfyr 1904: 'Sylwais mai menywod sydd yn y mwyafrif yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd. Hwynt hwy yw cadernid y Diwygiad.'[28] Serch hyn, gellir ystyried y rôl a fabwysiadwyd gan ferched oherwydd y gred eu bod yn fodau arbennig o ysbrydol, yn

[28] J. Ellis Williams (gol.) *Berw Bywyd 1903-1955, Detholiad o Ddyddiadur W. Anthony Davies*, (Llandysul, 1968), t.19.

un benodol, fenywaidd. Cafwyd y disgrifiad canlynol o gyfraniad merch mewn gwasanaeth yng nghapel Bethesda ym Merthyr yn rhifyn Rhagfyr 1904 o'r *Tyst*:

> Yr oedd un o'r oedfaon hyn wedi codi i hwyl hyfryd iawn, ac heb fod yn drystfawr o gwbl, pan safodd geneth fechan i fyny i roddi emyn allan. Canwyd yr emyn gyda mwynhad mawr. Yna daeth y peth bach anwyl allan i ganol y llawr, gan blygu ar ei deulin, a'i dwylaw yn nghyd, a'i llygaid yn nghau, a'i gwedd yn welw gan ddwysder Sanctaidd, ac mewn geiriau syml, a llais tyner rhyfeddol, gosododd ddeisyfiadau ei chalon ger bron ei Thad yn y nef.[29]

Sylwer y cyfeirir at y ferch fel 'peth bach annwyl' ac at ansawdd ei llais fel, 'tyner rhyfeddol'. Bron y gellir dadlau yn y fan hon yr ymgnawdolir rhinweddau'r Ysbryd i'r ferch fach, gan ystyried bod y disgrifiadau o'i thynerwch yn cyd-fod â natur ryfeddol ei datganiad. Dyma enghraifft arall o hyn. Nodwyd am Fethesda, Sir Benfro, hefyd yn *Y Tyst*, Rhagfyr 1904:

> Nos Fercher y dechreuwyd teimlo nerthoedd y byd a ddaw yn amlwg yn Methesda. Cawsom ein cyffroi drwom i gyd wrth glywed un o'r merched ieuanc mwyaf gwylaidd yn arllwys ei chalon ger bron yr Arglwydd mewn deisyfiadau dwysion a dwyfol - dyner.[30]

Eto, yma, nodir bod y ferch yn 'wylaidd' a bod ei datganiad yn ddwys a dwyfol ond eto'n dyner. Gellir dadlau y dyrchefir y ferch yn y cyswllt hwn, wrth i'w gallu i gyfathrebu â'r Ysbryd gael ei ystyried yn arbennig. Drwy hyn, ymddengys bod confensiwn newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer ymddygiad a mynegiant y ferch sy'n ymwneud â dilyn patrwm sy'n benodol fenywaidd, gan gyfrannu mewn modd gwylaidd, emosiynol ac ysbrydol. Gwelir y math hwn o ddelwedd o gyfraniad y ferch yn cael ei ledaenu gan y wasg ar y pryd. Er enghraifft, cafwyd y disgrifiad canlynol o gyfraniad merch mewn cyfarfod a gynhaliwyd gan Sidney Evans, cyfaill i Evan Roberts a fu'n amlwg yng ngweithgarwch y Diwygiad yn Nhreforys yn y *Daily Mirror*, 29 Tachwedd 1904. Nodir bod y ferch yn brydferth a disgrifir ei chyfraniad

---

[29] *Y Tyst*, 28 Rhagfyr 1904, t.1.
[30] *Y Tyst*, 28 Rhagfyr 1904, t.1.

fel un emosiynol a bregus: '*A deep hush fell on the congregation when a beautiful girl of sixteen rose in the gallery and prayed. She was trembling with ecstasy, and her petition came first haltingly and broken.*'[31] Mae'n sicr y sefydlwyd y darlun hwn yn un o ddelweddau'r Diwygiad. Ers hynny, gwelwyd y ferch yn sicr yn hawlio ei lle yn y chwedloniaeth a gwelwyd ail-greu delweddau ohoni ar amrywiol ffurfiau. Yn yr atgofion isod o gychwyniadau'r Diwygiad yn y Bala adeg yr hanner canmlwyddiant yn *Y Seren* Rhagfyr 1954 sylwer y ceir portread o'r ferch fel bod emosiynol a chyfeirir at ymddygiad merched fel arwyddion o gychwyn y mudiad a phethau rhyfeddol ar waith:

> ...ar ôl y bregeth, y 'Christian Endeavour' - torrodd yr argae; a chof da gennyf am rai o'r chwiorydd yr adeg honno, yn dod adref yn crio gan ofn neu lawenydd. A chredaf fy mod yn gywir yn y gosodiad. Nid oedd hyn ond dechrau ar y pethau rhyfeddol...[32]

Gwelir yma adrodd ar y stori yr ymroddwyd i'w chreu ar y pryd.

Nid trwy ei gweithredoedd wrth gyfrannu yn unig y rhoddwyd amlygrwydd i'r ferch yn ystod y Diwygiad. Er y gwerthfawrogwyd cyfraniadau gan ferched, yn aml o safbwynt eu hysbrydolrwydd arbennig, o fewn rhyw fframwaith benywaidd penodol, darparodd y Diwygiad lwyfan cyhoeddus i ferched rannu hanesion am eu bywydau. Crisialir hyn yn y weddi ganlynol a gofnodwyd yn y gyfrol *Perlau'r Diwygiad* (1906): 'Mae'r hen aelwyd gartref wedi altro. 'Rwy'n teimlo fod y gegin yn awr wedi ei chysegru. 'Rwy'n gallu magu y plant heb drafferth yn awr - y diafol oedd yma yn aml o'r blaen. 'Rown i'n credu fy mod i yn waeth *off* na phawb arall, ond rwgnacha i ddim

---

[31] *Daily Mirror*, 29 Tachwedd 1904, t.4.
[32] *Y Seren*, 11 Rhagfyr 1954, t.3.

mwy.'[33] Gwelwyd gweithgarwch merched yn ennyn diddordeb arbennig, ac o ganlyniad rhoddwyd sylw i'w gweithgarwch yn y gymdeithas a chan y wasg. O ganlyniad gwelwyd profiad y ferch yn ei bywyd bod dydd yn cael ei rannu yn gyhoeddus. Dyma adroddiad gan J. T. Job, y cyfeiriwyd ato eisoes, am gyfarfod y chwiorydd yn ystod y Diwygiad ym Methesda, yn *Y Cymro,* Ionawr 1905. Dengys sut y gwelwyd bywyd ac arferion y ferch a'i dyletswyddau yn ganolbwynt mewn adroddiadau a oedd yn disgrifio gweithgarwch y Diwygiad, ac yn yr achos hwn, y modd y plannwyd y ddelwedd o'r ferch wrth ei gwaith yn y cartref yn ganolog i'r stori yn yr erthygl:

> Ceidw 'cyfarfodydd y chwiorydd' eu tymheredd yn uchel o hyd. Clywais ddarfod iddynt hwy gael dau neu dri cyfarfod yn festri Jerusalem - uwch nag a gafwyd eto...Dacw wraig arall ar ei thraed yn dweyd ei phrofiad, 'Maddeuwch i mi am ddweyd gair. Ond fedra'i ddim peidio. Menyw dlawd w'i, ond mae Duw wedi' ngwneud i yn gyfoethog a'i ras y dyddiau diweddara' 'ma. Methais dd'od i'r cyfarfod ddoe, - 'roedd hi yn ddiwrnod golchi ond O! 'roeddwn yn teimlo yn euog uwch ben y twba golchi; - gwybod eich bod chi yma yn disgwyl wrth yr Ysbryd Glan a finne fan honno (ond rhaid i mi 'ennill fy nhamaid' serch hynny). Ond O!...Yn wir i chi - fan yma rwyf yn cael fy mwyd a'm diod. Diolch byth am Gyfarfodydd y Chwiorydd yma! Dyma hen college iawn! Fan yma wi' yn dysgu! Ie wir![34]

Mae nifer o adroddiadau yn sôn am ansawdd arbennig cyfarfodydd y chwiorydd. Trwy hyn, gwelir bod yr arfer o gyfeirio at gyfarfodydd arbennig o ysbrydol gan wragedd y capeli yn fodd o ddatgan bod dylanwadau'r Diwygiad wedi cyrraedd ardal neu gapel penodol. Ystyriwyd gweithgarwch merched yn elfen ganolog o stori'r Diwygiad ac fe'u gwelwyd yn ymarferol ac yn symbolaidd yn ganolog i'r gwaith o gynnal a lledaenu'r mudiad.

---

[33] Anthropos, *Perlau'r Diwygiad* (Caernarfon,1906), t.27.
[34] *Y Cymro*, 5 Ionawr 1905, t.6.

Rhoddwyd llwyfan cyhoeddus i fywydau a phrofiadau merched yn y gymdeithas. Yn y darn isod o'r *Tyst* disgrifir golygfa ddramatig am hanes dwy chwaer yn Aberpennar. Mae'r modd y cyfeirir yn y darn isod at natur 'effeithiol' yr olygfa yn arddangos rôl y gweithgarwch a ddisgrifir nid yn unig fel arwydd o ddylanwad ysbryd newydd ond yn ogystal fel cyfrwng i ledaenu'r ysbryd hwn a dylanwadu ar eraill. Mae'r darn yn enghraifft o'r modd y mabwysiadwyd gweithgarwch merched yn ganolog mewn rhai cyfarfodydd. Nodwyd yn *Y Tyst* 30 Tachwedd 1904:

> ...Golygfa effeithiol oedd yr un yn Mountain Ash, dwy chwaer oedd wedi ffraeo a'u gilydd, a'r holl gymdogaeth yn gwybod pan gymerasai le, y ddwy yn yr un cyfarfod, ac yn y man y ddwy dan ddylanwad yr Ysbryd yn cofleidio eu gilydd, ac yn cusanu eu gilydd yn ddigwylidd yn ngŵydd y dorf, ac yn tyngu fod y ffrae olaf rhyngddynt am byth wedi terfynu.[35]

Gwelir y fath ddelweddau yn aros yn y cof am y Diwygiad ar ffurfiau eraill ers blynyddoedd 1904-05, mae'n bosib oherwydd rhan y fath ddelweddau yn stori'r Diwygiad ar y pryd. Yn y nofel *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (2007), wrth bortreadu cyfarfod olaf y prif gymeriad Ivor Lewis yng Nghymru, yn Aberdâr, cyn ei ymgyrch yn Lerpwl, lluniwyd golygfeydd tebyg i'r hyn a geir uchod. Fel y crybwyllwyd eisoes, er bod dychan yn y gwaith, ceir ail-greu'r delweddau a sefydlwyd ar y pryd o'r ferch fel bod emosiynol, nwydus:

> Elfen arall a gyfrannodd at wres yr achlysur oedd y Cyfarfod Cymodi a gynhaliwyd y noson flaenorol yn festri Brynseion dan arweiniad Magdalen Morgan, Phoebe Evans a'r chwiorydd Annie ac Eirwen Davies. Ymgynullodd degau o fenywod na bu gair o Gymraeg rhyngddynt ers dyddiau, wythnosau, misoedd neu flynyddoedd, oherwydd cweryl bersonol neu gynnen deuluol. Daethant yn famau a merched, yn chwiorydd, yn gyfnitherod ac yn gymdogesau i faddau, i gymodi ac i gofleidio'i gilydd yn gariadus. Nos trannoeth, dychwelasant i dystio sut y rhyddhaodd yr Ysbryd Glân hwy o grafangau gwenwynig cenfigen, eiddigedd a malais.[36]

---

[35] *Y Tyst*, 30 Tachwedd 1904, t.4.
[36] Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel*, t.117.

Mae ffenomen ymddygiad y ferch yng nghyfarfodydd y Diwygiad wedi profi'n ysbrydoliaeth i sawl awdur yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yng ngwaith Rhys Davies, *The Withered Root*, (1927) mynegir beirniadaeth o weithgarwch merched gan Morgan, un o'r prif gymeriadau, sy'n cynorthwyo Reuben Daniels, sydd wedi ei seilio ar Evan Roberts, i ddod i amlygrwydd fel arweinydd crefyddol. Nododd:

> *'And a little too scandalous some of the prayers of repentance are in our chapel too, I think. Too much into detail some of the women go when they are carried away by their fervour. Seem they do to take pleasure in telling everybody how Satan worked in them. Ach y fi, ashamed I've been to listen sometimes.'*[37]

Ceir llawer o ddehongliadau lliwgar o weithgarwch y ferch o dan ddylanwad y Diwygiad mewn ffuglen a ymddangosodd yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae ysgrif Katie Gramich, y cyfeiriwyd ati eisoes, yn *Taliesin* 128, 2006, yn trafod y modd y cynrychiolwyd y Diwygiad mewn ffuglen a gyhoeddwyd yn ystod y degawd dilynol. Nododd Gramich am olygfa yn y capel a ddisgrifir yn nofel Gwyneth Vaughan, *O Gorlannau'r Defaid* (1905), sy'n ymdrin â Diwygiad 1859-60, mai'r hyn a oedd yn drawiadol oedd y modd y portreadwyd y pregethwr yn eilradd yn y gweithgarwch a'r modd y disgrifiwyd y merched, 'yn neidio, ambell waith yn llythrennol, i amlygrwydd'.[38] Dehonglir y portread a geir o Nance yn nofel Allen Raine, *Queen of the Rushes*, sy'n portreadu Diwygiad 1904-05, gan Gramich fel un sy'n debyg i'r ferch a geir yn nofel Gwyneth Vaughan, fel darlun 'bywiog o'r ferch yn darganfod llais yn y capel ac yn herio rheolaeth dynion drosti.'[39] Serch hyn, mae Nance yn y pen draw yn gwallgofi. Yn wir, gan gyfeirio at y nofel, nododd Philippa Margaret Davies: *'For Raine the revival also had the power to cause havoc. For weak people like Nance, it*

[37] Rhys Davies, *The Withered Root* (Argraffiad The Library of Wales 2007, cyhoeddwyd yn gyntaf yn 1927), t.140.
[38] Katie Gramich, t.18.
[39] Katie Gramich, t.21.

*appeared to rob them of their reason.'*[40] Mae nifer o awduron wedi ymdrin â'r ffin rhwng crefydd a gwallgofrwydd yng nghyd-destun ymddygiad unigolion yn ystod y Diwygiad ac mewn sawl nofel gwelir ymddygiad merched yn ymgnawdoli'r drafodaeth hon. Ceir sawl disgrifiad o ferched yn gwallgofi ac yn ymddwyn yn ffôl yn nofel Rhys Davies, *The Withered Root* (1927) o ganlyniad i ddylanwadau crefyddol. Ymysg sawl enghraifft arall yn y nofel, meddai Martha, mam Reuben, wrth ei gŵr yn y nofel:

> *'Well I remember how some of your people were taken foolish when the last revival was on. Your sister Siân, it was, wasn't it, that cut off her hair because tended it in vanity she said she had, and went about without a hat to show her lunatic's sacrifice?...And very religious she is still!' she jeered. 'More faith in the bottle she has had for a long time now.'* [41]

Ceir dirmyg ac amheuaeth amlwg yn y nofel o'r gweithgarwch a gafwyd yn sgil cyffroadau'r Diwygiad. Gwelir gweithgarwch merched yn ganolbwynt yr amheuaeth hwn. Adroddwyd y stori ganlynol am yr helynt a achoswyd gan ferch yn un o gyfarfodydd y diwygiad yn y nofel:

> *One incident caused scandal for a little while. A young married woman, who had been wailing and praying since the end of the sermon, at last succeeded in pushing her way to the front. Her face shone with sweat and her eyes glared menacingly. She stood in front of Reuben and began to scream: ' I have suffered well for Jesus Christ. No more will I do sin with my body. Look you how I can prove it.' With a sudden gesture she tore her flimsy garment from her shoulders, and in a moment her breasts were exposed. 'Look you at the bruise that my husband had left on my clean flesh,' she cried madly, her voice rising to a screech. 'God told me in a little vision that disgusting is the old filth -'*
>
> *Reuben stood as though turned to stone. It was Morgans the Bakehouse who went hurriedly to the woman and led her, still screeching, away to the curtained space behind the platform.*[42]

[40] Philippa Margaret Davies, 'History in literature: the writings of Rhys Davies, a case study', traethawd doethur cyflwynedig i Brifysgol Caerdydd 2001, t.194.
[41] Rhys Davies, *The Withered Root*, t.160.
[42] Rhys Davies, *The Withered Root*, tt.226-227.

Ceir darlun dirmygus yn y nofel o weithgarwch y Diwygiad, sy'n cynnig dimensiwn rhywiol fel cymhelliad i'r gweithgarwch a gafwyd gan ferched. Nodwyd am gymeriad Catherine Pritchards, a deithiai gyda'r prif gymeriad, Reuben Daniels, sy'n amlwg wedi ei seilio ar Evan Roberts:

> *She had been the aesthetic relief in the evangelistic programme. Her repertoire consisted of those arias and hymns from the sacred cantatas that the Welsh people so love. He had* [Reuben] *wished she would dress in a more subdued style - her wearing of purple, yellow and red garments did not seem suitable to their solemn task of kindling God's light in Wales. But she had been useful, often filling a pause in the conversion meetings by suddenly rising into impassioned song: and her voice was thick with a rich and rousing influence that certainly affected the people - particularly, it seemed, the men.*[43]

Mae'r disgrifiad yn amlwg yn adlewyrchu'r feirniadaeth a gafwyd ar y pryd ac ers hynny sy'n cwestiynu cymhelliad gweithgarwch merched yng nghyfarfodydd y Diwygiad, gan gynnal y drafodaeth honno wedi 1904-05. Sylwer hefyd y ceir yn y darn gyfeiriad at rôl ymarferol Catherine Pritchards yn y gwaith o gynnal y cyfarfodydd. Er ei bod yn amlwg bod agenda uchelgeisiol sy'n ymhél â thrafodaeth ddiwinyddol ar waith yn nofelau Pennar Davies, gellir gweld bod dehongliad yn ei waith o'r arferion a'r ymddygiad a welwyd gan unigolion yn ystod cyfarfodydd o'r math yn ystod y Diwygiad hefyd. Yn *Anadl o'r Uchelder* (1958) ceir disgrifiad lle gwelir delwedd o'r ferch mewn cyfarfod sy'n rhan o ymgyrch ddiwygiadol. Sylwer y nodir bod yr oedfa yn dilyn 'y patrwm arferol':

> Dilynai'r oedfa'r patrwm arferol, a chafwyd hwyl dda...Bu llawer o ganu, a'r gerddorfa dan arweiniad Nat Nevins yn chwysu gyda'r arddeliad mwyaf, a nifer o anerchiadau byrion gan rai o'r troedigion mwyaf blaenllaw a huawdl... Wedi hynny, dyma Gwenllïan Edwards yn canu 'Yr Arglwydd gadwo'r Arglwydd', cân 'wladgarol-grefyddol' o waith Andrew de Porson ei hun. Tua diwedd y gân, fel yr oedd yr arfer, cododd arch o ganol y llwyfan, ag Elias John ynddi, yn barod i ddyfod allan i annerch y dorf.[44]

---

[43] Rhys Davies, *The Withered Root,* t.259.
[44] Pennar Davies, *Anadl o'r Uchelder* (Abertawe, 1958), t.62.

Gwelir bod y portread yma o Gwenllian Edwards yn adleisio'r math o gyfraniad a gafwyd gan ferched yn ystod y Diwygiad. Gellir dadlau bod natur ddramatig, seremonïol y digwydd yn adleisio'r modd yr oedd gan y ferch rôl ganolog yng nghyfarfodydd y Diwygiad gan gynnig perfformiad a oedd yn fath o ddefod a gynhaliai'r cyfarfod.

Gellir gweld bod grym y ddelwedd o sefydlwyd o'r ferch a'i gweithgaredd yn stori'r Diwygiad wedi bod yn gyfrifol am bryfocio sawl awdur i ddehongli ei ystyr. Yn nofel Gwenallt, *Ffwrneisiau* (1982), ceir dehongliad o gyfraniadau'r merched yn y Diwygiad gan gymeriadau'r nofel. Mae'r darlun a geir o'r ferch i ryw raddau yn adleisio'r portread a geir yn nofel Rhys Davies sy'n archwilio'r berthynas rhwng y crefydda a'r cnawd. Mewn sgwrs yn nhafarn y Ceiliog Goch, meddai Telynfab, yn dilyn sgwrs am dröedigaeth Llinos y Graig yn un o gyfarfodydd y Diwygiad:

> 'Ma'r merched crefyddol 'ma bob amser yn gnawdol, a'r merched cnawdol bob pryd yn grefyddol. Os gweli di ferch sy'n etrych yn dipyn o haden, 'chei di ddim y gore ar honno. Ond dyna fe. Ma Llinos wedi mynd at Iesu Grist. Gobitho caiff E gystal hwyl â ni...Wyt ti'n cofio'r stori honno am un o gyfarfodydd Evan Roberts. 'Rodd merch yn gorfoleddu ar ffrynt y galeri ac yn nido; ac fe syrthiws dros y canllaw i lawr, ond dalwd 'i dillad hi gan y lamp: a dyna lle'r odd hi yn hongian a'i dillad i'r lan. Fe welws Evan Roberts y peth, a dyma fe yn dweud wrth y gynulleidfa: 'Os bydd un ohonoch chi yn agor ei lygaid fe fydd yn mynd ar ei ben i uffern.' Ond dyma un colier o Waun-côd yn dweud wrth ei bartner ar y llawr: 'Diawl, fe fentra i un llygad, ta beth.' Ych chi'n gweld bois, ma cnawd a chrefydd bob pryd yn mynd gyta'i gilydd. Dyna Evan Roberts a'r merched 'na. A'r hen Howel Harris wetyn. Ac ma atar pert yn yr hen Destament...[45]

Mae merched yn y Diwygiad yn aml yn cael eu portreadu'n ffôl mewn ffuglen. Gan gyfeirio unwaith eto at nofel Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (2007), disgrifiwyd un o'r cymeriadau, Wil Williams, a'i gyfeillion yn nesáu at y capel mewn un olygfa:

---

[45]Gwenallt, *Ffwrneisiau, Cronicl Blynyddoedd Mebyd* (Llandysul, 1982), t.106.

'Ewn ni byth miwn man'na, bois,' meddai un o'r bechgyn. 'Dewch nôl i'r Copyn.' Ar y gair, dyna gythrwfl ger un o'r drysau a merch ifanc loerig yn cael ei chario allan o'r capel dros bennau'r dorf. Glafoeriai'r eneth a sgrechiai'n ddi-baid: 'Rwy'n caru Iesu Grist ac mae E 'ngharu i!! Rwy'n caru Iesu Grist ac mae E 'ngharu i!'[46]

Mae'r darlun o'r ferch yng ngweithgarwch y Diwygiad mewn gweithiau a ymddangosodd ers hynny yn sicr wedi bod yn un lliwgar. Yn eironig, ar un wedd, mae'r ddelwedd a gafwyd ers hynny yn cyferbynnu'n fawr â'r meddylfryd a roddodd fod i'r delweddau a gafwyd ar y pryd o'r ferch fel bod ysbrydol, dwys. Yr hyn sydd wedi aros, serch hyn, yw statws y ferch yng ngweithgarwch y Diwygiad fel testun dadleuol. O ganlyniad, yn ystod y ganrif ers hynny, gwelir rhai o ffenomenau gweithgarwch y Diwygiad ar waith ers hynny, ac yn y cyswllt hwn, o safbwynt y modd yr ymdrinnir â gweithgarwch y ferch. Hynny yw, mae gweithgarwch y ferch yn parhau i ennyn trafodaeth ac yn cynnal y ffactor rhyfeddol hwnnw, sy'n rhoddi amlygrwydd iddi yn y ddelwedd o'r Diwygiad ac yn ei gwneud yn destun trafod. Trwy hyn, y mae'r ferch wedi aros yn ganolog i'r stori.

Mae haneswyr wedi cyfeirio at y modd y rhoddodd y Diwygiad lwyfan i unigolion di-nod ddod i amlygrwydd yn y gymuned leol a chenedlaethol. Yn y cyd-destun hwn mae Russell Davies yn cyfeirio at wraig o'r enw Sarah Jones, Carmel, Sir Gaerfyrddin, a oedd yn ganolog i ymdrech a gafwyd yn 1906 i arwain yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'Y Diwygiad Newydd' yn yr ardal. Yn ôl Davies, roedd ei natur ysbrydol honedig yn destun dadl. Ymysg y straeon ar led oedd y gred iddi gael ei bendithio gan Evan Roberts, gan etifeddu doniau arbennig o ganlyniad. Cafwyd cyfarfodydd o dan ei harweiniad a chyfeiriwyd ati yn y wasg fel, *'the wonderful*

[46] Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel*, t.33.

*woman of Carmel*'.[47] Nid Sarah Jones oedd yr unig ferch i ddod i amlygrwydd o dan y fath amgylchiadau. Mae Mrs Jones Llanegryn gyda'r enwocaf o'r cymeriadau o dan sylw. Mae ei hanes yn amlygu gwedd gyfriniol y Diwygiad a gellir dadlau bod proffil y stori ar y pryd ac ers hynny yn arwyddocaol o ddimensiwn benywaidd y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus. Trafodwyd ei hanes ymysg straeon cyfriniol eraill a gysylltwyd â'r Diwygiad gan R. Hayward. Er enghraifft, cyfeiriodd at '*the reports of the talking baby of Bethesda. This infant was rumoured to have repeatedly forecast the revival's success during the one month of its brief life.*' [48] Mae stori Mrs Jones yn chwedl ynddi'i hun, a gwelwyd ei hanes yn cael ei atgyfodi ar achlysur y canmlwyddiant gan brofi'n rhan o stori'r Diwygiad yr adeg hon. Mae'r hanes yn amlygu'r modd yr ymroddwyd i gynnal stori dda yn enw'r mudiad, ac yn arddangos y modd yr oedd rhwydweithiau yn y gymuned, y capel a'r wasg a fu'n gyfrifol am gynnal y fath hanesion. Ceir trafodaeth o hyn o safbwynt Evan Roberts ym mhennod 5.

Yn ôl yr adroddiadau a gafwyd yn y wasg ar y pryd, tystiwyd i ffenomenau rhyfedd a gysylltwyd â hi gan gynnwys golau rhyfedd a llachar yr honnwyd iddynt ymddangos yn yr awyr. Adroddwyd ei phrofiad fel a ganlyn yn *Y Cymro*, 5 Ionawr 1905, o dan y pennawd, 'Egryn a'r Cylch':

> Son am Mrs. Jones o Egryn y mae pawb ffordd hyn y dyddiau yma. Yn wir, dynes ryfedd ydyw. Ffermwraig gyffredin ydyw - neu yn hytrach oedd, nid cyffredin ydyw yn awr, 'Y Pethau a lanhaodd Duw, na alw di yn gyffredin.' Os galwyd neb erioed i waith arbennig fe alwyd hon. Mae rhywbeth wedi ei roddi iddi nad yw gan bobl eraill. Mae ganddi ddylanwad rhyfedd ar gynulleidfa, a fedrwch chi ddim dweyd ei bod hi yn gwneud nac yn dweyd

[47] Russell Davies, *Secret Sins, Sex, Violence and Society in Carmarthenshire, 1870-1920* (Caerdydd, 1996), tt.199-202.

[48] Cyfeirir at y stori hon ac at Mrs Jones Llanegryn mewn trafodaeth ar ansawdd broffwydol y Diwygiad gan R. Hayward, 'From the Millennial Future to the Unconscious Past: The Transformation of Prophecy in Early Twentieth-Century Britain' yn Bertrand Taithe a Tim Thornton (goln.) *Prophecy, The Power of Inspired Language in History 1300-2000* (Stroud,1997), t.163.

llawer i gyrrhaedd y dylanwad yma. Ond mae hi yno ac y mae pawb a'i gwel yn credu mai offeryn yn llaw Duw ydyw, ac mae ei hedrychiad a'i llais yn gwefreiddio oll. Mae y gweledigaethau rhyfedd a wêl yn syndod i bawb, ac mae'r amgylchiadau yng nglyn â hwynt yn eu gosod fel ffeithiau tu hwnt i amheuaeth...[49]

Gellir deall y modd y rhoddwyd y fath sylw i brofiadau'r wraig yn wyneb y meddylfryd a fabwysiadwyd yn ystod y Diwygiad o dderbyn ffenomenau anarferol yn rhan o ddiwylliant y mudiad. Yn ogystal rhyddhaodd y gred mai'r Ysbryd a oedd ar waith yn y gymuned i ddyrchafu unigolion na fyddent fel arall yn dod i'r amlwg yn gyhoeddus, gan wneud yn fawr o stori anhygoel.

Ers hynny, mynegwyd drwgdybiaeth ynglŷn a'r ffenomen hon a amgylchynai Mrs Jones. Nododd E. Morgan Humphreys yn ei gyfrol, *Gwŷr Enwog Gynt* (1953):

Nid yw yn unrhyw adlewyrchiad ar Mrs Jones i ddweud nad oes neb bellach yn credu yn y goleuadau. Nid oedd llawer yn credu ynddynt ar y pryd ac ni ddigwyddodd i mi weled neb a'u gwelodd. Yr oedd digon o bobl a oedd wedi gweled rhywun arall a oedd wedi clywed am rywun a oedd wedi eu gweled, ond yr oedd yn amhosibl cael tystiolaeth uniongyrchol. Nid oedd peth felly yn ychwanegu dim at ffydd dyn, a oedd eisoes braidd yn amheus, yn y diwygiad newydd.[50]

Gwelir uchod gyfeirio at y broses a welwyd ar y pryd o greu storïau ar lawr gwlad ynghylch dylanwadau'r mudiad, ac yn sicr mae'r awdur yn mynegi'r syniad bod y diwylliant hwn yn elfen ar weithgarwch y mudiad. Yn ogystal, mae'r darn yn dangos y modd y profodd sefydlu ffenomenau anhygoel yn rhan o brofiad y mudiad yn gyfrifol am gynnal trafodaeth ddadleuol am y mudiad ar y pryd ac ers hynny. O ganlyniad, gwelir y Diwygiad yn ei ffurf fel stori ryfeddol a dadleuol yn bod ar y pryd ac yn y ganrif a'i dilynodd. Yng nghyswllt hanes Mrs. Jones, gwelwyd ei chwedl yn esblygu. Gwelir hyn, er enghraifft, yn stori fer Mihangel Morgan, 'Y Tân yn yr Awyr'

[49] *Y Cymro*, 5 Ionawr 1905, t.6.
[50] E. Morgan Humphreys, *Gwŷr Enwog Gynt* (Llandysul, 1953), t.101.

(1999), sydd wedi ei seilio ar brofiadau Mrs. Jones. Ceir disgrifiadau o'r gweledigaethau a gafodd yn y gwaith:

> Pan welodd y goleuadau y tro cyntaf hwnnw, yn anferth ac yn llachar uwch ei phen ac yn troi'r nos yn ddydd o'i chwmpas, fe'i brawychwyd trwyddi. Ond yn drech na'r awydd i ffoi oedd swyn y tân yn yr awyr. Gallai deimlo gwres yn dod ohono a theimlai'n ddiogel wrth sefyll oddi tano. Treiddiai'r goleuni nid yn unig y tywyllwch allanol gaeafol y noson honno, aeth hefyd i'w hysbryd unig, galarus, trist. Aeth hithau i mewn iddo ac ar yr un pryd daeth Golau i mewn i'w chalon hithau. Fe'i gweddnewidiwyd. Nid gwraig ffarm ddinod mohoni mwyach, eithr proffwydes.[51]

Sylwer ar y modd y disgrifir ysbryd Mrs Jones fel un unig a thrist, a'r modd y'i trawsnewidiwyd gan ei phrofiad yn fod newydd. Adlewyrchir yma batrwm straeon poblogaidd yn ymwneud ag unigolion di-nod yn mabwysiadu pwerau goruwchnaturiol gan ddod yn arwyr canolog i'r chwedlau o'u cwmpas. Gwelir yn y stori hon y modd y bu hanesion cyfriniol ynghylch y Diwygiad yn sbardun i'w hailadrodd a'u hail-greu. Yn y cyswllt hwn y gellir deall y modd y profodd natur stori'r Diwygiad ar y pryd yn gyfrifol am gynnal stori'r Diwygiad yn yr un ffurf ers hynny. Fel y soniwyd eisoes, gwelwyd stori Mrs. Jones yn ennyn sylw ar adeg y canmlwyddiant. Cafwyd y pennawd, 'Gweld y Golau' ar erthygl yn y cylchgrawn *Golwg*, 21 Ebrill 2005. Mae'r erthygl yn olrhain yr hanes ac yn sôn am ddrama gan Aled Lewis Evans o'r enw 'Mari'r Golau' a berfformiwyd yn Theatr y Stiwt, Rhosllannerchrugog yn 2005, sy'n weithgaredd arall o eiddo'r canmlwyddiant.[52] Yn yr erthygl, cofnodwyd y pennill canlynol a oedd mae'n debyg ar lafar gwlad yn yr ardal:

> *Mary had a little light,*
> *It always used to glow*
> *And everywhere Mary went*
> *The light was sure to go.*

[51] Mihangel Morgan, ' Y Tân yn yr Awyr' yn, Mihangel Morgan, *Y Corff yn y Parc a Storiau Ffeithiol Eraill* (Llanrwst, 1999), tt.59-60.
[52] *Golwg*, Ebrill 2005, t.20.

Mae'r gwaith yn dangos y modd yr ymroddwyd i gynnal delweddau o'r Diwygiad ganrif yn ddiweddarach, ac yn yr achos hwn profiadau Mrs Jones oedd canolbwynt y gwaith. Bu merched yn ganolog i stori'r Diwygiad ar sawl ffurf felly ar y pryd ac ers hynny.

Yn ystod blynyddoedd 1904-05 ystyriwyd amlygrwydd y ferch yn un o nodweddion cyfarfod yr ystyriwyd ei bod o dan ddylanwad y mudiad, oherwydd barnwyd bod ei chyfraniad yn arwydd o ymyrraeth yr Ysbryd. Trwy hyn ymgorfforwyd rhan y ferch yn ganolog i stori'r Diwygiad ar y pryd. O ganlyniad, gwelwyd merched yn cynnal stori fawr y Diwygiad drwy gyfrannu mewn modd penodol yn y capel. Mabwysiadodd cyfraniadau'r merched rôl symbolaidd yn y gwaith o gynnal y mudiad hefyd, wrth i'r ferch gael ei defnyddio fel prawf o ddylanwad yr Ysbryd ac fel tystiolaeth o ddylanwad y Diwygiad mewn man penodol. Gwelwyd adroddiadau yn y wasg yn ymwneud â'r gwaith hwn, gan adrodd ar y gweithgarwch gan sefydlu cyfeirio at y ferch yn un o'r confensiynau wrth ddisgrifio'r mudiad. Gwelwyd delweddau penodol o'r ferch yn gwneud datganiad yn y capel yn cael eu perfformio yn y cyfarfodydd ac yn cael eu disgrifio yn y wasg. Ers hynny, arhosodd y ferch yn elfen amlwg o stori'r Diwygiad ar amrywiol ffurfiau gan fynnu trafodaeth o wahanol fathau. Gwelir yr un math o brosesau a roddodd amlygrwydd i'r ferch yn stori'r Diwygiad ar y pryd ar waith ers hynny, gyda'r cymhelliad yn aml yn ymwneud â lledaenu dylanwad y mudiad, dadlau ynghylch y rôl a fabwysiadwyd ganddi neu ryfeddu'r darllenydd neu'r gynulleidfa. Yn y bennod ganlynol, edrychir ar elfen wahanol ar y Diwygiad, gan ystyried sut y plannwyd ei ddylanwad ar rai o arferion y gymdeithas yn rhan o'i stori.

# Pennod 4

## Dylanwad y Diwygiad ar y Gymdeithas

Roedd dylanwad Diwygiad 1904-05 ar elfennau o weithgarwch y gymdeithas, gan gynnwys ymddygiad unigolion, eu bywyd bob dydd, eu moesau, a'u harferion hamdden, ymysg y nodweddion amlycaf yr adroddwyd amdanynt yn y wasg ar y pryd yng nghyswllt y mudiad. Ers hynny, mae dylanwadau'r Diwygiad ar y gymdeithas wedi mynnu trafodaeth gan haneswyr ac wedi codi mewn amrywiol weithiau eraill hefyd. Mabwysiadodd dylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas le canolog yn chwedloniaeth y Diwygiad ar y pryd ac ers hynny. Yn y bennod hon, rhoddir sylw i'r newidiadau cymdeithasol a brofwyd gan gymunedau yng Nghymru, o dan ddylanwad y Diwygiad yn y cyswllt hwn.

Y bwriad yma yw amlygu'r newidiadau cymdeithasol yr adroddwyd amdanynt, fel un o'r nodweddion, ymysg eraill a drafodir yn y traethawd hwn, a roddodd ffurf i'r Diwygiad fel mudiad cyhoeddus ac fel stori ar y pryd ac yn y ganrif a'i dilynodd. Yn eu plith, roedd lleihad ar yfed a mynychu'r dafarn, rhoi'r gorau i chwaraeon, llai o droseddu a rhegi a'r capeli yn gorlenwi. Ni thrafodir ardaloedd unigol yn benodol, yn hytrach yr amcan yw dangos sut y cyfrannodd y newidiadau cymdeithasol o dan sylw yn gyffredinol at roi ffurf i fytholeg y Diwygiad. Gwneir hyn drwy astudio natur yr ymdriniaeth a gafwyd o'r newidiadau hyn ar y pryd ac wedi 1904-05. Nid mesur natur a maint dylanwad y Diwygiad ar y gymdeithas a wneir yma, ond yn hytrach dangos un wedd ar y modd yr ymroddwyd i gynnal stori'r Diwygiad mewn ffurf benodol ar y pryd ac ers hynny, gan arddangos y modd y bu dylanwadau'r Diwygiad

ar gymdeithas yn ddeunydd a fu'n sylfaenol yn y gwaith o roi ffurf ar y Diwygiad fel ffenomen gyhoeddus a stori fawr.

Yn amlwg, dylid cydnabod o'r cychwyn bod lle i ddadlau y bu'r dulliau a'r arferion newydd a fabwysiadwyd gan unigolion a theuluoedd o dan ddylanwad y mudiad, a natur anhygoel y trawsnewidiad a brofwyd ym mywydau nifer, yn ddigon i esbonio'r modd gwnaed y digwydd yn ffenomen i ryfeddu ato ac yn rhan ganolog o stori'r Diwygiad ar y pryd. Dylid nodi nad y bwriad yma yw awgrymu na phrofodd unigolion a chymunedau newidiadau arwyddocaol o dan ddylanwad y mudiad. Y bwriad yw dadlau, drwy edrych ar y modd yr ymdriniwyd â'r newidiadau cymdeithasol a brofwyd ar y pryd (yng ngwaith y wasg yn bennaf yma), y gwelir y broses o sefydlu Diwygiad 1904-05 fel ffenomen o fudiad rhyfeddol ar waith. Trwy hyn, ceir golwg ar ran o'r mecanwaith a roddodd ffurf i'r Diwygiad fel stori fawr, a hynny yn unol ag elfennau eraill a drafodir yn y traethawd hwn gan gynnwys ffurf y cyfarfodydd, cyfraniad y ferch, ac Evan Roberts fel ffigwr. Y bwriad, yn unol ag un o amcanion canolog y traethawd hwn, yw amlygu dimensiwn rhesymegol sylfeini'r mudiad, sy'n elfen o strwythur y Diwygiad nad yw'n draddodiadol wedi ei bwysleisio gan ysgolheigion yn y maes.

Fel y gwelir yn y bennod hon, gellir dadlau fod natur yr ymdriniaeth gan haneswyr o ddylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas yn gyffredinol wedi cyfrannu at y broses o gynnal y gynrychiolaeth o'r Diwygiad fel mudiad i ryfeddu ato yn ystod y blynyddoedd ers 1904-05. Gall astudiaeth o'r hanesyddiaeth o dan sylw, o'r safbwynt hwn, ddatgelu rhywfaint am y broses a roddodd ffurf i'r Diwygiad yn ystod yr ugeinfed ganrif ac am natur y cynrychioliad a luniwyd. Wrth edrych ar natur y

Diwygiad fel ffenomen ers blynyddoedd 1904-05 felly, edrychir ar yr hanesyddiaeth hon ynghyd â gweithiau o fathau eraill. Dylid nodi nad beirniadu'r cynnyrch o dan sylw gan fesur y graddau yr adlewyrchir yr hyn a gesglir am ddylanwad y Diwygiad ar gymdeithas yn y tystiolaethau sy'n bod yw'r nod. Y bwriad yn hytrach yw mynd ati i archwilio beth oedd dylanwad yr ymdriniaethau a gafwyd o effeithiau'r Diwygiad ar y gymdeithas mewn amrywiol weithiau ar y pryd ac ers hynny ar ffurf y mudiad. Cwestiynir beth mae'r cynnyrch o dan sylw yn ei ddatgelu am natur y Diwygiad fel ffenomen yn ystod 1904-05 ac yn ystod y ganrif a'i dilynodd.

Yn gyntaf, crybwyllir prif ddylanwadau mudiad y Diwygiad ar arferion cymdeithas a cheir golwg ar brif gasgliadau haneswyr. Yna, gan astudio'r adroddiadau a gafwyd yn y wasg ar y pryd, edrychir ar y broses a roddodd fod i'r newidiadau cymdeithasol a welwyd fel un o ffenomenau'r Diwygiad a fu'n gyfrifol yn ei thro am liwio elfen ar ffurf y mudiad fel ffenomen gyhoeddus, ryfeddol. Yna, edrychir ar y modd yr adlewyrchwyd y ddelwedd hon ers hynny, gan edrych ar amrywiol weithiau, gan gynnwys gwaith haneswyr, cyn dod i gasgliadau am le dylanwad y mudiad ar gymdeithas yn stori'r Diwygiad.

Mae dylanwadau'r Diwygiad ar weithgarwch y gymuned ac ymddygiad unigolion y tu allan i'r capel wedi mynnu trafodaeth gan haneswyr, fel y gwelir yn y man. Dylid nodi, wrth gwrs, fod natur cyfarfodydd y capel o safbwynt eu cynnwys, y niferoedd a natur y gynulleidfa a fynychai a'u parhad am oriau weithiau, yn golygu y tarfwyd ar drefn arferol y gymdeithas o ran crefydda. Hynny yw, roedd y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn golygu y gwelwyd unigolion yn mabwysiadu arferion newydd yn eu

bywyd bob dydd o ran yr oriau y treulient yn y capel, a'r math o weithgarwch yr ymgymerwyd â hwy yno (disgrifiwyd y gweithgarwch hwn ym mhennod 2). Yn ogystal, ystyrir y modd yr oedd cynnal nifer o gyfarfodydd y Diwygiad y tu allan i'r capel, mewn llecynnau agored, ar ffurf gorymdeithiau ar y stryd, weithiau o un capel i'r llall a chan weithwyr yn eu man gwaith ac ar sawl achlysur gan lowyr o dan y ddaear, yn un o ffenomenau'r Diwygiad a dorrodd ar gonfensiynau'r gymdeithas mewn sawl man. Bydd cyfeirio penodol at rai o'r delweddau a sefydlwyd o'r glöwr wrth ei waith yn stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny yn y bennod hon.

Beth bynnag, er na cheir astudiaeth sy'n canolbwyntio'n arbennig ar ddylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas, mae astudiaethau yn y maes yn cynnwys ystyriaeth o ddylanwad y Diwygiad ar yr unigolyn a'r gymuned o safbwynt arferion personol a theuluol, ac arferion dyn yn ei hamdden ac wrth ei waith. Ceir ymdriniaeth o'r elfennau hyn ar ddylanwad y mudiad mewn astudiaethau o ddiwylliant poblogaidd ac arferion hamdden Cymru'r cyfnod hefyd. Er enghraifft, trafodir y Diwygiad o safbwynt y berthynas rhwng y mudiad Anghydffurfiol â thwf y diddordeb mewn chwareuon yng nghyfrol David Smith a Gareth Williams ar hanes Undeb Rygbi Cymru 1881-1981, *Fields of Praise.*[1] Mae'r Diwygiad wedi codi wrth drafod ansawdd chwedlonol hanes buddugoliaeth tim Rygbi Cymru dros Seland Newydd yn 1905 hefyd. Gwelwyd yr achlysur â wnaed o'r gêm ym Mharc yr Arfau yng Nghaerdydd ar 16 Rhagfyr y flwyddyn honno yn codi cwestiynau allweddol ynglyn â dylanwad y Diwygiad a chrefyddoldeb y gymdeithas a oedd ohoni. Gan synfyfyrio ar arwyddocâd yr achlysur, nododd Gareth Williams: '*It was spectator sport that would*

[1] David Smith a Gareth Williams, *Fields of Praise, The Official History of The Welsh Rugby Union 1881-1981* (Caerdydd, 1980).

*now play the role that religion had once enjoyed as a popular mass activity and which the Revival had hoped to regenerate.*' [2]

Fel y nodwyd eisoes, dadleuir yn y bennod hon fod natur llawer o'r hanesyddiaeth ar ddylanwadau'r Diwygiad ar y gymdeithas wedi cyfrannu at gynnal delweddau o'r Diwygiad ar ffurf benodol. Gellir dadlau bod hyn yn rhan o'r diwylliant o gonfensiynau a sefydlwyd yn ystod blynyddoedd 1904-05 ac ers hynny a roddodd fod i'r Diwygiad fel mudiad i ryfeddu ato.

Wrth ystyried cyd-destun dylanwad y Diwygiad ar arferion unigolion, dylid cofio bod cywirdeb moesol gweithgarwch hamdden, gan gynnwys chwaraeon ac adloniant yn bwnc trafod ar y pryd, a phrofodd y fath faterion yn destunau trafod cyson yn y cyfnodolion Cymraeg. Roedd hyn oherwydd y cyfleoedd cynyddol yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ymroi i'r fath ddiddanion a drwgdybiaeth y mudiad Anghydffurfiol ynglŷn â dylanwad a lles y gweithgarwch seciwlar hwn ar foesoldeb ei dilynwyr. Nodwyd o dan y pennawd 'Y Diwygiad a diwylliant ac adloniant ein hieuenctyd' yn *Seren Gomer*, Mawrth 1905, 'Hen gwestiwn ydyw diwylliant ac adloniant ein hieuenctyd. Cyfyd ei bwysigrwydd i'r wyneb heddyw yn fwy nag un amser. Angerddola y diwygiad mawr presennol yr angenrheidrwydd am y diwylliant a'r adloniant priodol, a'r cyfrifoldeb anocheladwy a orwedd ar ysgwyddau yr Eglwys Gristnogol o barthed iddynt'.[3] Yng nghyswllt llwyddiannau'r Diwygiad i ennill dychweledigion a newid arferion aelodau o'r gymdeithas, eir ymlaen yn yr erthygl i fynegi pryder ynglŷn a datblygiadau diddanion a chanolfannau seciwlar yn y gymdeithas fel a ganlyn:

[2] Gareth Williams, *1905 and All That: Essays on Rugby Football, Sport and Welsh Society* (Llandysul, 1991), t.77.
[3] *Seren Gomer*, Mawrth 1905, t.65.

Y mae gan y dychweledigion yn y diwygiad mawr presennol arian segur arferent eu treulio naill ar gae y chwareu neu yn y dafarn, gyda'r *bookman* neu yn y clwb cwrw, ac ymholant: B'le yr awn ni? Hen bwnc cyn y Diwygiad oedd: Os y cydsyniwn â'ch cais i ddod allan o'r dafarn a'r *theatre*, i b'le yr awn? Mae gyda ni nosweithiau o'r wythnos heb yr un cyfarfod yn y capel...Mae y clwb cwrw , gyda'i esmwyth-feinciau drudion, a'i ddodrefn heirdd, ei dân gwreichionllyd, a'i oleuni claer, ei ragdrefn bras, a'i ddiodydd digonol, ei gerddoriaeth hudol, a'i areithiau amrywiol, ar agor led y pen bob nos o'r wythnos a rhannau o'r Sul. Mae y dafarn yn agored, a phob swyn fedr dyfais wneud i ddenu pobl i mewn, tra y ceir y capel yn waharddedig...Y diafol sydd i ni i'w ymladd yn y diwygiad hwn yw y *ddiod feddwol.*[4]

Yn wir, mae sawl hanesydd wedi crybwyll y modd y bu'r Diwygiad yn hwb i'r mudiad Dirwest, a'r modd y croesawodd ei arweinwyr y Diwygiad.[5] Fodd bynnag, tebyg iawn oedd y pryder ynglŷn â dylanwad chwaraeon, a phêl-droed, ar les aelodau o'r gymdeithas. Mynegwyd yn yr un erthygl:

Nid ydyw y bêl droed fel y'i defnyddir hi heddyw namyn moddion i anifeileiddio y dyn, ac oherwydd ei chysylltiadau, i niweidio y cymeriad a'r chwaeth. Cydir y chwareuon â'r dafarn a'r hapchwareu, a thyngu a rhegu, nwydau aflywodraethus, a chyffroadau anaturiol.[6]

Yng nghyd-destun y drafodaeth hon gellir deall y newid a gafwyd ar arferion hamdden yn y dafarn ac ar weithgarwch chwaraeon mewn sawl man o dan ddylanwad mudiad y Diwygiad. Mae'r drafodaeth hon, a'r pryder a fynegwyd am arferion y gymdeithas, i'w deall mewn cyd-destun ehangach, yn ffrwyth y feirniadaeth a gafwyd ar gymdeithas yng Nghymru yn adroddiadau'r Llyfrau Gleision (1847).[7] Yn sicr, ceir tystiolaeth yn y cyfnodolion, yng nghyd-destun trafodaethau o'r Diwygiad ar y pryd, o awydd a nodweddai ymdrechion yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg i gywiro'r amrywiol ddelweddau niweidiol a gafwyd yn yr adroddiadau gan ymroi i

[4] *Seren Gomer*, Mawrth 1905, t.70.
[5] Er enghraifft, gweler Noel Gibbard (gol.), *Nefol Dân, Agweddau ar Ddiwygiad 1904-05* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2004), tt.184-187.
[6] *Seren Gomer*, Mawrth 1905, t.68.
[7] Gweler, John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990), t.377.

gynnal delweddau o'r Gymru ddiwylliedig, waraidd a chrefyddol. Nodwyd yn *Y Diwygiwr,* Ionawr 1905, o dan y pennawd 'Yr Adfywiad Crefyddol':

> Dynodir Cymru yn aml, ac ymffrostir ynddi gan ei phlant, fel 'Gwlad y gân;' 'Gwlad y menyg gwynion;' 'Gwlad y cymanfaoedd; 'A gwlad y diwygiadau crefyddol.' Y mae'r oll o'r enwau hyn yn swynol i ni, a theimlwn yn falch a diolchgar i'r Nefoedd am fod mesur mor helaeth o wirionedd ynddynt oll; ond yr olaf yw y mwyaf swynol i ni, a'r gwerthfawrocaf yn ein golwg.[8]

Gellir deall y modd yr hawliodd y gwelliant a gafwyd ar foesau ac ymddygiad cymdeithas le mor amlwg yn stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny yn y cyswllt hwn, yn rhan o ymdrech i sefydlu delweddau penodol o gymeriad y gymdeithas a oedd ohoni yng Nghymru.

Gan droi yn ôl at y ffenomenau a brofwyd gan gymdeithas o dan ddylanwad y mudiad dylid nodi, yn ôl gweithiau ysgolheigion yn y maes, yr amrywiwyd ar brofiad y gymdeithas o ardal i ardal a bod lle i gwestiynu maint dylanwad y mudiad ar arferion y gymdeithas mewn sawl man. Yn ôl R. Tudur Jones, mae'r cyfrifon a gasglodd Rouges de Fursac (y seiciatrydd o Ffrainc y cyfeiriwyd ato eisoes yn y traethawd hwn) gan yr awdurdodau yn ei astudiaeth yn nodi y trafodwyd 10,881 o achosion o feddwdod yn y llysoedd ym Morgannwg yn 1903, 10, 686 yn 1904 ac 8,422 yn 1905 ac y bu lleihad o 6 y cant ymysg troseddau eraill yn yr un sir yn ystod misoedd y Diwygiad. Serch hyn, yn ôl tystiolaeth de Fursac ni welwyd unrhyw newid arwyddocaol yn Abertawe ac fe welwyd cynnydd mewn achosion o feddwdod yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, ymddengys y cofnodwyd lleihad sylweddol mewn troseddau mewn sawl ardal yng Nghymru. Nododd Tudur Jones: 'Yr oedd tystiolaeth gadarn trwy'r wlad i effaith ddaionus y Diwygiad ar foes pobl. Diflannodd achosion meddwdod yn Llys Bach Wrecsam ac yr oedd llysoedd Rhaeadr Gwy, Aber-carn a

[8] *Y Diwygiwr*, Ionawr 1905, t.8.

Llandysul heb fawr ddim gwaith i'w wneud.'[9] Serch hyn, ceir amrywiol dystiolaethau sy'n cwestiynu'r syniadau a sefydlwyd ar y pryd ac ers hynny ynglŷn â'r gwelliant moesol cyffredinol a brofwyd o dan ddylanwad y Diwygiad. Er enghraifft, mae haneswyr wedi trafod y gred fod puteindra wedi cynyddu yn ystod y Diwygiad ac y gwelwyd nifer y genedigaethau anghyfreithlon ar gynnydd yn ystod y cyfnod hwn mewn rhai ardaloedd.[10] Mae lle i gredu nad oedd dylanwad y mudiad bob amser yn llesol ar unigolion a chymdeithas. Enghraifft arall o hyn yw'r dylanwad a gafodd elfen emosiynol y gweithgarwch ar rai. Un o'r rhesymau y beirniadwyd elfen emosiynol y Diwygiad gan gyfoeswyr ac ysgolheigion ers hynny oedd y modd i'r fath weithgarwch brofi'n ormod i ambell unigolyn bregus ei feddwl. Ceir tystiolaeth i rai ddioddef o anhwylderau meddyliol yn ystod y Diwygiad. Nododd E. Morgan Humphreys yn ei atgofion am y Diwygiad yn 1953: 'yr oedd yn amlwg fod y cynhyrfiad yn drysu meddyliau rhai.'[11] Nododd Russell Davies fod un ar bymtheg o ddynion wedi eu derbyn i wallgofdy Caerfyrddin erbyn misoedd cyntaf 1905, oherwydd anhwylderau meddyliol yn ymwneud â chrefydd.[12] Serch hyn, yn amlwg mae'r cysylltiad â'r mudiad yn anodd i'w sefydlu. Fel y gwelir yn y bennod hon, mae'r materion hyn wedi eu trafod mewn gwaith newyddiadurol a chreadigol yn ystod y ganrif ers hynny. Yn wir, ceir dychan mewn sawl gwaith creadigol wrth ymdrin â'r ddelwedd o'r gymdeithas ar ei newydd wedd, sy'n tystio y gellir dadlau i'r farn fod y ffenomenau cymdeithasol o dan sylw yn ystrydebau a oedd yn rhan o stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny.

---

[9] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2, t.218.
[10] Am drafodaeth fanwl sy'n cynnwys rhai o'r cyfrifon a'r ystyriaethau perthnasol gweler R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2, tt.218-220.
[11] E. Morgan Humphreys, *Gwŷr Enwog Gynt* (Llandysul, 1953), t.100.
[12] Russell Davies, *Secret Sins. Sex, Violence and Society and Carmarthenshire 1870-1920* (Caerdydd, 1996). t.203.

Ar y cyfan mae haneswyr yn gytûn y bu'r gwelliannau a brofwyd yn arferion aelodau o'r gymdeithas yn arwyddocaol iawn o safbwynt grym a dylanwad y mudiad ar y pryd, ac y bu'r Diwygiad yn gyfrifol am newid arferion a bywyd beunyddiol nifer o unigolion am weddill eu hoes. Credir i'r mudiad brofi'n ddylanwad llesol ar nifer sylweddol o unigolion, teuluoedd a chymunedau am gyfnod, oherwydd y modd y profodd y mudiad yn gymhelliad i nifer ymroi i foesau ac egwyddorion o'r newydd mewn modd ymarferol. Roedd lleihad ar feddwi ac yfed yn y dafarn, ymwrthod â diddanion a chwaraeon seciwlar, a gwelliant ar ymddygiad a nifer y troseddau ymysg canlyniadau pennaf yr ymroddiad newydd hwn. Ymddengys, yn ôl nifer o'r adroddiadau ar y pryd, fod ymroddiad newydd gweithwyr i'w gwaith yn un o ddylanwadau mudiad y Diwygiad hefyd. Archwilir rôl y delweddau a luniwyd ar y pryd ac ers hynny o'r ffenomenau uchod wrth roi ffurf a lle i fudiad y Diwygiad yn y meddwl cyhoeddus yn y man. Fodd bynnag, ni welwyd parhad y tueddiadau a sefydlwyd yn ystod y Diwygiad ar lefel gyffredinol, wedi i weithgarwch y Diwygiad dawelu, a byrhoedlog felly oedd y newidiadau cymdeithasol a brofwyd. Ymhellach, mae sawl ysgolhaig wedi pwysleisio mai methiant oedd y Diwygiad fel mudiad o safbwynt ei gyflawniadau yn y gymdeithas. Awgrymwyd y bu'n rhaid aros i Undebaeth a Sosialaeth ennill eu plwyf yng Nghymru ar ffurf y Blaid Lafur cyn gweld ymgais i ymrafael yn llawn â materion cymdeithasol yng Nghymru.[13] Mae eraill wedi awgrymu i'r Diwygiad lwyddo, oherwydd y modd y dylanwadodd ar arferion yn y gymdeithas, i fagu ymwybyddiaeth gymdeithasol bellach yn yr eglwys a'u harweinwyr.[14] A nododd R. Tudur Jones: 'Mae cyswllt agos iawn rhwng anelu at

[13] Er enghraifft, gweler D. Densil Morgan, 'Diwygiad Crefyddol 1904-5' yn *Cof Cenedl XX* (Llandysul, 2005), tt.196-197.

[14] Disgrifir ymateb rhai o'r unigolion amlwg ym mudiad y Diwygiad yn y cyswllt hwn gan Noel Gibbard yn ei bennod, 'Dirwest Gwleidyddiaeth ac Addysg' yn Noel Gibbard (gol.), *Nefol Dân*, tt.192-194.

berffeithrwydd personol a glanhau cymdeithas. Ac mae lle i gredu fod y diddordeb cymdeithasol wedi ei gryfhau yn hytrach na'i wanychu gan y Diwygiad.'[15]

Mae ambell ysgolhaig wedi cyfeirio'n uniongyrchol at natur rôl dylanwadau'r mudiad ar y gymdeithas yn stori'r Diwygiad ac at ansawdd chwedlonol y gweithgarwch. Nododd Eifion Evans, gan gyfeirio'n benodol at ddelwedd o'r ceffylau yn y pyllau glo, y ceir trafod pellach ohoni yn y bennod hon: '*The social impact of the revival became proverbial. The pit-ponies could no longer understand the miners' instructions because of the absence of oaths and curses.*'[16] Yn ddiweddarach, nododd Robert Pope, yn ei ysgrif 'Dadfythu "Diwygiad Evan Roberts"' ymhellach, i'r perwyl hyn:

> Mae ffeithiau cymdeithasol y diwygiad wedi cyrraedd byd chwedloniaeth. Byddai timau chwaraeon yn llosgi eu hoffer, tai tafarnau yn cau eu drysau, meddwon yn newid eu ffyrdd, glowyr, gweithwyr dur a chwarelwyr yn cynnal cyfarfodydd gweddi cyn y shifft ac yn ystod toriadau, a merlod y pyllau yn peidio â chael eu cam-drin.[17]

Sylwer y cyfeirir at ansawdd diarhebol, chwedlonol yr hanes. Yn yr adran hon o'r bennod edrychir ar waith y wasg yn ystod misoedd y Diwygiad er mwyn gweld rhan o'r broses â gyfrannodd at yr ansawdd hwn a berthynai i ddylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas ar ei ffurf fel ffenomen a stori fawr y dydd.

Byddai'n bosib dadlau mai'r hyn a welwyd yng ngwaith y wasg, yn syml, oedd adrodd ar y profiadau a welwyd ar y pryd. Dadleuir yma fod proses bellach, fwy cymhleth ar waith. Dadleuir, gyda chymorth y wasg, y lledaenwyd hanesion o ardal i ardal gan gynnal y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus i ryfeddu ato ac yn ei dro, bu gwaith y wasg yn gyfrifol am ddiffinio stori'r Diwygiad. Trwy hyn, bu'r wasg yn sylfaenol yn y

---

[15] R. Tudur Jones, Cyf.2, t.221.
[16] Eifion Evans, *The Welsh Revival of 1904* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1969), t.161.
[17] Robert Pope, 'Dadfythu Diwygiad "Evan Roberts"' yn *Y Traethodydd,* Gorffennaf 2004, t.144.

gwaith o rannu syniadau ynglŷn â'r hyn ydoedd mudiad y Diwygiad. Disgrifir hyn o safbwynt elfennau eraill a drafodir yn y traethawd hwn, o ran y modd y gosodwyd meddiant y gynulleidfa o'r cyfarfodydd, ym mhennod 2, a chyfraniad y ferch, ym mhennod 3, yn ganolog i stori'r Diwygiad gan y wasg. Gwelwyd y wasg yn ganolog i'r broses o sefydlu patrwm o gonfensiynau y gellid uniaethu â hwy neu eu dilyn, gan alluogi i unigolion gyfrannu at fudiad y Diwygiad ar ffurf benodol ac at y gwaith o'i gynnal. Yn hyn o beth, roedd adrodd am y ffenomenau cymdeithasol a brofwyd fel rhyfeddodau yn sylfaenol i un elfen ar hyn.

Gellir dadlau mai'r nodwedd amlycaf sy'n awgrymu bod y broses hon ar waith oedd nifer mawr yr adroddiadau a oedd yn ymhelaethu ar ddylanwad y Diwygiad ac ar arferion a thueddiadau unigolion yn y gymdeithas. Cafwyd disgrifiadau lluosog mewn adroddiadau ar weithgarwch y Diwygiad yn crynhoi dylanwad rhyfeddol y mudiad. Nodwyd yn *Y Tyst,* Tachwedd 1904:

> Canu a mawl glywir rhwng y mynyddoedd, tafarnau yn gwaghau, chwareudai heb fynychwyr, cyfarfodydd gweddi yn y gweithfeydd, capelau gorlawnion, a chanoedd a miloedd erbyn hyn yn ein gwlad yn derbyn Crist, ac yn Ei gydnabod yn Arglwydd ar eu bywyd.[18]

Yn yr un cylchgrawn yn Ionawr 1905 nodwyd:

> Y mae awyrgylch foesol a chrefyddol rhanau gweithfaol Deheudir Cymru wedi ei chyfnewid yn drwyadl yn ystod yr wythnosau diweddaf - yr iaith wedi newid, cyfarfodydd crefyddol yn bethau cyffredin yn y glofeydd, tafarnau yn gwaghau...hen ddyledion yn cael eu talu, hen gwerylon yn cael eu terfynu, chwareuon yn colli eu swyn, capelau yn llawnion, a'r cyfarfodydd crefyddol yn myn'd a'r miloedd.[19]

Nodwyd gan ohebydd yn *Y Cyfaill,* Mawrth 1905:

> Da genyf hefyd gofnodi y teimlir effeithiau y cyfarfodydd yn y chwarelau, a'r cartrefi ac ar yr heolydd. Mae yma ugeiniau a arferent dyngu a rhegi mor

[18] *Y Tyst*, 30 Tachwedd 1904, t.5.
[19] *Y Tyst*, 18 Ionawr 1905, t.9.

> naturiol ac anadlu wedi rhoi i fyny. Mae aml i hen feddwyn a gwrthgiliwr wedi troi ei gefn ar y gyfeddach a'r cibau, a hyderwn yn gryf y gwelir llawer o wrandawyr cyson yr efengyl yn cael nerth i droi y ddadl a bwrw eu harfau i lawr![20]

Nodwyd yn *Seren Gomer* Mawrth 1905:

> Gofod a balla i ni roi y sylw deilynga dylanwad y diwygiad ar foesau ein gwlad. Ond trwyddo cydnabyddir fod lleihad mawr wedi cymeryd lle mewn tyngu a rhegu, llid a digter, aflendid a throseddau a diota a meddwdod.[21]

Fel y gwelir, mae cynnwys tebyg yr adroddiadau yn dangos arwyddion o'r broses hefyd. Gwelwyd syniadau a delweddau penodol o ddylanwad y mudiad ar gymdeithas yn cael eu sefydlu ar y pryd; y meddwon yn newid eu ffyrdd; ymwrthod â chwaraeon; llai o regi; y capeli yn llenwi; dynion yn cynnal cyfarfodydd gweddi yn y gwaith a throsedd yn gostwng. Gellir dadlau felly, yn ei dro, y sefydlwyd ymwybyddiaeth o'r ddelwedd hon a gwelwyd gohebwyr yn y papurau cenedlaethol ac yn y cyfnodolion yn ysgrifennu'n llawn canmoliaeth, gan ddefnyddio'r darlun hwn ac yn datgan fod dylanwadau'r mudiad ar waith mewn ardal benodol. Roedd hyn yn rhan o'r broses o luosogi'r delweddau, gan gynnal y Diwygiad yn ei ffurf fel ffenomen gyhoeddus i ryfeddu ati.

Mewn adroddiadau o'r fath mae nifer y disgrifiadau a thebygrwydd eu cynnwys yn arddangos y modd y datblygwyd confensiynau wrth ysgrifennu am ddylanwad y Diwygiad. Sylwer ar debygrwydd cynnwys y brawddegau canlynol. Nodwyd am Ferndale yn *Y Gwyliedydd*, Ionawr 1905, 'Hyfryd yw meddwl fod rhif y troseddwyr ddyddiau y Nadolig eleni yn llawer, yn llawer iawn, llai nag y bydd arferol o fod. Llawer llai o feddwdod, o lwon, ac o regfeydd nag a fyddai arferol.'[22] Ac am Carno

[20] *Y Cyfaill*, Mawrth 1905, t.126.
[21] *Seren Gomer,* Mawrth 1905, t.63.
[22] *Y Gwyliedydd*, 5 Ionawr 1905, t.2.

yn Chwefror 1905 nodwyd: 'Y mae ein hardal wedi ei gweddnewid - meddwon yr ardal wedi sobri, ac yn lle swn rhegfeydd ar yr heolydd, clywir swn 'cân a moliant'. Ni welir neb yn aros ar gonglau'r heolydd, ond iaith y bechgyn a'r gwyryfon ieuanc ydyw 'awn i dy yr Arglwydd'. Y mae yma obaith disglaer.'[23] Gwelir y modd y sefydlwyd patrymau ysgrifennu gan newyddiadurwyr a gohebwyr, a gellir dadlau y bu hyn yn gyfrifol am sefydlu confensiynau wrth ddisgrifio'r ffenomenau a gafwyd ynghlwm wrth y Diwygiad yn y gymdeithas, ac y bu'r confensiynau hyn yn gyfrifol am liwio'r Diwygiad fel mudiad rhyfeddol. Gwelir felly sut y sefydlwyd patrwm a threfn wrth ysgrifennu, a rhoddodd hyn i'r mudiad ddelwedd benodol yn gyhoeddus fel mudiad rhyfeddol.

Un enghraifft o'r confensiynau a sefydlwyd o ran cynnwys y gweithiau yw'r cyfeirio a gafwyd at arferion ieithyddol. Roedd newid arferion ieithyddol yn newid ymarferol y gellid cyfeirio ato fel arwydd o ddylanwad y mudiad ar waith. Yn *Y Cymro,* Ionawr 1905, nodwyd: 'Y mae effeithiau y Diwygiad ar iaith ac arferion y bobl hefyd yn ddigamsyniol. Dywedir fod iaith Cwm Rhondda, a chymoedd eraill yn ogystal wedi newid yn ddirfawr.'[24] Nodwyd am Benygroes, Sir Gaerfyrddin, yn *Y Tyst,* Ionawr 1905: 'Mae y gweithfeydd wedi newid eu hiaith, a gwyneb yr ardal wedi newid. "Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion."'[25] Roedd sefydlu arferion fel hyn yn cyfrannu at y broses o gyffredinoli dylanwadau'r Diwygiad gan gynnig undod i'r Diwygiad a'i ddylanwadau fel mudiad a chysyniad. Gwelir drwy hyn sut y cyfrannwyd at ddiffinio gweithgarwch y Diwygiad gan ymroi i'r broses o greu mudiad ymarferol a chysyniadol ar y pryd.

---

[23] *Y Gwyliedydd*, 16 Chwefror 1905, t.3.
[24] *Y Cymro*, 5 Ionawr 1905, t.6.
[25] *Y Tyst*, 11 Ionawr 1905, t.7.

Gan ymgymryd â'r gwaith hwn, gwelir bod y wasg yn mabwysiadu swyddogaeth sylfaenol wrth gynnal syniadau ynglŷn â gallu a grym y mudiad. Fel y gwelir, nodwedd amlycaf cynnwys y drafodaeth ar ddylanwad y Diwygiad ar gymdeithas yn y wasg ar y pryd oedd y gwellhad cyffredinol ar foesau ac ymddygiad aelodau'r gymdeithas. Mae lle i gredu, wrth i'r syniad fod diwygiad crefyddol ar waith ledaenu yng Nghymru, y cafwyd disgwyliadau ynghylch ei ddylanwad ar unigolion a'i gyflawniadau yn y gymdeithas. I'r perwyl hwn, nododd Janice Holmes yn ei hastudiaeth ar ddiwygiadau crefyddol ar draws Prydain, *'Revival, in the late nineteenth century, had the reputation that it could improve society and transform individuals.'*[26] O edrych ar yr adroddiadau a gafwyd yn y wasg ar y pryd, felly, gellir dehongli bod y gwaith yn ymdrech i sefydlu a chynnal y gred bod y Diwygiad fel mudiad yn bodloni'r disgwyliadau hyn gan gyflawni gwelliannau ym mywydau unigolion ac yn y gymdeithas, a thrwy hyn, yn sicrhau'r darllenydd bod y mudiad yn bod ac ar waith. Mynegwyd y gred bod y newidiadau cymdeithasol a brofwyd yn rhan o'r dystiolaeth bod y mudiad yn haeddiannol o'r enw Diwygiad ar y pryd. Yn wir, gellir ystyried yr elfennau a ddisgrifir yn y traethawd hwn, gan gynnwys y gweithgarwch cynulleidfaol, amlygrwydd y ferch, ac ymddygiad Evan Roberts, oll yn elfennau o'r stori fawr, oherwydd y modd y dehonglwyd y nodweddion hyn yn ganlyniad i ymyrraeth yr Ysbryd. Gwelwyd dylanwad y Diwygiad ar gymdeithas yn mabwysiadu'r un rôl. Nodwyd yn *Y Drysorfa*, Ionawr 1905:

> Y fath yw dwysder a dyfnder yr argraffiadau crefyddol ymysg pob dosbarth fel y gellir dweyd fod yr adfywiad yn newid awyrgylch y lle-oedd sydd o dan ei ddylanwad, nes ei gwneyd yn un na all anuwioldeb lwyddo ynddi. Y mae hyn ar unwaith yn penderfynu ei gymeriad. Dywedir fod y tafarnau wedi eu gwaghau, iaith ac ymddygiadau pobl sydd yn gweithio yn nyfnderoedd y ddaear wedi eu newid er da, pobl arferent fod mewn dig a gelyniaeth at eu gilydd yn anghofio eu gwahaniaethau...Tystiolaethir gan heddgeidwaid ac ynadon fod lleihad na welwyd ei gyffelyb yn nifer y troseddau. Nid oes enw

[26] Janice Holmes, *Religious Revivals in Britain and Ireland 1859-1905* (Dulyn, 2000), t.185.

> i'w roddi ar ddeffroad a gynyrcha yr effeithiau hyn ond diwygiad crefyddol yn holl ystyr y geiriau, ac un i ddiolch i'r Nefoedd am dano.[27]

Gellir dadlau bod y sylw mawr a roddwyd i ddylanwad y Diwygiad ar gymdeithas yn gyffredinol yn rhan o'r meddylfryd ehangach a sefydlwyd wrth ddisgrifio gweithgarwch y Diwygiad, y ceisir ei ddisgrifio yn y traethawd hwn. Roedd y meddylfryd hwn yn ymwneud â sefydlu ffenomenau anarferol yn sylfaenol i wneuthuriad y mudiad. Trwy hyn gwelir elfen ar y broses a oedd ar waith o sefydlu'r Diwygiad yn ei ffurf gyhoeddus fel ffenomen ryfeddol yn ei hanfod. Gwnaed datganiadau mawr fel a ganlyn. Nodwyd yn *Y Diwygiwr,* Ionawr 1905, am Donypandy o dan ddylanwad y Diwygiad: 'Aeth y gwaith Alcan gerllaw yn deml moliant. Gwacawyd y dafarn. Aeth yr addoldy yn orlawn. Newidiwyd iaith, arferion a bywyd y lle.'[28]

Gellir dadlau bod elfennau ar natur y Diwygiad fel mudiad ar y pryd yn gyfrifol am benderfynu natur mudiad y Diwygiad yn ei ffurf ers hynny. Yn y cyswllt hwn, wrth gynnal y rhyfeddod wrth ysgrifennu'n gyffrous am ddylanwad y Diwygiad ar gymdeithas cyfrannwyd at y broses o gynnal y mudiad yn ei ffurf fel ffenomen i ryfeddu ati yn ystod 1904-05. Ers hynny, oherwydd y cyffro a'r dirgelwch a sefydlwyd yn rhan o stori'r Diwygiad ar y pryd, plannwyd bylchau posib yng ngwaith yr hanesydd, a hynny yn ei dro wedyn, ynghyd â diffyg astudiaeth fanwl yn ystod yr ugeinfed ganrif o'r ffenomenau o dan sylw yn eu cyfanrwydd, ychwanegwyd eto fyth at elfennau enigmatig y chwedl. O ganlyniad gwelwyd y Diwygiad fel mudiad rhyfeddol yn aros yn y cyflwr hwn yn ystod y ganrif ers hynny.

[27] *Y Drysorfa*, Ionawr 1905, tt.1-2.
[28] *Y Diwygiwr*, Ionawr 1905, t.26.

Yn ogystal, gellir dadlau, oherwydd y modd yr oedd y cysyniad bod y mudiad yn rhyfeddol yn un mor sylfaenol i'w hanfod a'i chynhaliaeth ar y pryd, ei bod ynghlwm wrth waith yr hanesydd i gyfleu'r rhyfeddod hwn, ac o ganlyniad, gwelwyd y ddelwedd o'r Diwygiad fel ffenomen ryfeddol yn cael ei chreu ar sawl ffurf ers 1904-05, gan gynnwys yng ngwaith haneswyr. Trwy hyn, gwelwyd elfennau chwedlonol stori'r Diwygiad ar y pryd yn cael eu cynnal ers hynny. Bron y gellir dweud felly nad yw'n syndod i elfennau ar ddylanwad y Diwygiad ar gymdeithas fabwysiadu, yng ngeiriau Evans a Pope, ansawdd 'diarhebol', 'chwedlonol', yn stori'r Diwygiad, ar y pryd ac yn y cof amdano ers hynny.[29]

Gan droi yn awr i edrych ar y modd y cynhaliwyd yr ymdriniaeth hon mewn gweithiau a ymddangosodd ers blynyddoedd 1904-05, dadleuir mai'r un oedd y prosesau a roddodd fod i'r mudiad fel ffenomen ryfeddol yn ystod blynyddoedd 1904-05 ag a gafwyd ers hynny. Hynny yw, wrth sefydlu confensiynau ymddygiad a chonfensiynau ysgrifennu ar y pryd, sefydlwyd cymeriad penodol i'r mudiad yn gyhoeddus. Ers hynny, gwelir yn yr adran hon sut y cynhaliwyd y broses o gynnal y Diwygiad yn y ffurf hon fel mudiad rhyfeddol ar y pryd ar amrywiol ffurfiau wedi blynyddoedd 1904-05.

Edrychir ar waith newyddiadurwyr a haneswyr ynghyd â gweithiau creadigol a ymddangosodd yn ystod yr ugeinfed ganrif, gan ganolbwyntio ar weithiau mwy diweddar. Yn gyntaf, dylid cydnabod fod digon o dystiolaeth ar gael sy'n tystio mai nad cynnal y ddelwedd o'r gymdeithas ar ei newydd wedd fel rhan o stori'r Diwygiad

[29] Eifion Evans, *The Welsh Revival of 1904* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1969), t.161; Robert Pope, 'Dadfythu Diwygiad "Evan Roberts"', yn *Y Traethodydd,* Gorffennaf 2004, t.144.

oedd amcan llawer o'r gweithiau a ymddangosodd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Yn wir, mae ymosod ar y ddelwedd hon wedi profi'n ganolog i'r drafodaeth ar y Diwygiad ar sawl ffurf. Er enghraifft, mewn erthygl yn y *Western Mail* yn 1974 gan Tom Davies, sonnir yn sarhaus am griw a gerddai o gwmpas Port Talbot yn ystod y Diwygiad, fel, 'bunch of nutty wailers', a nododd: '*Everywhere they went they let out deep wails, piercing cries and the women threw off their bonnets*'. Honnodd Davies nad oes ffigyrau i gefnogi'r gred i feddwdod leihau o dan ddylanwad y mudiad a bod elw'r bragdai wedi cynyddu yn ystod y cyfnod. Nododd hefyd, yn unol â'r hyn a awgrymwyd gan haneswyr, cafwyd cynnydd yn nifer y rhai a dderbyniwyd mewn cartrefi meddwl a oedd yn dioddef o anhwylderau a gysylltwyd â chrefydd yn y cyfnod hwn, o ganlyniad i ddylanwad y mudiad.[30] Gwelir yn y gwaith y modd y bu i'r Diwygiad barhau fel testun dadlau wedi 1904-05. Er nad yw'r erthygl yn ymwneud â chynnal y chwedl fel ag yr oedd ar y pryd, mae'r gwaith yn arwyddocaol o'r modd y gwelwyd y broses o gynnal y Diwygiad fel stori fawr. Mae'r gwaith yn amlwg yn sgwrsio â'r delweddau ystrydebol a sefydlwyd am hanes y mudiad.

Gwelir delweddau nad sy'n cyd-fynd â'r darlun o'r gymdeithas yr adroddwyd amdani yn y wasg ar y pryd mewn ffuglen yn ystod y ganrif ers hynny hefyd. Er enghraifft, yng ngwaith Rhys Davies, *The Withered Root*, ceir awgrym cryf fod dimensiwn cnawdol yn perthyn i gymhelliad gweithgarwch y diwygiad yn y nofel. Ymhellach, ceir cyfeirio yn uniongyrchol at foesoldeb dylanwad y Diwygiad ar ymddygiad unigolion yn uniongyrchol yn nofel E. E. Thomas *Where Eagles Fly... No Bird Sings* (1961). Meddir am y Diwygiad yn y nofel: '*Not all stories were of the miraculous. There were some that didn't sound good in the telling; stories of young folk, and older*

[30] *Western Mail* 1974, o gasgliad preifat Dr. Douglas A. Bassett, heb ddyddiad arno.

*folk too, who after these meetings stayed out the whole night long and would have cause to regret it when the results of their wandering in dark places became visible...*'[31], ac eir ymlaen i ddisgrifio beirniadaeth Eglwyswyr o'r ymddygiad hwn:

> *'What can you expect of the Welsh?' was the kind of question going the rounds - 'sly, cunning, covering up their lust and hiding it under the cloak of religion! There will be lots of them after this who won't know who are their fathers; and that's religion is it? Well, none of that kind for us - No, thank you!*'[32]

Mae'r fath bortreadau yn sicr yn ymwneud â chynnal syniadau am y Diwygiad fel mudiad dadleuol. Mae'r fath ddarluniau yn sicr yn tarfu ar y ddelwedd a ddisgrifiwyd uchod yr ymroddwyd i'w chreu ar y pryd yn y wasg o'r gymdeithas ar ei newydd wedd. Serch hyn, fel y gwelir yn y man, gellir dadlau er bod syniadau o'r fath mewn newyddiaduraeth a ffuglen yn tanseilio'r ddelwedd o'r gymdeithas foesol o dan ddylanwad y mudiad, parhaodd y gwelliannau a brofwyd gan gymdeithas o safbwynt ymddygiad ac arferion unigolion yn ganolog i'w chwedl ers hynny, ac yn arbennig felly ar adeg y canmlwyddiant.

Soniwyd eisoes am y modd y cyfeiriodd ambell ysgolhaig yn benodol at y rôl a fabwysiadwyd gan ddylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas yn ei stori ar y pryd ac ers hynny. Gellir deall yr ymateb hwn yn gydnabyddiaeth o ddimensiwn y Diwygiad yn ei ffurf fel mudiad cyhoeddus ar y pryd ac o'r bywyd y mabwysiadodd y Diwygiad yn y meddwl poblogaidd ers hynny. Trwy'r gydnabyddiaeth hon, gwelir y Diwygiad ar ei ffurf fel mudiad cyhoeddus ar y pryd ac yn y meddwl poblogaidd ers hynny yn dylanwadu ar yr ymdriniaeth hanesyddol a geir.

---

[31] E. E Thomas, *Where Eagles Fly...No Bird Sings* (Lerpwl, 1961), t.81.

[32] E. E Thomas, *Where Eagles Fly*, t.81.

Gan edrych ar ambell enghraifft benodol o waith haneswyr ar ddylanwad mudiad y Diwygiad ar chwaraeon, er enghraifft, gwelir bod cynnwys llawer o'r gwaith yn cynnal y rhyfeddod ynghylch y gweithgarwch. Bron nad oes angen nodi bod y gweithiau y bydd dyfynnu ohonynt yn echdyniadau o weithiau cyfan, sy'n mesur a thrafod agweddau amrywiol ar y cyfnod, fodd bynnag mae pytiau o'r gwaith, fel y ceisir dangos, yn cynnal y delweddau a sefydlwyd ar y pryd.

Fel y soniwyd eisoes, o dan ddylanwad mudiad y Diwygiad mewn sawl man, gwelwyd chwaraeon yn dioddef wrth i aelodau o dimau ymwrthod â chwarae, yn enw moesoldeb newydd. Nodwyd eisoes bod ysgolheigion wedi mynegi i'r ffenomen hon brofi'n un o elfennau chwedlonol y Diwygiad. Yn y darn isod o waith Noel Gibbard, eir ati i gwestiynu maint y ffenomen hon. Nododd:

> Gorfodwyd ambell dim pêl droed i roi'r gorau iddi, ond anodd yw gwybod pa mor gyffredin oedd hyn. Gwnaeth tim pêl droed Brynaman losgi'r bêl, a llosgodd un o chwareuwyr Cilfynydd ei ddillad chwarae. Tuedd rhai o'r adroddiadau oedd cyffredinoli yn ormodol, a rhoi'r argraff mai bodau prin oedd chwareuwyr a chefnogwyr pêl droed. Mewn cyfeiriad at ddeg o ardaloedd yn y De, ni effeithiwyd ar dimau pump ohonynt o gwbl; collwyd ambell dim o'r ardaloedd eraill, ond fe gollwyd chwareuwyr unigol amlwg oherwydd y Diwygiad.[33]

Ceir ymdriniaeth bwyllog yma o'r ffenomen, ac mae'n werth sylwi y cyfeirir at y modd yr ymroddodd y wasg i gyffredinoli gan greu delweddau penodol o ddylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas a fu yn y pen draw, y dadleuir yma, yn gyfrifol am ddiffinio dimensiwn ar hunaniaeth y mudiad. Serch hyn, ni ellir osgoi'r modd y cynigir delweddau lliwgar i'r darllenydd, sy'n cynnal y rhyfeddod hwnnw a sefydlwyd yn y papurau ar y pryd; yn yr achos hwn, er enghraifft, cyfeirir at losgi'r bêl-droed gan dîm Brynaman, a thrwy hyn, cynigir delweddau lliwgar i'r darllenydd

[33] Gweler 'Dirwest, Gwleidyddiaeth ac Addysg' yn Noel Gibbard (gol.), *Nefol Dân*, t.184.

sy'n cynnal y rhyfeddod hwnnw a sefydlwyd yn y papurau ar y pryd. Mae nifer o weithiau hanesyddol yn cynnal y delweddau hyn ar ryw ffurf neu'i gilydd. Nododd Gareth Williams yn ei ysgrif, 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd' am y Diwygiad:

> Cafodd y Diwygiad...effeithiau rhyfeddol ar fuchedd a moes rhannau hynny'r wlad a deimlodd ei wres. Er enghraifft, gellir olrhain llwybrau Evan Roberts drwy'r cymoedd trwy weld yr hyn a ddigwyddodd i glybiau rygbi yno. Yn ardal Pontypridd, gwelwyd chwaraewyr rygbi yn llosgi eu crysau a'u cefnogwyr yn rhwygo eu tocynnau tymor; yn Ynys-y-bŵl bedyddiwyd yr holl dim a rhoddwyd y gorau i chwarae am dair blynedd. Cynyddodd Ysgol Sul Capel Noddfa, Treorci, dros nos pan ychwanegwyd ati'r 'dosbarth ffwtbol', sef llond trol o chwaraewyr a oedd wedi cael troedigaeth ac wedi ymdynghedu i ymwrthod â'r gêm am byth. I'r gorllewin, yn y maes glo carreg, lle'r oedd y gymdeithas yn Gymreigiach, bu effeithiau'n fwy syfrdanol fyth wrth i rygbi ddarfod yn gyfan gwbl am dair blynedd a mwy ym Mhen-y-groes, Treforys, Casllwchwr, Creunant a Rhydaman.[34]

Yn sicr, mae hanesion o'r fath a'r ysgrifennu lliwgar, er enghraifft, 'gellir olrhain llwybrau Evan Roberts drwy'r cymoedd trwy weld yr hyn a ddigwyddodd i glybiau rygbi yno' yn cynnal y synnwyr o ryfeddod yr ymroddwyd i'w greu ar y pryd. Gan gyfeirio at y ffenomen cyfeiriodd J. Gwynfor Jones at atgofion D. J. Williams am gyfarfod yn Rhydaman lle y gwelodd, ymysg bechgyn ifanc eraill, gapten y tîm rygbi yn tystiolaethu ei brofiad. Dyfynnodd yr atgof hwn, gan grybwyll geiriau Williams: 'Ac yn eu gonestrwydd bachgenaidd am y gaeaf hwnnw o leiaf, rhoesant heibio eu jersys chwarae.'[35] Mae'n sicr yr arhosodd y fath weithgarwch yn y cof. Cydiodd Jones yn y dyfyniad trawiadol canlynol hefyd, a grybwyllir yng ngwaith Dai Smith a Gareth Williams, 'Ymhellach, tystiodd unigolion i effaith grym y Diwygiad arnynt: *'I used to play full back for the Devil'*, meddai Jenkin Thomas, hen bêl-droediwr ym

---

[34] Gareth Williams, 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd' yn *Cof Cenedl V* (1990), t.127. Gwelir y fath ddelweddau yn cael ei disgrifio hefyd yn David Smith a Gareth Williams, *Fields of Praise* (1980), tt.126-127 ac yn Gareth Williams, *1905 and All That: Essays on Rugby Football, Sport and Welsh Society*, t.77.

[35] J. Gwynfor Jones, 'Ebychiad mawr olaf Anghydffurfiaeth yng Nghymru:Diwygiad 1904-05', yn, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion 2004*, Cyfres newydd, Cyfrol 11, 2005, t.111. Am atgofion D. J Williams o'r Diwygiad, gweler D. J. Williams, *Yn Chwech ar hugain Oed* (Trydydd Argraffiad, Llandysul, 1983, cyhoeddwyd yn gyntaf yn 1959), tt.158-162.

Mynydd Cynffig, '*but now I'm forward for God*'.[36] Mae'n sicr y gwelwyd datganiadau o'r fath yn cael eu cofnodi ar y pryd gan liwio stori'r Diwygiad. Casglwyd y dywediadau a'r gweddïau hynny a ystyriwyd yn berlau'r Diwygiad, mewn cyfrol yn dwyn yr un enw *Perlau Diwygiad* (1906) gan Anthropos. Cyfeiriwyd at y gyfrol ym mhennod 2 a 3. Dyma un enghraifft berthnasol i'r drafodaeth yma o weddi a gofnodwyd o ardaloedd y chwareli, ' "Diolch i Ti, Iesu anwyl! Fod 'Clwb y bel droed ' i gyd ar eu gliniau fan yma heno, ac yr ydym am roi y *Kick off* olaf i'r hen ddiafol y nos hon." '.[37] Mae'n amlwg y ceir apêl i'r hanesydd yn y golygfeydd a'r datganiadau hyn a gwelir, o ganlyniad, y gwaith o adrodd ac ailadrodd anecdotau o'r fath, yn cynnal delweddau penodol o weithgarwch y mudiad.

Ymhellach, yr hyn sy'n arwyddocaol mewn gweithiau o'r fath yng nghyswllt yr astudiaeth hon yw'r modd y gwelir yr un awydd ag a welwyd mewn adroddiadau yn y wasg ar y pryd i rannu rhyfeddod y digwydd gyda'r gynulleidfa. Fel y nodwyd ym mhennod 1, mae sawl hanesydd diweddar, yn cynnwys yr ysgolheigion y dyfynnir o'u gweithiau yn y drafodaeth yn y fan hon, wedi mynegi mai nodi diwedd ar gyfnod yn hanes crefyddol a diwylliannol yng Nghymru a wnaeth y Diwygiad, ac y profwyd am y tro olaf ffrwydrad y berthynas gymhleth rhwng crefydd, diwylliant ac iaith yng Nghymru.[38] A oes lle felly i gredu nad oes syndod y gwelir tebygrwydd yn natur yr ymdriniaeth a gafwyd ar y pryd ac ers hynny mewn gweithiau diweddar o'r ffenomenau o dan sylw? Hynny yw, ar y pryd, cafwyd awydd i drosglwyddo'r syniad fod newid byd, yn wyneb dyfodiad y mudiad, ac ers hynny mewn gweithiau diweddar ceisir rhoi darlun o'r byd a'r gymdeithas honno yng Nghymru y mae sawl ysgolhaig

---

[36] Gweler J. Gwynfor Jones, 'Ebychiad mawr olaf anghydffurfiaeth yng Nghymru', t.111; David Smith a Gareth Williams, *Fields of Praise*, t.127.
[37] Anthropos (gol.), *Perlau'r Diwygiad* (Caernarfon, 1906), t.56.
[38] Er enghraifft gweler R. Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe, 1966), t.237; J. Gwynfor Jones, t.137; Gareth Williams, 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd', t.128.

wedi nodi y gwelwyd ei diwedd gyda'r Diwygiad. Mae'r gwaith a gafwyd ar y pryd ac ers hynny, yn y cyd-destun hwn gan haneswyr felly, fel ei gilydd yn ymwneud â chynnal ymwybyddiaeth o ffenomen ddiwylliannol a chymdeithasol ac, yn sgil y gwaith, yn rhoi bywyd i'r ffenomen hon ar amrywiol ffurfiau hefyd. O safbwynt yr enghraifft o dan sylw, sef yr ymdriniaeth o ddylanwad y mudiad ar chwaraeon, gwelir sut y cyfrannodd ailadrodd anecdotau o'r fath at sefydlu'r Diwygiad yn fudiad rhyfeddol ar y pryd ac ers hynny. Dylid nodi bod yr astudiaeth hon yn anorfod yn cyfrannu at y gwaith.

Edrychir yn awr ar enghraifft arall gan graffu ar rai o'r delweddau o ddyn wrth ei waith yn ystod y Diwygiad. Mynnodd y cyfarfodydd a gafwyd gan lowyr de Cymru a chwarelwyr y gogledd wrth eu gwaith le yn stori'r Diwygiad ar y pryd ac ers hynny hefyd. Mae'r darlun o'r glöwr yn mynd yn syth o'i waith i'r capel i un o gyfarfodydd y Diwygiad hefyd wedi ei sefydlu'n un o'r delweddau yr ymroddwyd i'w disgrifio ers 1904-05.

Mae delweddau o ddylanwad y mudiad ar arferion dyn wrth ei waith wedi codi mewn amrywiol weithiau. Daw'r darn isod o nofel *Ffwrneisiau*, Gwenallt. Ynddo mae sgwrs a gafwyd wrth i'r gweinidog holi un o'r prif gymeriadau, Tomos Hopcin, am y dylanwadau a gafodd y Diwygiad yn y gwaith. Gwelir tebygrwydd yn y disgrifiadau o ddylanwadau'r Diwygiad yn y gymuned i'r adroddiadau ar y pryd, a gwelir y ddelwedd o ddylanwad y mudiad yn y gwaith yn profi'n rhan o stori'r Diwygiad. Meddai Hopcin yn y nofel:

> ...Ma rhai ohonon ni yn cynnal cwrdd gweddi cyn dechre'r gwaith yn y bore, ac fe fyddwn yn gweddio ar ôl cwpla. Ma rhai o emyne'r Diwygiad yn câl 'u

> canu yn y pwll ac o flân y ffwrneisie a rhwng meline'r Gwaith Tun. Ma llai o yfed cwrw a llai o regi ed. Ma'r gaffer 'na, Mr Harper, yn fwy caredig.[39]

Un o'r delweddau amlycaf yn stori'r Diwygiad yng nghyswllt y glowyr wrth eu gwaith yw'r un am y ceffylau yn peidio â gweithio, oherwydd y modd y cafwyd y cryn newid yn natur yr iaith a ddefnyddid gan y gweithwyr. Gwelwyd y stori'n cael ei hadrodd ar y pryd. Yn *Y Drysorfa*, Ionawr 1905 nodwyd:

> Cynhelir cyfarfodydd gweddiau hyd yn nod yn y pyllau glo. Dywedir fod y ceffylau a gedwir yn y dyfnderau hyn yn methu adnabod y rhai arfera eu trin a'u dwyn at waith, a hynny oblegid y cyfnewidiad mawr ynddynt - yn eu hymddygiadau, ac yn enwedig yn eu hiaith; yn lle creulondeb a rhegfeydd atgas, ymddygir atynt yn awr gyda thynerwch a hynawsedd.[40]

Gellir deall y modd y sefydlwyd y darlun hwn yn rhan o stori'r Diwygiad wrth i'r hanes gael ei ailadrodd a'i gofnodi ar y pryd ac ers hynny. Nododd R. B. Jones, a oedd yn un o ddiwygwyr blaenllaw'r Diwygiad, yn ei gyfrol, *Rent Heavens* (1930):

> *Even the pit ponies soon felt that something had happened. But let the correspondent of The South Wales Daily News (December 1904) tell the story, 'The worst class of worker in th colliery is the haulier, who has charge of the poor horses doomed to perpetual underground darkness. These men, as a class, are proverbial for their profanity and cruelty, but now the change is so marked that the poor, bewildered horses do not know what to make of it. Accustomed to words of command, every one of which is either a curse or an obscenity, they hardly know how to obey the requests now in quiet and gentle phrases'* [41]

Gwelir y ddelwedd hon yn cael ei chynrychioli ar sawl ffurf. Yn llyfr lluniau Kevin Adams, a gyhoeddwyd i gyd-fynd ag achlysur y canmlwyddiant, ceir lluniau o lowyr a chartwnau o gyfarfodydd o dan ddaear wedi eu chwyddo'n fawr a'r nodyn canlynol i gyd-fynd: '*The church truly went underground during the Welsh Revival as miners expressed their new found faith in prayer and praise during their work breaks*' gyda

---

[39] Gwenallt, *Ffwrneisiau, Cronicl Blynyddoedd Mebyd* (Llandysul, 1982), t.83.
[40] *Y Drysorfa*, Ionawr 1905, t.32.
[41] R.B.Jones, *Rent Heavens, The Revival of 1904* (Llundain, Rhagair 1930), t.66.

lluniau o'r ceffylau a ddefnyddid o dan ddaear.[42] Gwelir felly sut y sefydlwyd y fath ddelweddau yn rhan o chwedl y Diwygiad, drwy adrodd ac ailadrodd ar y straeon, a'r broses honno ar waith yn ystod blynyddoedd 1904-05 ac ers hynny. Trwy hyn, gwelir sut y sefydlwyd delweddau unffurf o'r gweithgarwch o dan ddylanwad y mudiad, a sut y parhaodd un o'r mecanweithiau a roddodd ffurf gyhoeddus i'r mudiad ar y pryd ers hynny gan gynnal stori'r Diwygiad mewn ffurf benodol.

Yng ngwaith Kevin Adams, mae'r nodiadau a geir i gyd-fynd â'r lluniau yn frith o'r delweddau y gwelwyd eu sefydlu ar y pryd. Wrth gwrs, dylid cydnabod wrth gyffredinoli bod osgoi gorsymleiddio ffenomenau a chreu ystrydebau yn anodd, yn enwedig yn yr achos hwn wrth gynnig pytiau o wybodaeth i egluro arwyddocâd y lluniau. Fodd bynnag, nid beirniadu'r gwaith yw'r bwriad yma, yn hytrach amlygu'r modd yr ymddangosodd gweithiau ar adeg y canmlwyddiant a fu'n gyfrifol am gynnal nifer o'r delweddau a ledaenwyd ar y pryd gan y wasg, a hynny mewn ysbryd i drosglwyddo a chynnal syniadau a oedd yn diffinio mudiad y Diwygiad fel ffenomen ryfeddol. Er enghraifft, o safbwynt dylanwad y Diwygiad ar gymdeithas, nododd yn y llyfr: '*The social impact on individuals' lives was tremendous. While nobody could claim that they turned water into wine during the Revival, many demonstrated that they could turn beer into clothes for their children and food for their families.*'[43] Nododd Adams, wrth egluro'r darluniau, '*Due to the Revival the crime rate went down as people were converted to be more honest and trustworthy. Many paid back old debts and a life of crime became a thing of the past, a social effect, which was felt throughout the land.*'[44] Gellir dadlau bod y gwaith yn arwyddocaol o'r ysbryd a

[42] Kevin Adams ac Emyr Jones, *A Pictorial History of Revival, The Outbreak of the 1904 Welsh Awakening* (Surrey, 2004), tt.101-103.
[43] Kevin Adams ac Emyr Jones, t.104.
[44] Kevin Adams ac Emyr Jones, t.106.

gafwyd ar adeg canmlwyddiant y Diwygiad i gynnal mudiad y Diwygiad fel ffenomen ryfeddol yn y meddwl poblogaidd. Gwelir o ganlyniad dimensiwn o weithgarwch y Diwygiad ar y pryd, hynny yw, y prosesau hynny a fu'n gyfrifol am gynnal syniadau a delweddau penodol o'r mudiad ar led, ar waith ganrif yn ddiweddarach. Gellir dadlau ar un lefel fod cynnyrch o'r fath, sy'n cynnal mudiad y Diwygiad fel ffenomen ryfeddol, yn gyfrifol am greu bylchau yn hanesyddiaeth a stori'r Diwygiad, drwy gynnal y gred fod llawer o weithgarwch y Diwygiad y tu hwnt i ddealltwriaeth a rhesymeg lawn. Gellir dadlau mai'r bylchau hyn oedd wrth wraidd ffurf y Diwygiad fel ffenomen enigmatig ar y pryd, ac y buont yn sylfaenol i'r chwilfrydedd ynghylch y mudiad yn ystod y ganrif a oedd i ddilyn.

Fel y gwelwyd yng ngwaith y wasg ar y pryd, sefydlwyd delweddau penodol o gymdeithas yng Nghymru o dan ddylanwad y mudiad ar adeg y canmlwyddiant. Mewn erthygl yn y *Guardian*, (y cyfeiriwyd ati yn y Rhagarweiniad) ar 29 Mawrth 2004, nodwyd:

> *The fervour created by Evan Roberts in the autumn of that year reputedly caused pubs to decline, miners to hold prayer meetings down the pits, the police to report a drop in crime, swearing in the street to cease, football teams attended chapel rather than turn up for fixtures and Lloyd George, the rising star of British politics, to cancel rallies rather than clash with the revivalists. Even the ponies down the pits were said to be working less readily because they were not used to the new-found gentleness of their overseers. A similar outpouring of enthusiasm may be too much to anticipate this year - not least because there are no longer any pits, or pit ponies - but ministers are hoping that a revival of interest in one of Wales's forgotten heroes may prompt a modern equivalent of what was called at the time the Great Awakening.*[45]

Sylwer y cyfeirir yma at Roberts fel crëwr y cyffro ac at y ffenomenau hynny yr adroddwyd amdanynt ar y pryd am brofiad y gymdeithas, er mwyn trosglwyddo'r

[45] *Guardian*, 29 Mawrth 2004.

cysyniad roedd y mudiad yn ffenomen. Er gwaetha'r dadlau a gafwyd yng nghylch y Diwygiad a'i ddylanwadau ar amrywiol ffurfiau yn ystod y ganrif ers 1904-05, gwelir yma y broses o gynnal chwedl y Diwygiad yn yr un ffurf y gwelwyd hi ar y pryd yn digwydd ganrif yn ddiweddarach.

Ceir nifer o weithiau creadigol a ymddangosodd yn ystod y ganrif ers hynny sy'n tanseilio'r delfrydu a fu am y gymdeithas hon ar ei newydd wedd. Mae modd gweld dychan tawel yng ngwaith Gwenallt yn ei nofel *Ffwrneisiau,* y cyfeiriwyd ati eisoes, wrth ymdrin â'r ddelwedd hon o'r gymdeithas. Yn y nofel, gan sôn am yr hyn a ddarllenodd am hanes y Diwygiad yn y *Western Mail*, ceir rhestr gan Mr. Parri'r gweinidog o ddylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas. Mae'r darn yn adlewyrchu ac yn atgynhyrchu'r confensiwn a gafwyd yn adroddiadau'r papurau o groniclo'r newidiadau a gafwyd. Meddai Mr Parri yn y nofel:

> 'Dw i ddim yn cofio'r holl hanas, ond rwy'n cofio darllen fod barnwyr ar y meinciau yn cael menig gwynion. Ustusiaid heb yr un troseddwr o'u blaen. Plismyn heb waith i'w wneud. Tafarnau yn wag. Darllawdai yn methu gwerthu diodydd. Glowyr yn cynnal cyfarfodydd gweddi ar waelod y pwll glo, ac yn dod i gyfarfodydd y Diwygiad yn eu dillad gwaith, am nad oedd ganddynt amser i newid eu dillad...'[46]

Yna, fe â Mr. Parri ymlaen i ddisgrifio'r newid a welwyd yn ymddygiad unigolion. Sylwer bod stori'r ceffylau yn cael ei hadrodd yma, ymysg elfennau eraill ar y stori yr ymroddwyd i ddisgrifio yn y traethawd hwn, gan gynnwys er enghraifft, cyfraniad merched i'r mudiad a'r iaith 'gudd' rhugl a oedd yn rhan o'r chwedl a ddisgrifiwyd ym mhennod 2:

---

[46] Gwenallt, *Ffwrneisiau*, tt.84-85.

'...Dynion mud yn clebran. Gwŷr cryf a garw yn wylo fel plant. Gwragedd a merched yn methu llefaru. Y Diwygiad yn gollwng toreth o Gymraeg cudd, a Saeson a sipsiwn yn deall Cymraeg: merched yn mynd i dafarnau i achub potwyr. Anffyddwyr yn llosgi eu llyfrau anffyddol. Haliers yn rhegi llai ac yn trin eu cyffylau yn well, a'r glowyr yn ymddiheuro am roi glo brwnt yn y ddram. Pobol yn gwerthu cŵn rasis ac yn gadael herwhela. Cwerylon yn cael eu setlo cyn mynd at y cyfreithwyr. Hen elynion yn ysgwyd llaw. Teuluoedd heb siarad a'i gilydd am flynyddoedd yn ymddiddan...'[47]

Yn nes ymlaen mae Gwenallt yn cynnig disgrifiad o'r newidiadau yn y gymdeithas o safbwynt arferion yfed, y dafarn, a chwaraeon, a'r rhain yn cael eu croniclo'n rhan o chwedl y Diwygiad gyda gor-ddweud bwriadol (sylwer ar y cyfeiriadau isod at bererindodau i gyfarfodydd y Diwygiad drwy 'stormydd, cenllysg ac eira', ac at weddïau 'chwarelwyr y Gogledd yn siglo'r Wyddfa') gan dystio i ffurf mudiad y Diwygiad fel stori fawr. Gweler ymateb Tomos Hopcin, gan syrthio i gysgu wrth wrando ar yr hanes, yn gosod y stori fawr, o bosib, yn ei lle, ym mywyd a chymdeithas y gymuned a'r cymeriadau yr ymroddir i'w portreadu.

'Pobol yn mynd i gyfarfodydd y Diwygiad trwy stormydd, cenllysg ac eira, a phobol yn colli'r trên olaf adre; chwaraewyr Rygbi yn methu chwarae am fod rhai ohonynt wedi eu hachub. Cŵn yn cyfarth ar y buarth wrth glywed gweision a morwynion yn gweddio yn y sgubor. Gweddiau chwarelwyr y Gogledd yn siglo'r Wyddfa. Llawer yn clywed sŵn canu yn yr awyr. Gwŷr ifainc yn gweled enwau eu hardaloedd ar y Groes. Enwadaeth wedi diffodd yn nhân y Diwygiad. Gwyddelod, Albanwyr a gwŷr o'r cyfandir yn dyfod i Gymru i weled y Diwygiad: a...'
Ond fe welodd y Bugail fod Tomos Hopcin yn pendwmpian, ac fe ddwedodd: 'Wel, Tomos Hopcin, y mae'n rhaid i fi fynd...'[48]

Yr hyn sydd hefyd yn awgrymu y ceir dychan tawel yma am y darlun a bortreadwyd yn y wasg o'r gymdeithas ar ei newydd wedd yw'r portread o amrywiol agweddau a gafwyd tuag at y mudiad. Cynigir darlun o'r gymdeithas, ei chrefydd a'i gwleidyddiaeth gan osod y Diwygiad yn y cyd-destun hwn. Meddai Tomos Hopcin:

---

[47] Gwenallt, *Ffwrneisiau*, tt.84-85.
[48] Gwenallt, *Ffwrneisiau*, tt.84-85.

> 'Wrth gwrs, ma 'na lot o withwrs nad yw'r Diwygiad wedi cyffwrdd dim â nhw. Un o'r rhai sy'n ymosod ar y Diwygiad yw Gomer Powel. Fe ddwedodd Evan Roberts yn y cyfarfod mai'r ened oedd yn bwysig, ac nid yr amgylchiade. Beth pe bydde Evan Roberts, medde fe, yn gorffod gwitho ar waelod pwll glo ne o flân y ffwrnes fe wele wedyn fod yr *envi*...ne rwbeth yn cyfri.'
> '*Environment*, Tomos Hopcin. Amgylchiade neu amgylchedd.'[49]

Sut bynnag y gellir dehongli'r modd y cynrychiolwyd y Diwygiad yn y nofel, yr hyn sy'n sicr yw bod y Diwygiad yn bresennol fel ffenomen a bod y gynrychiolaeth hon yn cynnig ffurf i'r Diwygiad yn y cyfrwng hwn gan gynnig delweddau o'r Diwygiad i'w chynulleidfa. Yn amlwg, gellir dadlau bod y gwaith ond yn nodi rhai o'r effeithiau a brofwyd mewn rhai ardaloedd yma, ond gellir dadlau bod y modd y gosodir y dylanwadau at ei gilydd yn dangos y modd y datblygwyd confensiwn wrth drafod dylanwadau'r Diwygiad, confensiwn a sefydlwyd yn ystod y Diwygiad ac a gynhaliwyd ar amrywiol ffurfiau ers hynny. Ceir adrodd yma am ddylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas yn yr un modd, o ran arddull, ag a wnaed ar y pryd, boed hynny yn ddychan neu beidio, sy'n tystio i bresenoldeb y dweud hwn yn ffurf y Diwygiad fel stori, ar y pryd ac ers hynny.

Ceir mewn gweithiau mwy diweddar ddychan ar y syniad o'r gymdeithas ar ei newydd wedd o dan ddylanwad y mudiad hefyd. Yn nofel Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel,* gellir dadlau y gwelir hyn yn eglur yn y delweddau graffig a geir o weithgarwch rhai o'r cymeriadau. Er enghraifft, wrth olrhain hanes cymeriad Stanley Evans, disgrifir ei anturiaethau gyda Hettie a Gwenno yn sgubor tafarn y Pennington Arms 'yn ymdrybaeddu mewn trythyllwch bob yn ail â thrachtio gwin a gwirod a borthai flys...'. Disgrifir y modd y 'Dilynodd Stanley gyfarwyddyd Hettie a chyda chymorth Gwenno a gusanai wefusau ei ffrind tra'n mwytho ei bronnau bychain

---

[49] Gwenallt, *Ffwrneisiau*, tt.84-85.

llwyddodd i'w bodloni.'[50] O fewn chwinc, mae Stanley'n gadael y merched gan ei throi hi at y capel i un o gyfarfodydd y Diwygiad, ac yno, gwnaeth gyffes gyhoeddus a oedd yn ôl geiriau'r cymeriad yn 'hanner wir'.[51] Mae'r delweddau hyn yn amlwg wedi eu cynllunio i bryfocio'r darllenydd. Gellir dadlau mai adwaith yw hyn i rai o'r delweddau sydd wedi eu sefydlu yn ganolog i stori gyhoeddus y Diwygiad, yn enwedig o safbwynt y rhai a ddisgrifir yn y bennod hon, sy'n cynnal syniadau am foesoldeb newydd y gymdeithas o dan ddylanwad y mudiad. Yn hyn o beth mae deialog yn bresennol yn y gwaith rhwng yr awdur â'r creadigaethau hyn. Ar lefel arall, gellir dadlau mai'r hyn a wneir yn y gwaith yw cynnal y Diwygiad yn destun trafod, fel y sefydlwyd ef ar y pryd, drwy gynnig elfennau cyffrous i'w stori. Gwelir felly, er nad yw natur y delweddau a luniwyd ar y pryd yn cael eu hatgyfnerthu bob tro mewn gweithiau diweddar, fod yma elfennau ar natur y broses a roddodd fod i'r mudiad fel un rhyfeddol yn parhau, wrth i'r nofel bortreadu'r mudiad mewn modd sy'n pryfocio'r darllenydd yng nghylch y gweithgarwch a ddisgrifir.

Er bod y fath weithiau yn tanseilio'r delweddau sefydledig, gwelir y gwaith o gynhyrchu delweddau yn parhau. Yr hyn a wneir yn y gweithiau o dan sylw yw ymateb i'r delweddau sefydledig yn stori'r Diwygiad gan dystio i'w presenoldeb yn stori'r Diwygiad ganrif yn ddiweddarach. Yn ogystal drwy gynnig delweddau sy'n torri ar yr ystrydebau o rai o'r syniadau sefydledig, yr hyn a welir yw parhad y Diwygiad a'i ddylanwadau yn bwnc llosg ers blynyddoedd 1904-05, ac o ganlyniad gwelir natur y drafodaeth ar y pryd o'r safbwynt hwn yn parhau.

[50] Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (Llanrwst, 2007), t.36.
[51] Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel*, t.49.

Profodd dylanwadau Diwygiad 1904-05 ar gymdeithas yn elfen sylfaenol o hunaniaeth y mudiad fel mudiad cyhoeddus ar y pryd, ac ers hynny profodd yr elfen hon ar weithgarwch y Diwygiad i fod yn elfen sylfaenol yn ei chwedl. Yn y bennod ganlynol ceir golwg ar Evan Roberts a lle canolog ei gymeriad yn y stori hon.

# Pennod 5

# Evan Roberts

Yn y bennod hon edrychir ar Evan Roberts, y ffigwr amlycaf a gysylltir â Diwygiad 1904-05. Y bwriad yma yw deall Roberts fel ffigwr, fel un o'r elfennau a drafodir yn y traethawd hwn, a fu'n gyfrifol am roi ffurf i'r Diwygiad fel mudiad cyhoeddus ar y pryd ac am liwio'i stori yn ystod y ganrif ers hynny. Lleisiwyd sawl barn wahanol ar y pryd ac wedi hynny ar amrywiol ffurf ynglŷn â natur rôl Roberts yng ngweithgarwch y mudiad. Profodd y modd yr oedd Roberts yn destun trafod yn ganolog i gynhaliaeth y Diwygiad fel testun dadleuol yn 1904-05 ac ers hynny, ac i chwedloniaeth y gŵr a'r mudiad.

Yr amcan yma yw cynnig golwg ar rai o'r prosesau a sefydlodd Roberts fel ffigwr amlycaf y Diwygiad gan gynnig golwg ar y modd y cyfrannodd y dirgelwch a'r rhyfeddod a gysylltwyd ag ef at ffurf y mudiad yn y cof cyhoeddus er hynny. Cafwyd ymgais i fabwysiadu'r ymdriniaeth hon wrth edrych ar elfennau eraill o'r Diwygiad yn y traethawd hwn wrth edrych ar natur y cyfarfodydd, cyfraniad y ferch, a lle dylanwadau'r gymdeithas yn y fytholeg. Byddai angen astudiaeth helaethach na'r bennod hon i ddehongli'r holl wybodaeth a geir am ymddygiad a dulliau Roberts. Bydd cyfeirio at gyfarfodydd penodol yma, ond nid ymgais sydd yma i olrhain yr holl ddigwyddiadau ac achlysuron hynny a brofwyd yn gyffrous ac yn ddadleuol a blannwyd yn ganolog i stori Roberts. Y bwriad yma yw manylu ar rai o dueddiadau Roberts ac ambell ddigwyddiad, er mwyn egluro rhai o'r nodweddion a fu'n gyfrifol am sefydlu Roberts fel ffenomen o ffigwr cyhoeddus ar y pryd, ac fel cymeriad o ffigwr ers hynny.

Fel y gwelir yn y man, mae llawer o'r gweithiau hanesyddol diweddar ar y Diwygiad yn ymhél â'r dadleuon ynghylch y graddau y profodd Roberts yn ganolog i'r mudiad ac yn mesur maint a lles ei gyfraniad. Yn y cyswllt hwn, mae priodoli pennod i ganolbwyntio yn arbennig ar Roberts yn fater dadleuol. Yn ogystal, wrth briodoli pennod i astudio Roberts yn unig, dylid cydnabod y nifer o unigolion eraill a fu'n flaenllaw wrth gynnal mudiad y Diwygiad yn lleol ac yn genedlaethol ac a ddaeth i'w hystyried fel diwygwyr ac arweinwyr y mudiad. Roedd nifer o bregethwyr yr enwadau Anghydffurfiol ymysg y rhain. Creffir ar Roberts i raddau helaeth yn y gyfrol *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (1906), ond ceir hefyd fanylion am lawer o'r gweithgarwch a gafwyd o dan arweinwyr eraill. Ceir casgliad o ysgrifau am unigolion a fu'n amlwg yn ystod y Diwygiad yn Roberts Ellis, *Living Echoes of the Welsh Revival 1904-5* (1951). Mewn gwaith mwy diweddar, am wybodaeth hwylus ar rai o arweinwyr y Diwygiad mewn un man, gweler *Nefol Dân, Agweddau ar Diwygiad 1904-05,* a olygwyd gan Noel Gibbard (2004).[1]

Fodd bynnag, dylid pwysleisio nad cyfraniad ymarferol Roberts yn uniongyrchol i fudiad y Diwygiad ar y pryd sy'n mynnu trafodaeth fanwl ohono yn y traethawd hwn, nac ychwaith y gred mai Roberts ydoedd ffynhonnell a chanolbwynt y gweithgarwch. Nid mesur cyfraniad na beirniadu gweithgarwch ac ymddygiad Roberts yn ystod y Diwygiad yw'r nod yma. Yn hytrach, statws Roberts fel ffigwr poblogaidd sy'n mynnu trafodaeth ohono yma. Profodd Roberts fel ffigwr yn ganolog i ffurf y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus ar y pryd, ac ers hynny mae'r dull y cydiodd yr enw 'Diwygiad Evan Roberts' ar y gweithgarwch yn adlewyrchu'r modd y bu'r gred ar led mai eiddo Roberts ei hun oedd y Diwygiad. Eir ati yn y bennod hon i drafod y

[1] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (Dolgellau, 1906); Roberts Ellis, *Living Echoes of the Welsh Revival 1904-5* (Llundain, 1951); Noel Gibbard (gol.), *Nefol Dân, Agweddau ar Diwygiad 1904-05* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2004), tt.22-78.

cwestiynau perthnasol yn y cyswllt hwn gan edrych ar beth oedd rhai o'r nodweddion hynny a berthynai i weithgarwch Roberts a fu'n gyfrifol am gynnal ei statws fel ffigwr canolog yn y Diwygiad? A sut y cyfrannodd yr ymdriniaeth a gafwyd o Roberts yn y gymuned ac yn y wasg at y gwaith o greu stori yn enw Diwygiad 1904-05?

Yn gyntaf, amlinellir cefndir Roberts yn fras a cheir crynodeb o natur ei weithgarwch yn ystod y Diwygiad gan gyflwyno'r wybodaeth gefndirol sylfaenol i'r drafodaeth yma. Yna olrheinir yr amrywiol agweddau a fabwysiadwyd wrth ymdrin â rôl Roberts yn ystod y Diwygiad mewn gweithiau ers hynny, gan fanylu wedyn ar natur y drafodaeth a geir gan haneswyr diweddar. Wedyn, creffir ar Roberts yn ystod y Diwygiad fel ffigwr cyhoeddus, gan gyfeirio at gynrychioliadau o'r nodweddion a drafodir yn ystod y ganrif ers hynny. Ystyrir enwogrwydd Roberts o safbwynt gweithgarwch y wasg a thrafodir dulliau ac ymddygiad Roberts fel elfennau a gyfrannodd at ei statws arbennig. Yna edrychir ar ambell ddigwyddiad penodol a'r syniadau a gafwyd am ei fywyd wedi'r Diwygiad gan edrych yn arbennig ar adeg y canmlwyddiant.

Cafodd Evan Roberts, a anwyd ym Mehefin 1878, ei fagu yng Nghasllwchwr gan deulu cyffredin ar aelwyd grefyddol. Cyfeiriodd R. Tudur Jones at Roberts fel enghraifft 'nodweddiadol o gynnyrch gorau'r ardaloedd diwydiannol Cymraeg yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg', a hyn ymysg nifer o resymau oherwydd fe'i magwyd yn Gymro uniaith a ymddiddorai mewn barddoni a cherddoriaeth.[2] Yn bymtheg oed, roedd Roberts yn athro ysgol Sul, ac fe weithiodd mewn pyllau glo yng

[2] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl, Hanes Crefydd yng Nghymru 1890-1914*, Cyf.2, t.130.

Nghasllwchwr, Blaengarw ac Aberpennar. Ymddengys iddo fabwysiadu arferion yn y cyfnod hwn, gan gynnwys gweddïo hir, a oedd yn arwyddocaol o'i agwedd ddwys tuag at grefydd. Treuliodd gyfnod yn 1902 ar brentisiaeth fel gof, gydag ewythr iddo ym Mhontarddulais, cyn gadael ddiwedd 1903 pan dderbyniwyd ef gan ei enwad, y Methodistiaid Calfinaidd, yn ymgeisydd am y weinidogaeth. Aeth i ysgol baratoawl John Phillips yng Nghastell Newydd Emlyn yng Ngwanwyn 1904, ond ni chafodd erioed ei ordeinio; oddi yno y mynychodd y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn Aberteifi a ystyrir fel cychwyniadau mudiad Diwygiad 1904-05, gan ddod i amlygrwydd mawr.[3]

Byddai'n briodol nodi bod sawl hanesydd wedi olrhain argyhoeddiadau a phrofiadau crefyddol ac ysbrydol Roberts cyn iddo ddod i amlygrwydd yn ôl i'w blentyndod a'i fachgendod. Daeth rhai o'r hanesion am fywyd cynnar Roberts yn rhan o chwedl y ffigwr ar y pryd ac ers hynny. Mae'r stori am Roberts yn neidio i'r dŵr i achub ei gyfaill Jenkin Evans rhag boddi pan oedd yn blentyn, er nad oedd ef ei hun yn gallu nofio, yn enghraifft o hyn, ac wedi ei defnyddio i dystiolaethu i'w natur arbennig.[4] Mae'r hanes am Roberts yn mynd â'i Feibl gydag ef i'w waith yn enghraifft arall, a'r modd y goroesodd y Beibl hwnnw ffrwydriad yn y pwll glo wedi ei adrodd fel gwyrth i ryfeddu ati.[5] Roedd y Beibl hwn ar ddangos yn arddangosfa'r Llyfrgell Genedlaethol ar y Diwygiad ar adeg y canmlwyddiant. Yn ogystal, mae natur grefyddol ddwys Roberts fel bachgen ifanc wedi ei disgrifio mewn sawl man, ac wedi ei sefydlu yn rhan o'r hyn ydyw chwedl Roberts. Gwelir hyn, er enghraifft, mewn

[3] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2, tt.129-131.

[4] Gweler, *Y Diwygiad a'r Diwygiwr*, t.14; D. M. Phillips, *Evan Roberts a'i Waith* (Caerdydd, 1912), t.39, ac ailadrodd y stori hon yn Kevin Adams, *A Diary of Revival, The Outbreak of the 1904 Welsh Awakening* (CWR, Surrey, 2004).

[5] Gweler er enghraifft, Mabel Bickerstaff, *Something Wonderful Happened* (Cronfa Goffa Diwygiad 1904-5, 1954), tt.63-65, a phennod, Brynmor Pierce Jones, 'Schoolboy and Collier Lad' yn ei fywgraffiad, *An Instrument of Revival, The Complete Life of Evan Roberts 1878-1951* (NJ, 1995), tt.1-8 am bortread o'r hanesion hyn a ffotograff o'r Beibl o dan sylw.

portread o'r cyfnod y treuliodd Roberts ym Mhontarddulais yn gweithio yn efail ei ewythr yn *Yr Hen Bwerau,* sef detholiad o ddyddiadur dychmygol Roberts o waith Ifor ap Gwilym. Nodwyd yng nghofnod gyntaf y dyddiadur, o dan y dyddiad Gwener, 13 Tachwedd 1903:

> Ar ôl y cwrdd Gweddi yn Libanus Yr Hendy bum wrthi'n darllen fy Meibl yng ngolau'r lamp fach ar y bwrdd. Ymgollais gymaint yn y geiriau dwyfol nes 'roedd hi'n dri o'r gloch y bore arnaf yn troi am y gwely.[6]

Daeth Roberts i amlygrwydd yn ystod mis Medi 1904 tra'r oedd yn mynychu'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn Aberteifi gan Seth Joshua, Joseph Jenkins ac eraill. Dylid nodi y ceir adroddiadau sy'n cofnodi arferion a gweithgarwch Roberts yn ystod y misoedd cyn iddo ddod i amlygrwydd. Ceir sawl hanes sy'n disgrifio'r profiadau a gafodd Roberts mewn cyfnodau o weddïo a myfyrio personol. Roedd y cyfnodau hyn yn destun trafod a daethant yn rhan o'i chwedl, yn enwedig o safbwynt y modd y mynegwyd iddo brofi gweledigaethau a phrofiadau ysbrydol. Mae ysgolheigion wedi mynd ati i ddehongli'r darluniau y dywedodd Roberts iddo'u gweld ar yr adeg hon ac yn ystod y Diwygiad.[7]

Wedi'r profiad ysgytwol hwnnw mewn cyfarfod ym Mlaenannerch, a ystyriwyd yn ôl sawl cofnod gan Roberts ei hun fel trobwynt yn ei feddylfryd, dychwelodd i Gasllwchwr gyda'r bwriad o weithio ymysg y bobl ifanc. Yn ôl cofiant D. M. Phillips, dywedodd Roberts am ei brofiad, 'Llefwn allan, plyg fi; plyg fi, plyg ni! O! O! O! O! O! Wrth sychu fy chŵys, dywedodd Mrs Davies, "O! ryfedd ras!!" "Ie," meddwn innau, "O ryfedd ras!!" Duw yn canmol ei gariad a'm plygodd i, a minnau

---

[6] Ifor Ap Gwilym, *Yr Hen Bwerau, Detholiad o Ddyddiadur Dychmygol Evan Robert*s *Y Diwygiwr* (Abertawe, 2004, cyhoeddwyd yn gyntaf yn 1981), t.1.

[7] Ceir disgrifiad o rai o'r gweledigaethau o dan sylw, yn *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*, tt.45-47. Rhoddodd yr hanesydd celf John Harvey seminar ar 'The Agony in the Garden: The Visions of Evan Roberts and the 1904-5 Welsh Revival' yng nghynhadledd 'Diwygiad, Adnewyddiad a'r Ysbryd Glân' Prifysgol Bangor yn Mehefin 2004 a gweler ei ysgrif 'Spiritual Emblems: The Visions of the 1904-5 Welsh Revival ' yn *Llafur* 6/2, 1993, tt.75-93.

heb weled dim ynddo i'w ganmol.'[8] Rhoddodd y profiad hwn amlygrwydd i Roberts yn lleol a thu hwnt, a bu'r geiriau a lefarwyd ganddo yn ddylanwadol ar elfen o feddylfryd a rhethreg y mudiad. Cofnododd y Parch. T. Francis, Gorseinon yn ei gofnod o'r hanes hwn yn y gyfrol *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*: 'A'r frawddeg a'i cwympodd ef ei hun yw'r ordd sydd ganddo'n dryllio calonau. "Plyg ni, Arglwydd!" Swnia hon yng nghlustiau tyrfaoedd erbyn hyn, a thonau amser nis golchant hi o gof plant Diwygiad 1904.'[9]

Wedi dychwelyd i Gasllwchwr, trefnwyd ymgyrch gan Roberts a chyfeillion i ymweld â rhannau eraill o Gymru i gyflawni'r dasg o achub can mil o eneidiau. Roedd y can mil o eneidiau yn ffrwyth un o'r gweledigaethau yr honnodd Roberts iddo'u profi, pan welodd y ffigwr o'i flaen ar bapur gwyn.[10] Mae'n sicr bod y sôn am weledigaethau, a'r syniad fod Roberts yn cyfathrebu â ffynhonnell oddi uchod yn gyfrifol am feithrin dirgelwch a diddordeb yn y gŵr. Yn ystod misoedd olaf y flwyddyn 1904 a gwanwyn 1905 gwelwyd ef yn ganolbwynt ymgyrchoedd ganddo ef a'i gyfeillion, a diwygwyr a chantorion yn eu mysg, drwy Gymru, lle y gwelwyd Roberts yn annerch ac yn arwain rhyw ddau gant a hanner o gyfarfodydd (cyfrifon R. Tudur Jones y bydd cyfeirio atynt yn y man). Yn ŵr chwech ar hugain oed, profodd ei weithredoedd a'i amcanion ynghyd â'i gyfeillion yn ffenomen o'r cychwyn. Adroddwyd y gweithgarwch yn y wasg genedlaethol, a'i priodolodd fel cychwynnydd ac arweinydd mudiad y Diwygiad. Bu'r honiad hwn yn benodol yn destun beirniadaeth o sawl cyfeiriad ar y pryd ac yng ngwaith haneswyr ers hynny. Fodd bynnag, dyrchafwyd statws Roberts fel 'Evan Roberts y Diwygiwr', a phrofodd enwogrwydd yn genedlaethol yng Nghymru a thu hwnt yn ystod misoedd y

[8] D. M. Phillips, *Evan Roberts a'i waith* (Dolgellau, 1912) tt.160-161.
[9] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*, t.56.
[10] Gweler D. M. Phillips, t.218.

Diwygiad. Cafwyd manylion am gyfarfodydd Roberts a disgrifiadau manwl o'i edrychiad a'i ymddygiad yn ogystal â ffotograffau ohono yn y wasg leol a chenedlaethol. Cyfeiriwyd at Roberts yn ymdriniaethau papurau Llundain o'r Diwygiad hefyd. Mae'n sicr y sefydlwyd Roberts yn brif gymeriad ar ffurf y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus ar y pryd. Ceir trafodaeth o natur gweithgarwch Roberts o safbwynt ei arwyddocâd wrth roi ffurf i fudiad y Diwygiad fel ffenomen gyhoeddus yn y man, wrth graffu ar nodweddion ar stori'r Diwygiad. Cyn gwneud hyn edrychir ar yr agweddau a fabwysiadwyd tuag at Roberts yn ystod y ganrif ers hynny a chael golwg ar yr hyn a ddywedwyd gan haneswyr diweddar hefyd.

Ers 1904-05 gwelir agweddau penodol tuag at Roberts yn nodweddu cyfnodau arbennig, sy'n ddigon dealladwy gyda threigl y ganrif. Gellir ystyried y gweithiau a ymddangosodd yn ystod y degawd yn dilyn y Diwygiad fel y llif cyntaf o lenyddiaeth a geir ar Roberts. Mae pegynnu barn ar ei gyfraniad i'r Diwygiad yn sicr yn nodweddu cynnyrch y cyfnod hwn. Ystyrir cofiant Roberts gan D. M. Phillips, *Evan Roberts a'i Waith* (1912, ac a gyhoeddwyd yn Saesneg yn 1906), fel y gwaith mwyaf clodfawr o weithgarwch Roberts yn ystod y Diwygiad.[11] Cyfieithwyd y gyfrol sylweddol hon i dair iaith. Disgrifiodd Menna Davies y gyfrol ymysg gweithiau eraill Phillips fel parhad o weithgarwch y Diwygiad ac fel rhan o ymgais rhai o arweinwyr crefyddol yr ugeinfed ganrif 'i ddod â'r traddodiad Cristnogol uniongred i mewn i'r byd modern.'[12] Gellir ystyried ymddangosiad cynnar y gwaith (yn draddodiadol ar ddiwedd oes y gwrthrych yr eir ati i gofiannu) yn gynnyrch ymgais i sefydlu Roberts fel ffigwr hanesyddol o bwys, a'r Diwygiad fel mudiad yn un teilwng i'w ystyried yng

[11] D. M. Phillips, *Evan Roberts a'i Waith*.
[12] Menna Davies, 'Traddodiad Llenyddol y Rhondda', traethawd doethur, cyflwynedig i Brifysgol Aberystwyth, 1981, t.236.

nghyd-destun y traddodiad diwygiadol Cymreig. Yn wir, mae amcanion Phillips yn hyn o beth yn amlwg. Nodwyd:

> Edrychwch dros ysgwyddau cenhedlaethau i ddyfod, a chewch weled pobl dduwiol ar eu ffordd i weled genedigol fan y Diwygiwr mwyaf gododd yng Nghymru hyd yn hyn. Wrth ddyweyd hyn nid ydym yn anghofio Diwygwyr anfarwol a gododd y genedl yn y gorphenol. Eithir ar ol rhoddi ystyriaeth lawn iddynt hwy, rhaid cydnabod na chynhyrfwyd y wlad i'r fath raddau mewn ychydig fisoedd gan neb o honynt a chan Evan Roberts o Gasllwchwr.[13]

Mae Llion Pryderi, mewn erthygl ar y gyfrol, yn atgoffa'r darllenydd fod clodfori'r gwrthrych yn gonfensiwn a berthynai i'r cofiant, a phrofodd y cofiant i fod yn un o'r prif ffurfiau llenyddol yn y Gymraeg yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif. Ond serch hyn, nododd: 'Efallai nad oes yma lurgunio bwriadol ar ffeithiau bywyd Evan Roberts na digwyddiadau'r Diwygiad, ond y mae absenoldeb unrhyw fath o feirniadaeth yn peri i ddyn amau fod gan yr awdur agenda bendant wrth gyhoeddi'r gwaith.'[14] Aeth ymlaen i nodi fod y 'delfrydu diddiwedd ar gymeriad Evan Roberts a'r defnydd cyson o ormodiaith...weithiau yn ymylu ar fod yn chwerthinllyd'. Yn wir, mewn sawl man, gosodir hanes Roberts ochr yn ochr â hanes Iesu Grist:

> Bydd graddau y dyddordeb a gymerir mewn lle genedigol un yn gyfatebol i raddau ei fawredd yn hanes gwlad neu genedl. Gwelir hyn yn amlwg iawn yn awydd dynion ar hyd yr oesau i weled Bethlehem, lle daw Gwaredwr y byd...Priodol dyweyd fod Casllwchwr wedi ei hanfarwoli ar gyfrif ei enedigaeth ef [Evan Roberts] a genedigaeth nerthol y Diwygiad ynddi...Gwneir pererindodau gan rai i weled Casllwchwr yn yr oesau a ddaw, ac yn enwedig i weled Bwlchymynydd, ac Island House - tŷ rhieni y Diwygiwr.[15]

Ychydig yn ddiweddarach, yn 1909, cyhoeddwyd *The Welsh Religious Revival, 1904-05, A Retrospect and a Criticism* gan J. Vyrnwy Morgan. Ceir yn y gyfrol y

[13] D. M. Phillips, *Evan Roberts a'i Waith,* t.3.
[14] Llion Pryderi, 'Cofiannu a Chyfreithloni' yn *Taliesin* 124, 2005, t.35. Mae'r ysgrif yn gynnyrch prosiect ymchwil ehangach, 'Perfformio o'r Pulpud', Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.
[15] D. M. Phillips *Evan Roberts a'i Waith*, tt.1-2.

feirniadaeth yr ystyrir ei bod gyda'r mwyaf llym o rôl Roberts yn ystod y Diwygiad.[16] Dylid nodi, o safbwynt yr astudiaeth yn y bennod hon, fod Morgan yn cyfeirio at ansawdd Roberts fel creadigaeth o ffigwr yn y Diwygiad. Dywed yn ei frawddeg agoriadol ar Roberts: '*Now that the excitement of the Revival is over, and the nation has regained its sanity, we are able to look more dispassionately upon the career of a man who, for a brief period, loomed largely in the imagination of the people.*'[17] Mae Morgan yn dryllio llawer o'r delweddau am Roberts sy'n ymddangos yng ngwaith Phillips. Ceir beirniadaeth o'i ymddygiad a cheir delwedd o Roberts fel cymeriad dinistriol:

> *Evan Roberts was moody, erratic, critical. The people were better than he seemed to think they were. This was one of the tragedies of the Revival. His view of human nature was unkind and often unjust. His mind bound by conventional conceptions, more felt than understood; his outlook was blighted by the tenets of a severe theology which he had inherited, but the essence and application of which he did not understand.*[18]

Er gwaethaf beirniadaeth lem Morgan ceir ymdriniaeth ddifrifol o rôl Roberts ac ystyrir yr hyn a oedd yn cymell ei ymddygiad. Yn ogystal, yn hynod o berthnasol i'r astudiaeth o Roberts a geir yn y fan hon, ceir cydnabyddiaeth yn y gwaith o ddylanwad Roberts fel ffigwr poblogaidd a disgrifiad o'i ddelwedd yn y stori:

> *There is one vision at least of whose objective reality there can be no doubt: the ideal abides. The vision was that of a man young in years, who in the declining months of 1904, went through a rebirth of spiritual passion, and who girded himself for one brave resolute grapple with powers of evil, with the best books in his hands, the law of truth written upon his lips, the world behind his back, proclaiming the great apostolic note of warning and of appeal.*[19]

[16] J.Vyrnwy Morgan, *The Welsh Religious Revival, 1904-05, A Retrospect and a Criticism* (Llundain, 1909).
[17] J.Vyrnwy Morgan, t.49.
[18] J.Vyrnwy Morgan, t.69.
[19] J.Vyrnwy Morgan, t.80.

Gellir deall gweithiau Phillips a Morgan yn begynau ar yr agweddau a gafwyd tuag at Roberts ar y pryd, ac ers hynny mae haneswyr wedi parhau i ymhél â'r sbectrwm o ddehongliadau o fewn y fframwaith hwn.

Fel y nodwyd eisoes ym mhennod 1, ni fu'r degawdau dilynol yn gynhyrchiol o ran hanesyddiaeth yn y maes. Serch hyn, yn y gweithiau a ymddangosodd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif gwelwyd Roberts yn destun canolog. Gan ganolbwyntio ar Roberts a'r Diwygiad cyfrannodd ysgrif Norman Williams, 'Evan Roberts and the 1904-05 Revival' (1968), at yr hanesyddiaeth sy'n gosod Roberts yn ganolog i weithgarwch y Diwygiad.[20] Ystyrir gwaith Eifion Evans gan sawl hanesydd gyda'r mwyaf brwd i gysylltu gweithgarwch y mudiad â Roberts, ac mae gwaith Brynmor Pierce Jones, yn ei gofiant i Roberts, *An Instrument of Revival, The Complete Life of Evan Roberts 1878-1951* (1995), yn naturiol yn ei osod yn ganolog i weithgarwch y mudiad.[21] Yn unol â'r hyn a fynegwyd gan y wasg genedlaethol ar y pryd cyfeiriwyd at Roberts gan yr haneswyr Gwyn A. Williams a Kenneth O. Morgan fel cychwynnydd y mudiad, a chythruddwyd ambell ysgolhaig o ganlyniad.[22] Nododd R. Tudur Jones am hanesyddiaeth y Diwygiad: 'Mae'n bryd gosod yr holl drafodaeth ar seiliau cadarnach a rhoi ei le cyfyngedig i Evan Roberts'. O'r degau o filoedd o gyfarfodydd a gafwyd yng Nghymru rhwng 1904 ac 1906, nododd y dylid cofio mai tua dau gant a hanner o gyfarfodydd y bu Roberts yn bresennol ynddynt.[23] Gellir ystyried yr ymateb hwn yn unol â'r agwedd a fabwysiadwyd gan haneswyr diweddar

[20] Norman Williams, 'Evan Roberts and the 1904-5 Revival' yn Stuart Williams (gol.) *Glamorgan Historian*, Cyf.5 (1968).
[21] Brynmor Pierce Jones, *An Instrument of Revival, The Complete Life of Evan Roberts* (NJ, 1995).
[22] Mae Gwyn A. Williams yn ei *When Was Wales?* (Llundain, 1985), t.240 a Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation* (1982, Rhydychen), t.79, yn nodi mai gyda Roberts yng Nghasllwchwr y cychwynnodd y mudiad, tra bod eraill wedi dadlau y profwyd dylanwadau'r mudiad cyn y dyddiad hwn a chyn i Roberts ddod i amlygrwydd.
[23] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2, t.214.

sy'n ymdrin â'r ddelwedd unffurf o'r Diwygiad sydd ar led. Cyfeiriwyd at hyn mewn mannau eraill, er enghraifft, o safbwynt ffurf y cyfarfodydd ym mhennod 2 a lle'r ferch ym mhennod 3. Mae gwaith diweddar Robert Pope yn cyfeirio at y cyfrifon hyn a cheir ymdrechion yn ei waith i osod gweithgarwch Roberts yn y cyd-destun hwnnw.[24] Serch hyn, ceir cyfeiriadau digon cyffredinol at Roberts fel arweinydd y Diwygiad gan ysgolheigion mewn sawl astudiaeth ddiweddar hefyd.[25]

Fel yr awgrymwyd eisoes yn y traethawd hwn, yn y gwaith ysgolheigaidd a ymddangosodd ar adeg canmlwyddiant y Diwygiad gwneir ymdrech gan sawl ysgolhaig i ymdrin â Roberts fel prif gymeriad y Diwygiad, yn hytrach nag fel arweinydd y mudiad a ffynhonnell y gweithgarwch, ac yn hyn o beth heriwyd y cysyniad o 'Ddiwygiad Evan Roberts'.[26] Fel y gwelir yn y bennod hon, gellir deall natur gweithgaredd Roberts yn ystod y Diwygiad yn sail i drafodaeth o'r fath. Serch hyn, mae'n debygol y gwelwyd awydd pellach i herio'r cyswllt a wnaed rhwng Roberts a'r Diwygiad ar adeg y canmlwyddiant oherwydd bod llawer o'r gweithgarwch ar yr adeg hon yn bwydo'r ddelwedd o'r Diwygiad fel eiddo Roberts. Gwelwyd hyn yn y gwaith newyddiadurol a chreadigol a ymddangosodd ar yr adeg hon, y bydd cyfeirio atynt yn y man, a gwelwyd sefydlu Roberts fel ffigwr dadleuol ac enigmatig yn chwedl y Diwygiad, ganrif yn ddiweddarach.

---

[24] Er enghraifft, gweler Robert Pope, 'Dadfythu Diwygiad "Evan Roberts"' yn *Y Traethodydd* Gwanwyn 2004.

[25] Er enghraifft, gweler J. Gwynfor Jones, 'Ebychiad mawr olaf Anghydffurfiaeth yng Nghymru': Diwygiad 1904-05' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* 2004, Cyfres newydd, Cyfrol 11, 2005, t.106.

[26] Er enghraifft, mae Geraint Tudur yn ei ysgrif 'Evan Roberts and the 1904-5 Revival' yn *The Journal of Welsh Religious History*, Cyfres newydd, Cyf.4, 2004, yn pwysleisio yn ei gasgliadau nad Roberts oedd canolbwynt yr holl weithgarwch.

Ers blynyddoedd 1904-05 gellir ystyried natur y drafodaeth a gafwyd ymysg haneswyr yn gyfrifol am gynnal Roberts fel ffigwr dadleuol, drwy gynnal y drafodaeth a gafwyd ar y pryd ynghylch maint a lles ei ddylanwad. Ymhellach, gellir dadlau y gwelwyd haneswyr yn cynnal Roberts fel ffigwr gwrthrychol gan roi'r un math o brosesau ar waith ag a welwyd ar y pryd wrth roi ffurf i fudiad y Diwygiad, fel mudiad dadleuol gyda Roberts yn ben arno. Gwelir yr un broses ar waith o safbwynt agweddau eraill ar y Diwygiad a drafodir yn y traethawd hwn, er enghraifft yn y drafodaeth a geir gan haneswyr ar ffurf y cyfarfodydd ym mhennod 2 ac ar rôl y ferch ym mhennod 3. Gwelir hyn yn ogystal wrth edrych ar ffuglen a newyddiaduraeth hefyd. Er enghraifft, mewn gweithiau o'r fath, (cyfeirir at rhai ohonynt ym mhennod 4), ceir ymgais i ddryllio rhai o'r delweddau sy'n ganolog i stori'r Diwygiad. Mae'r gweithiau o ganlyniad i'w gweld yn sgwrsio â'r stori honno, gan gynnal y Diwygiad yn ei ffurf fel stori ddadleuol. Yng nghyswllt Roberts, yn yr un modd, gwelir haneswyr yn ymateb i ddelwedd o'i rôl yn y Diwygiad fel arweinydd a phen y mudiad, mewn ymgais i gywiro'r darlun hwn. Trwy hyn gwelir y Diwygiad yn ei ffurf fel mudiad dadleuol, ac yn destun trafod, fel yr oedd ar y pryd, yn cael ei gynnal. Yn hyn o beth, mae natur yr hanesyddiaeth yn dystiolaeth o fodolaeth y ddelwedd hon o'r Diwygiad yn y meddwl poblogaidd ac yn chwedl y Diwygiad.

Yn ogystal, wrth gwrs, gellir ystyried y gweithiau diweddar hyn sy'n ail-asesu cyfraniad Roberts yn ymateb i'r statws a'r enwogrwydd a fabwysiadodd yn ystod y Diwygiad ac yn ymdrechion i gynnig golwg feirniadol ar ei weithgarwch. Gellir gweld bod yr hanesyddiaeth gynnar ar Roberts, sy'n ei glodfori a'i feirniadu, ac yn ei osod yn ganolog i weithgarwch y mudiad hefyd yn sbardun i asesu maint ei gyfraniad o'r newydd. Ymysg y ffactorau eraill y gellir eu deall fel rhai sy'n gyfrifol am yr

awydd ar y pryd, ac ers hynny, i gynnig ei le cyfyngedig i Roberts yn y mudiad, y mae'r awydd i ddangos nad grym dynol a oedd wrth wraidd y gweithgarwch, a hynny yn naturiol o safbwynt natur sylfaenol y mudiad fel diwygiad crefyddol. Fodd bynnag, yr un pryd dylid cofio wrth gwrs i'r gred fod dylanwadau dwyfol ar waith brofi'n ganolog i'r modd y dyrchafwyd statws Roberts ar y pryd, ac ers hynny, oherwydd y modd yr ystyriodd ef ei hun ac eraill ei fod yn offeryn yn llaw'r Ysbryd.

Mae ysgolheigion wedi trafod rôl unigolion amlwg mewn adfywiadau crefyddol fel cymeriadau poblogaidd. Gan gyfeirio at ddiwygiadau yng Nghymru ers y ddeunawfed ganrif, nododd Richard Carwardine: '*...the preacher himself came to take on the character of a folk hero, and the prospect of a visit from a celebrated preacher invariably promoted intense excitement and expectancy.*' [27] Gellir gweld bod Roberts wedi mabwysiadu'r statws hwn er nad oedd wedi ei hyfforddi yn llawn yn y weinidogaeth nac yn rhoi pregethau mawr. Mae nifer o haneswyr wedi cyfeirio at Roberts fel ffigwr poblogaidd. Ynghylch ei enwogrwydd nododd R. Tudur Jones er enghraifft: 'Bu mwy o drafod cydwladol ar Evan Roberts nag unrhyw Gymro arall, ar wahân efallai i Lloyd George a'r Brenin Arthur.'[28] Ymhellach, mae Robert Pope yn cyfeirio at 'Ddiwygiad Evan Roberts' fel cynnyrch 'gormodedd y cyfryngau', 'olion cof gwerin' a chysyniad sy'n fyw iawn yn meddwl y cyhoedd. Wrth gwestiynu pam mae hyn, nododd fod dulliau a phersonoliaeth garismataidd Roberts, a'r sgandal a'i hamgylchynodd yng nghyswllt y merched a deithiai gydag ef, yn gyfrifol am ennyn diddordeb yn y gŵr. Mae Pope yn priodoli gwaith y *Western Mail* a'r *South Wales Daily News* yn gyfrifol am ddwysáu'r diddordeb hwn, gan greu darlun o'r mudiad fel

[27] Richard Carwardine, *Transatlantic Revivalism, Popular Evangelicalism yn Britain and America 1790-1865* (Westport, Connecticut, Llundain, 1978), t.87.
[28] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2, t.212.

un a gychwynnodd gyda Roberts yng Nghasllwchwr.[29] Amcan Pope yw dymchwel y gred boblogaidd mai 'Diwygiad Evan Roberts' ydoedd y mudiad. Yn hyn o beth, mae ei waith yn cyfrannu at y drafodaeth gan ysgolheigion diweddar ynghylch haeddiant Roberts o'r statws a fabwysiadodd ar y pryd ac ers hynny fel perchennog y mudiad. Fel mewn gweithiau eraill sy'n dadlau bod digwyddiadau'r Diwygiad y tu hwnt i gylchdro Roberts yn unig, olrheinir y gweithgarwch a gafwyd yng Nghymru cyn i Roberts ddod yn amlwg, a'r dylanwadau a gafodd y mudiad ar ardaloedd a chapeli lle na fu Roberts yn bresennol, ac amlygir gweithgarwch unigolion eraill a fu'n flaenllaw wrth gynnal y mudiad.

Fel y nodwyd eisoes, cyhoeddwyd adroddiadau a chofnodion helaeth am weithgarwch Roberts yn y cyfarfodydd y bu'n bresennol ynddynt ar y pryd sy'n cynnwys llawer o wybodaeth am ei ddulliau, ei ymddygiad a'i weithredoedd. Mae'n sicr bod gan y wasg ran ganolog yn y gwaith o sefydlu Roberts fel ffigwr a phersonoliaeth gyhoeddus ar y pryd. Yn enw Roberts rhoddwyd gwedd genedlaethol a chyhoeddus unffurf i'r Diwygiad, a gwelwyd y wasg yn flaenllaw yn cynnal y ddelwedd hon ohono. Nodwyd yn *Baner ac Amserau Cymru*, 23 Tachwedd 1904:

> Ar y bryniau, yn y cymoedd, nid yw pawb yn meddwl am ddim nac yn siarad am neb ond Evan Roberts, y pregethwr diwygiadol; y dyn ieuanc sydd yn foddion i osod y mwyaf difraw, megys ar dân gan frwdfrydedd, a gwneyd i'r annychweledigion lefain am drugaredd...[30]

Gwelwyd enwogrwydd Roberts yn dylanwadu ar natur y gweithgarwch mewn sawl man. Nodwyd yn *Y Cymro,* Ionawr 1905, am gyfarfodydd y bu Roberts yn bresennol ynddynt ym Mhenygraig a Williamstown yn y Rhondda Ganol, 'Ymdrechid gan

[29] Robert Pope, 'Dadfythu 'Diwygiad Evan Roberts'' yn *Codi Muriau Dinas Duw* (Caernarfon, 2005), Cyhoeddwyd yn *Y Traethodydd* (2004) tt.133-152.
[30] *Baner ac Amserau Cymru*, 23 Tachwedd 1904, t.15.

dyrfaoedd i weled a chlywed y Diwygiwr, ond nid cywreinrwydd ydoedd yr achos o hyny, ond awydd dilys am deimlo y nerthoedd sy'n cyd-fynd â'i eiriau.'[31] Gwelir yma rhywfaint o gyfiawnhau ar y cynnwrf a achosodd. Yn gyffredinol yn y wasg cafwyd portread o Roberts fel gŵr ifanc a chanddo bersonoliaeth dda yn cael ei ddefnyddio fel offeryn yn llaw'r Ysbryd. Gwnaed hyn gan atgyfnerthu'r syniadau fod ei brofiadau a'i weithredoedd yn ffenomen. Fodd bynnag, er gwaetha'r mawrygu a wnaed yn y wasg genedlaethol o rôl Roberts yng ngweithgarwch y Diwygiad, mae'n amlwg fod syniadau eraill ynglŷn â lle Roberts yn y mudiad ar led. Nodwyd yn *Y Diwygiwr*, Ionawr 1905:

> Ond, er bod y brawd ieuanc Evan Roberts yn elfen amlwg a gwerthfawr yn y deffroad presennol, yr ydys yn cael profion lluosog nad yw ei *bresenoldeb* a'i waith ddim yn hanfodol i lwyddiant a lledaeniad y symudiad, oblegyd y mae'r tân wedi tori allan mewn lluaws o fannau na bu ef ynddynt o gwbl...[32]

Mae lle i gredu felly bod terfynau ar ddylanwad syniadau'r wasg genedlaethol ynglŷn â chyfraniad Roberts i'r mudiad ar y pryd, ac o bosib y dylid cydnabod yn y fan hon bod ffiniau i rôl Roberts fel ffigwr poblogaidd hefyd. Yn amlwg, roedd gan unigolion a chymunedau eu profiadau eu hunain o ddylanwadau'r mudiad ar waith. Roedd llawer o'r gweithgarwch yn brofiadau personol i nifer, a llawer o'r gweithgarwch cyhoeddus, yn y capeli er enghraifft, yn digwydd yn annibynnol ar Roberts. Serch hyn, gellir dadlau bod y cysyniad fod ffigwr fel Roberts yn bod ac ar waith yn gymorth i gynnal y syniad fod y Diwygiad fel mudiad yn bod, a hynny ar lefel y tu hwnt i'r gymuned leol. Er bod y nifer o gyfarfodydd a fynychodd Roberts yn gyfyngedig, mae lle i gredu bod ei ddylanwad fel ffigwr a ffenomen boblogaidd ar ardaloedd a chapeli lle na fu yn bresennol, a bod ei rôl yn ymwneud â chynnal y

[31] *Y Cymro*, 5 Ionawr 1905, t.6.
[32] *Y Diwygiwr*, Ionawr 1905, t.11.

Diwygiad fel mudiad cyhoeddus a phoblogaidd. Gellir deall Roberts fel pen ar ddimensiwn penodol o weithgarwch y Diwygiad yn hyn o beth.

Lliwiodd meddylfryd Roberts o ufudd-dod i'r Ysbryd y ddeialog rhyngddo â'r wasg. Roedd Roberts yn gyndyn i gael ei gyfweld ac o ganlyniad roedd newyddiadurwyr i'w gweld yn adrodd hanes eu profiadau wrth gyfathrebu ag ef. Gwelwyd cyfathrach gohebwyr gyda Roberts yn destun trafod yn eu hadroddiadau. Holwyd ef gan ohebydd y *Daily Chronicle* yn Aberdâr: 'Beth ydych chi'n mynd i wneud?', dywedodd, 'Ei wneud? Sut y gwn i? Af i rywle fel y bydd yr Ysbryd yn fy ngalw.'[33] Mae sawl enghraifft debyg. Dywedodd Roberts wrth un o ohebwyr y *Western Mail* yn Ionawr 1905: 'I have nothing whatever to tell you. I know nothing but what I am told by the holy spirit.'[34] Cofnododd 'Llygad Llwchwr', y newyddiadurwr W.Anthony Davies, yn ei ddyddiadur ar 23 Mawrth 1905: 'Cwrdd ag Evan Roberts am y tro cyntaf. Ar y ffordd i Fwlchymynydd gyda chyfaill, gwelais ef yn cerdded tuag atom. Gofynnais un cwestiwn iddo, ond gwrthododd ateb. Yr oedd yn amhosibl iddo, meddai, ddweud dim am ei drefniadau. Aeth i'w ffordd'.[35] Datblygodd Roberts yn ffigwr enigmatig ac yn wrthrych a ddefnyddiwyd gan y wasg wrth roi ffurf i'r Diwygiad fel stori i'w rhyfeddu ati. Gwelwyd y wasg yn defnyddio Roberts, ymysg ffenomenau eraill a drafodir yn y traethawd hwn, gan gynnwys y gynulleidfa yn meddiannu'r cyfarfodydd, amlygrwydd y ferch yn y gweithgarwch a dylanwadau'r Diwygiad ar arferion y gymdeithas, at y pwrpas hwn. Fel ar y pryd, mae gweithgarwch y wasg yn ei pherthynas â Roberts yn sicr wedi aros yn rhan o chwedl y Diwygiad. Ar adeg y canmlwyddiant, er enghraifft, yn y sioe 'Amazing Grace',

[33] Ceir yr erthygl yn *Baner ac Amserau Cymru*, 23 Tachwedd 1904, t.15.
[34] Pamffledi Awstin, Revival Edition, 2 Ionawr 1905, t.4.
[35] W. Anthony Davies, J Ellis Williams (gol.) *Berw Bywyd* (Llandysul, 1968), t.23.

portreadwyd Roberts fel pyped yn nwylo'r wasg.[36] Cafwyd golygfa lle roedd Roberts yn dawnsio o gylch y llwyfan fel pe bai yn hongian ar linynnau, ac yn gafael yn y llinynnau roedd newyddiadurwyr y wasg. Roedd y ddelwedd yn un druenus o Roberts. Eto, gwelwyd y fath ddehongliadau yn cynnal y drafodaeth ar Roberts a'i le fel ffigwr dadleuol y Diwygiad.

Gwelwyd adroddiadau yn rhoi sylw manwl i natur yr iaith a ddefnyddiai Roberts i gyfathrebu, iaith ei gorff, ei ymddygiad a'i olwg. Gwelwyd rôl Roberts fel ffigwr gwrthrychol yn datblygu wrth i gynnwys yr adroddiadau ymwneud â disgrifio manylion amdano. Meddai adroddiad yn *Baner ac Amserau Cymru* 23 Tachwedd 1904: 'Rhydd ei atebion o'r bron oll mewn geiriau unsill...Nid ydyw ei ddwylaw yn llonydd am foment; a'i lygaid ydynt lawn mor aflonydd a'i ddwylaw.'[37] Mae'n amlwg y mabwysiadwyd confensiynau wrth ei ddisgrifio. Gwelwyd ei ymddangosiad yn profi'n rhan ganolog o'i gymeriad cyhoeddus. Yn hyn o beth gwelir ansawdd Roberts fel ffigwr gwrthrychol. Nodwyd yn *Y Genedl Gymreig,* 29 Tachwedd 1904:

> Nid oes dim neillduol yn ei ymddangosiad. Bachgen ieuanc, ydyw ef, oddeutu 24 neu 25 mlwydd oed. Nid yw ond cyffredin o ran taldra, o adeilad corphorol braidd yn eiddil; gwallt brown tywyll, mi debygwn, o'r lle yr oeddym yn eistedd, llygaid duon treiddgar, eiliau tenau, a thalcen uchel, gwyneb wedi ei eillio'n lân.[38]

Cyfeirir at ei lygaid treiddgar yn y darn uchod. Cydiwyd yn y disgrifiad hwn ac fe'i gwelir mewn sawl portread o Roberts. Cyfeiriwyd yn aml at ei wên hefyd. Mewn disgrifiad arall yn yr un rhifyn o'r *Genedl Gymreig,* nodwyd:

---

[36] Cynhyrchiad The Wales Theatre Company, 'Amazing Grace', gan Mal Pope, a berfformiwyd yn y prif theatrau yng Nghymru yn ystod 2004 -2006.
[37] *Baner ac Amserau Cymru*, 23 Tachwedd 1904, t.15.
[38] *Y Genedl Gymreig*, 29 Tachwedd 1904, t.7.

> Gwyneb rhadlon a gwen toddhaus yn daeredig drosto; hollol naturiol ym mhob - peth; llygaid bywiog a threiddgar yn edrych ym myw llygaid y gynulleidfa...[39]

Nodwyd am Roberts mewn cyfarfod yn Nantymoel mewn adroddiad a geir yn y gyfrol *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (1906):

> Y mae rhywbeth yn anghyffredin yn ei ymddangosiad. Medda ddau lygad sydd yn siarad cyfrolau; a gwen na welais ei thebyg. Clywais lawer am hyn, ond ni fynegwyd yr haner. Weithiau gwelid cymylau o bryder ar ei wyneb, pryd arall lawenydd digymysg, weithiau ystorm ddrycinog, bryd arall heulwen hafaidd. Ni welais wyneb mor fynegiadol o ystad ysbryd dyn erioed ag yw eiddo y Diwygiwr. Y mae'n arbennig yn hyn. Medda lygaid sydd yn edrych trwy y gynulleidfa. Gorfodir pawb i fod yn onest o'i flaen. Yn wir, y mae rhywbeth yn ei wynebpryd sydd yn mesmereisio dynion.[40]

Sylwer ar debygrwydd y disgrifiadau a'r modd y nodir am lygaid a gwên Roberts – 'clywais lawer am hyn'. Mae'n amlwg roedd golwg ag ystumiau Roberts yn rhan o'r stori fawr a sefydlwyd eu disgrifio yn gonfensiwn mewn adroddiadau amdano. Cafwyd y disgrifiad canlynol yn y *Times* 3 Ionawr, 1905:

> *Looking at him from the gallery and at close quarters, we were at once struck with his apparent weakness and delicacy. The thin, pallid face, the voice subdued but clear, the whole speech and manner gave no hint of vigour or power. One thing riveted attention. The eyes seemed to fasten on the congregation with a glare and a grip.*[41]

Ymhellach, gwelir yn y darn canlynol yn *Y Diwygiwr*, Ionawr 1905, y modd y dylanwadodd yr ymdriniaeth hon o Roberts ar yr agweddau a fabwysiadwyd ar lawr gwlad. Nodwyd: 'Y mae dyn ieuanc o gymdogaeth Nantlle o'r enw Evan Lloyd Jones - dyn ieuanc oddeutu 20 oed - hynod debyg yn ei ddull a'i ymddangosiad i Evan Roberts yn tynnu cryn sylw ac yn cario dylanwad mawr.'[42] Gwelir yma, fel y nodwyd ym mhennod 3 wrth gyfeirio at stori Mrs Jones Llanegryn, y modd y daeth unigolion

---

[39] *Y Genedl Gymreig*, 29 Tachwedd 1904, t.3.
[40] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*, t.334.
[41] *The Times*, 3 Ionawr 1905.
[42] *Y Diwygiwr*, Ionawr 1905, t.58.

yn y gymdeithas i amlygrwydd yn ystod y Diwygiad o dan ddylanwad y diwylliant a grewyd o'i gwmpas.

Ers hynny, gwelir y pwysigrwydd a roddwyd i edrychiad Roberts ar y pryd yn treiddio i weithiau a ymddangosodd ers hynny. Gwelir y broses o'i ddisgrifio yn yr un modd ag a welwyd ar y pryd yn digwydd wedi blynyddoedd 1904-05 mewn ymdrech i sefydlu'r Diwygiad fel mudiad yn ffenomen ryfeddol ers hynny. Er enghraifft, yn y gyfrol i blant *Something Wonderful Happened,* a gyhoeddwyd ym Medi 1954 ar yr hanner canmlwyddiant, gwelwyd rhai o'r delweddau a luniwyd o Roberts yn ystod y Diwygiad yn cael eu hail-greu:

> *What sort of picture have you made in your minds of this strange, wonderful young man sent from God whose name was Evan Roberts? He was tall, fair, slender, good-looking, with a happy expression and a friendly smile and greeting for everyone. People who knew him spoke of his "wonderful" smile and the piercing glance of his dark eyes...The writer of these words had not had the privilege of meeting him until about 1930, and the picture of him that will always live in her mind is one of the tall, dignified man, with the same piercing glance and sweet smile of which people spoke fifty years ago...*[43]

Cafwyd y disgrifiad canlynol o Roberts mewn cyfarfod yn nofel Gwenallt, *Ffwrneisiau* (1982). Sylwer ar y disgrifiad a geir o'i wên a mynegiant ei wyneb. Mae'n amlwg y profodd edrychiad Roberts a'i ystumiau i fod yn ganolog i'r cymeriad a grëwyd yn ei enw:

> Fe stopiodd y canu pan gododd Evan Roberts ar ei draed, a gwên nefolaidd ar ei wyneb, ac ni welwyd wyneb a allai newid mor sydyn o wae i wên, o anobaith i lawenydd; ac fe aeth allan a Miss Annie Davies ar ei ôl.[44]

Gwelwyd y ddelwedd hon yn cael ei chynnal yng nghynnyrch dathliadau'r canmlwyddiant. Mewn rhaglen ar gyfer cyngerdd y cyfeiriwyd ato yn Rhagarweiniad

---

[43] Mabel Bickerstaff, *Something Wonderful Happened* ( Cronfa Goffa Diwygiad 1904-05, 1954), t.76.
[44] Gwenallt, *Ffwrneisiau* (Llandysul, 1982), t.82.

y traethawd hwn, i godi arian i gronfa adfer capel y Groes Wen, 'i Ddathlu Canmlwyddiant Diwygiad Evan Roberts 1904', nodwyd: 'Canolbwynt y cyfan oll oedd y carasmatig Evan Roberts a'i wên yn llawn ysbrydoliaeth ddwyfol. Ef oedd â'r dylanwad mwyaf ar dreftadaeth ysbrydol Cymru, ac yn allweddol yn esgoriad yr adfywiad crefyddol ym 1904.'[45] Gwelir yma y ddelwedd o Roberts a'i wên arbennig yn cael ei chynnal a Roberts yn cael ei blannu yn ganolog yn stori'r Diwygiad. Dyma'r math o ddelweddau y gellir eu hystyried yn nodweddiadol o gynnyrch dathlu'r canmlwyddiant, ac yn ddelweddau a ysgogodd haneswyr i herio'r syniadau hyn. Trwy hyn, fel y soniwyd eisoes, gellir dadlau y gwelwyd y fath ddelweddau yn penderfynu natur y drafodaeth a gafwyd ar y Diwygiad yn ystod blynyddoedd 1904-05 ac ers hynny.

Beth bynnag, ymddengys fod ymddygiad Roberts tuag at y wasg hefyd yn gyfrifol am atgyfnerthu'r gred ei fod yn wirioneddol ufudd i'r Ysbryd. Ar un lefel gwelwyd ei ymateb i'r wasg yn ennyn parch felly. Nodwyd yn *Y Diwygiwr*, Ionawr 1905:

> ond y gŵr ieuanc syml, diaddurn, a diymffrost hwn sydd wedi ac yn parhau i dynu mwyaf o sylw yn nglyn â'r deffroad - er nad yw ef ei hun yn gwneud dim ymgais i enill sylw ac i dynu sylw ato ei hun - yn hytrach cilia i gysgod yr HWN yr ymawydda ac yr ymegnia i'w ddangos a'i ogoneddu.[46]

Ceir portread o'r meddylfryd hwn a fabwysiadwyd gan unigolion a chymunedau am Roberts ar y pryd gan Rhys Davies yn ei nofel, *The Withered Root.* Ceir disgrifiad o'r ddelwedd ar led o Reuben Daniels sy'n amlwg wedi ei seilio ar Evan Roberts:

> *Reuben Daniels, Bible in hand, silent and meditative as though he trod in a mystic vision, walked behind the red banner - so young, with such lucent calm within his face, that he evoked admiration everywhere. The people thought:*

---

[45] Rhaglen 'Soirée Ddiwylliadol Pasg 2004 i ddathlu canmlwyddiant Diwygiad 1904-05' a gynhaliwyd yn neuadd gerdd yr Hipodrôm, Y Rhath, Caerdydd, Pasg 2004.
[46] *Y Diwygiwr*, Ionawr 1905, t.10.

*Surely God is with this young man who has glory on his brows like a heavenly peace and words noble as Holy Writ within his tongue.*[47]

Cafwyd sawl dehongliad o Roberts yn ystod y ganrif sy'n cynnal y ddelwedd o Roberts fel ffigwr diffuant nad oedd yn gysurus â'i enwogrwydd newydd, a gwelwyd yr elfen hon yn bresennol yn y cymeriad a grëwyd ar gyfer Roberts mewn gweithiau ers hynny. Eto, yn nofel Rhys Davies, *The Withered Root,* mae'r ddelwedd a geir o weithgarwch y Diwygiad yn un feirniadol ar sawl lefel, ond fel y nododd Katie Gramich, mae'r dehongliad o'r prif gymeriad, Reuben, yn un o gydymdeimlad ac yn ei bortreadu yn gymeriad diffuant a gonest.[48] Gwelir yn y nofel y feirniadaeth lem honno a oedd yn nodweddu llawer o'r agweddau a leisiwyd am y Diwygiad yn ystod y degawdau a oedd i'w dilyn. Serch hyn, ceir cydymdeimlad yn y gwaith â'r diwygiwr ifanc a bortreadir a gwelir bod y feirniadaeth yn disgyn ar y gymuned o'i gwmpas. Wrth ddatgelu prosesau meddwl y cymeriad datgelir dehongliad yr awdur o'r cymhlethdod â deimlodd Roberts ynglŷn â'i statws â'i rôl ei hun. Disgrifir meddyliau Reuben:

*Why was he there, in this pulpit, what had driven him there, to stand like a figure on the stage of a peep show, about to perform for the gratification of a vulgar mob who would cry out their approbation if he performed well enough!*[49]

Dehonglwyd yr elfen hon ar ymateb Roberts i'w statws newydd mewn gwaith ffuglen a ymddangosodd ar adeg y canmlwyddiant hefyd. Ceir portreadau o Roberts fel ffigwr bregus, nad oedd ar un olwg am yr holl sylw a ddenodd. Yn nofel Dafydd Llewelyn, *Tocyn i'r Nefoedd* (2004) a sbardunwyd gan hanes Roberts a'r sylw a

[47] Rhys Davies, *The Withered Root* (Argraffiad The Library of Wales 2007, cyhoeddwyd yn gyntaf yn 1927), t.196.
[48] Katie Gramich, 'Dehongli'r Diwygiad' yn *Taliesin* 128, t.25.
[49] Rhys Davies, *The Withered Root*, t.282.

gafodd gan y wasg, ceir ambell adlais o'i hanes a natur y gymdeithas a roddodd fod iddo fel ffigwr cyhoeddus. Mae Rhys, y prif gymeriad, yn weinidog mewn pentref o'r enw Llanaber. Wedi iddo gynorthwyo plentyn i ddewis rhifau loteri heb yn wybod iddo tra'n chwarae gêm o 'Scrabble' fe'i gelwir yn broffwyd gan rai a dros nos y mae'n ffigwr dadleuol. Ceir portread llawn hiwmor o ymateb cymeriadau y gymuned leol a'r modd yr aethpwyd ati gan ambell aelod o'r capel i fanteisio ar y diddordeb a gafwyd yn eu gweinidog drwy fynd ati i sefydlu achlysur - i ddathlu canmlwyddiant y capel:

> Bu bron i Rhys gael ffit wrth weld plât felen afiach gyda'r geiriau 'Canmlwyddiant Capel Soar 1904-2004' ar y stribyn allanol a llun artist o Gapel Soar a Rhys yn y canol...Gyda'r cyrri a'r *naan bread* wedi'i gladdu a chanfed cyfres Goreuon Noson Lawen ar fin dechrau, roedd hi'n ymddangos bod Rhys yn graddol anghofio am helbulon y pnawn ond, yn anffodus, torrwyd ar naws hamddenol y noson pan glywyd tannau telyn yn tincian ar y teledu a llais Beti George yn datgan yn felodaidd:
>
> > 'I ddynodi achlysur canmlwyddiant Capel Soar, Llanaber archebwch blat unigryw, gyda darlun o'r gweinidog presennol, y parchedig Rhys Roberts yn ei harddu. Os archebwch un cyn diwedd y mis cewch liain sychu llestri gyda'r un patrwm arno am ddim... '[50]

Ceir adlais yma o'r modd yr aethpwyd ati yn ystod y Diwygiad i sefydlu Roberts yn bersonoliaeth gyhoeddus. Yn ogystal, ceir sylwebaeth yma ar weithgarwch cymdeithas wrth sefydlu achlysur i'w ddathlu yn enw'r canmlwyddiant. Mae'r darn yn amlwg yn adlewyrchu'r elfen o werthu'r Diwygiad a gafwyd ar y pryd, drwy gynhyrchu llestri o'r fath ac yng ngwaith y wasg, er enghraifft, gyda'r *Western Mail* yn cynhyrchu pamffledi a rhifynnau arbennig a chardiau post o gymeriadau amlycaf y mudiad.[51] Gellir gweld adlais yma hefyd o'r modd yr aethpwyd ati ar adeg y canmlwyddiant i werthu'r Diwygiad ar amrywiol ffurfiau. Gwelwyd hyn, er enghraifft, mewn gwaith efengylu, mewn gwaith newyddiadurol, hanesyddol, ac wrth

[50] Dafydd Llewelyn, *Tocyn i'r Nefoedd* (Caerdydd, 2004) tt.84-87.
[51] Ceir y nwyddau ar werth o bryd i'w gilydd ar wefan *Ebay*.

geisio denu cynulleidfa i wylio rhaglen ddogfen ar y teledu neu i weld sioe gerdd neu ddrama ar yr adeg hon (gweithiau y ceir cyfeirio atynt drwy gydol y traethawd). Roedd y gweithiau hyn yn rhan o ffenomen y canmlwyddiant, ac yn y cyswllt hwn gellir dadlau bod yr elfen o werthu a gafwyd yr adeg hon yn gynnyrch yr un math o brosesau a welwyd yn ystod 1904-05 wrth sefydlu a chenhadu stori fawr y Diwygiad.

Gwelwyd y broses o sefydlu'r canmlwyddiant yn achlysur yn gyfrifol am bryfocio ambell awdur i bortreadu'r meddylfryd a fu wrth wraidd gwaith o'r fath. Mae Elfyn Pritchard yn ei nofel, *Fel Nerthol Wynt*, yn amlwg yn cwestiynu perthnasedd ac ystyr y math o gofiannu a gafwyd ar adeg y canmlwyddiant. Mae'r darn canlynol yn cofnodi darlith y gwrandawodd Ifan Roberts, y prif gymeriad, arni mewn cyfarfod yn ei gapel. Ynddo mae'r awdur yn amlwg yn awgrymu bod ceisio ail-greu'r ewfforia efengylaidd yng nghyd-destun heddiw yn artiffisial. Mae'r darlithydd yn gallu cofnodi digwyddiadau'r cyfnod, ond pan geisia ddeffro ysbryd diwygiadol ymysg y gynulleidfa, mae'r apêl yn syrthio ar gynulleidfa anghydnaws, ac mae amgylchiadau allanol yn taro yn erbyn yr apêl, wrth i sŵn awyren a thrên dorri ar draws y llefaru. Yr awgrym yw bod yr oes wedi newid, ac nad oes modd atgynhyrchu amgylchiadau a fu'n ffrwythlon i'r Diwygiad. Gan gyfeirio at y darlithydd nodwyd:

> A thrwy'r amser y bu wrthi, yn gefndir i'w anerchiad, roedd sŵn traffig yn dod o'r stryd, ambell floedd bell, trwst trwm mwy nag un awyren uwchben a churo caled trên disl ar y cledrau, a thra oedd hanner sylw Ifan ar y darlithydd a'i eiriau, roedd yr hanner arall yn cael ei dynnu allan i ganol y byd.
>
> Roedd bywyd yn mynd yn ei flaen, cofio am y Diwygiad neu beidio. Roedd yna boen a gwewyr a gofid ac ofn a llawenydd a gorfoledd ym mynwes y bobl oedd yn pasio heibio...Ac ym mhellafoedd byd, yn rhy bell i'r sŵn gario, roedd yna drais ac ymladd a thywallt gwaed yn Irac, yn y dwyrain canol, yn y Swdan; gwaedd y tlawd a'r anghenus...[52]

[52] Elfyn Pritchard, *Fel Nerthol Wynt,* t.122.

Drwy ail-greu dathliadau'r canmlwyddiant mae'r gwaith yn cynnig dimensiwn newydd i'r achlysur. Ceir sawl cyfeiriad at Evan Roberts yn y nofel ond meddyliau ac ymddygiad y prif gymeriad Ifan sy'n cynnig dehongliad o feddylfryd a dulliau Roberts. Fel yr awgrymwyd eisoes, gellir dweud bod y nofel, ar ryw lefel, yn plannu Evan Roberts trwy'r cymeriad Ifan yn y Gymru sydd ohoni heddiw, gan sbarduno'r darllenydd i ystyried goblygiadau'r awydd a fynegwyd o sawl cyfeiriad ar achlysur y canmlwyddiant am ddiwygiad arall. Yn ôl erthygl yn *Golwg*, nododd Elfyn Pritchard am y canmlwyddiant: 'Mae'r holl sôn wedi bod am Ddiwygiad...A bod yn hollol onest, y peth ola' ydan ni eisiau ydi'r un math o Ddiwygiad.'[53] 'Gwallgofrwydd a Chrefydd' yw pennawd yr erthygl sy'n sôn am y nofel, ac yn is-deitl ceir y frawddeg, 'Dyw Elfyn Pritchard ddim eisiau Diwygiad - er mai dyna bwnc ei nofel newydd.' Fel y soniwyd eisoes, mae cynnwys y nofel a'r erthygl yn ymateb ac yn cwestiynu'r gweithgarwch a'r agweddau a fynegwyd ar y canmlwyddiant ond serch hyn, gwelir yn y fath benawdau y modd y cyfrannodd newyddiaduraeth o'r fath at y cynnyrch a aeth ati i adrodd stori'r Diwygiad ar yr adeg hon. Gellir dadlau y profodd y cynnyrch hwn a'r gwaith o adrodd y stori i fod yn rhan o ffenomen y canmlwyddiant felly.

Crëwyd Ifan, prif gymeriad y nofel o dan sylw, yn amlwg fwriadol gan Elfyn Pritchard i adleisio agweddau ar hanes Evan Roberts. Cyn i Ifan godi â'r bwriad o wneud datganiad chwyldroadol yn ei gapel, mewn cyfarfod i goffáu Diwygiad 1904-05, disgrifiwyd ei feddyliau:

> Rhag ei waethaf teimlodd Ifan ryw nerfusrwydd, rhyw ofn mawr yn dod drosto. Roedd y foment fawr wedi dod. Doedd o ddim wrth natur yn ddyn cyhoeddus; un o fanteision arwain mewn eglwys fechan oedd nad oedd raid

[53] *Golwg*, 15 Ionawr, 2005, t.19.

> iddo ddioddef straen siarad wrth gynulleidfa fawr...Dyn cyhoeddus o raid nid o ddymuniad oedd o.[54]

Gellir ystyried y dehongliadau uchod yn rhai â chydymdeimlad â Roberts, yn naturiol o bosib, ganrif yn ddiweddarach, wedi cyfnodau o glodfori eithafol a beirniadu mawr. Fodd bynnag, yr hyn a geir yma yw'r gwaith o greu Roberts fel personoliaeth ar ffurfiau newydd gan eu cyflwyno i gynulleidfa ganrif wedi'r Diwygiad. Gwelir yn y gweithiau o dan sylw rai o'r prosesau a welwyd wrth ddehongli Roberts a chreu cymeriad yn ei enw ar y pryd ar waith ganrif yn ddiweddarach. Yn ogystal, o sylwi ar amseru ymddangosiad y gweithiau uchod gellir dadlau mai'r hyn a geir ynddynt yw rhan o ffenomen canmlwyddiant Diwygiad 1904-05 ar waith a stori'r Diwygiad yn esblygu.

Roedd y modd yr oedd Roberts yn annerch cynulleidfa yn amlwg yn rhan o stori'r Diwygiad ar y pryd ac roedd ei arddull wrth siarad yn destun trafod. Nododd Awstin yn rhifynau arbennig y *Western Mail* ar y Diwygiad: '*Evan Roberts appears to have no great gifts of speech; and he is not a man of commanding personality. His wonderful power over people is simply inexplicable. His words are few and simple; his manner is perfectly natural and unassuming...*'[55] Nodwyd gan y newyddiadurwr, W. T. Stead, mewn erthygl yn y gyfrol *The Story of The Welsh Revival* (1905): '*He talks simply, unaffectedly, earnestly now and then, but he makes no sermons, and preaching is emphatically not the note of this Revival in the west.*'[56] Roedd mynegiant Evan Roberts yn sicr yn ennyn llawer o ymateb ar y pryd. Gwelwyd ei ddulliau yn

---

[54] Elfyn Pritchard, *Fel Nerthol Wynt* (Llandysul, 2005), t.124.
[55] Pamffledi Awstin, Revival Edition 4, t.2.
[56] W.T.Stead, 'The story of the awakening' yn *The Story of the Welsh Revival as Told by Eyewitnesses*, (New York, 1905), t.64.

destun dadl. Yn ôl yr adroddiadau, pwysleisiodd gariad Duw, ufudd-dod, neges y groes a gwaith yr Ysbryd Glân. Ceir disgrifiadau o Roberts yn llawenhau. Cafwyd y disgrifiad canlynol o athrawiaeth Roberts yn *Baner ac Amserau Cymru*, Tachwedd 1904:

> A beth y mae efe yn ei bregethu? Digrifwch! Yn llythrennol, digrifwch a chwerthin. Bydd yn gwenu pan yn gweddïo; yn chwerthin pan yn pregethu. O herwydd hynny, y mae yr hen weinidogion yn ysgwyd eu pennau. Heb ddeall y maent. Bendith arno i fod yn dwyn tröedigaeth miloedd.[57]

Gwelir yma y modd y bu ymddygiad Roberts, ei ddulliau a'i ystumiau, oll yn ganolog i'r diddordeb a ddangoswyd yn y gŵr. O ganlyniad, gwelwyd ei bersonoliaeth yn ogystal a'i weithredoedd yn ganolog i'w stori fel un ddadleuol.

Mae'n amlwg bod ymddygiad Roberts yn y cyfarfodydd yn sylfaenol i lawer o'r sylw a ddenodd, o safbwynt y dulliau a fabwysiadwyd ganddo ac yn benodol ar adegau wedi digwyddiad neu weithred benodol. Roedd ymddygiad Roberts yn y cyfarfodydd y bu'n eu harwain yn sicr yn meithrin dirgelwch yn y gŵr, ac roedd ei ddulliau wrth gyfathrebu â chynulleidfa yn sicr yn dwysáu ei statws fel ffigwr enigmatig. Roedd ei ddatganiad o ufudd-dod i'r Ysbryd yn ganolog i'w ymddygiad a'i weithredoedd, ac felly i'w ddulliau wrth gyfathrebu, a hefyd yn sylfaenol i'w statws personol ac yn dylanwadu'n fawr ar ei ymdriniaeth o'i gynulleidfa. Nododd Siôn Aled Owen: '*As far as he himself* [Evan Roberts] *was concerned, obedience was to the direct guidance of the spirit, a belief which dominated his ministry from the beginning and was later, according to some observers, to become destructive of that ministry.*'[58] Gan gredu i'r eithaf ei fod yn offeryn yn llaw'r Ysbryd, ymddengys fel pe bai Roberts yn mynd ar goll mewn cyflwr o ryddid a oedd yn ymwrthod â chyfrifoldeb personol dros ei

[57] *Baner ac Amserau Cymru*, 23 Tachwedd 1904, t.15.
[58] John Aled Owen, t.86.

weithredoedd. Profodd nifer o ddulliau Roberts yn arwyddion o'r gred hon o'i eiddo. Gellir deall y cyfnodau mud a gafodd Roberts yn y cyfarfodydd o dan ei arweiniad yn un enghraifft o hyn. Nid oedd yn teimlo o dan bwysau i annerch cynulleidfa ddisgwylgar. Ceir sawl adroddiad ohono yn eistedd yn wynebu cynulleidfa heb yngan yr un gair am gyfnodau. Gellir ystyried y proffwydo a wnaed gan Roberts yn arwydd arall o'i argyhoeddiad ei fod yn offeryn yn llaw'r Ysbryd. Ceir sawl disgrifiad o Roberts mewn adroddiadau yn gorchymyn ei gynulleidfa. Ymddengys y gallai fod yn gyhuddgar ac yn fygythiol ar adegau. Ar adegau rheolai Roberts ei gynulleidfa gan ddefnyddio iaith broffwydol. Nodwyd yn *Y Diwygiad a'r Diwygwyr* (1906) am gyfarfod o dan arweiniad Roberts yng nghapel y Methodistiaid Calfinaidd yn Nant-y-moel:

> Tra yr eisteddai yn y pwlpud parhai y gynulleidfa i ganu gyda llawer iawn o ysbryd, i bob ymddangosiad y geiriau 'Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi,' &c. Ond yn sydyn cododd Mr.Roberts ar ei draed, a dywedodd 'nad oeddynt oll yn canu â'r ysbryd, ond â'r genau yn unig.' Rhoddodd hyn fwy o yni yn y canu am beth amser. Ymhen ychydig fynudau cododd drachefn, a dywedodd 'fod yno rhyw chwaer ar fin gofyn am faddeuant'. Yna gofynodd i bawb a oedd wedi derbyn Crist i godi ar eu traed, ac i'r rhai oedd yn rhoddi eu hunain o'r newydd eistedd...Yna eisteddodd yr holl dorf. Ni chafwyd neb yn foddlawn i roddi ei hun i fyny i Grist. Ond ymhen ychydig amser, dacw rhywun o'r gynulleidfa yn gwaeddi, 'fod yno chwaer yn rhoddi ei hun Iddo.' Cyflawnwyd felly yn llythyrenol yr hyn a ddywedodd Mr. Roberts ychydig amser yn gynt. [59]

Cafwyd y proffwydo hwn ar sawl achlysur. Nodwyd yn y *Times* 31 Ionawr 1905, am gyfarfod ym Merthyr:

> *At a meeting held in the afternoon at Pontmorlais, Merthyr, Mr. Roberts declared that there were two prominent persons present at enmity. He said that he could not go on unless they made peace or left the building. He fell forward on the pulpit desk in a violant paroxysm of agony, completely giving way and sobbing and groaning...Several people left the building...He* [Roberts] *said that he felt the burden had been lifted, and the congregation sang, 'Diolch Iddo'.* [60]

[59] *Y Diwygiad a'r Diwygwyr*, 1906, tt.334-335.
[60] *The Times*, 31 Ionawr, 1905, t.7.

Bu'r dulliau hyn yn sail beirniadaeth ar rôl Roberts yn y Diwygiad ers hynny hefyd. Mae ysgolheigion wedi gwneud sylwadau ar ddylanwad meddylfryd Roberts ar ei ddulliau wrth gyfathrebu â chynulleidfa. Nododd Gaius Davies: 'Mae'n siŵr fod rheswm cryf dros amau tuedd Evan Roberts i gredu fod pob syniad a ddôi i'w ben yn rhan o arweiniad yr Ysbryd, a mwy na hynny fod ganddo ryw fath ar hawl i fynd mor bell, bron â *gorchymyn* i Dduw wneud hyn a hyn mewn oedfa.'[61]

Gellir gweld felly sut y profodd gweithgarwch Roberts yn ystod y Diwygiad yn bwnc llosg. Gellir dadlau bod y modd y sefydlwyd Roberts yn destun trafodaeth a dadl yn ei dro yn sylfaenol i'r modd y dyrchafwyd ei statws fel ffigwr enigmatig, ac o ganlyniad, yn sylfaenol i'w enwogrwydd mewn cysylltiad â'r mudiad. Gwelwyd parhad y drafodaeth a sefydlwyd ar y pryd, ers hynny mewn gwaith haneswyr, yn y wasg, ac mewn gweithiau creadigol. Mae'r modd y profodd stori Roberts a'i ddulliau i fod yn ddadleuol ac yn stori yn y wasg wedi aros yn rhan o'r chwedl hefyd. Gwelir arwyddion o hyn ar sawl ffurf yn ystod y ganrif ers hynny. Ar un lefel, gwelwyd hyn wrth i'r drafodaeth ddadleuol a gafwyd yn ystod y Diwygiad barhau. Gwelir hyn ar waith mewn cyfres o erthyglau ymosodol ar y Diwygiad a gyhoeddwyd yn y *Western Mail* yn 1974. Cyfeiriwyd atynt eisoes ym mhennod 4, wrth sôn am y sarhau a gafwyd ar ddylanwadau llesol honedig y Diwygiad ar gymdeithas. Yn y gyntaf o'r gyfres, cyfeiriwyd at Roberts a'i rôl yn y cyfarfodydd fel, '*instinctive showman, urging greater heights of anarchic emotion...*'. a chafwyd y pennawd pryfoclyd, '*The weeping preacher: mystic or charlatan?*' gan gyfeirio at Roberts yn yr ail o'r gyfres.[62] Ar un lefel, yn amlwg yr hyn a geir yma yw beirniadaeth ar y gweithgarwch a gafwyd, ond gellir dadlau, ar lefel arall, mai'r hyn a welir yma yw stori'r Diwygiad ar waith. Dyma

[61] Gaius Davies, 'Evan Roberts: Wedi ei ddifa gan y tân?' yn Noel Gibbard (gol.) *Nefol Dân* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2004), t.159.
[62] *Western Mail*, Rhagfyr 1974, Casgliad Dr. Douglas A. Bassett.

fudiad y Diwygiad yn parhau yn sbardun i drafodaeth ddadleuol, a gwelir y dadlau hwnnw, fel ar y pryd, yn ganolog i'r gwaith o adrodd stori'r Diwygiad.

Ar ffurf arall, gellir gweld adlais o rôl Roberts, ei ddulliau a'i berthynas â'r wasg yng ngwaith Pennar Davies. Yn y drydedd o gyfres ei nofelau, *Gwas y Gwaredwr* (1991), mae Madam Naestan yn amau hawl Arthur Morgan i fod yn olynydd i Elias John, ac yn beirniadu'r defodau y mae wedi'u cyflwyno i'r gwasanaeth yn y capel. Mae Arthur Morgan yn amddiffyn yr arfer o roi pobl mewn arch a'u codi allan yn fyw, gan ddweud bod 'sumboliaeth ym mhob crefydda'.[63] Ceir trafodaeth wedyn am le'r Ysbryd da a'r Ysbryd Glân mewn crefydd. Mae sôn yn y nofel am adroddiadau yn y wasg ar 'Arthur Morgan a'i fudiad', gydag un erthyglwr yn dweud 'mai cyfrinydd oedd Arthur Morgan ei hunan yn bennaf, a'i brofiad ysbrydol y tu hwnt i gyraeddiadau y mwyafrif o grefyddwyr',[64] a bod ganddo 'y ddawn amhrisiadwy i ddwyn eneidiau eraill gydag ef trwy'r orawen ogoneddus at y profiad o fod ar goll yn y Duwdod...'.[65] Er bod modd olrhain yn y nofel hon nifer o ddigwyddiadau'r Testament Newydd, e.e. y temtiad (t.145), y gwyrthiau (t. 128), a'r gweddnewidiad (t.148), mae yma adleisio amlwg hefyd o'r hyn oedd yn ganolog ym mhrofiad pobl o Ddiwygiad 1904-05, sef y pwyslais ar yr ysbryd, rôl ganolog Evan Roberts fel cyfryngwr yr ysbryd, a hefyd rôl y wasg. Gwelwyd Roberts yn ganolog i stori'r Diwygiad ar sawl ffurf, yn yr un modd ag yr oedd ar y pryd, yn ystod y ganrif ers 1904-05.

Ymhellach, yn ystod y ganrif ers 1904-05, profodd natur ddadleuol Roberts yn ystod y Diwygiad yn sbardun i drafodaeth a fu yn ei thro yn ffenomen a fu'n gyfrifol am

[63] Pennar Davies, *Gwas y Gwaredwr* (Abertawe, 1991), t.43.
[64] Pennar Davies, *Gwas y Gwaredwr*, t.112.
[65] Pennar Davies, *Gwas y Gwaredwr*, t.113.

ennyn sylw ynddi ei hun. Mae'r dirgelwch sy'n amgylchynu Roberts a'i statws fel ffigwr dadleuol o ganlyniad i natur llawer o'r hanesyddiaeth y cyfeiriwyd ati eisoes yn bod i'r fath raddau nes y gwelir cynnyrch sy'n ymwneud â chynrychioli Diwygiad 1904-05 yn ymdrin, nid yn unig â'r nodweddion dirgel a oedd yn amgylchynu ymddygiad ac arferion y gŵr ar y pryd, ond yn ogystal â'r drafodaeth o Roberts fel ffigwr dadleuol ers hynny. Mae'r crynhoi a geir ar y sefyllfa mewn nofel ffuglen yn dangos y ffenomen hon ar waith. Yn nofel Gareth Miles *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (2007), nodwyd gan y newyddiadurwr dychmygol W. T. Davies, ugain mlynedd wedi'r Diwygiad:

> Bu llawer o drin a thrafod ac o anghytuno, hefyd, yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, ynglŷn â role Ivor Lewis yn Niwygiad '04-'05; rhai yn mynnu na fuasai diwygiad heb ei arweinyddiaeth ysbrydoledig ef ac eraill yn gwarafun galw'r ffenomen ryfeddol honno yn 'Ddiwygiad Ivor Lewis'... [66]

Gwelir yma, mewn nofel ffuglen, nid yn unig Roberts a'r Diwygiad yn ystod 1904-05 yn profi'n ffenomen dros ganrif yn ddiweddarach, ond hefyd y drafodaeth o'r gŵr a'r gweithgarwch ers hynny. Gwelir sut y bu elfennau ar weithgarwch ac ymddygiad Roberts ei hun yn gyfrifol am blannu lle iddo yn stori'r Diwygiad a'r modd y bu'r stori hon yn rhan o'r chwedl ers hynny. Yma felly gwelir cyflwr y Diwygiad fel stori yn rhan o'r stori honno. Mae hyn i'w weld ar amrywiol ffurfiau yn ystod y ganrif ers 1904-05 mewn newyddiaduraeth a hanesyddiaeth. Er enghraifft, gwelir hyn yn y gwaith newyddiadurol y cyfeiriwyd ato ym mhennod 4 ble roedd ffurf y Diwygiad a'i dylanwadau ar gymdeithas fel stori fawr yn destun i ymosod arno, ac mewn sawl man yn y traethawd hwn gwelir bod hanesyddiaeth y Diwygiad yn gyson yn sgwrsio â'r delweddau sy'n rhan o'i stori.

---

[66] Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel*, t.63.

Gwelwyd dulliau Roberts a'r meddylfryd a fu'n cymell llawer o'i weithgarwch yn cael eu dehongli mewn ffuglen y cyfeiriwyd atynt eisoes a ymddangosodd adeg y canmlwyddiant. Yn nofel Elfyn Pritchard, *Fel Nerthol Wynt* (2005), mae'r cyfochredd rhwng Evan ac Ifan fel y nodwyd eisoes, yn fwriadol amlwg. Meddai Ifan wrth ei wraig:

> 'Ond dwyt ti ddim yn deall. Rydw i'n cael fy ngyrru gan ryw bwerau na alla' i mo'u rheoli, gan ryw wynt nerthol sy'n fy mhlygu fel corsen ysig o'i flaen. Mae yna lais yn fy nghymell, yn fy ngorfodi. Does gen i ddim dewis'[67]

Ceir adlais amlwg yma o'r hyn a fynegwyd gan Roberts yn ystod y Diwygiad. Gellir ystyried mai'r hyn a geir yn y nofel yw math o wrth-hanes Evan Roberts. Ar ddiwedd y nofel gyda marwolaeth Ifan Roberts mae'r cyfeiriad at 'bosibiliadau' Ifan fel diwygiwr yn adlais o'r hyn a fynegwyd am enedigaeth Roberts yng nghofiant D.M. Phillips. Dywedir am Ifan yn y nofel:

> Yr hyn a gollwyd eleni yw, nid dyn da yn unig, nid gweledydd craff yn unig - na, mae ein colled yn fwy na hynny. Ym marwolaeth Ifan Roberts yn nwy fil a phump, gan mlynedd ar ôl i'r Evan Roberts cyntaf danio'r bobloedd, fe gollodd y genedl un yr oedd ynddo bosibiliadau diwygiwr.[68]

Ceir sawl cyfeiriad gan D. M. Phillips yn ei gofiant i Roberts at ei 'bosibilrwydd' fel diwygiwr, ac yng nghyswllt y darn isod gan gyfeirio at ei eni:

> Dydd mawr a neillduol yn Island House, Bwlchymynydd, oedd Mehefin yr 8fed, 1878. Yr hyn a'i gwnai yn fawr ydoedd genedigaeth Evan Roberts. Yn hanes y teulu, cymdogaeth Casllwchwr, a Chymru oll, priodol yw ei alw yn 'Ddydd y Posibilrwydd.' Ganwyd y dydd hwn un â phosibilrwydd ynddo i greu chwyldroad crefyddol mewn cenedl drwyddi draw ond cael Ysbryd Duw i weithredu drwyddo.[69]

Profodd mynegiant Roberts ei fod o dan ddylanwadau mawr yn destun trafod ar y pryd ac yn un o'r nodweddion a gynigodd le i Roberts fel ffigwr amlycaf y Diwygiad,

[67] Elfyn Pritchard, *Fel Nertho Wynt* (Llandysul, 2005) tt.155-156.
[68] Elfyn Pritchard, *Fel Nerthol Wynt,* t.191.
[69] D. M. Phillips, *Evan* Roberts *a'i Waith*, t.26.

gan fynnu trafodaeth. Honnodd y Parch. Peter Price, Dowlais, un o'i feirniaid amlycaf ar y pryd iddo ddefnyddio geirfa ac iaith a honnai ymhellach fod ganddo awdurdod dros yr Ysbryd. Nododd yn ei lythyr i'r *Western Mail* 31 Ionawr 1905, sy'n enwog am ei ymosodiad ar Roberts:

> *They are, in fact, the imitators, who say, 'There's something wrong here,' 'The Spirit is not here,' 'I have had a vision,' 'You must bear no hatred one against the other,' 'There must be peace,' 'You must forgive one another,' 'There must be love,' 'You must have faith,' 'You should ask for wisdom,' 'Ask and ye shall receive,'&c. These are the stock sayings of Evan Roberts, and they are sometimes repeated with much more unction by the imitators than by the original. Others may be found imitating his bodily contortions, sigh, &c. This mimicry is likely to be created when strangers are known to be present and done by the would-be Evan Robertses quite as much for their own sakes as for the sake of the visitors. Breaking into song when another prays or speaks or preaches is another form of the attempt to imitate Evan Roberts', meetings...The chief figure in this mock Revival is Evan Roberts, whose language is inconsistent with the character of anyone except that of a person endowed with the attributes of a Divine Being. Is Evan Roberts then a Divine Being, or is he not?* [70]

Achosodd y llythyr hwn gynnwrf ar y pryd, a chafwyd nifer o lythyrau mewn ymateb yn amddiffyn Roberts a'i weithgarwch. Fodd bynnag, heb fynd i ymhél â'r dadleuon ynghylch lles y gweithgarwch a sbardunwyd gan Roberts, yr hyn sy'n amlwg o gynnwys y llythyr yw'r statws a fabwysiadodd Roberts fel personoliaeth gyhoeddus. Gellir dadlau, wrth geisio ymatal rhag dadlau ynghylch gwirionedd honiad Price, fod dau ddiwygiad ar waith, un o ffynhonnell ddwyfol ac un ddinistriol, bod y feirniadaeth hon gan Price yn arwydd o'r modd yr oedd dimensiwn cyhoeddus, poblogaidd gweithgarwch y Diwygiad yn un grymus. Mae'n sicr, ers hynny, y profodd ymosodiad Price yn weithred a gyfrannodd at barhad y drafodaeth o rôl Roberts fel un ddadleuol. Gwelir y drafodaeth a gafwyd ar y pryd felly yn parhau yn ystod y ganrif ers hynny, a gwelir ansawdd y Diwygiad fel mudiad dadleuol yn

[70] Ceir y llythyr yn D. J. Roberts, *Cofiant Peter Price* (Abertawe, 1970), tt.96-98.

dylanwadu ar gynrychioladau ohoni. Yn y cyswllt hwn, mae'r ddrama 'Cnawdol Dân' a berfformiwyd adeg Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Lliw 1980 yn enghraifft amlwg. Profodd ymosodiad Price yn ddeunydd hwylus i'w ddefnyddio yn ddramatig. Gan gyfeirio yn benodol at olygfa yn y ddrama lle gwelwyd Evan Roberts a Peter Price yn sefyll wyneb yn wyneb â'i gilydd, gan na chafwyd y fath gyfarfyddiad, nododd Urien Wiliam yn ei ysgrif: 'Cnawdol dân neu nefol dân?: dramateiddio adfywiad crefyddol 1904-05' yn *Taliesin* 124, 2005, 'Gellid dadlau mai ystumio hanes y bydd y dramodydd, ond nid yw hynny'n gyfystyr â dweud anwiredd. I'r gwrthwyneb, ystumio er mwyn cyfleu'r weledigaeth yw'r amcan, drwy gyflwyno mewn dull dramatig hanfod sefyllfa na ddigwyddodd yn union yn y modd y portreadir hi ar y llwyfan.'[71]

Nododd Urien Wiliam i'r ddrama gael ei beirniadu cyn y perfformiad cyntaf oherwydd y dehonglwyd y gair 'cnawdol' i olygu 'rhywiol'. Eglura Wiliam yn yr ysgrif mai aralleiriad o eiddo Peter Price o 'nefol dân' yn ei feirniadaeth (y crybwyllir uchod) o ddiwygiad estron honedig Roberts a gafwyd yn y teitl. Gwelir yma weithgarwch Roberts ac ymosodiad Price yn ddeunydd ar gyfer gwrthdaro dramatig ar lwyfan, a thrwy hyn, nid yn unig gwelir yr un drafodaeth a gafwyd ar y pryd yng nghylch rôl Roberts yn digwydd ar ffurf newydd greadigol yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, ond hefyd gwelir natur ddadleuol y Diwygiad fel mudiad cyhoeddus yn parhau ers hynny mewn cynrychiolaeth ohono.

[71] Urien Wiliam, 'Cnawdol dân neu Nefol dân?: dramateiddio adfywiad crefyddol 1904-05' yn *Taliesin* 124, 2005, tt.27-33.

Yn ogystal ag ymddygiad Roberts mewn cyfarfodydd, gwelwyd agweddau eraill ar ymddygiad Roberts yn denu sylw ar y pryd. Mae enghreifftiau di-ri o'r nodweddion ynghylch ymddygiad a gweithgarwch Roberts yn ystod y Diwygiad a'i sefydlodd yn ffigwr enigmatig ac yn destun dadl. Yn eu mysg roedd y modd nad oedd Roberts yn barod i ymweld â Chaerdydd. Profodd y mynegiant hwn o eiddo Roberts i fod yn rhan o'r stori ar y pryd ac yn rhan o'r drafodaeth a gafwyd ynghylch y modd yr ymddangosodd yn anfodlon i siarad yn Saesneg. Nodwyd yn yr *Evening Express* Ionawr 1905:

> ...at Gymru y mae ei genadwri; wrth Gymry y mae'n siarad yn ei hiaith eu hunain...Nid yw unwaith wedi dangos un awydd i siarad Saesneg, er ei fod yn ymwybodol fod Saeson o bellderoedd o ffordd wedi dod i'w weled a'i glywed, yn hen iaith Cymry y mae efe yn llefari.[72]

Holodd y beirniad amlwg o ymddygiad Roberts ar y pryd, y Parch. Peter Price y cyfeiriwyd ato uchod yn ei lythyr yn y *Western Mail*, pam nad oedd yn cyfaddef nad oedd yn deall Saesneg:

> *When requested to speak in English he has repeatedly said that he is not prompted by the spirit, and that when thus prompted he would do so. Why did he not tell the straight truth and say, 'I don't know English,' which I am told is the fact? And what about the Spirit on day of Pentecost? Has He changed?*[73]

Ers hynny, mae haneswyr wedi trafod y mater hwn o safbwynt y modd y mynegodd Roberts nad oedd yr Ysbryd yn ei alw i Gaerdydd. Nododd Basil Hall:

> *He repeatedly refused to go to Cardiff though ministers pleaded with him to do so: he replied steadfastly that the Spirit would not allow him to go there - he cited words used by the voice of the Spirit in Welsh - and no doubt one reason why he did not go to Cardiff was his unreadiness in English for an almost monoglot speaking city.*[74]

---

[72] Idrislwyn, *Evening Express and Evening Maill* 2 Ionawr 1905, Revival Edition 2, t.2.
[73] Gweler yn llawn yn D. J. Roberts, *Cofiant Peter Price* (Abertawe, 1970), tt.95-101.
[74] Basil Hall, 'The Welsh Revival of 1904-05: A Critique' yn G. J. Cuming a Derek Baker (goln.), *Popular belief and practice : papers read at the ninth summer meeting and the tenth winter meeting of the Ecclesiastical History* (1972), t.297.

Profodd amharodrwydd Roberts i ymweld â Chaerdydd a'r drafodaeth ynghylch ei amharodrwydd i droi at y Saesneg yn elfennau ar y Diwygiad fel stori fawr ar y pryd. Ers hynny, mae'r drafodaeth sy'n ymwneud â'r materion hyn yn sgwrsio ag un o nodweddion mytholeg y mudiad fel Diwygiad Cymreig a Chymraeg ei iaith. Yn rhan o'r drafodaeth hon mae haneswyr diweddar wedi pwysleiso dylanwad y Diwygiad ar gymunedau tu hwnt i Gymru.[75]

Enghraifft arall yw'r modd, yn unol â chyfarwyddyd i orffwys, y treuliodd Roberts wythnos yn ystod Chwefror 1905 yng nghartref Mr a Mrs Rhys Jones yng Nghastell-nedd. Ni chyfathrebodd â neb yn ystod yr wythnos hon, ac eithrio Annie Davies, cantores a fu'n amlwg yng nghyfarfodydd y Diwygiad ac a fu'n un o'r merched a deithiai gydag Evan Roberts o gyfarfod i gyfarfod. Roedd perthynas Roberts ac Annie Davies hefyd yn destun a drafodwyd ar y pryd ac ers hynny. Bu straeon ar led iddynt ddyweddio, ond gwadu'r honiadau hyn a wnaeth Roberts.[76] Fodd bynnag, gwnaed yn fawr gan y wasg o'r cyfnod hwn o orffwys, gan ddwysáu'r chwilfrydedd a gafwyd yn ei gylch. Cafwyd y pennawd canlynol yn y *Western Mail,* 3 Mawrth 1905: '*Mr Roberts Speaks Again - Story Of The Seven Days Silence Told By Himself*'.[77] Ers hynny, mae'r hanes hwn wedi cyfrannu at y ddelwedd o Roberts fel ffigwr enigmatig. Mynnodd yr wythnos o dan sylw drafodaeth yn astudiaeth Henri Bois, a gafodd weld y llyfr nodiadau o gadwodd Roberts o'i weledigaethau yn ystod y cyfnod hwn. Profodd hyn yn destun chwilfrydedd i haneswyr gan gyfrannu at y dirgelwch a'i hamgylchynai.[78] O safbwynt arall, yng nghyd-destun gwaith Gaius Davies, sy'n olrhain iechyd meddyliol a chorfforol Roberts, gellir ystyried yr 'wythnos dawel' o

[75] Gweler er enghraifft, Robert Pope, 'Dadfythu Diwygiad"Evan Roberts"', tt.142-143.
[76] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, Cyf.2 tt.213-214.
[77] *Western Mail*, 3 Mawrth 1905.
[78] Gweler Basil Hall, t.298.

dan sylw fel cyfnod o orffwys angenrheidiol pan brofodd nifer o symptomau'r straen y bu'n eu hysgwyddo o ganlyniad i'w weithgarwch a'i statws newydd. Awgrymodd Geraint Tudur fod diffyg hyfforddiant wrth wraidd y straen a deimlai Roberts, ac mai arwydd nad oedd Roberts yn ymdopi oedd yr wythnos o dan sylw. Nododd: '*...there were indicators quite early on that Evan Roberts was a man out of his depth...*', a chwestiynodd, '*Did his withdrawal come because he had gone too far?*'[79] Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg wrth edrych ar benawdau'r wasg yn y cyswllt hwn yw'r modd y dramateiddiwyd gweithgarwch Roberts gan ychwanegu at y dadlau a'r feirniadaeth yn ei gylch ar y pryd ac ers hynny. Ganrif yn ddiweddarach gwelir yr un math o ymateb gan y wasg i weithgarwch Roberts yn ystod y Diwygiad, a gwelir felly yr un prosesau a oedd yn cynnal Roberts fel ffigwr enigmatig a chyffrous ar y pryd yn digwydd ers hynny adeg y canmlwyddiant.

Gyda'r fath benawdau ar erthyglau ar Roberts yn y wasg ar adeg y canmlwyddiant â 'Diwygiwr ar Prozac'[80], 'Seren y Diwygiad yn Diodde' fel Milwyr Fietnam'[81] ac '*Evan Roberts - a Real Electrifying Preacher*'[82], mae'n hawdd gweld ffenomen y Diwygiad ar waith ganrif yn ddiweddarach, adeg y canmlwyddiant, yn profi'n ffenomen o achlysur, a Roberts yn ffigwr canolog i'r holl beth. Mae cynnwys yr erthyglau o dan sylw yn arwyddocaol hefyd, a chyflwr meddwl Roberts yn amlwg yn mynd â bryd y newyddiadurwyr; testun a brofodd o ddiddordeb yn ystod y Diwygiad. Mae'r erthygl sy'n cyfeirio at Roberts fel 'Diwygiwr ar Prozac' yn cydio yng ngwaith Ifor ap Gwilym, awdur gwaith y cyfeiriwyd ato eisoes sef *Yr Hen Bwerau, Detholiad o Ddyddiadur Dychmygol Evan Roberts Y Diwygiwr* (1981, cyhoeddwyd eto yn 2004)

[79] Geraint Tudur, 'Evan Roberts and the 1904-5 Revival' yn *The Journal of Welsh Religious History*, Cyfres newydd, Cyf.4, 2004, t.95.
[80] *Golwg*, 9 Rhagfyr 2004, t.9.
[81] *Golwg*, 30 Medi 2004, t.5.
[82] *South Wales Evening Post*, 5 Gorffennaf 2004, t.2.

sy'n dehongli meddyliau Roberts.[83] Gwaith yr ysgolhaig Gaius Davies y cyfeiriwyd ato uchod, yw sbardun y pennawd, 'Seren y Diwygiad yn Diodde fel Milwyr Fietnam', sy'n dehongli'r modd y torrwyd iechyd Roberts wedi cyffro'r Diwygiad gyda thermau meddygol yn ymwneud â straen meddyliol a chorfforol.[84] Gwaith myfyriwr ymchwil o'r enw Melville Thomas ar Roberts oedd sail yr erthygl a gafwyd yn yr *Evening Post.* Olrheinir hanes Roberts yn ymweld â ffrenolegydd yn Abertawe yn yr erthygl. Mae'n debyg y cynghorwyd Roberts gan y ffrenolegydd i ymgymryd â gwaith trydanwr neu bregethwr.

Yn yr erthyglau o dan sylw ceir ymdrech amlwg i synnu a chyffroi'r darllenydd. Gellir dadlau y gwelir un o nodweddion ffenomen canmlwyddiant y Diwygiad yma, lle y ceir ymdrech i gynnal rhyfeddod a chyffro gweithgarwch y Diwygiad. Enghraifft arall yw'r pennawd yn y *Guardian,* 29 Mawrth 2004, a ddyfynnwyd yn Rhagarweiniad y traethawd hwn: '*After 100 years, the revival of a religious revolution*' ac wedi ei chwyddo yn fawr ceir dyfyniad gan Kevin Adams, awdur ym maes y Diwygiad, y cyfeirir ato'n gyson yn y traethawd hwn: '*I see Evan Roberts as a sort of spiritual David Beckham.*'[85] Gwelir rhai o'r prosesau a roddodd ffurf i fudiad y Diwygiad ar y pryd ar waith ganrif yn ddiweddarach gan gyfrannu at yr hyn ydoedd ffenomen y canmlwyddiant.

Bu nifer o ddigwyddiadau penodol yn gyfrifol am gynnal y drafodaeth ar ymddygiad a chyflwr Roberts ar y pryd. Gyda'r amlycaf o bosib yw profiad Roberts yn Lerpwl. Fel y nodwyd ym mhennod 1, gellir ystyried ymgyrch Roberts yn Lerpwl yn unigryw o safbwynt y modd y cafwyd paratoi ar gyfer ei ymweliad a threfnu manwl ar y

---

[83] Ifor Ap Gwilym, *Yr Hen Bwerau.*
[84] Gaius Davies, 'Evan Roberts: Wedi ei ddifa gan y tân', t.160.
[85] *The Guardian*, 29 Mawrth 2004, t.26.

cyfarfodydd. Yn ystod ei ymgyrch yno bu'r modd iddo honni mewn cyfarfod y cafwyd ymgais i'w hypnoteiddio yn un o elfennau'r hanes a gyfrannodd at ansawdd chwedlonol y Diwygiad. Gwnaed yr archwiliad meddygol a gafodd wedi'r digwyddiad yn wybodaeth gyhoeddus. Er gwaetha smonach yr ymgyrch yn hyn o beth, nododd C. B. Turner fod gallu Roberts i ddenu cynulleidfaoedd enfawr ar yr ymgyrch hwn, a hynny ar raddfa a oedd yn cystadlu â chyfarfodydd y Diwygiwr proffesiynol Reuben Torrey, yn werth ei gofio.[86] Fodd bynnag, cafwyd y pennawd canlynol yn y *Daily Mirror,* 17 Ebrill 1905: '*Mr Evan Roberts*', '*Charge of Hypnotism*', '*Four Doctors Say He is Sane, but Wants Rest.*'[87] Yn ddiweddarach, y cyfaddefodd unigolyn i honiad Roberts.[88] Wrth gwrs, gellir deall y fath benawdau yng nghyd-destun yr agwedd gyffredinol a fabwysiadwyd gan bapurau Llundain tuag at y Diwygiad yng Nghymru. Mae enghreifftiau eraill o'r un papur yn cynnwys '*Welsh Revival*', '*More Wild Scenes of Religious Fervour*', '*Deacon Goes Mad*'[89], a '*Revival Perils*', '*Spiritual Excitement Endangers Lives in South Wales*'[90]. Serch hyn, mae'n amlwg y cyfrannodd y digwyddiad, ymysg llawer eraill ar raddfa lai, at sefydlu Roberts fel ffigwr cyffrous a dadleuol ar y pryd ac ers hynny.

Wedi misoedd cyffrous y Diwygiad aeth Roberts i fyw yng nghartref Mrs Jessie Penn-Lewis a'i gŵr yng Nghaerlŷr. Bu Penn-Lewis yn llythyru ag ef yn ystod misoedd y Diwygiad ac roedd hi'n ffigwr amlwg yng nghynadleddau Keswick. Mae rhai wedi dehongli'r drafodaeth a gafwyd yn *War On the Saints*, sef cyfrol a

---

86 C. B. Turner, 'Revivals and Popular Religion', traethawd doethur, cyflwynedig i Brifysgol Aberystwyth, 1979, t.351.
87 *Daily Mirror*, 17 Ebrill, 1905, t.4.
88 Gweler erthygl fer yn y *Daily Mirror,* 27 Ebrill, 1905, t.6. ymysg llawer eraill yn adrodd hyn.
89 *Daily Mirror*, 26 Tachwedd, 1904, t.4.
90 *Daily Mirror*, 20 Rhagfyr, 1904, t.6.

gyhoeddwyd yn 1912 gan Roberts a Penn-Lewis ar y cyd, fel tystiolaeth o edifeirwch Roberts ar elfennau o weithgarwch y Diwygiad.[91] Yn gyffredinol credir i Roberts ddioddef o orflinder a straen eithafol. Ers hynny, mae natur arhosiad Roberts gyda'r Penn-Lewisiaid wedi profi'n ddirgelwch, a hynny yn bennaf oherwydd y modd ynysig y credir y bu Roberts yn byw yno. Ceir sawl hanes am y modd y rhwystrwyd teulu Roberts a chyfeillion rhag ymweld ag ef yno. Ceir adrodd ar yr hanes yng nghyfrol David Matthews *I Saw the Welsh Revival* (1951). Nododd: '*His seclusion was so complete and the watch over him so rigid that people feared and even whispered that it was against his will...Rumours sped throughout Wales.*'[92] Mae'n sicr bod lle i gredu bod y fath straeon ar led. Cafwyd cyfres o erthyglau yn yr *Amman Valley Chronicle* yn 1913 gan Awstin, a fu'n gohebu'n brysur ar y digwyddiadau yn ystod y Diwygiad, am ei daith i Gaerlŷr i gwrdd â Roberts yn y flwyddyn honno. Yn y gyntaf o'r gyfres ar 20 Tachwedd 1913 o dan y pennawd '*How I Saw Evan Roberts*' cyfeiriodd at '*the supposed "mystery" surrounding the absence from Wales of Evan Roberts*', gan sôn am y modd y cafwyd sawl ymgais yn ofer gan lawer i'w weld yn ei gartref yng Nghaerlŷr. Yna eir ymlaen yn yr erthygl i sôn am y modd yr esboniodd morwyn y tŷ na fyddai'n bosib i Roberts gwrdd ag ef, a'r modd wedyn y daeth i mewn i'r ystafell yn annisgwyl. Yn amlwg mewn ymateb i'r straeon ar led, nododd Awstin am Roberts, '*Pale, thinner than he was when I last saw him, but still pleasant and cordial, the Evan Roberts I met at Cartref, Toller - Road, Leicester, was to me the same man as I had known in the old days.*' Aeth yn ei flaen i nodi:

> *Peculiar in his manner and subject to what one may call 'moods', he is, and so was during the Welsh Revival. He refuses to receive or readily meets, as the case may be, whom and when he likes, and the orders thus issued from his*

[91] Jesse Penn-Lewis ac Evan Roberts, *War On the Saints* (1912). Gweler Noel Gibbard, *Nefol Dân, Agweddau ar Ddiwygiad 1904-05* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2004), t.127 am ddehongliad o farn Roberts am weithgarwch y Diwygiad, sy'n cyfeirio at *War On the Saints.*
[92] David Matthews, *I Saw the Welsh Revival* (Arkansas, 1980, cyhoeddwyd yn gyntaf yn Chicago, 1951), tt.99-100.

*sanctum are law to all in the house. He certainly was not dominated by anyone during my visit, but seemed to dominate, and as he is regarded in that home as 'the most godly Christian man they have ever known,' it is stated that everyone literally and promptly and unquestioningly obeys him.*[93]

Nododd Awstin yn yr erthygl hon nad oedd Roberts yn barod i siarad am Gymru a'r Diwygiad. Mae'n sicr bod hanes Roberts yn y cyfnod hwn yn destun stori ddirgel fawr; yn bennawd ar erthygl arall gan Awstin yn yr un gyfres ar 4 Rhagfyr 1913 roedd '*What Evan Roberts said to me*'.[94] Fodd bynnag, gwnaeth Roberts sawl ymddangosiad yn gyhoeddus yn ystod y degawdau dilynol, ac mae lle i gredu y bu gorliwio ar y ddelwedd o Roberts fel cymeriad enciliedig. Nododd D. Densil Morgan, er enghraifft, y byddai Roberts yn ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol, ond ychwanegodd, 'ni fyddai, yn ôl pob sôn , yn cymdeithasu fawr ddim â neb'.[95] Ceir nifer o lythyrau ar gadw a ysgrifennodd Roberts yn ystod y degawdau yn dilyn y Diwygiad yn gwrthod amrywiol wahoddiadau a estynnwyd iddo i ymuno mewn cyfarfodydd a digwyddiadau yng Nghymru i ddathlu'r Diwygiad.[96] Mae hanes Roberts wedi'r Diwygiad yn sicr wedi ychwanegu at y dirgelwch a'i hamgylchynai ac, o ganlyniad, y diddordeb a gafwyd yn y gŵr yn ystod y ganrif ers hynny.

Mae nifer o weithiau yn cyfeirio at fywyd Roberts ar ôl y Diwygiad ac ar ryw lefel wedi cynnal y ddelwedd o Roberts fel gŵr enciliedig. Disgrifiwyd hanes Roberts wedi'r Diwygiad yng nghyfrol y *Western Mail*, *Who's Who in Wales* (1921), fel '*strict retirement*'.[97] Mae bywgraffiad Brynmor Pierce Jones yn rhoi rhan sylweddol i ddehongli agweddau ar fywyd Roberts wedi'r Diwygiad. Cyfeirir ganddo at y cyfnod

[93] *The Amman Valley Chronicle and East Carmarthen News*, 20 Tachwedd 1913, t.5.
[94] *The Amman Valley Chronicle and East Carmarthen News*, 4 Rhagfyr 1913, t.4.
[95] D. Densil Morgan, 'Diwygiad Crefyddol 1904-5' *Cof Cenedl XX*, t.194.
[96] Llawysgrifau y Llyfrgell Genedlaethol, casgliad o ddogfenau Brynmor Pierce Jones (II). Er enghraifft gweler llythyr dyddiedig 16 Tachwedd 1944 oddi wrth Evan Roberts yn gwrthod gwahoddiad gan Mr. Chester Morgan i ddathlu pedwar deg o flynyddoedd ers y Diwygiad.
[97] Arthur Mee (gol.) *Who's Who in Wales* (Caerdydd, 1921), t.412.

1931-1937 a dreuliodd yng Nghymru mewn cartref yng Nghaerdydd, fel '*The Hidden Years*'.[98] Disgrifiodd Basil Hall fywyd Roberts wedi'r Diwygiad fel un o ddioddefaint yn sgil y cyffro a'r straen a brofwyd ganddo. Nododd i Roberts fyw '*in retirement as a near recluse*'.[99] Cyfeiriwyd mewn gwaith arall at Roberts wedi'r Diwygiad fel '*semi-invalid*'.[100] Yn wir, mewn crynodeb am ei fywyd wedi'r Diwygiad yn *Gwyddoniadur Cymru* (2008) nodwyd yn syml: 'enciliodd o olwg y cyhoedd; 42 mlynedd yn ddiweddarach bu farw mewn dinodedd yng Nghaerdydd.'[101] Prin yw'r ymdriniaeth fanwl gan ysgolheigion ar Roberts wedi'r Diwygiad. Mae Siôn Aled Owen yn ei draethawd doethur yn cyfeirio at gynnwys y llyfrau nodiadau a gadwodd Roberts yn ystod degawdau olaf ei fywyd. Mynegodd fod y cynnwys yn arwyddocaol o'r unigrwydd, y tristwch a'r chwerwedd a deimlai Roberts yn y cyfnod hwn.[102] Ceir ysgrif gan Noel Gibbard sy'n ystyried cyflwr meddwl Roberts yn y cyfnod 1906-1913 ac sy'n ymateb i'r delweddau hyn a luniwyd o Roberts fel gŵr toredig. [103] Yn wir, mae'r ysgrif yn dangos y drafodaeth ddadleuol ynghylch Roberts ar waith ganrif ers hynny. Gan gyfeirio at y straeon ar led ynghylch perthynas Roberts â Penn-Lewis, nododd Gibbard:

> *Many irresponsible opinions have been expressed, especially on the internet. This is one example: 'The second* [breakdown] *which occured in the spring of 1906, was compounded by the action of Mrs Penn Lewis, a married woman preacher with whom Roberts had developed an intimate relationship'. Evan Roberts went to Leicester because of the breakdown. Mr as well as Mrs Penn Lewis welcomed the revivalist to their home. 'Intimate' is rather an emotive word.*[104]

---

[98] Brynmor Pierce Jones, *An Instrument of Revival, The complete Life of Evan Roberts 1878-1951* (NJ, 1995), t.225.
[99] Basil Hall, t.291.
[100] Nigel Wright, 'Does Revival Quicken or Deaden the Church?, A comparison of the 1904 Welsh Revival and John Wimber in the 1980's and 1990's' yn Andrew Walker a Kirstin Aune (goln.), *On Revival*, (Carlisle, 2003), t.131.
[101] John Davies, Menna Baines, Nigel Jenkins a Peredur Lynch (goln.) *Gwyddoniadur Cymru* (Caerdydd, 2008), t.728.
[102] John Aled Owen, tt.176-180.
[103] Noel Gibbard, 'Evan Roberts: The Post Revival Years, 1906-1951', yn *The Journal of Welsh Religious History*, Cyfres Newydd, Cyf.5: 2005, tt.60-76.
[104] Noel Gibbard, 'Evan Roberts: The Post Revival Years, 1906-1951', tt. 60-61.

Gwelwyd delweddau o Roberts fel gŵr enciliedig yn cael eu creu ar amrywiol ffurfiau yn ystod y ganrif ers y Diwygiad. Cofnodwyd marwolaeth Roberts ym 1951 yn y wasg, ac ar dudalen flaen y *Western Mail* ar y diwrnod yn dilyn ei farwolaeth, cafwyd y pennawd canlynol, 'Evan Roberts, Revivalist, dies aged 72'. Cafwyd bywgraffiad yn yr un rhifyn o dan y pennawd '*Evan Roberts, the man who changed a nation's life*'. Ceir y crynodeb isod o'i fywyd yn yr erthygl. Sylwer y cyfeirir at ei fywyd wedi'r Diwygiad fel '*a silence lasting almost 40 years*':

> *He was a man who had experienced stranger things than fall to the rest of us. In his youth he seemed to hold a nation in the palm of his hand, and after a silence lasting nearly 40 years he still retained much of his magnetic personality. In his day he endured severe mental and physical strain, and must have undergone great changes of opinion and outlook but his religious convictions remained firm to the end.*[105]

Ar adeg y canmlwyddiant, mewn erthygl o dan y pennawd 'Canmlwyddiant y Diwygiad a Gynhyrfodd Gymru Gyfan' yn *Y Goleuad* 8 Hydref 2004, dyfynnwyd Vaughan Hughes, awdur a chyfarwyddwr cyfres hanes ddogfen ar y Diwygiad, y cyfeiriwyd ato yn y Rhagarweiniad, fel a ganlyn: 'Mae hanes Evan Roberts ar ôl y cynnwrf yn rhyfedd o drist. Bu'n garcharor i bob pwrpas am 20 mlynedd yng nghartref efengylwraig gul a phenderfynol o'r enw Mrs Jessie Penn-Lewis yng Nghaerlyr.'[106] Mae Gibbard yn yr ysgrif y cyfeiriwyd ati eisoes, yn beirniadu'r disgrifiad hwn o Penn-Lewis a fynegwyd gan Hughes ar ei raglen hefyd.[107] Eto, gwelir y modd y bu cynnal ar stori Roberts fel testun dirgelwch a dadl ganrif yn ddiweddarach. Cafwyd cynrychioliad o fywyd Roberts yng Nghaerlŷr yn un o olygfeydd clo y sioe 'Hen Rebel' gan Theatr Genedlaethol Cymru, a berfformiwyd

[105] *Western Mail* 30 Ionawr t.4.
[106] *Y Goleuad*, 8 Hydref 2004, t.1.
[107] Noel Gibbard, 'Evan Roberts: The Post Revival Years, 1906-1951', t.68.

mewn sawl theatr yng Nghymru ar adeg y canmlwyddiant. Ar lwyfan, gwelwyd Jessie Penn-Lewis yn hebrwng Roberts oddi wrth hen gyfaill gan awgrymu fod ganddi ddylanwad afiach ar ei feddwl. Yn yr achos hwn gwelir y modd y bu'r elfennau a sefydlwyd yn ddadleuol am Roberts yn ystod ei fywyd yn bresennol iawn yn y cynrychioladau a gafwyd ohono ers hynny. Trwy hyn, gwelir bod y gynrychiolaeth o Roberts wedi ymwneud â chynnal ei stori.

Mae'r dirgelwch a amgylchynai Roberts wedi'r Diwygiad a syniadau am y modd y torrodd ei iechyd yn sicr yn un o nodweddion ei fytholeg. Cafwyd y portread canlynol o ddioddefaint Reuben Daniels, y cymeriad sy'n adleisio Roberts yn nofel Rhys Davies, *The Withered Root* (1927) yng nghyd-destun ei gyflwr meddyliol wedi'r Diwygiad:

> *He seemed to have lived in a horrible nightmare - he remembered writhing bodies, fanatical faces, clamouring voices, and his own being, pitched as though on a pinnacle of whirling space, burning in exalted frenzy. Oh something had gone wrong...The people had flamed about him like a conflaration and he had taken fire from their zeal, and then the still harmony of his youth had seemed to be destroyed. He remembered it all now as a lurid dream, etched in harsh and brutal contours in his mind.*[108]

Yn *Yr Hen Bwerau*, sef detholiad o ddyddiadur dychmygol Evan Roberts, gan Ifor ap Gwilym y cyfeiriwyd ato eisoes, a gyhoeddwyd ym 1981, ac a ailargraffwyd i gyd-fynd ag achlysur canmlwyddiant y Diwygiad, ceir dehongliad dychmygol o feddyliau Roberts wrth iddo deithio yn y trên i Gaerlŷr at gartref y Penn-Lewisiaid:

> Ebrill 1906
> ...Cyn y Diwygiad 'roeddwn yn medru ymgolli yn fy marddoniaeth. Yn ystod y Diwygiad 'roeddwn yn ymgolli ym mhresenoldeb y Drindod Sanctaidd. 'Fedra i ymgolli mewn dim 'nawr. Druan ohonof! Mae popeth ar ben. 'Rwy'n wan ac yn llesg ac mae yna hen gynyrfiadau anarferol yn fy stumog i. Y mae'n well i mi gau fy llygaid a cheisio cysgu ryw ychydig. Mae'r dagrau'n

[108] Rhys Davies, *The Withered Root*, tt.332-333.

> llifo i lawr fy ngruddiau. Nid dagrau llawenydd yw'r rhain. 'O anfon yr Ysbryd er mwyn...? er mwyn...? er mwyn...?[109]

Sefydlwyd delwedd o Roberts fel gŵr toredig, methedig ar amrywiol ffurfiau yn ystod y ganrif ers hynny. Cyplysir y ddelwedd hon â'r recordiad o lais Roberts a ddarganfuwyd ar silindr cŵyr yng ngherdd Dafydd John Pritchard 'Evan Roberts a Fi Mewn Stretch Limo..'.[110] Mae'r gerdd wedi ei seilio ar brofiad y bardd wrth iddo gludo silindr cŵyr yr oedd yn gobeithio fod arno recordiad o lais Evan Roberts i Los Angeles. Cafwyd cyfle i glywed y llais yn yr arddangosfa a baratowyd gan y Llyfrgell Genedlaethol i ddynodi'r canmlwyddiant, a chafwyd y pennawd canlynol yn y *Western Mail* a oedd yn olrhain yr hanes: *'Religious Leader is Heard 100 Years On'*.[111] Mae'r pennawd yn arwyddocaol o'r modd y gwnaed yn fawr o achlysur y canmlwyddiant ar y pryd. Ceir yn y gerdd a enillodd wobr yng ngŵyl farddoniaeth Feile Filiochta yn Dun Laoghaire, Iwerddon, ddelwedd druenus o Roberts wedi ei osod mewn cyd-destun trawiadol, cwbl gyfoes a newydd. Dyma ychydig ohoni:

> Fel y dyn ei hun
> aeth y llais yn ddarnau
> ryw bryd 'rôl 04-05.
>
> A dyma fi a gweddillion mud
> y Diwygiad yn fy nghôl
> yn gadael LAX
> mewn limo gwyn.
> Yn sgubo heibio Hollywood
> a Pasadena, ar *freeways*
> a *boulevards* y coed palmwydd.
> Heibio'r *diners* a'u croeso
> a'r bariau lle mae clust i wrando,
> a chwrw rhag y twrw poeth [...]
>
> Mae cŵyr toredig dechrau'r ugeinfed ganrif
> yng ngwlad yr haul a Silicone Valley,

---

[109] Ifor ap Gwilym, tt.82-83.
[110] Gweler y gerdd yn *Golwg* 15 Ionawr 2004, t.21, ac yn Dafydd John Pritchard, *dim ond deud* (Cyhoeddiadau Barddas, 2006), tt.25-26.
[111] *Western Mail*, 31 Gorffennaf, 2004.

a thechnoleg hen neges,
fel y neges, yn deilchion
mewn *stretch limo* gwyn
yn LA.
A Chymro arall a thri o Galiffornia
yn yfed siampên.

Ceir delwedd druenus o Roberts a'r Diwygiad. Cyferbynnir 'gweddillion mud y Diwygiad' â lliw a sŵn yr amgylchedd gyfalafol Americanaidd a amgylchynai'r bardd ar ei daith. Gwelir hyn yn y llinellau, 'A dyma fi a gweddillion mud / y Diwygiad yn fy nghôl' ac eironi'r llinell, 'a'r bariau lle mae clust i wrando'. Mae Gwyn Thomas, yn ei gerdd 'Evan Roberts y Diwygiwr (1878-1951)', yn ail-greu hanes y cyfeiriodd John Gwilym Jones ato, am ei gyfarfyddiad â Roberts yn yr 1940au ar lôn yn Llangrannog. Mae'r gerdd yn adrodd y cyfarfyddiad mewn modd syml, ag arddull Feiblaidd yn nodweddu'r dweud. Disgrifir y modd yr ymunodd dieithryn â sgwrs ddigon cyffredin dau gyfaill a oedd yn cerdded ar hyd y lôn, Wedi i'r dieithryn fynd yn ei flaen, trodd yn ôl:

Ond wedi mynd rai llathenni
Fe ddarfu'r gŵr hwn oedi,
Troi yn ôl atynt a gofyn,
"Wyddoch chi pwy ydw i?"

Ac atebodd ei gwestiwn ei hun,
"Evan Roberts y Diwygiwr."[112]

Gellir deall y dehongliad o'r hanes a geir yn y gerdd fel mynegiant o ryfeddod yn hanes Roberts, sy'n cyffwrdd ar yr un pryd â'r tristwch a fynegir mor aml am ei fywyd wedi'r Diwygiad.

[112] Ceir y gerdd yn llawn yn Gwyn Thomas, *Apocalups Yfory* (Cyhoeddiadau Barddas, 2005).

I nifer, rhoddodd dulliau Roberts yn ystod y Diwygiad a'i argyhoeddiad ei fod yn offeryn yn llaw'r Ysbryd hygrededd i'r syniad fod dylanwadau'r Ysbryd ar waith. Ers hynny, fel yn ystod 1904-05, gwelwyd Roberts fel ffigwr poblogaidd yn un o elfennau sylfaenol chwedloniaeth y Diwygiad fel mudiad dadleuol a chyffrous. Yn ystod y ganrif ers y Diwygiad gwelwyd Roberts yn cael ei gynrychioli ar amrywiol ffurfiau, mewn gwaith haneswyr, newyddiadurwyr ac mewn gweithiau creadigol. Gwelwyd y gweithiau o dan sylw yn cynnal trafodaeth ynglŷn â maint a lles cyfraniad Roberts a gwelwyd y gwaith o gynnal stori'r Diwygiad mewn modd a oedd yn ymdebygu'n fawr i'r ymdrechion a gafwyd ar y pryd. Gellir dadlau ar ryw lefel y gwelwyd yr ymdrinaeth o Roberts yn yr un ffurf yn ystod y ganrif ers 1904-05. Gwelwyd delweddau yn cael creu o Roberts yn stori'r Diwygiad fel un ohono yn ŵr ifanc ysbrydoledig ond yn ffigwr dadleuol yn ystod 1904-05, ac wedi hynny yn hen ŵr toredig. Gwelwyd paradocs y delweddau hyn yn rhan ganolog o fytholeg y Diwygiad a'r broses o'u creu yn parhau. Gwelir hyn yng ngherdd Gillian Clarke, sydd yr un pryd yn cynnig perspectif i'r Diwygiad yng nghyd-destun y gymdeithas sydd ohoni ganrif yn ddiweddarach. Comisiynwyd y gerdd gan Oriel 1 Amgueddfa Sain Ffagan yn 2006, ac fe'i ceir ar ddangos yno gan greu cof am Roberts a'r Diwygiad dros ganrif yn ddiweddarach:

*'The next revival will be a singing revival'*
*Joseph Parry*

*It was boots and hallelujahs on the roads that day.*
*By dawn the place was full and still they came*
*Under Autumn skies, down steep and stony ways.*
*To hear a young man speak. In each a flame*
*Flickered in the reliquary of the heart,*
*Somewhere between faithlessness and hope.*
*We see them, stilled by the camera's art,*
*A multitude frozen on a mountain slope,*
*The Collier from the south driven by desire*

*To preach. In our dangerous century*
*Words can set a hungry crowd on fire,*
*Fists raised against the hurts of history.*
*What grace then, on the hill, touched those listening*
*And set a thousand voices singing?*[113]

[113] Mae'r gerdd ar ddangos yn Oriel 1, yn Amgueddfa Hanes Genedlaethol, Sain Ffagan.

# Casgliad

Wrth lunio casgliadau, yr hyn sy'n sylfaenol i'w nodi yn gyntaf, yn unol â'r farn gyffredinol, yw'r modd amlwg y profodd Diwygiad 1904-05 yn ffenomen grefyddol, ddiwylliannol a chymdeithasol yng Nghymru'r dydd. Yn ystod blynyddoedd 1904-05 cafodd unigolion brofiadau ysgytwol a oedd yn ystyrlon iddynt a gwelwyd cymunedau yn mabwysiadu arferion newydd o ymgynnull ac o ymarfer eu crefydd. Datblygodd y gweithgarwch hwn berthnasedd cenedlaethol a chrëwyd mudiad y gellid ymroi iddo ar lefel bersonol, gymdeithasol a chenedlaethol. Cafodd y Diwygiad ddylanwad ar gymunedau y tu allan i Gymru, ac ymhellach, profodd y Diwygiad yn ffenomen ar amrywiol ffurfiau crefyddol a seciwlar yn ystod y ganrif ers 1904-05.

Yn wir, ers blynyddoedd 1904-05 bu'r Diwygiad yn ysbrydoliaeth i weithgarwch crefyddol ac i waith cenhadol mewn cymunedau yng Nghymru a thu hwnt. Yn ystod y blynyddoedd yn dilyn 1904-05 gwelwyd dylanwad y Diwygiad ar gylchoedd a chymunedau crefyddol wrth iddynt ddod i wybod am yr hyn a brofwyd yng Nghymru. Ers hynny, cafwyd ymdrechion penodol i ledaenu dylanwad y Diwygiad gan ail-danio'r brwdfrydedd a gafwyd ar y pryd, yn arbennig ar achlysuron i nodi ei hanner canmlwyddiant a'i ganmlwyddiant. Wrth gwrs, gellir ystyried rhai o'r ymdrechion o dan sylw yn rhan o fudiad Pentecostaidd ehangach. Serch hyn, mae'r gweithgarwch yn dangos y Diwygiad ar waith fel ffenomen ganrif yn ddiweddarach.

Gwelwyd y Diwygiad yn ffenomen mewn cylchoedd eraill hefyd yn ystod yr ugeinfed ganrif. Cafwyd astudiaethau hanesyddol, gwaith newyddiadurol ac ymdriniaethau ar

y radio ac mewn rhaglenni dogfen ar y teledu yn ymdrin â'r Diwygiad, a chafwyd ffilmiau sy'n ail-greu rhai o'i olygfeydd.[1] Profodd y Diwygiad i fod yn destun trafod mewn cylchoedd academaidd o safbwynt sawl disgyblaeth yng Nghymru, a thu hwnt hefyd. Yn ychwanegol, gwelwyd y Diwygiad yn ysbrydoliaeth i gorff o weithiau creadigol. Seiliwyd nofelau, straeon byrion, dramâu, sioeau cerdd a barddoniaeth ar y Diwygiad yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn sgil y gweithiau hyn cafwyd corff o weithiau yn perthyn i'r oes y cyfansoddwyd hwy ac yn cyfrannu at y broses o roi ffurf i'r Diwygiad a'i stori yn ystod y ganrif ers 1904-05.

Gwelwyd y broses o greu stori yn enw'r Diwygiad ar waith ar y pryd, a phrofodd y broses honno, ar amrywiol ffurfiau, gellir dadlau, i fod yn sylfaenol i'r gwaith o sefydlu a chynnal y mudiad, yn enwedig o safbwynt ei ffurf yn gyhoeddus a chenedlaethol. Trwy hyn, gwelir y modd y profodd chwedl y Diwygiad yn rhan elfennol o'r mudiad ar y pryd. Ymhellach, gellir dadlau mai'r hyn sydd wedi ei gynrychioli yn bennaf ers 1904-05 ar amrywiol ffurfiau yw'r stori honno. Gwelwyd y gwaith o adrodd stori'r Diwygiad mewn ffurf benodol ar hyd yr ugeinfed ganrif, a thrwy hyn gwelir elfen o'r gwaith a welwyd ar y pryd wrth sefydlu a chynnal y mudiad ar waith ers hynny.

Yn y traethawd hwn rhoddwyd sylw i rai o nodweddion amlycaf y stori y gwelwyd ei chreu ar y pryd yn enw'r Diwygiad y gellir eu hystyried yn rhai o bileri'r chwedloniaeth. Gwelir sut y profodd y ddelwedd o'r gynulleidfa yn meddiannu cyfarfodydd y capel, amlygrwydd y ferch yn y Diwygiad a'r gwelliannau cymdeithasol a brofwyd o dan ei ddylanwad, ac Evan Roberts fel prif gymeriad o

[1] Er enghraifft, ymysg gweithiau eraill y cyfeiriwyd atynt yn y traethawd hwn, darlledwyd y ffilm 'The Revivalist: The Story of Evan Roberts' gan y BBC yn 1975.

ffigwr, oll yn elfennau o'r stori ac yn ganolog i ansawdd chwedlonol y Diwygiad fel testun dadleuol ac fel hanes i ryfeddu ato. Gellir ystyried gweithgarwch unigolion a chynulleidfaoedd yn y gymuned leol yn ogystal â gwaith y wasg yn gyfrifol am gynnal stori'r Diwygiad yn y ffurf hon. Ymhellach, gellir ystyried y nodweddion uchod fel yr amlycaf yn stori'r Diwygiad ers hynny. Mae hyn i'w weld yng nghynnwys gweithiau newyddiadurol, hanesyddol a chreadigol. Gwelir hyn o safbwynt cynnwys gweithiau sy'n ail-greu'r delweddau yr aed ati i'w creu ar y pryd yn enw'r mudiad gan gynnal y stori o fewn fframwaith benodol ac yn y gweithiau hanesyddol, creadigol a newyddiadurol hynny sy'n sgwrsio â'r delweddau hyn gan gynnal stori'r Diwygiad fel ffenomen a thestun dadl.

Yn sylfaenol i'r gwaith o sefydlu'r elfennau hyn fel rhan o stori'r Diwygiad ar y pryd roedd y diwylliant a fabwysiadwyd o sefydlu ffenomenau anarferol a chyffrous yn nodweddiadol o weithgarwch y mudiad. Gwelir hyn yn y modd y priodolwyd nodweddion a oedd y tu hwnt i'r normal yn arwyddion ac yn symbolau o'r Ysbryd ar waith. Gwelwyd o ganlyniad y broses o roi ffurf i'r Diwygiad yn ymarferol a chysyniadol fel mudiad a oedd yn rhyfeddol yn ei hanfod. Yn sgil hyn gwelir sut y profodd anallu i esbonio'r gweithgarwch yn sylfaenol i gynnal y mudiad ar y pryd, a thrwy hyn sefydlwyd ffenomenau anarferol ac anhygoel yn ganolog i'w stori. Ymysg y rhain oedd yr elfennau y cyfeiriwyd atynt uchod a drafodwyd yn y traethawd hwn, gan gynnwys, ffurf ymddangosiadol digymell y cyfarfodydd, amlygrwydd a chyfraniad arbennig y ferch, a'r gymuned ar ei newydd wedd. Gellir deall y modd y sefydlwyd Evan Roberts yn ganolog i'r stori yn y cyswllt hwn hefyd, yn arbennig yn wyneb y dirgelwch a'i hamgylchynai a'r ymddygiad a'r dulliau anarferol a fabwysiadodd. Roedd y diwylliant hwn yn naturiol yn unol â meddylfryd a oedd yn

cyd-fynd â syniadau sefydledig ynglŷn â natur y math o weithgarwch a gafwyd yn ystod diwygiad crefyddol; cysyniad a oedd wrth gwrs yn un cyfarwydd i Gymry'r oes. Fel yr awgrymwyd fwy nag unwaith yn y traethawd hwn, roedd rhethreg ac ieithwedd y mudiad yn gyson yn dangos ymwybyddiaeth o'r Diwygiad yng nghyd-destun diwygiadau crefyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r hyn a brofwyd o dan eu dylanwad. Er nad yw'r mudiad, fel yr awgrymodd sawl hanesydd, yn perthyn yn gysurus i'r gyfres o ddiwygiadau a brofwyd yng Nghymru yn y cyfnod o dan sylw, gellir ystyried natur y gweithgarwch a gafwyd a'r ystyr y priodolwyd iddo yng nghyswllt y cefndir hwn.

Trwy graffu ar y broses a gafwyd ar y pryd o greu stori yn enw'r Diwygiad amlygir yr elfen fecanyddol a fabwysiadwyd wrth roi'r mudiad ar waith; dimensiwn ar weithgarwch y Diwygiad nad yw'n draddodiadol wedi ei bwysleisio gan haneswyr. Roedd y mecanwaith hwn yn broses lle gwelwyd sefydlu arferion a chonfensiynau ymddygiad gan unigolion a chynulleidfaoedd ac wrth ysgrifennu am y digwyddiadau. Gwelwyd y gwaith o ddilyn y confensiynau hyn yn ymwneud â chydymffurfio â'r diwylliant y soniwyd amdano eisoes, o sefydlu ffenomenau anarferol yn nodweddiadol o weithgarwch y Diwygiad. Ymddengys i'r diwylliant hwnnw fod yn sylfaenol i gynnal y mudiad. Gwelwyd hyn yng ngweithgaredd unigolion a chynulleidfaoedd mewn cyfarfodydd, wrth iddynt fabwysiadu fframwaith o strwythurau newydd i ymarfer crefydd. Er enghraifft, ymhelaethwyd yn y traethawd hwn ar y modd y cafwyd newid ar drefn arferol y gwasanaeth o dan ddylanwad y Diwygiad yn aml gan hepgor y bregeth. Gwelwyd cynulleidfaoedd yn moli a chanu a gweddïo, gweithgareddau a ystyrir yn gyffredinol yn un o ffenomenau rhyfeddol y digwydd. Fodd bynnag, gellir ystyried y gweithgarwch ymddangosiadol digymell

hwn yn rhan o'r drefn newydd a sefydlwyd yn enw'r mudiad a gwelwyd elfennau ar y gweithgarwch hwn yn cael eu sefydlu yn gonfensiynau ymddygiad mewn cyfarfodydd yr ystyrid eu bod yn perthyn i'r mudiad. Mae datganiad emosiynol gan yr unigolyn wrth rannu profiad personol, mewn dull dramatig yn enghraifft o hyn. Gwelwyd y fath gyfraniad yn cynnal strwythur cyfarfodydd y capel a'r syniad fod y mudiad ar waith. Gellir ystyried amlygrwydd y ferch yn y Diwygiad yn y cyd-destun hwn hefyd. Gwelir hyn yn y modd yr ystyriwyd ei chyfraniad, ymysg nodweddion a dulliau eraill, fel un o'r arwyddion ymarferol a symbolaidd fod y mudiad ar waith, ac o ganlyniad sefydlwyd ei hamlygrwydd yn un o gonfensiynau'r gweithgarwch yr ystyriwyd ei fod yn perthyn i'r mudiad. Roedd diwylliant y Diwygiad felly, yn yr achos hwn, drwy groesawu'r anghyffredin, yn un a ddyrchafodd amlygrwydd y ferch, a chyfrannodd gweithgarwch merched ynghyd â'r meddylfryd hwn at gynnal y mudiad. Yng nghyswllt y newidiadau a welwyd yng nghyfarfodydd y capel, mae'n sicr y democrateiddiwyd ei gymuned, er nad y ddelfryd ddemocrataidd a oedd o reidrwydd yn cymell y gweithgarwch.

Mae'n sicr roedd y wasg yn flaenllaw wrth sefydlu arferion a chonfensiynau yn nodweddiadol o'r mudiad. Gan adrodd mewn modd penodol am y gweithgarwch dylanwadwyd ar ffurf gyhoeddus y Diwygiad. Gwelwyd adroddiadau'r wasg yn mabwysiadu eu confensiynau eu hunain wrth adrodd am y Diwygiad. Gwelwyd y broses hon ar waith wrth edrych ar gynnwys ac arddull y gwaith. Gwelir hyn yn eglur yn ymdriniaeth y wasg â dylanwadau'r Diwygiad ar gymdeithas. Gwelwyd ffenomenau penodol yn cael eu sefydlu yn nodweddiadol o ddylanwad y mudiad, a chyfeiriwyd at y nodweddion hyn yn eu tro mewn ymgais i brofi bod dylanwad y Diwygiad ar waith mewn ardal benodol. O ganlyniad, gwelwyd y ddelwedd o'r

dafarn wag, meddwon yn newid eu ffyrdd, y capeli yn orlawn, cyrddau gweddi yn y pyllau glo a'r chwareli, timau chwaraeon yn dod i ben, a llai o regi ar y stryd yn rhan o stori fawr y Diwygiad ar y pryd. Gwelwyd y ddelwedd hon ar amrywiol ffurfiau yn cael ei chynnal yn rhan o stori'r Diwygiad ers y blynyddoedd 1904-05.

Bu sefydlu'r fath gonfensiynau ymddygiad ac ysgrifennu yn gyfrifol am liwio cymeriad y mudiad yn ei ffurf fel ffenomen gyhoeddus a chenedlaethol, drwy gynnig delwedd unffurf o natur y mudiad fel mudiad rhyfeddol. Gellir dadlau y bu symleiddio dylanwadau'r mudiad yn y fath fodd ar y pryd yn ddefnyddiol wrth ledaenu syniadau am y Diwygiad gan ymestyn ei ddylanwad. O ganlyniad, gwelir sut y profodd stori fawr y Diwygiad ar y pryd i fod yn rhan ganolog o fywyd y mudiad a'r modd y profodd y broses o adrodd y stori hon yn rhan o'i strwythur.

Drwy gydnabod grym y meddylfryd a oedd ar led, a ystyriai'r anarferol yn nodweddiadol o weithgarwch y Diwygiad, a chan ddeall cefndir y gymdeithas a'r diwylliant y deilliodd ohono, gellir deall natur y mecanwaith a roddodd fod i Ddiwygiad 1904-05. Gellir dadlau bod y mecanwaith hwn yn ei hanfod yn gwadu bod trefn ar waith, ac yng nghyswllt y Diwygiad gwelwyd ei sefydlu yn fudiad rhyfeddol o ganlyniad. Mae'n amlwg roedd y syniad fod natur y mudiad yn ddigymell ac yn rhyfeddol yn ganolog i rethreg y mudiad ac o ganlyniad i'w gynhaliaeth ar y ffurf hon. Gellir dadlau ymhellach fod ffurf y Diwygiad fel stori fawr, a'r broses o roi ffurf iddi (proses y ceisiwyd ei disgrifio yn y traethawd hwn), yn tystio fod synnwyr o gyd-ddeall yn bod ac o ganlyniad bod elfen resymegol yn perthyn i'r gweithgarwch a ddisgrifir yn fynych fel digwydd digymell ac anhygoel.

Nid yw'r ddamcaniaeth hon yn golygu wrth gwrs nad oedd y gweithgarwch yn ffenomen y gellir ei hystyried yn arbennig o safbwynt y gymdeithas a oedd ohoni ar y pryd ac yn enwedig o safbwynt y gymdeithas seciwlar sydd ohoni erbyn hyn. Yr hyn a awgrymir gan y ddamcaniaeth hon yw'r modd yr oedd elfen o drefn a rheswm yn perthyn i'r gweithgarwch, a'r modd y gellir ystyried y gweithgarwch yn rhesymegol o safbwynt cefndir a diwylliant yr oes. Dyma elfen ar natur y gweithgarwch nad yw wedi ei phwysleisio yn gyffredinol gan haneswyr. Mae hyn i'w weld yn yr agweddau a ysgogodd arweinwyr yn lleol i drefnu cyfarfodydd yn arbennig i feithrin dylanwadau'r mudiad, a hynny yn aml gan ddilyn y confensiynau a'r syniadau a oedd ar led, gan ymroi i hybu'r ifanc i gymryd rhan a chynnal cyrddau gweddi, cyfrwng a ystyrid yn addas ac yn effeithiol i ymgymryd â'r gwaith.

Ar lefel arall, er y dylid cydnabod y cafwyd amrywiaeth o brofiadau o dan ddylanwad y mudiad, gwelwyd hyn hefyd ar ffurf natur gweithgarwch y cynulleidfaoedd yn y cyfarfodydd wrth iddynt ddilyn fframwaith o ddulliau a chonfensiynau ymddygiad newydd o ymarfer crefydd. Rhoddwyd cymeriad unffurf i'r Diwygiad fel mudiad cyhoeddus a bu cynnal hunaniaeth y mudiad yn y ffurf hon yn rhan o'r gwaith o gynnal y mudiad.

Gellir defnyddio'r ddamcaniaeth fod cyfundrefn o brosesau ar waith ar y pryd, a oedd yn ymwneud â gwadu'r mecanwaith hwn, yn gyfrifol am benderfynu ffurf y mudiad ers y blynyddoedd 1904-05 hefyd. Yn un peth, roedd y mecanwaith hwn yn ymwneud â sefydlu stori yn enw'r Diwygiad lle roedd anallu i esbonio ei weithgarwch yn un o hanfodion ei wneuthuriad. Gellir dadlau y gwelwyd yr elfen hon ar y mudiad yn ddylanwadol ar drafodaethau ar ffurf y Diwygiad ers hynny, o ganlyniad i'r

drafferth a a geir wrth gynnig atebion ynglŷn â natur y gweithgarwch a tharddiad y mudiad. Gellir dadlau bod y rhain yn gwestiynau y ceir trafferth i'w hateb oherwydd roedd gwadu bod atebion syml ar gael yn sylfaenol i strwythur y mudiad. O ganlyniad, gwelwyd nifer o nodweddion y mudiad yn profi'n faterion dadleuol. Gellir gweld hyn o safbwynt y dadlau ar y pryd ac ers hynny ynglŷn â lles elfen emosiynol y gweithgarwch, er enghraifft, ac o ran y trafod a gafwyd ar y pryd ac ers hynny ynglŷn â dulliau ac ymddygiad Evan Roberts. Gwelwyd cynnal y drafodaeth ar y Diwygiad fel testun trafod a dadlau. Ymhellach, gellir deall ffurf y Diwygiad fel mudiad rhyfeddol, yn un rheswm am y bylchau a geir yn yr hanesyddiaeth, a hynny eto, am ddal y drafodaeth hanesyddol ynghylch y dadleuon o dan sylw. Mae gwaith nifer o ysgolheigion yn y maes yn brwydro yn aml yn erbyn y delweddau a sefydlwyd ar y pryd ac ers hynny fel rhan o stori'r Diwygiad gan ymdrechu i gywiro'r syniadau sydd wrth wraidd y delweddau hyn. Gwelir felly y stori unffurf a sefydlwyd ar y pryd yn bod ers hynny, a grym y ddelwedd yn gwthio haneswyr i ymateb iddi. Gellir dadlau i'r hanesyddiaeth hon gyfrannu at gynnal y Diwygiad fel mudiad ar ffurf benodol yn ystod yr ugeinfed ganrif, drwy ddadlau ynghylch y delweddau hyn a chynnal y cynrychioliad o'r Diwygiad fel mudiad dadleuol a rhyfeddol ers hynny.

Gellir gweld fod natur ddrylliog yr hanesyddiaeth a geir ar y Diwygiad wedi caniatáu i'r Diwygiad ddatblygu fel ffenomen yn ystod yr ugeinfed ganrif, ac wrth wraidd yr hanesyddiaeth bylchog mae natur y gweithgarwch a gafwyd o dan ddylanwad y mudiad. Mae elfennau o weithgarwch y Diwygiad wedi eu cynrychioli ar amrywiol ffurfiau ers blynyddoedd 1904-05, a hynny i raddau mewn modd organig gan gynnal y stori a adroddwyd ar y pryd yn enw'r mudiad. Gwelir hyn yn y modd y mae ymdriniaethau ar y Diwygiad ar sawl ffurf, mewn papur newyddion, nofel a drama yn

gyson, naill ai yn ymateb i'r stori hon neu'n syml, yn ail-greu'r delweddau sy'n ganolog iddi. Drwy hyn gwelir fod ansawdd y Diwygiad fel stori o fudiad ar y pryd yn bod ers blynyddoedd 1904-05. Ymhellach, gellir gweld fod y broses o adrodd y stori wedi dod yn rhan o'r stori honno. Mae hyn i'w weld ar ei ffurf amlycaf, er enghraifft, mewn gwaith ffuglen diweddar yn nofel Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (2007) y cyfeiriwyd ati yn y traethawd hwn, lle gwelir y drafodaeth ar y Diwygiad ers y blynyddoedd 1904-05 yn dod yn rhan o stori'r mudiad.[2] Trwy hyn gwelir ansawdd y Diwygiad fel chwedl fawr hunangyfeiriol yn esblygu.

Fel mewn sawl maes astudio, ymddengys nad ymdriniaethau ar y Diwygiad gan ysgolheigion fu'r ffactor mwyaf dylanwadol ar natur y gynrychiolaeth o'r Diwygiad ers y blynyddoedd 1904-05 ac, o ganlyniad, gwelwyd cynnyrch y wasg a'r cyfryngau creadigol yn ddylanwadol iawn yn hyn o beth. Gellir dadlau bod hyn yn arbennig o wir o safbwynt Diwygiad 1904-05 oherwydd i rai o elfennau'r Diwygiad brofi'n ddeunydd crai mor hwylus ar gyfer y cyfryngau newyddiadurol a chreadigol yn 1904-05 ac yn ystod y ganrif a'i dilynodd hefyd. Gan olrhain rhai o elfennau gweithgarwch y Diwygiad yn ystod 1904-05 y gobaith yw y dangoswyd y modd yr esblygodd yr elfennau hyn gan ymroi i'r gwaith o roi ffurf i'r mudiad ar y pryd ac ers hynny.

Gwelwyd stori'r Diwygiad yn bodoli ar amrywiol ffurfiau ers 1904-05, a gwelwyd gweithiau a phrosesau yn ystod yr ugeinfed ganrif yn ymroi i'w chynnal. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y gymuned Gymraeg yng Nghymru ac mewn cylchoedd crefyddol. Bu gwaith crefyddwyr, haneswyr, newyddiadurwyr ac artistiaid yn

---

[2] Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel*, (Llanrwst, 2007), t.63.

ganolog i'r broses o sefydlu'r Diwygiad yn ffenomen grefyddol, ddiwylliannol a chymdeithasol yn ystod y ganrif ers hynny, a chafwyd cyfnod cynhyrchiol o'r fath weithiau ar adeg y canmlwyddiant. Gellir dadlau bod rhai o'r prosesau a oedd ar waith ar y pryd yn y gwaith o roi ffurf i fudiad y Diwygiad ar waith ers hynny. Gwelwyd nifer o nodweddion y Diwygiad fel mudiad yn parhau i fod, ar ffurf yr amrywiol gynrychioliadau a gafwyd ohono ers hynny, yn bennaf fel mudiad rhyfeddol, cyffrous a dadleuol. Gwelwyd rhai o bileri'r chwedloniaeth yn cael eu cynnal, gan gynnwys rhai o'r nodweddion y craffwyd arnynt yn y traethawd hwn, gan gynnwys meddiant nwydus y gynulleidfa ar y cyfarfodydd, merched yn flaenllaw, y gymdeithas ar ei newydd wedd ac Evan Roberts fel prif gymeriad o ffigwr cyffrous ac enigmatig.

Gwelwyd cynnal y mudiad fel ffenomen i'w rhyfeddu ati yn ystod y ganrif ers hynny am nifer o resymau. Ar y pryd, roedd cyfleu bod mudiad rhyfeddol ar waith yn ymwneud â chyfathrebu bod newid byd. Ers hynny, mae cynnal y mudiad ar y ffurf hon wedi ymwneud â darbwyllo cynulleidfa newydd o ryfeddod y digwydd yn ystod y blynyddoedd 1904-05. Gwelir hyn yn amlwg gan y garfan honno sydd wedi defnyddio'r digwydd mewn ymgais i feithrin eu dylanwadau yn yr oes sydd ohoni. Gwelwyd hyn yn arbennig o wir yng nghynnyrch rhai o ddathliadau'r canmlwyddiant. Yn y cyfryngau gwelwyd hanesion am y Diwygiad wedi eu llunio i synnu cynulleidfa a welodd ddirywiad Anghydffurfiaeth yn ystod yr ugeinfed ganrif. Ar lefel arall, yn yr hanesyddiaeth ddiweddar, gwelwyd gweithiau yn ymdrechu i ddisgrifio'r gweithgarwch a cheir ymdrechion i gyfleu rhyfeddod y digwydd. O bosib mai ymgais yw hyn i roi ei le haeddiannol i'r Diwygiad yn hanes y Gymru fodern yn wyneb y diffyg trafodaeth a'r sylw a gafodd y Diwygiad, gan ymbil am drafodaeth ehangach.

Gellir dadlau bod hyn i'w weld hefyd yn sylwadau haneswyr sy'n pwysleisio hynodrwydd y Diwygiad fel ffenomen yn y Gymru fodern. Cydiwyd mewn sylwadau o'r fath yn Rhagarweiniad y traethawd hwn. Nododd John Davies, er enghraifft, fod y Diwygiad yn 'un o ddigwyddiadau hynotaf Cymru'r ugeinfed ganrif '.[3] Serch hyn, gellir gweld bod y fath sylwadau yn gosod y Diwygiad ar wahân i brif ffrwd datblygiadau'r cyfnod, ac mae'n bosib felly mai unigrwydd y profiad sy'n golygu bod haneswyr wedi hepgor y Diwygiad mewn astudiaethau yn y gorffennol.[4]

Yn ystod 1904-05 roedd prosesau a roddodd ffurf i weithgarwch y Diwygiad fel mudiad. Ers hynny, gwelwyd prosesau tebyg ar waith sy'n rhoi bod i'r Diwygiad fel ffenomen. Yn hyn o beth gwelwyd adrodd y stori ar amrywiol ffurfiau yn ganolog i'r gwaith ar y pryd ac ers hynny. Y gobaith yw, drwy ymgorffori'r hyn ydoedd stori'r Diwygiad yn rhan o'i hanesyddiaeth, y cyfrannwyd at ddealltwriaeth o natur y mudiad.

Trwy astudio'r stori a'i hadeiladwaith, y bwriad oedd amlygu'r elfen strwythurol a oedd yn perthyn i'r gweithgarwch ymddangosiadol digymell a gafwyd mewn cyfarfodydd ar y pryd. Gwelir o ganlyniad ddimensiwn ar natur y gweithgarwch y gellir ei ystyried yn ddealladwy o safbwynt agweddau a chefndir yr oes. Yn hyn o beth, y gobaith yw cyfrannu at y gwaith o esbonio'r gweithgarwch a ystyrir mor fynych o sawl cyfeiriad fel ffenomen ryfeddol, anesboniadwy. Gellir dadlau bod y meddylfryd a'r agwedd hon yn rhai sy'n rhwystro dealltwriaeth drylwyr o natur y mudiad.

3 John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990), t.485.
4 Er enghraifft gweler sylwadau ar y diffyg ymdriniaeth o'r Diwygiad gan R.Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl,* Cyf. 2, t.200 a Robert Pope, 'Adolygiad o *Nefol Dân*: Noel Gibbard' yn *Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, Rhif 28, 2004, tt.100-101.

Wedi dweud hyn, ni honnir nad oedd y gweithgarwch yn enw'r Diwygiad yn ffenomen arbennig. Yn wir, gellir dadlau bod deall gweithgarwch ymddangosiadol ddigymell y Diwygiad fel ffrwyth trefn o gyd-ddeall yn cydnabod bod ffenomen arbennig iawn ar waith. A hynny yn ffenomen i ryfeddu ati ar lefel sy'n cystadlu â'r syniad bod y gweithgarwch cynulleidfaol a gafwyd yn gynnyrch ymdeimlad y foment. Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd yr astudiaeth hon, heb daflu dŵr ar y tân fel petai, drwy esbonio ychydig ar natur ymddangosiadol ryfeddol y mudiad, yn cyfrannu at y gwaith o ganiatáu i weithiau pellach ymateb i'r Diwygiad heb gyfleu'r rhyfeddod hwnnw i'r graddau a wnaed yn draddodiadol. Trwy hyn, bydd modd torri'r cylch o gyfleu'r rhyfeddod, sy'n aml yn codi mwy o gwestiynau nag o atebion, gan dreiddio i agweddau eraill o'r gweithgarwch.

Drwy astudio'r hyn ydoedd stori'r Diwygiad ar y pryd a'r prosesau a roddodd ffurf iddo, y bwriad oedd cyfrannu at ddealltwriaeth o ffurf y mudiad, gan amlygu'r modd y profodd hunaniaeth gyhoeddus y mudiad ar y pryd, nid yn unig yn greadigaeth y mudiad a'r creu hwn yn rhan o'i weithgarwch, ond yn ogystal sut y profodd yr hyn ydoedd stori'r Diwygiad yn asiant canolog wrth ddylanwadu ar y gweithgarwch a gafwyd gan gynnal y Diwygiad yn ymarferol. Trwy hyn y gobaith oedd pwysleisio mor rymus oedd dimensiwn cyhoeddus y Diwygiad ar y pryd.

Gan ymgorffori hanes y stori yn rhan o'r hanesyddiaeth y gobaith arall yw y bydd y gwaith yn cyfrannu at y broses o ryddhau gweithiau eraill i ymdrin â'r Diwygiad heb reidrwydd i wahanu'r chwedl oddi wrth y digwydd. Un nod yw bod cydnabod rôl ganolog y stori yn hanes y Diwygiad ar y pryd ac ers hynny yn golygu y gellir

treiddio ymhellach i drywyddau eraill mewn gweithiau eraill gan osgoi mynd ati i gynnal y cylch o sefydlu'r delweddau poblogaidd sefydledig sy'n rhan o'i stori cyn mynd ati i'w tanseilio. Elfennau ar natur yr hanesyddiaeth ddiweddar, ar un lefel, gellir dadlau, sy'n ymroi i gynnal y delweddau hyn gan gyfyngu ar y drafodaeth.

Yn ogystal, o ystyried datblygiad chwedl y Diwygiad yn ystod blynyddoedd 1904-05 ac ers hynny, y bwriad oedd dangos bod rhai prosesau ar waith ar y pryd y gellir eu holrhain a gweld eu hôl mewn amrywiol weithiau a ymddangosodd ers hynny. Trwy hyn, y bwriad oedd rhoi bys ar ddimensiwn o weithgarwch y Diwygiad a oedd ar waith ers 1904-05 gan ddeall y modd y cynrychiolwyd y Diwygiad mewn amrywiol ffurfiau yn y cyswllt hwn. Ymhellach, o edrych ar gynnyrch y canmlwyddiant, y gobaith oedd deall y gweithiau a ymddangosodd a'r gweithgarwch a gafwyd yn arwyddocaol o'r digwydd yn y presennol gan amlygu rôl y broses o roi ffurf ar stori'r Diwygiad ers 1904-05. Yn hyn o beth, ymgais sydd yma i agor trywydd newydd ar hanesyddiaeth y Diwygiad.

Ymhellach, y gobaith yw fod natur y gwaith yn ymestyn y drafodaeth ar y greadigaeth o'r gorffennol yn y cof o safbwynt hanes y Gymru fodern. Mae haneswyr yn cyfeirio'n fynych at syniadau poblogaidd ac at chwedloniaeth digwyddiadau'r gorffennol, ac wedi dadansoddi eu rôl wrth ddylanwadu ar syniadau am gymeriad a hunaniaeth y genedl. Mae John Davies yn ei ysgrif 'Boddi Capel Celyn' er enghraifft, yn cyfeirio at 'duedd i ni yng Nghymru feddwl mai'r protestwyr Cymreig a oedd yn siarad o'r galon a bod arweinwyr Lerpwl yn hollol ben galed'[5], ac eir ati ganddo i esbonio arwyddocâd y boddi o safbwynt meddylfryd y degawdau a'i dilynodd. Serch

[5] John Davies, 'Boddi Capel Celyn' yn *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*, Cyf.13, Rhan 2, 1999, tt.166-167.

hyn nid oes astudiaethau helaeth o safbwynt y cof yn hanesyddiaeth y Gymru fodern. Y gobaith yw fod y traethawd hwn yn cyfrannu at y drafodaeth ac yn dangos y gellir ymestyn y fath drafodaeth i edrych ar ddigwyddiadau a ffenomenau eraill yn y maes.

Ymhellach, mae'n sicr y cafwyd adrodd ar stori'r Diwygiad ar ffurfiau yn ystod yr ugeinfed ganrif na chyfeiriwyd atynt yn rhan o'r gwaith hwn, ac mae elfennau eraill ar stori'r Diwygiad y byddai angen ymchwil bellach i'w holrhain. Byddai'n werth nodi hefyd nad yw'r gwaith o adrodd y stori wedi dod i ben, yn wir, mae'r gwaith yn parhau. Gan gyfrannu at y gwaith o adrodd stori Diwygiad 1904-05, y gobaith yw yr amlygodd y traethawd hwn rhywfaint am rym ac arwyddocâd y broses o adrodd y stori honno yn ystod blynyddoedd 1904-05 ac yn ei chanrif gyntaf.

# Llyfryddiaeth

Cyfeiriwyd at y gweithiau canlynol yn y traethawd hwn:

**Ffynonellau Cynradd**

**1. Llawysgrifau**

Llawysgrifau Archif Amgueddfa Sain Ffagan

1793/158-185, Evan Jones, 'Hanes Diwygiad y flwyddyn 1904-5 yn Llanwrtyd a'r amgylchedd'.

1601/1-3, R. Eifion Jones, Llanuwchllyn, 'Y Diwygiad', Ysgrif Eisteddfodol 1962.

Cagliadau Preifat yn eiddo Dafydd Job

Llythyr gan E. Davies at ei mab yng nghyfraith, J. T. Job dyddiedig, Mai 1904.

Cagliadau yn eiddo teulu'r diweddar Dr. Douglas A. Bassett

Casgliad Dr. Douglas A. Bassett o raglenni digwyddiadau, a thoriadau'r wasg yn ymwneud â Diwygiad 1904-05 a'i ganmlwyddiant.

Llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

GB 0210 RBRPJO, Papurau y Parch. Brynmor Pierce Jones 1895 - 1996. Mae'r casgliad yn cynnwys ei waith ymchwil ar Evan Roberts a Jessie Penn-Lewis.

**2. Cylchgronau a Phapurau Newyddion**

**Cylchgronau**

*Barn*
*Y Cylchgrawn Efengylaidd*
*Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*
*Y Diwygiwr*
*Y Drysorfa*
*Y Goleuad*
*Golwg*
*Y Gwyliedydd*
*Seren Gomer*
*Y Tyst*

**Papurau Newyddion**

*Amman Valley Chronicle and East Carmarthen News*
*Baner ac Amserau Cymru*
*Y Cyfaill*
*Y Cymro*
*Daily Mirror*
*Y Drych*
*Evening Express and Evening Mail*
*Y Genedl Gymreig*
*Guardian*

*Y Seren*
*South Wales Evening Post*
*The Times*
*Western Mail*
Rhifynau arbennig y *Western Mail* gan Awstin ar y Diwygiad gan gynnwys y rhifyn ychwanegol, *The Rev.Peter Price and Evan Roberts - Controversy on the Welsh Revival.*

**3. Nofelau, Straeon Byrion a Barddoniaeth**

Baring, Max, *A Prophet of Wales* (Llundain, 1905).
Davies, Pennar, *Anadl o'r Uchelder* (Abertawe, 1958).
Davies, Pennar, *Gwas y Gwaredwr* (Abertawe, 1991).
Davies, Pennar, *Mabinogi Mwys* (Abertawe, 1979).
Davies, Rhys, *Count Your Blessings* (Llundain, 1932)
Davies, Rhys, *Jubilee Blues* (Llundain, 1938).
Davies, Rhys, *The Withered Root* (Llundain, 1927).
Gwenallt, *Ffwrneisiau, Cronicl Blynyddoedd Mebyd* (Llandysul, 1982).
Ifor, Gwilym Ap, *Yr Hen Bwerau, Detholiad o Ddyddiadur Dychmygol Evan Roberts Y Diwygiwr* (Aberystwyth, 2004, Cyhoeddiad cyntaf, Abertawe, 1981).
Jones, W. Margam, *The Stars of the Revival* (Llundain, 1910).
Llewelyn, Dafydd, *Tocyn i'r Nefoedd* (Caerdydd, 2004).
Miles, Gareth, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (Llanrwst, 2007).
Morgan, Mihangel, Y *Corff yn y Parc a Storiau Ffeithiol Eraill* (Llanrwst,1999).
Prichard, Caradog, *Un Nos Ola Leuad* (Dinbych, 1961).
Pritchard, Dafydd John, *dim ond deud* (Cyhoeddiadau Barddas, 2006).
Pritchard, Elfyn, *Fel Nerthol Wynt* ( Llandysul, 2005).
Raine, Allen, *Queen of the Rushes* (Llundain, 1905).
Saunders, S. M, *Llithau o Bentref Alun* (1908).
Saunders, S. M, *Y Diwygiad ym Mhentre Alun* (Wrecsam, 1907).
Thomas, E.E, *Where Eagles Fly...No Bird Sings* (Lerpwl, 1961).
Thomas, Gwyn, *Apocalups Yfory* (Cyhoeddiadau Barddas, 2005).
Vaughan, Gwyneth, *O Gorlannau'r Defaid* (Caerfyrddin, 1905).

**4. Deunydd Printiedig Eraill**

Adams, Kevin ac Emyr Jones, *A Pictorial History of Revival, The Outbreak of the 1904 Welsh Awakening, Special Centenary Edition* (CWR, 2004).

Adams, Kevin, *A Diary of Revival, The Outbreak of the 1904 Welsh Awakening, Special Centenary Edition* (CWR, 2004).

Anthropos (gol.), *Perlau'r Diwygiad, sef Perl-Ddywediadau y Cyfarfod Gweddi, Y Seiat Brofiad, Y Pulpud* (Caernaron, 1906).

*Bethel (M.C) Heolfach, Ystrad, Rhondda, Dathlu Canmlwyddiant yr Achos 1855-1856 - 1955-1956, Rhaglen cyfarfodydd y Dathlu a Braslun o Hanes yr Achos* (Tonypandy, 1956).

Bickerstaff, Mabel, *Something Wonderful Happened* (Cronfa Goffa Diwygiad 1904-5, 1954).

Bois, Henri, *Le Reveil au Pays de Galles* (Toulouse, Rhagfyr 1905).

Davies, Rosina, *The Story of My Life* (Llandysul, 1942).

Davies, W.Anthony, yn J. Ellis Williams (gol.), *Berw Bywyd 1903-1955, Detholiad o Ddyddiadur W.Anthony Davies* (Llandysul, 1968).

Ellis, Robert, *Living Echoes of The Welsh Religious Revival* (1951).

Evans, Eifion, *The Welsh Revival of 1904* (Llundain, 1969).

Evans, Sidney a Gomer M. Roberts (goln.), *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-1905* (Cronfa Goffa'r Diwygiad, Caernarfon, 1954).

Gibbard, Noel A, *Caniadau'r Diwygiad, Golwg ar Emynau, Penillion a Thonau Diwygiad 1904-05* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2003).

Gibbard, Noel, (gol.), *Nefol Dân, Agweddau ar Ddiwygiad 1904-05* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2004).

Gibbard, Noel, *Elfed a Diwygiad 1904-05* (Abertawe, 2004).

Gibbard, Noel, *Fire On the Altar, A history and evaluation of the 1904-05 Welsh Revival* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2005).

Gibbard, Noel, *On the Wings of the Dove, The International effects of the 1904-05 Revival* (Pen-y- Bont ar Ogwr, 2002).

Hughes, D., *Diwygiad 1905-5; Tabernacl Pontycymer: Hanes Blwyddyn o Dân* (Merthyr Tydfil, 1906).

Hughes, Henry, *Diwygiadau Crefyddol Cymru* (Caernarfon, 1906).

Humphreys, E. Morgan, *Gwŷr Enwog Gynt: II* (Llandysul, 1953).

Jones, Brynmor P., *An Instrument of Revival, The Complete Life of Evan Roberts* 1878-1951 (NJ, 1995).

Jones, Brynmor P., *Voices from the Welsh Revival* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1995).

Jones, R. B, *Rent Heavens, The Revival of 1904* (Cyhoeddwyd yn gyntaf yn Llundain, 1930, ail argraffiad, Llundain, 1948).

Jones, R. Tudur, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl, Hanes Crefydd yng Nghymru 1890-1914, Prysurdeb a Phryder*, Cyf. 1 (Abertawe, 1981).

Jones, R. Tudur, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl, Hanes Crefydd yng Nghymru 1890-1914, Dryswch a Diwygiad*, Cyf.2 (Abertawe, 1982).

Jones, R. Tudur, Geraint Tudur (gol.), *Tân ar yr Ynys* (Caernarfon, 2004).

Lewis, H. Elvet, *With Christ Among the Miners, Incidents and Impressions of The Welsh Revival* (Llundain, 1906).

Lowe, Karen, *Carriers of the Fire, The Women of the Welsh Revival 1904-05* (Llanelli, 2004).

Matthews, David, *I Saw the Welsh Revival* (Arkansas, 1951).

Mee, Arthur (gol.), *Who's Who in Wales* (Caerdydd, 1921).

Morgan, J. Vyrnwy, *The Welsh Religious Revival, 1904-05 A Retrospect and a Criticism* (Llundain, 1909).

Owen, Lloyd O., *Cofion 60 Mlynedd* (Merthyr Tydfil, 1927).

Penn-Lewis, Jessie, gydag Evan Roberts, *War On The Saints* (Llundain, 1912).

Phillips, D. M, *Evan Roberts a'i Waith* (Y degfed argraffiad, Caerdydd, 1924, argraffiad cyntaf 1912).

Pugh, Rex H., *A History of the Baptist Church Abercarn* (Casnewydd, 1932).

Rees, D. Ben, *Mr Evan Roberts, Y Diwygiwr yn Sir Fôn 1905* (Ynys Môn, 2005).

Roberts, D. J, *Cofiant Peter Price* (Abertawe, 1970).

Rouges de Fursac, *Un Mouvement Mystique Contemporain: Le Reveil Religieux du Pays de Galles* (Paris, 1907).

Sheldrick, A., *Evan Roberts: Arholiad, Gwerthfawrogiad ac Amddiffyniad* (1907).

Stead, W. T., 'The Story of the Awakening' yn, *The Story of the Welsh Revival as told by eye witnesses* (1905).

Watkins, Edwin, *Hanes Eglwys Penuel Casllwchwr* (Eglwys Penuel Casllwchwr, 1933).

Williams, D. J, *Yn Chwech ar hugain Oed* (Trydydd Argraffiad Llandysul, 1983, cyhoeddwyd yn gyntaf yn Llandysul, 1959).

*Y Diwygiad a'r Diwygwyr, Hanes Toriad Gwawr Diwygiad 1904-05* (Dolgellau, 1906).

## 5. Deunyddiau Sain a Gweledol

### Dramâu a Sioeau Cerdd

'Amazing Grace, The Story of Evan Roberts and the Welsh Revival', sioe gerdd gan The Wales Theatre Company, cerddoriaeth a geiriau gan Mal Pope, cyfarwyddwyd gan Michael Bogdanov. Perfformiwyd ym mhrif theatrau Cymru yn 2004-2006.

'Hen Rebel', sioe gerdd gan Theatr Genedlaethol Cymru, sgript gan Valmai Jones, geiriau'r caneuon gan Cefin Roberts. Perfformiwyd ym mhrif theatrau Cymru yn 2004-2006.

'Cnawdol Dân', drama Gomisiwn Eisteddfod Genedlaethol 1980 gan Urien Wiliam.

'Dyna Ddiwygiad' drama gan Nan Lewis. Cerddoriaeth gan Meinir Richards. Perfformiwyd yn neuadd Pontyberem yn Ebrill 2004.

Drama un dyn gan Gwmni Theatr Solo wedi ei seilio ar y Diwygiad. Fe'i perfformiwyd yn ystod wythnos Eisteddfod Casnewydd 2004 gan Llion Williams. Sgript gan Dafydd Arthur Jones.

'Mari'r Golau', drama gan Aled Lewis Evans sydd wedi ei seilio ar y golau anesboniadwy a welwyd yn yr awyr yn Egryn yn ystod misoedd y Diwygiad. Perfformiwyd yn Theatr y Stiwt, Rhosllannerchrugog adeg y canmlwyddiant.

### Llenyddiaeth Gysylltiedig

Nodyn gan Cefin Roberts yn Rhaglen y ddrama gerdd 'Hen Rebel' gan Theatr Genedlaethol Cymru.

Rhaglen y sioe gerdd, 'Amazing Grace'.

### Teledu

'The Revivalist: The Story of Evan Roberts', ffilm a ddarlledwyd gan y BBC yn 1975.

'Diwygiad 1904-05', cyfres ddogfen gan Ffilmiau'r Bont a ddarlledwyd ar S4C ar adeg y canmlwyddiant.

'Bread of Heaven', cyfres hanes ddogfen a gyflwynwyd gan y newyddiadurwr Huw Edwards. Darlledwyd ar BBC Cymru, a chafwyd y darllediad diweddaraf o'r rhifyn 'Revival and Decline' ar 24 Tachwedd 2008.

'Chwarae'r Cymoedd', cynhyrchiad cwmni teledu Boomerang. Darlledwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar S4C ac ITV 1 Cymru yn 2006. Cyflwynwyd y gyfres gan yr hanesydd Gareth Williams.

### Eraill

Rhaglen y gyngerdd, 'Cymru'n Pentecosta o Lwchwr i Lŷn', 19 Mehefin 2004 yng Nghapel Pen-y -groes, Undeb Cwm Gwendraeth, Cwmni Cefncoed.

Rhaglen Caniadau Talwrn y Beirdd Er Budd Cadw Capel y Groes Wen. Hysbyseb, a gwahoddiad i'r Soirée Pasg yn Hipodrom y Rhath, Caerdydd, 2004.

'Duw a Wŷr', cryno ddisg Lleuwen Steffan sy'n gasgliad o emynau'r Diwygiad mewn arddull jazz. Recordiau Sain Medi 2005.

'A Personal Account of Revival', cryno ddisg, sgwrs gan y Parch. Dafydd Job a recordiwyd yn Eglwys y Mynydd Bychan, Caerdydd, ar 8 Mawrth 2004. Y trydydd o gyfres o bedwar sgwrs ar ddiwygiad.

'A Diary of Revival, The Outbreak of the Welsh Awakening', DFD a fideo Kevin Adams, 1904 LTD 2003.

**Ffynonellau Eilaidd**

**1. Cyfrolau**


Beddoe, Deirdre, *Out Of The Shadows* (Caerdydd, 2000).

Blumhofer, Edith L. a Randall Balmar (goln.), *Modern Christian Revivals* (Chicago, 1993).

Carwardine, Richard, *Transatlantic Revivalism, Popular Evangelicalism yn Britain and America 1790-1865* (Westport, Connecticut, Llundain, 1978).

Dai Smith (gol.), *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales 1780-1980* (Llundain, 1980).

Davies, Dewi Eirug, *Diwinyddiaeth yng Nghymru 1927-1977* (Llandysul, 1984).

Davies, John, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990).

Davies, John, Menna Baines, Nigel Jenkins a Peredur Lynch (goln.) *Gwyddoniadur Cymru* (Caerdydd, 2008).

Evans, Eifion, *Fire in the Thatch* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1996).

Evans, Eifion, *Revival Comes to Wales, The Story of the 1859 Revival* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1967).

Greenblatt, Stephen, *Shakespearean Negotiations* (Berkeley, 1988).

Holmes, Janice, *Religious Revivals in Britain and Ireland 1859-1905* (Dulyn, 2000).

Hughes, J. Elwyn (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau, (Llys yr Eisteddfod, 2005).

Jenkins, David, *The Agricultural Community in South West Wales At The Turn of The Twentieth Century* (Caerdydd, 1971).

Jenkins, Geraint H. a J. Beverley Smith (goln.), *Politics and Society in Wales, 1840-1922* (Caerdydd, 1988).

Jones, Aled a Bill Jones, *Welsh Reflections, Y Drych & America 1851-2001* (Llandysul, 2001).

Jones, Aled Gruffydd, *Press, Politics and Society/A History of Journalism in Wales* (Caerdydd, 1993).

Jones, Anthony, *Welsh Chapels* (Stroud, 1996).

Jones, John Gwynfor, *Her y Ffydd, Ddoe, Heddiw ac Yfory, Hanes Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg 1876-2005* (Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg, 2006).

Jones, R. Tudur, *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe, 1966).

Morgan, D. Densil, *Cedyrn Canrif, Crefydd a Chymdeithas yng Nghymru'r Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd, 2001).

Morgan, D. Densil, *Pennar Davies* (Caerdydd 2003).

Morgan, D. Densil, *Wales and the Word, Historical Perspectives on Religion and Welsh Identity* (Caerdydd, 2008).

Morgan, Kenneth O., *Rebirth of a Nation* (Rhydychen, 1981).

Pope, Robert, *Codi Muriau Dinas Duw, Anghydffurfiaeth ac Anghydffurfwyr Cymru'r Ugeinfed Ganrif* (Bangor, 2005).

Smith, Dai a Gareth Williams, *Fields of Praise: The Official History of the Welsh Rugby Union, 1881-1981* (Caerdydd, 1980).

Veeser, H. Aram (gol.) *The New Historicism* (Llundain ac Efrog Newydd, 1989).

Williams, Gareth, *1905 and All That: Essays on Rugby Football, Sport and Welsh Society* (Llandysul, 1991).

Williams, Gwyn A., *When Was Wales?* (Llundain, 1985).

Williams, John, *Crynhoad o Ystadegau Hanesyddol Cymru*, Cyf.2 (Y Swyddfa Gymreig, 1985).

**2. Erthyglau a Phenodau mewn Cyfrolau**

Davies, John, 'Boddi Capel Celyn' yn *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*, Cyf.13, Rhan 2, 1999.

Davies, Russell, 'Spiritual Skeletons: Religion, Superstition and Popular Culture' yn Russell Davies, *Secret Sins. Sex, Violence and Society in Carmarthenshire. 1870-1920* (Caerdydd, 1996).

Evans, R. Alun, 'Dehongli Merch Gyffredin Anghyffredin' yn *Taliesin* 126, 2005.

Gibbard, Noel, 'Evan Roberts: The Post Revival Years, 1906-1951' yn *The Journal of Welsh Religious History*, Cyfres Newydd, Cyf.5, 2005.

Gramich, Katie, 'Dehongli'r Diwygiad: Ymateb Awduron Cymreig i Ddiwygiad 1904-05' yn *Taliesin* 128, 2006.

Griffiths, J. Gwyn, 'Coffáu Pennar Davies' yn *Taliesin* 97, 1997.

Hall, Basil, 'The Welsh Revival of 1904-05: A Critique' yn G. J. Cuming a Derek Baker (goln.) *Popular belief and practice : papers read at the ninth summer meeting and the tenth winter meeting of the Ecclesiastical History* (1972).

Harvey, John, 'Spiritual emblems: the visions of the 1904-5 Welsh Revival' yn *Llafur* Cyf.6, Rhif.2, 1993.

Hayward, R., 'From the Millennial Future to the Unconscious Past: The Transformation of Prophecy in Early Twentieth-Century Britain' yn Bertrand Taithe a Tim Thornton (goln.) *Prophecy, The Power of Inspired Language in History 1300-2000* (Stroud,1997).

James, E. Wyn, 'Rosina Davies, "yr efengyles fach anghofiedig" ' yn *Taliesin* 124, 2005.

Job, Dafydd, 'Dyddiaduron Tad-cu' yn *Taliesin* 124, 2005.

Jones, J. Gwynfor, '"Ebychiad Mawr Olaf Anghydffurfiaeth yng Nghymru": Diwygiad
1904-05' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion 2004*, Cyfres Newydd, Cyf. 11, 2005.

Jones, J. Gwynfor, 'Reflections on The Religious Revival in Wales 1904-05' yn *Journal of the United Reformed Church History Society*, Cyf.7, Rhif.7, 2005.

Miles, Gareth, 'Y Diwygiad Trwy Lygaid Ffrancwr' yn *Taliesin*, 124, 2005.

Morgan, D. Densil, 'Diwygiad Crefyddol 1904-5' yn *Cof Cenedl XX* 2005.

Pope, Robert, 'Adolygiad o *Nefol Dân*: Noel Gibbard' yn, *Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, Rhif 28, 2004.

Pope, Robert, 'Dadfythu "Diwygiad Evan Roberts"', yn *Y Traethodydd*, Gorffennaf 2004.

Pryderi, Llion, 'Cofiannu a Chyfreithloni' yn *Taliesin* 124, 2005.

Thomas, M. Wynn, 'Pwys Llên a Phwysau Hanes', yn John Rowlands (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992).

Tudur, Geraint, 'Evan Roberts and the 1904-5 Revival' yn *The Journal of Welsh Religious History*, Cyfres newydd, Cyf.4, 2004.

Wiliam, Urien, 'Cnawdol Dân neu Nefol Dân?: Dramateiddio Adfywiad Crefyddol 1904-05' yn *Taliesin,*124, 2005.

Williams, Gareth, 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd' yn *Cof Cenedl V*, 1990.

Williams, Glanmor, 'Diwygiad 1904-05' yn *Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr,* 2005.

Williams, Norman, 'Evan Roberts and the 1904-5 Revival' yn Stuart Williams (gol.), *Glamorgan Historian*, Cyf.5 (1968).

Wright, Nigel, 'Does Revival Quicken or Deaden the Church?, A comparison of the 1904 Welsh Revival and John Wimber in the 1980's and 1990's' yn Walker, Andrew a Kristin Aune (goln.), *On Revival, A Critical Examination* (Carlisle, 2003).

**3. Traethodau Doethur**

Davies, Menna, 'Traddodiad Llenyddol y Rhondda', traethawd doethur cyflwynedig i Brifysgol Aberystwyth, 1981

Davies, Philippa Margaret, 'History in literature: the writings of Rhys Davies, a case study', traethawd doethur cyflwynedig i Brifysgol Caerdydd 2001.

Owen, John Aled, 'A Study of Orality and Conceptualirty During the Welsh Religious Revival of 1904-06', traethawd doethur cyflwynedig i Brifysgol Birmingham, 1997.

Turner, C. B, 'Revivals and Popular Religion', traethawd doethur cyflwynedig i Brifysgol Aberystwyth, 1979.

PRIFYSGOL CAERDYDD ★ CARDIFF UNIVERSITY ★